# Adroddiad Ymgynghori – Mai 2026

Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Nebo

# Adroddiad Ymgynghori - Ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo

**Cynnwys**


**1. TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD STATUDOL** ........ 3
**2. FFURFLEN YMATEB** ........ 7
**3. YMGYNGHORI GYDA PLANT A PHOBL IFANC** ........ 8
**4. YMATEB ESTYN** ........ 10
**5. CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN YMGYNGOREION** ........ 14
**1. Gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Nebo** ........ 14
**2. Sylwadau am Ysgol Nebo** ........ 16
**3. Gwerth addysgol ysgol fach wledig** ........ 27
**4. Sylwadau o blaid y cynnig i gau Ysgol Nebo** ........ 31
**5. Effaith y cynnig ar lesiant, gofal unigol a phrofiad addysgol ddysgwyr presennol Ysgol Nebo** ........ 32
**6. Effaith ar y Gymuned** ........ 38
**7. Effaith ar yr Iaith Gymraeg** ........ 52
**8. Cludiant a theithio** ........ 68
**9. Heriau i Ddilysrwydd, Tegwch ac Ansawdd y Broses Statudol** ........ 73
**10. Sylwadau am Ysgol Llanllyfni** ........ 96
**11. Effaith ar staff** ........ 97
**12. Addysg Gartref** ........ 98
**13. Anghenion Dysgu Ychwanegol** ........ 100
**14. Sylwadau Trawsbynciol** ........ 102
**15. Opsiynau amgen** ........ 109
**6. OPSIYNAU AMGEN ERAILL A GYNIGIWYD GAN YMGYNGHORAI** ........ 133
**7. ASESIAD PELLACH O'R CYNNIG A'R OPSIYNAU RHESYMOL ERAILL** ........ 135
**8. YSTYRIAETHAU PELLACH** ........ 142
**9. ARGYMHELLIAD** ........ 144


## Atodiadau:

**Atodiad B**: Gwerthusiad Opsiynau

**Atodiad C:** Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

## Adroddiad Ymgynghori - Ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo

### 1. TROSOLWG O'R YMGYNGHORIAD STATUDOL

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 14 Hydref 2025 , cynhaliodd Cyngor Gwynedd ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau Ysgol Nebo. Dyma'r cynnig a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad:

*"Cau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen."*

Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gyflwyno eu sylwadau ar y cynnig uchod, fel y gallai'r Cyngor eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach ynghylch y camau nesaf.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026.

#### (i) Y broses ymgynghori

Cyhoeddwyd y ddogfennaeth ymgynghori statudol ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) ("y Cod").

Roedd y ddogfennaeth ymgynghori a gyhoeddwyd yn cynnwys y canlynol:

- Dogfen ymgynghori statudol
- Pecyn Asesiadau Effaith: Roedd y pecyn hwn yn cynnwys asesiadau effaith cynhwysfawr, gan gynnwys yr effaith ar yr iaith Gymraeg, y gymuned leol, cydraddoldeb, trefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg, yn ogystal ag asesiad yn erbyn nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Pecyn Cefndirol: Cynhwysai'r pecyn hwn ddogfennau cefnogol megis pecyn ystadegol, adroddiadau perthnasol a gyflwynwyd i'r Cabinet (gan gynnwys y papur cynnig dyddiedig 14 Hydref 2025), a throsolwg o'r trafodaethau lleol a gynhaliwyd rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025.
- Ffurflen Ymateb – fersiwn PDF + linc i'r fersiwn ar lein
- Dogfen ymgynghori – fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc
- Holiadur – fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc.

Roedd y ddogfennaeth ar gael ar wefan y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a darparwyd copïau caled yn unol â cheisiadau a dderbyniwyd gan ymgynghorai unigol.

Dosbarthwyd y ddogfennaeth i'r holl ymgynghorai perthnasol, yn unol â gofynion y Cod, drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys dolen at dudalen benodol ar wefan y Cyngor, sef www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo .

Anfonwyd e-bost yn cynnwys linc at y ddogfennaeth ymgynghori at Ysgol Nebo, Ysgol Llanllyfni, yn ogystal ag ysgolion eraill cyfagos, gan wneud cais i'r penaethiaid eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr y dysgwyr, holl aelodau o staff a holl aelodau Corff Llywodraethol yr ysgolion.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor i'r ymgynghorai perthnasol ac i unrhyw unigolyn neu sefydliad arall a oedd yn dymuno ymateb, gyda'r cyfle i wneud hynny drwy lenwi ffurflen ymateb ar-lein, lenwi copi papur neu electroneg (PDF) o'r ffurflen ymateb a'i anfon at y Tîm Moderneiddio Addysg, neu drwy anfon e-bost neu lythyr at y Tîm Moderneiddio Addysg.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd sesiwn galw heibio er mwyn rhoi cyfle i rieni, staff a llywodraethwyr ofyn cwestiynau a thrafod yr ymgynghoriad ymhellach. Mynychodd 12 o bobl y sesiynau galw heibio.

Yn ogystal, paratowyd dogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc, ynghyd â holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd i hwylusydd annibynnol gynnal sesiynau gydag aelodau Cyngor Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, er mwyn casglu barn y dysgwyr. Mae'r crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau hyn wedi'i gynnwys yn adran 3 isod.

Cyhoeddwyd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb wedi'u haddasu ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor hefyd. Felly, roedd cyfle i blant a phobl ifanc nad oeddent wedi mynychu sesiwn yn eu hysgol gyflwyno eu hymatebion i'r ymgynghoriad yn ogystal.

**(ii) Ymatebion i'r ymgynghoriad**

Derbyniwyd cyfanswm o 70 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys yr adborth a gasglwyd gan ddysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori.

| Ffurf | Nifer |
|---|---|
| Ffurflen ymateb ar lein | 54 |
| Ffurflen ymateb Word neu PDF | 5 |
| Ffurflen ymateb – copi caled | 1 |
| E-bost | 10 |
| Cyfanswm | 70 |

Yn unol â gofynion y Cod, mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi ei nodi'n llawn yn adran 4 isod.

Mae crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny wedi'i gynnwys yn adran 5 isod.

Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan y dysgwyr wedi'i gynnwys yn adran 3 isod.

**(iii) Crynodeb o'r prif faterion a nodwyd yn yr ymatebion**

Rhestrir isod y prif faterion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, ac mae ystyriaeth fanylach ar bob un o'r materion hyn i'w gweld yn Adran 5, isod.

**1. Gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Nebo**

1.1 Gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynnig i gau'r ysgol

**2. Sylwadau am Ysgol Nebo**

2.1 Manteision ysgol fach, ansawdd addysg a derbyniad cynhwysol
2.2 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol a thystiolaeth o safon uchel
2.3 Perthnasoedd cadarnhaol, ethos yr ysgol a'u heffaith ar lwyddiant a llesiant disgyblion
2.4 Profiadau dysgwyr a chyn-ddisgyblion
2.5 Cysylltiad â'r gymuned a dysgu y tu allan
2.6 Dosbarthiadau bach a chefnogaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
2.7 Effaith ar y Gymraeg a'r ethos Gymraeg
2.8 Datblygiad cymdeithasol ac empathi
2.9 Profiad uniongyrchol o wella llesiant
2.10 Canran uchel o ddysgwyr all-dalgylch yn mynychu Ysgol Nebo
2.11 Sylwadau'n tynnu sylw at gynnydd diweddar yn niferoedd Ysgol Nebo
2.12 Sylwadau'n cwestiynu dibynadwyedd y rhagolygon niferoedd
2.13 Effaith ansicrwydd am ddyfodol yr ysgol ar ddewis rhieni a niferoedd dysgwyr
2.14 Sylwadau am baratoi bwyd ysgol ar y safle a lleihau dibyniaeth ar gludo bwyd o ysgolion eraill

**3. Gwerth addysgol ysgol fach wledig**

3.1 Addysg bersonol, dosbarthiadau bach a sylw unigol
3.2 Oedran cymysg, datblygiad cymdeithasol a llesiant
3.3 Ysgolion bach gwledig: ymdeimlad o berthyn, cymuned, llesiant disgyblion a rôl ehangach yr ysgol o fewn yr ardal leol

**4. Sylwadau o blaid y cynnig i gau Ysgol Nebo**

4.1 Gwerth am arian, cost fesul dysgwr a thegwch ariannol
4.2 Manteision canfyddedig ysgolion mwy a dosbarthiadau un oedran
4.3 Rhesymoli'r ddarpariaeth ysgolion a newidiadau demograffig

**5. Effaith y cynnig ar lesiant, gofal unigol a phrofiad addysgol dysgwyr presennol Ysgol Nebo**

5.1 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith newid ysgol ac ail-leoli dysgwyr ar lesiant emosiynol, addasu cymdeithasol a grwpiau bregus
5.2 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith anghymesur cau'r ysgol ar ddysgwyr bregus, cefnogaeth unigol a darpariaeth ADY
5.3 Effaith bosibl ar berthnasoedd cymdeithasol a llesiant dysgwyr
5.4 Ystyriaeth o lais y plentyn a llesiant dysgwyr presennol
5.5 Effaith bosibl ar ddysgwyr a drosglwyddodd i Nebo am resymau llesiant
5.6 Beirniadaeth o'r asesiad llesiant a'r ystyriaeth a roddir i effaith cau ar ddisgyblion presennol
5.7 Blaenoriaethu costau ariannol dros lesiant a phrofiad addysgol plant

**6. Effaith ar y Gymuned**

6.1 Yr ysgol fel calon, canolbwynt cymdeithasol ac ased cymunedol hanfodol i Nebo a Nasareth
6.2 Pryderon ynghylch colli cydlyniant cymunedol, cysylltiadau traws-genedlaethol, a'r effaith ar iechyd, llesiant ac unigrwydd pe bai Ysgol Nebo yn cau
6.3 Pryderon am effaith cau Ysgol Nebo ar gynaliadwyedd y pentref, poblogaeth ifanc a newidiadau demograffig hirdymor
6.4 Yr ysgol fel ased diwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol: rôl ganolog Ysgol Nebo fel canolbwynt cymunedol, adnodd unigryw i gynnal y Gymraeg, a goblygiadau'r cynnig ar gydlyniant, llesiant a chynaliadwyedd cymunedol hirdymor
6.5 Pryderon ynghylch tanseilio cymunedau Cymraeg gwledig: effaith cau'r ysgol ar gynaliadwyedd hirdymor, cydlyniant cymunedol, llesiant cymdeithasol a dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**7. Effaith ar yr Iaith Gymraeg**

7.1 Yr ysgol fel prif ofod cymunedol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg / canolbwynt bywyd y pentref / cysylltiad cymunedol lleol
7.2 Effaith ar ddefnydd naturiol, pob-dydd o'r Gymraeg
7.3 Trochi Cymraeg, ysgol fach a datblygiad rhuglder
7.4 Trosglwyddiad rhyng-genedlaethol a'r Gymraeg fel iaith fyw
7.5 Effaith cau'r ysgol ar ddemograffeg ieithyddol, deniadolrwydd teuluoedd a chynaliadwyedd y Gymraeg
7.6 Hunaniaeth, diwylliant, cynefin a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg gwledig a pharhad yr iaith
7.7 Polisi iaith a dyletswyddau statudol y Cyngor: statws y Gymraeg, yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol, a'r effaith ar ddefnydd cymunedol, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
7.8 Safbwyntiau sy'n mynegi bod y ddarpariaeth Gymraeg amgen yn ddigonol neu'n gadarnhaol
7.9 Safbwyntiau cyffredinol a fynegwyd ynghylch effaith andwyol bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg
7.10 Her i gasgliadau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg

**8. Cludiant a Theithio**

8.1 Diogelwch traffig a pharcio o amgylch Ysgol Llanllyfni
8.2 Addasrwydd llwybrau cerdded rhwng Nebo a Llanllyfni i blant oedran cynradd
8.3 Costau cludiant ysgol i'r Cyngor a chynaliadwyedd y gyllideb
8.4 Addasrwydd cludiant bws i blant ifanc (4 oed)
8.5 Effaith amgylcheddol ac effaith ar iechyd a llesiant cludo disgyblion yn hytrach na cherdded

8.6 Hygyrchedd cludiant mewn ardaloedd gwledig a'r effaith ar deuluoedd sydd eisoes yn profi tlodi
8.7 Galwad am eglurder ynghylch trefniadau a goblygiadau costau cludiant arfaethedig

**9. Heriau i Ddilysrwydd, Tegwch ac Ansawdd y Broses Statudol**

9.1 Pryder cyffredinol ynghylch tegwch, ansawdd a dilysrwydd y broses ymgynghori
9.2 Cyfnod ymgynghori annigonol a'i amseriad (Nadolig, diffyg rhybudd, terfynau amser byr)
9.3 Pryderon ynghylch dehongli cynigion y Llywodraethwyr a'r ystyriaeth a roddwyd i opsiynau amgen o fewn y broses statudol
9.4 Diffyg tryloywder a thystiolaeth ategol ynghylch costau atgyweirio'r ysgol (£95,000)
9.5 Anghysondeb neu wallau mewn data ariannol (cost fesul dysgwr)
9.6 Capasiti a llefydd gwag wedi'u gor-amcangyfrif neu'n afrealistig
9.7 Amserlen y broses statudol, effaith cau canol blwyddyn a galwad i ymestyn y dyddiad gweithredu i sicrhau pontio teg ac ystyried Adroddiad ADY Medi 2026 cyn gwneud penderfyniad
9.8 Datganiadau ffeithiol anghywir neu anghyfoes yn y broses
9.9 Sylwadau'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth â Chod Trefniadaeth Ysgolion (2018), yn enwedig y ddyletswydd i ystyried dewisiadau amgen
9.10 Diffyg ystyriaeth ddigonol o effeithiau hirdymor, llesiant a'r cyd-destun cymunedol ehangach
9.11 Diffyg eglurder ynghylch y meini prawf ar gyfer asesu ymatebion yr ymgynghoriad
9.12 Diffyg cyfleoedd priodol i'r gymuned gymryd rhan yn y broses ymgynghori
9.13 Galwad i beidio â pharhau gyda'r ymgynghoriad hyd nes y bydd pob opsiwn wedi'i ystyried yn llawn ac ar sail ffeithiau cywir
9.14 Herio addasrwydd y meini prawf ar gyfer ysgolion gwledig

**10. Sylwadau am Ysgol Llanllyfni**

10.1 Pryderon ynghylch capasiti Ysgol Llanllyfni, yn enwedig y dosbarth meithrin a digonolrwydd lleoedd yn y tymor hir
10.2 Cwestiynau ynghylch cywirdeb y ffigurau capasiti a llefydd gwag yn Ysgol Llanllyfni
10.3 Sylwadau cyffredinol

**11. Effaith ar Staff**

11.1 Sylwadau'n tynnu sylw at yr effaith ar staff

**12. Addysg Gartref**

12.1 Sylwadau'n nodi cynnydd sylweddol mewn Addysg Gartref fel arwydd o system addysg nad yw'n diwallu anghenion pob dysgwr, a diffyg ymateb strategol i hyblygrwydd, llesiant ac anghenion emosiynol

**13. Anghenion Dysgu Ychwanegol**

13.1 Heriau strategol a chyllidol i gefnogi plant ag ADY ac anghenion cymhleth – galwad am asesiad hirdymor a buddsoddiad

**14. Sylwadau Trawsbynciol**

14.1 Cyd-destun economaidd a demograffig hirdymor: poblogaeth, swyddi a chynaliadwyedd cymunedol
14.2 Galwad am hyrwyddo polisi derbyn lleol ac ymgyrch i annog plant i fynychu eu hysgol leol
14.3 Sylwadau'n herio blaenoriaethu arbedion ariannol dros fuddsoddiad addysgol, cymdeithasol a chymunedol
14.4 Awgrym i ystyried trefniadau cydweithredu traws-awdurdodol i leihau costau a chynnal ysgolion bach lleol
14.5 Effaith ariannol hirdymor ar wasanaethau addysg, iechyd a llesiant
14.6 Sylwadau'n galw am ystyried cynlluniau tai a thwf poblogaeth posibl
14.7 Sylwadau'n awgrymu ail-fuddsoddi arbedion mewn darpariaeth addysgol neu brosiectau Cymraeg
14.8 Cefnogi teuluoedd drwy ddarparu gwisg ysgol am ddim
14.9 Ôl-ddefnydd
14.10 Sylwadau ynghylch dirywiad systemig darpariaeth addysg wledig, tuedd at drefoli, a goblygiadau hirdymor i

gymunedau Cymraeg
14.11 Galwad i fuddsoddi mewn addysg leol a chymunedol yn hytrach na chau'r ysgol

**15. Opsiynau Amgen**

15.1 "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion â CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth."
15.2 Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd
15.3 Defnyddio Ysgol Nebo fel safle derbyn ychwanegol i ysgolion cyfagos sy'n wynebu gorlenwi neu fod dros gapasiti
15.4 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Arbenigol ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored a Gwaith Maes
15.5 Ffedereiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn
15.6 Bwrdd Llywodraethu ffederal ar draws ysgolion y dalgylch
15.7 Cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion cyfagos
15.8 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Gymraeg a/neu Gymunedol
15.9 Cynnwys ysgolion bach mewn strategaethau treftadaeth ac adfywio
15.10 Cadw Ysgol Nebo ar agor
15.11 Awgrymiadau amgen eraill

## 2. FFURFLEN YMATEB

Derbyniwyd ymatebion ar ffurf ffurflen ymateb gan 60 o ymatebwyr (54 trwy'r ffurflen ymateb ar-lein, 6 dros e-bost/post).

Mae'r atebion a dderbyniwyd i gwestiwn 1 (a) ac 1 (b) gan yr ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Noder fod crynodeb o'r sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn y ffurflenni ymateb wedi ei gynnwys yn adran 5 isod.

| **1 (a) Rwy'n ymateb fel:** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Rhiant/Gwarchodwr | 11 | 18% |
| Llywodraethwr Ysgol | 4 | 7% |
| Dysgwr | 0 | 0% |
| Staff | 1 | 2% |
| Arall | 47 | 78% |
| Dim Ymateb | 3 | 5% |

| **1 (b) o'r ysgol ganlynol:** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ysgol Nebo | 56 | 93% |
| Ysgol Llanllyfni | 2 | 3% |
| Arall | 3 | 5% |
| Dim ymateb | 4 | 7% |

Noder nad yw cyfanswm y niferoedd yn y tablau bob amser yn cyfateb i gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd, gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn wrth ymateb i'r cwestiynau perthnasol. Mae'r canrannau wedi'u cyfrifo ar sail 60 o ymatebwyr unigol. Gan fod rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn, gall cyfanswm y canrannau fod yn fwy na 100%.

## 3. YMGYNGHORI GYDA PLANT A PHOBL IFANC

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb/holiadur ar gyfer plant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/YmgynghoriadYsgolNebo, fel y gallai plant a phobl ifanc oedd heb fynychu sesiwn yn eu hysgol, ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal.

**Sesiynau gyda dysgwyr**:

Cynhaliwyd sesiynau dynodedig gyda grŵp o ddysgwyr o Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni i sicrhau ein bod yn derbyn barn plant a phobl ifanc.

Trefnwyd bod hwylusydd yn mynychu Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle i'r plant ddatgan barn am y cynnig. Roedd pob sesiwn yn cynnwys esbonio'r cynnig a chwblhau holiadur.

Eglurwyd fod Cyngor Gwynedd yn ystyried cau Ysgol Nebo a chynnig lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

Eglurwyd fod y Cyngor eisiau gwybod sut yr oeddent yn teimlo am y cynnig ar gyfer Ysgol Nebo, cyn iddynt benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Eglurwyd, os byddai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen efo'r cynnig, y byddai'n golygu:

- Y byddai Ysgol Nebo yn cau ar 31 Rhagfyr 2026, ac
- Y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn trosglwyddo i Ysgol Llanllyfni ar 1 Ionawr 2027.

Gweler isod amserlen y sesiynau ymgynghori, rhestr yr ysgolion perthnasol a nifer yr ymatebwyr:

| | **Dyddiad** | **Cynhaliwyd y sesiwn gyda:** |
|---|---|---|
| **Ysgol Nebo** | Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2026 | Aelodau Cyngor Ysgol Nebo<br>(6 o ddysgwr) |
| **Ysgol Llanllyfni** | Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2026 | Aelodau Cyngor Ysgol Llanllyfni<br>(11 o ddysgwr) |

**Gweler isod grynodeb ymatebion y dysgwyr**

NODER – Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o sylwadau'r plant a'r bobl ifanc.

| **Sut wyt ti'n teimlo am hyn?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Hapus** | **Ddim yn Sicr** | **Anhapus** |
| **Ysgol Nebo** | 0 | 1 | 5 |
| **Ysgol Llanllyfni** | 11 | 0 | 0 |

| **Cwestiwn 1 – Sut wyt ti yn teimlo am hyn?** | |
|---|---|
| **Ysgol Nebo** | • Dwi'n flin iawn (x 2)<br>• Dwi'n teimlo nad ydi o'n deg cau ysgol mae pawb yn licio<br>• Dwi'n drist iawn, ac Ysgol Baladeulyn yn cau |

| | |
|---|---|
| **Ysgol Llanllyfni** | • Mi fydda cael y plant i ddod i Ysgol Llanllyfni yn syniad da, cyfle i gael ffrindiau newydd<br>• Byddai'n gyfle da i wneud ffrindiau newydd a chael mwy blant yr un oed a nhw<br>• Byddai'n brofiad da i'r plant gael ffrindiau newydd<br>• Byddai'n brofiad da i'r plant gael mwy o blant yn eu blwyddyn a byddai'n dda i Llanllyfni gael mwy o blant<br>• Da oherwydd does gan Ysgol Nebo ddim lot o blant yn eu blwyddyn nhw |
| **Cwestiwn 2 – Beth hoffet ti weld yn digwydd fel rhan o'r cynnig yma?** | |
| **Ysgol Nebo** | • Dim cau'r ysgol (x 4)<br>• I Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Nebo ymuno felly fydda ni yn cael 19 o blant<br>• Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn wedi cael amser neis efo'i gilydd a da ni'n ffrind mawr |
| **Ysgol Llanllyfni** | • Rwy'n gweld hyn yn gyfle da i gael ysgol sydd ddim yn wag<br>• Oherwydd mae nhw ar ben ei hyn bach. Bechod<br>• Plant Ysgol Nebo yn cael mwy o ffrindiau a phartneriaid trafod<br>• I blant Ysgol Nebo fod yn hapus<br>• Mi faswn i'n holl gweld plant yn hapus oherwydd ganddyn nhw mwy o blant i chwarae efo. A chael mwy o ffrindiau.<br>• Plant Ysgol Nebo yn dod i weld yr ysgol (Ysgol Llanllyfni) (x4) |
| **Cwestiwn 3 – Beth sy'n dy boeni am hyn?** | |
| **Ysgol Nebo** | • Dwi'n enjoio Ysgol Nebo. Ond pan mae rhywun yn dweud amdan yr ysgol yn cau dwi bron yn crio achos dwi ddim eisiau symud i Llanllyfni, dwi eisiau aros yn Nebo<br>• Mae cau'r ysgol yn poeni fi lot<br>• Dim cau Ysgol Nebo a dim symud i ysgol arall<br>• Symud i ysgol efo mwy o pobl<br>• Dwi ddim eisiau'r ysgol gau achos dwi yma ers 5 mlynedd a dwi ddim yn licio ysgol fawr<br>• Achos mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol fawr |
| **Ysgol Llanllyfni** | • Ella y bydd plant yn ofn neud ffrindiau neu colli ysgol yn Nebo<br>• Ella y bydda nhw'n drist goro gadael yr ysgol<br>• Dim byd (x2)<br>• Dim byd! Dwi'n hapus iddyn nhw ddod.<br>• Na (x3)<br>• Plant Ysgol Nebo yn drist bod eu hysgol yn cau<br>• Dim ffrindiau |
| **Cwestiwn 4 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi yn yr ysgol?** | |
| **Ysgol Nebo** | • Ffrindiau yr ysgol yr athrawon/athro a'r pethau yn yr ysgol<br>• Gweld ffrindiau fi<br>• Athrawon a ffrindiau<br>• Ffrindiau dysgu<br>• Athrawon, ffrindiau, pobl newydd sydd yn dod i ysgol<br>• Y ffrindiau a'r athrawon |
| **Ysgol Llanllyfni** | • Y pethau pwysicaf yw bwyd a gweithio'n galed iawn<br>• Ffrindiau, Bwyd – Amser cinio, Amser Rhydd – Chwarae allan, Athrawon<br>• Ffrindiau, amser cinio, amser chwarae, dani'n cael siocled poeth weithiau os da ni'n blant da! Ac weithia' da ni'n cael diwrnodau film, a 'da ni'n cael siocled poeth gyda popcorn a bisgedi!<br>• Ffrindiau a trip ysgol (x2)<br>• Ffrindiau a bod yn hapus!<br>• Cae pêl-droed a ffrindiau (x2)<br>• Mynci bars, cae pêl-droed a ffrindiau (x2) |

Sylwadau eraill a dderbyniwyd ar lafar gan ddysgwyr Ysgol Nebo yn ystod y sesiwn ymgynghori:

- Mwy o ffraeo mewn ysgol fwy
- Ysgol bach yn gallu gwneud lot mwy gan nad oes lot ohono ni
- Teulu ochor dad i gyd wedi bod yn Ysgol Nebo, dad yn drist
- Ddim isio mynd i Ysgol Llanllyfni, ofn cael fy mwlio, dani gyd yn ffrindiau yma yn Nebo
- Mae'n teimlo fatha un teulu mawr yma
- Dwi am fethu pawb os dwi'n symud i Ysgol Llanllyfni
- Dani yn cael mynd i gerdded, gwneud ymarfer corff, nofio a cael mynd ar dripiau yn Ysgol Nebo
- Beth os ydi pobl ddim am licio ni yn Llanllyfni
- Rhatach mynd ar dripiau ysgol gan fod llai ohono ni
- Dwi'n dysgu mwy yn Ysgol Nebo na nes i yn fy hen ysgol
- Yn drist a blin bod yr ysgol yn cau
- Pam bod chi yn cau ysgolion sydd ddim efo lot o blant?
- Ddim yn licio bod mewn ysgol fawr
- Mae ffrindiau fi yn yr ysgol yn bwysig i fi
- Symud i ysgol efo mwy o bobl yn poeni fi
- Dwi ddim eisiau gweld yr ysgol yn cau
- Yr athrawon yn bwysig i fi

**Casgliad/Crynodeb:**

Crynhoir isod y prif ymatebion a phryderon a fynegwyd gan y dysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori. Mae'r casgliadau'n adlewyrchu'r prif themâu a phryderon a fynegwyd gan y dysgwyr yn uniongyrchol yn y trafodaethau.

Mae prif safbwyntiau a fynegwyd gan ddysgwyr Ysgol Nebo yn adlewyrchu pryder sylweddol ynghylch y cynnig i gau'r ysgol, gan nodi na ddylid cau'r ysgol. Yn ystod sesiynau ymgynghori, mynegwyd teimladau o dristwch a phryder, gan amlygu pwysigrwydd yr ysgol a'r cysylltiad agos rhwng ffrindiau ac athrawon. Bu i nifer o ddysgwyr yn datgan na fyddent yn hapus mewn ysgol fwy. Cwestiynwyd hefyd resymau cau ysgolion bach, gyda neges glir bod dysgwyr yn gwerthfawrogi'r amgylchedd bychan a chefnogol a geir yn Ysgol Nebo.

O safbwynt dysgwyr Ysgol Llanllyfni, nodwyd agwedd fwy cadarnhaol tuag at y newid posibl, gyda dysgwyr Ysgol Llanllyfni yn barod i groesawu dysgwyr newydd pe bai Ysgol Nebo yn cau.

Yn gryno, mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau ymgynghori wedi tynnu sylw at bryderon dysgwyr Ysgol Nebo ynghylch y cynnig i gau'r ysgol. Prif negeseuon y trafodaethau yw pryderu ynghylch colli'r ysgol, ofn symud i ysgol fwy, a gwerthfawrogiad dwfn o'r perthnasau sydd yn bodoli rhwng dysgwyr, eu ffrindiau ac athrawon, yn Ysgol Nebo.

## 4. YMATEB ESTYN

Yn unol â gofynion y Cod, nodir ymateb Estyn i'r ymgynghoriad statudol yn llawn isod:

**"Ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Nebo a darparu addysg ar gyfer dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, o 1 Ionawr 2027"**

**Cyflwyniad**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigwr.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Gwynedd ac ynglŷn â chau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu addysg ar gyfer dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, o 1 Ionawr 2027, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf. Fodd bynnag, gallai'r trefniadau teithio arfaethedig gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Nebo fynychu clybiau brecwast a gweithgareddau ar ôl yr ysgol yn Ysgol Llanllyfni, pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg resymol ar gyfer ei gynnig. Mae'n ymddangos bod prif gryfder y cynnig hwn yn ymwneud â manteision ariannol cau Ysgol Nebo a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Llanllyfni. Mae'r ysgol wedi cael ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol gan ei bod yn wynebu nifer o heriau. Mae'r cynnig yn dweud bod nifer y dysgwyr yn yr ysgol wedi gostwng dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan arwain at sefyllfa ddifrifol gyda dim ond 11 o ddysgwyr o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 ac un dysgwr dosbarth meithrin ar y gofrestr yng nghyfrifiad Medi 2025. Mae mwy o dystiolaeth ategol o'r heriau, gan gynnwys canran uchel y lleoedd dros ben, y meintiau dosbarthiadau bach gydag ystod oedran eang, ac amcanestyniadau niferoedd y disgyblion, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod Ysgol Nebo yn ysgol wledig, ac mae'n ymddangos yr eir i'r afael â'r gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig. Mae'r cynigiwr yn darparu disgrifiad addas o fanwl o'r cynnig, yn cynnwys gwybodaeth am natur a chwmpas y newidiadau cynlluniedig a'r ysgolion a'r dysgwyr sy'n cael eu heffeithio. Mae'r cynnig hefyd yn amlinellu amserlen ragamcanol briodol ar gyfer yr holl weithdrefnau statudol. Mae'r amserlen sy'n dechrau ar 14 Hydref 2025 ac yn cau ar 31 Rhagfyr 2026, yn amlinellu camau allweddol yr ymgynghoriad, cyhoeddi hysbysiadau statudol, y cyfnod gwrthwynebu, a'r dyddiad disgwyliedig ar gyfer weithredu.

Mae'r cynnig yn amlinellu nifer o risgiau a sut bydd y Cyngor yn lliniaru yn erbyn hyn. Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi amlinellu cryfderau a gwendidau'r cynnig hwn ynghyd â llawer o ddewisiadau amgen, yn cynnwys ffedereiddio ag ysgol gyfagos, yn dda. At ei gilydd, mae'r cynnig wedi darparu rhesymau digonol ynglŷn â pham mae dewisiadau amgen wedi cael eu diystyru. Mae'n ymddangos bod y brif fantais a nodwyd yn y cynnig yn ymwneud â'r agweddau ariannol. Yn bwysig, mae'r cynnig hefyd yn amlygu'r effaith gadarnhaol ar ddisgyblion o Ysgol Nebo, a fyddai'n ennill cyfleoedd cynyddol i gymdeithasu a chydweithio â grŵp mwy o gyfoedion. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhagdybiaeth resymol.

Mae'r cynnig yn cydnabod ei bod yn ymddangos yn debygol y bydd cau Ysgol Nebo yn cael effaith negyddol ar y gymuned, gan fod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, ac nid oes canolfan gymunedol ddynodedig yn y pentref. Mae trigolion Nebo a Nasareth yn defnyddio'r 'ystafell gymunedol' yn aml i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau, yn cynnwys gwasanaethau Sul y Cofio, clybiau lleol, a gwersi Cymraeg. Byddai colli'r lle hwn yn creu her sylweddol i'r gymuned, gan fod y gweithgareddau hyn yn dibynnu ar adeilad yr ysgol fel eu prif ganolfan.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu rhywfaint o liniaru, yn cynnwys yr angen i sicrhau bod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol amgen a bod cydweithio rhwng y ddwy gymuned yn cael ei annog. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod angen mwy o fanylion i esbonio sut byddai gweithgareddau cymunedol yn cael eu cefnogi'n ymarferol, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio, ac yn y tymor hirach.

Mae'r cynnig hefyd yn datgan y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn elwa ar y cyfleusterau a'r gweithgareddau ar ôl yr ysgol sydd ar gael yn Ysgol Llanllyfni. Er gwaethaf hyn, nid yw'r cynigiwr yn esbonio sut bydd cludiant ar gyfer gweithgareddau'r tu allan i oriau, yn cynnwys clwb brecwast, yn cynorthwyo'r disgyblion sy'n dibynnu ar y gwasanaeth hwn i allu manteisio'n llawn ar y cyfleoedd hyn.

Mae'r Cyngor yn nodi tair risg bosibl yn gysylltiedig â'r cynnig, sef: diffyg gwneud penderfyniadau, cludiant annigonol ar gyfer y trefniadau newydd, ac ansawdd addysg yn y tymor byr wrth i sefyllfa ysgol gael ei hadolygu. Mae'r cynnig yn amlinellu effaith bosibl pob risg ac yn amlinellu camau priodol i'w lliniaru.

Nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen i ddisgyblion deithio pellter afresymol os byddant yn symud i'r ysgol amgen. Mae Ysgol Nebo 1.6 milltir o Ysgol Llanllyfni, a'r daith yn cymryd tua 5 munud. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi'r sir, ar gost amcangyfrifedig flynyddol o £17,000. Mae'n ymddangos bod hwn yn ymagwedd resymol; fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth yn mynd i'r afael â chludiant ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau neu weithgareddau ar ôl yr ysgol.

Mae'r Cyngor wedi dangos yn briodol beth yw sefyllfa pob ysgol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o ran lleoedd dros ben. Mae lleoedd dros ben yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd. Mae 46 (79%) o leoedd dros ben yn Ysgol Nebo, yn cynnwys disgyblion oedran meithrin. Mae 45 o leoedd dros ben (yn cynnwys 1 lle meithrin) yn Ysgol Llanllyfni, ac felly mae'n darparu capasiti digonol ar gyfer nifer y dysgwyr o'r ddwy ysgol ar hyn o bryd, ac am y tair blynedd nesaf. Dros y pum mlynedd nesaf, mae amcanestyniadau ar gyfer Ysgol Nebo yn parhau'n sefydlog, sef 11 disgybl, ar gyfartaledd. Mae ffigurau wedi'u dadgyfuno ar gyfer Ysgol Llanllyfni yn dangos cynnydd cyfartalog yn niferoedd y disgyblion o ryw 13% dros yr un cyfnod. Mae'n ymddangos bod rhesymeg addas ar gyfer cyfuno niferoedd, cynyddu nifer y dosbarthiadau ar draws un ysgol a gwneud arbedion ariannol trwy weithredu un ysgol yn unig.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth dda i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol a'r graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, felly byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd y ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r polisi iaith yr un fath ar gyfer pob un o ysgolion cynradd Gwynedd; felly, mae'n rhesymol dod i'r casgliad y byddai'r ddarpariaeth yn aros yn gyson, ni waeth pa ysgol y mae dysgwyr yn dewis ei mynychu.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'r cynnig hwn. Mae Estyn yn rhoi sylwadau ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig, ac nid yw'n gwerthuso'r asesiadau effaith unigol hyn.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig. Y gost gyfartalog fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yw £25,867, o gymharu â'r gost gyfartalog fesul dysgwr yng Ngwynedd, sef £5,780. O dan y cynnig, y gost ragamcanol fesul dysgwr yn Ysgol Llanllyfni yn 2026–27 yw £5,798. Mae hyn yn arbediad nodedig yng nghyllideb yr ysgol, gydag arbedion blynyddol disgwyliedig o ryw £143,000, sy'n gostwng i ryw £113,000 ar ôl cyfrifo ar gyfer hyd at £30,000 mewn costau cludiant ychwanegol. Yn ogystal, o ran staffio ac adnoddau ysgol ehangach, os caiff y cynnig i gau Ysgol Nebo ei roi ar waith ar 31 Rhagfyr 2026, byddai swyddi staff yn dod i ben ar yr adeg honno, gan arwain at ddiswyddiadau.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg, yn cynnwys safonau disgyblion, lles, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r cynnig hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i ddeilliannau arolygiadau'r ddwy ysgol gan Estyn. Mae'r cynigiwr yn nodi bod Estyn wedi barnu bod ansawdd yr addysg yn y ddwy ysgol yn dda.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynigion ar gyflwyno'r cwricwlwm llawn. Yn benodol, mae'r Cyngor yn nodi bod cael Cylch Meithrin ar safle Ysgol Llanllyfni yn debygol o ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sylfaen. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar a darpariaeth Dechrau'n Deg. Mewn cyferbyniad, ar wahân i ddosbarth meithrin yr ysgol, nid oes darpariaeth blynyddoedd cynnar arall yn Ysgol Nebo.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n amlinellu bod adeilad Ysgol Llanllyfni yn darparu cyfleusterau sydd gyfwerth â'r cyfleusterau yn Ysgol Nebo, yn cynnwys darpariaeth arbenigol addas ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r cynnig yn datgan y byddai anghenion dysgwyr bregus yn cael eu hasesu a'u diwallu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod.

Mae'r cynnig yn cydnabod y gall ad-drefnu ysgolion greu tarfu ac ansicrwydd i ddysgwyr. Mae'n nodi y gellir lleihau tarfu o'r fath fel arfer trwy gyfathrebu clir ac ymgysylltu ystyrlon yn ystod y broses ymgynghori, ac mae wedi cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu eu safbwyntiau. Mae hefyd yn ymddangos bod y cynnig yn cydnabod bod angen cymorth pontio targedig a chadarnhaol ar gyfer disgyblion yn Ysgol Nebo fel rhan o'r trefniadau gweithredu. Mae'r cynnig hefyd yn cydnabod yr effaith bosibl ar staff ac yn cyfeirio at becyn cymorth a fydd ar gael i staff, lle bo'n briodol, trwy gydol y broses.**"**

**Crynodeb o'r Materion a Godwyd gan Estyn ac Ymateb y Cyngor**

Wrth ystyried ymateb Estyn i'r cynnig, mae'r Cyngor yn nodi bod Estyn wedi cadarnhau bod y cynnig yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ac wedi nodi bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal o leiaf. Mae'r Cyngor yn croesawu'r casgliad hwn ac yn nodi bod cynnal a gwella profiad addysgol dysgwyr wedi bod yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu'r cynnig.

Mae Estyn wedi amlygu'r heriau cynaliadwyedd sylweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o leoedd gwag, meintiau dosbarthiadau bach gydag ystod oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel. Mae'r Cyngor yn nodi bod yr holl ffactorau hyn wedi'u hystyried yn fanwl fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau, ynghyd â'r effaith addysgol ac ariannol gysylltiedig. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn nodi'n glir fod capasiti digonol yn Ysgol Llanllyfni, gyda lleoedd dros ben priodol, i dderbyn dysgwyr Ysgol Nebo, a bod amcanestyniadau presennol a'r dyfodol yn dangos bod Ysgol Llanllyfni yn gallu darparu ar gyfer y niferoedd hyn.

Mae Estyn hefyd wedi cydnabod statws Ysgol Nebo fel ysgol wledig, ac wedi nodi ei bod yn ymddangos bod y cynnig yn mynd i'r afael â'r gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y cynnig wedi'i asesu'n benodol yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, ac mai dim ond ar ôl ystyried pob opsiwn amgen rhesymol, a dod i'r casgliad nad oedd yr un ohonynt yn mynd i'r afael â'r prif heriau, y daethpwyd i'r farn bod y cynnig yn briodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi sylwadau Estyn ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cadarnhau y byddai'r cynnig yn cynnal darpariaeth Gymraeg gyson o fewn y Sir, gan fod y ddwy ysgol sy'n destun y cynnig yn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd yn gweithredu o dan yr un polisi iaith.

Mae Estyn wedi codi pryderon ynghylch effaith bosibl cau'r ysgol ar y gymuned leol, o ystyried rôl Ysgol Nebo fel adnodd cymunedol allweddol, ac wedi nodi bod angen mwy o eglurder ynghylch trefniadau lliniaru ymarferol, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio a'r tymor hirach. Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion hyn ac yn cydnabod y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar y gymuned. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig i gau Ysgol Nebo, nodir y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.

Yn ogystal, mae Estyn wedi nodi pryderon ynghylch trefniadau cludiant, yn enwedig o ran mynediad dysgwyr at glybiau brecwast a gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd. O dan y Polisi hwn, mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant ysgol di-dâl i ddysgwyr sy'n byw yn y sir ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor, sef dysgwyr sy'n derbyn addysg cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin). Yn ogystal, lle asesir nad yw llwybr cerdded yn rhesymol ddiogel i blentyn oed cynradd ei ddefnyddio, bydd trefniadau cludiant yn cael eu darparu yn unol â darpariaethau'r Polisi. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw cludiant ysgol, fel arfer, yn cael ei ddarparu i hwyluso mynediad at wasanaethau ychwanegol megis clybiau brecwast, ac mae trefniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi cludiant a'r meini prawf statudol perthnasol.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod Estyn wedi cydnabod bod y cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol, anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a'r angen am gymorth pontio i ddysgwyr a staff. Mae'r Cyngor yn cadarnhau, pe byddai penderfyniad i weithredu'r cynnig, y byddai trefniadau pontio priodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau parhad darpariaeth, cymorth ac adnoddau addas wrth symud ysgol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.

## 5. CRYNODEB O'R MATERION A GODWYD GAN YMGYNGOREION

Darperir isod grynodeb o'r prif faterion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymatebion yr awdurdod i'r materion hynny.

### 1. Gwrthwynebiad i'r cynnig i gau Ysgol Nebo

### 1.1 Gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynnig i gau'r ysgol

<table>
<tr><th></th><th>Sylw</th><th>Ymateb y Cyngor</th></tr>
<tr><td>1.1.1</td><td>"Hynod o siomedig fod meddwl cau yr ysgol...Hollol anheg i deuluoedd ifanc lleol oedd wedi gobeithio cael plant yn mynd ir ysgol"</td><td rowspan="13">Mae'r Cyngor yn nodi'r gwrthwynebiadau a'r siom sylweddol a fynegwyd mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Nebo. Nodwyd fod gwrthwynebiad clir i'r cynnig wedi'i fynegi, gyda nifer o'r ymatebion yn pwysleisio gwerth hanesyddol, cymunedol ac emosiynol yr ysgol, ynghyd â'r farn y dylai'r ysgol barhau ar agor er gwaethaf niferoedd isel o ddysgwyr.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a wnaed yn tynnu sylw at rôl ganolog Ysgol Nebo ym mywyd y gymuned leol ers cyfnod estynedig iawn, gan gynnwys cyfeiriadau penodol at hanes hir yr ysgol a'i chyfraniad parhaus i fywyd y pentref.<br><br>Yn ogystal, nodir y safbwyntiau a fynegwyd fod yr ysgol yn cael ei gweld fel ysgol gymunedol sy'n cynnig amgylchedd addysgol bach, cynnes a chefnogol, lle mae plant wedi ffynnu ac wedi mwynhau profiad addysgol cadarnhaol. Mae'r Cyngor yn nodi hefyd y pryderon a godwyd y gallai symud i ysgol fwy beri heriau i rai dysgwyr, yn enwedig o ran setlo, lles a natur bersonol profiad addysgol.<br><br>Mae'r Cyngor yn ffafrio'r cynnig i gau Ysgol Nebo am ei fod yn ymateb i'r heriau sylweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu, sef:<br><br>• niferoedd isel iawn o ddysgwyr, sydd wedi bod yn gyson dros gyfnod o amser;<br>• canran uchel iawn o lefydd gwag;<br>• dosbarthiadau bychan gydag amrediad oedran eang;<br>• rhagamcanion niferoedd isel i'r dyfodol, nad ydynt yn awgrymu gwelliant sylweddol yn y sefyllfa;</td></tr>
<tr><td>1.1.2</td><td>"Dwi'n anghytuno gyda'r cynnig i gau Ysgol Nebo am nifer fawr o resymau."</td></tr>
<tr><td>1.1.3</td><td>"Rwy'n anghytuno gyda'r penderfyniad o gau Ysgol Nebo."</td></tr>
<tr><td>1.1.4</td><td>"dwy i'n hollol siomedig â'r agwedd yr Cyngor Sir a'r bwriad o gau Ysgol Nebo."</td></tr>
<tr><td>1.1.5</td><td>Mynegir siom gref wrth y cynnig i gau'r ysgol, gan bwysleisio gwerth yr ysgol er gwaethaf niferoedd bach.</td></tr>
<tr><td>1.1.6</td><td>"Nid wyf yn cytuno â'r cynnig i gau'r ysgol."</td></tr>
<tr><td>1.1.7</td><td>"Cadwch yr ysgol ar agor."</td></tr>
<tr><td>1.1.8</td><td>"rwy'n ailadrodd ac atgyfnerthu fy ngwrthwynebiad clir i'r cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026."</td></tr>
<tr><td>1.1.9</td><td>Mynegir y farn na ddylid cau Ysgol Nebo.</td></tr>
<tr><td>1.1.10</td><td>Mynegir anghytundeb â'r cynnig i gau'r ysgol, gyda'r farn fod y safbwynt hwn yn cael ei rannu gan rieni eraill yr ysgol.</td></tr>
<tr><td>1.1.11</td><td>"Hoffwn gofnodi fy ngwrthwynebiad i gau Ysgol Nebo."</td></tr>
<tr><td>1.1.12</td><td>"Tydwi ddim yn cytuno hefo'r cynnig i gau Ysgol Nebo. Mae fy mlant a'n wyrion yn gyn ddisgyblion o Ysgol Nebo a wedi cael addysg o safon uchel iawn."</td></tr>
<tr><td>1.1.13</td><td>"Fel cyn-ddisgybl Ysgol Nebo, rwy'n wirioneddol drist ac yn hynod siomedig wrth y cynnig i'w chau! Doedd yr ysgol ddim yn unig yn nechrau fy addysg; yr ysgol oedd sylfaen fy mywyd... Rwy'n gobeithio y caiff y cynnig i'w chau ei ailystyried er mwyn caniatáu i genedlaethau'r dyfodol gael y cyfle am brofiad addysg cyflawn a chyfannol!! Mae Ysgol Nebo yn sefydliad arbennig, ac rwy'n credu y byddai trigolion Nebo... yn elwa o'r cariad, y gefnogaeth a'r sicrwydd y mae'n eu cynnig."</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>1.1.14</td><td>“Ar ran Cyngor Cymuned Dolbenmaen, hoffwn fynegi ein gwrthwynebiad cryf i’r cynnig i gau Ysgol Nebo… Rydym yn galw ar Gyngor Gwynedd i ailystyried y cynnig hwn”</td><td rowspan="6">

- patrwm clir o ddewis gan ddysgwyr y dalgylch, gyda’r mwyafrif eisoes yn mynychu ysgolion eraill;
- cost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol, sy’n codi pryderon am gynaliadwyedd ariannol hirdymor.

Yn ogystal, mae’n bwysig egluro, fel y nodir yn adran 9 o’r Ddogfen Ymgynghori Statudol, mai ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026. Ni chaiff y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad eu trin fel gwrthwynebiadau ffurfiol. Byddai cyfle penodol i gyflwyno gwrthwynebiadau statudol pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, bydd rhaid cyflwyno’r adroddiad ar yr ymgynghoriad i’r Cabinet er mwyn crynhoi’r materion a godwyd gan yr ymgynghorai a nodi ymateb y Cyngor i’r materion hynny. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, bydd y Cabinet yn penderfynu p’run ai a ddylid bwrw ymlaen â’r cynnig hwn ai peidio.

Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod yr holl sylwadau a dderbyniwyd wedi’u hystyried yn llawn wrth lunio’r adroddiad ymgynghori yma (Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori), ac wedi llywio’r asesiadau pellach a’r gwerthusiad o’r cynnig a’r opsiynau amgen rhesymol.

Os yw’r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig

Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "Adroddiad Gwrthwynebu".

Yn dilyn hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei

</td></tr>
<tr><td>1.1.15</td><td>“Byddai’n drueni mawr i Ysgol Nebo gau ei drysau ar ôl bod yn ganolbwynt i’r pentref ers dros 150 mlynedd. Mae wedi darparu amgylchedd addysgol cynnes a chyfeillgar i gannoedd o blant dros y blynyddoedd, ac mae gan gyn-ddisgyblion atgofion hoff iawn o’u cyfnod yn yr ysgol.”</td></tr>
<tr><td>1.1.16</td><td>“Gwrthwynebaf yn gru na ddyled yr ysgol gau…Ysgol gymuned ydiw ag yn galon y pentref.”</td></tr>
<tr><td>1.1.17</td><td>Mynegir gwrthwynebiad clir i gau’r ysgol, gyda galwad i’w chadw ar agor. Nodir bod yr ysgol yn rhan fawr ac allweddol o fywyd y gymuned leol.</td></tr>
<tr><td>1.1.18</td><td>Mynegir tristwch a gwrthwynebiad i gau ysgol wledig, gan bwysleisio bod yr ysgol yn ganolbwynt i’r gymuned ac wedi gwasanaethu’r ardal ers amser hir. Nodir bod plant wedi bod yn hapus ac yn elwa o addysg mewn amgylchedd bach, cartrefol, ac y gallai symud i ysgol fwy beri her o ran setlo a lles. Pwysleisir bod lleoliad yr ysgol yn galluogi plant i fwynhau a gwerthfawrogi hanes, harddwch a natur yr ardal leol fel rhan o’u profiad.</td></tr>
<tr><td>1.1.19</td><td>“Dylid achub ysgolion megis Nebo a Baladeulyn rhag cael eu cau.”</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi’n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad. |

**2. Sylwadau am Ysgol Nebo**

**2.1 Manteision Ysgol Fach, Ansawdd Addysg a Derbyniad Cynhwysol**

<table>
<tr><th></th><th>Sylw</th><th>Ymateb y Cyngor</th></tr>
<tr><td>2.1.1</td><td>“Nid yw’r nifer fach o ddisgyblion yn Ysgol Nebo yn gwneud synnwyr ariannol. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion yn dod â llawer o fanteision. Mae’r disgyblion, ynghyd â’r athrawon rhagorol a’r staff cefnogi, wedi creu amgylchedd hynod ddiogel, sicr, cefnogol ac un sy’n meithrin hyder i’r holl ddisgyblion sy’n mynychu.”</td><td rowspan="8">Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a fynegwyd sy’n tynnu sylw at fanteision posibl y ddarpariaeth addysgol yn Ysgol Nebo, gan gynnwys addysg bersonol o safon uchel, dosbarthiadau bach, lefel uchel o sylw unigol, a’r berthynas agos rhwng disgyblion, staff a’r gymuned. Bu i rai ymatebion dynnu sylw hefyd at effaith gadarnhaol yr amgylchedd meithringar ar hyder, llesiant, datblygiad cymdeithasol ac anghenion emosiynol rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy’n ffynnu mewn lleoliadau bach gwledig.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe’i diweddarwyd yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae’r asesiad diwygiedig yn cydnabod bod perfformiad presennol Ysgol Nebo wedi’i werthuso fel ‘Da’ gan Estyn, a bod y ddarpariaeth bresennol yn cynnig profiad addysgol cadarnhaol i’r dysgwyr sy’n mynychu’r ysgol ar hyn o bryd.<br><br>Yn yr un cyd-destun, mae’r Cyngor o’r farn fod y ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Llanllyfni, fel yr ysgol amgen arfaethedig, yn cynnwys dosbarthiadau o faint mwy addas gyda ystod oed llai, a all gynnig manteision i rai dysgwyr. Mae’r rhain yn cynnwys mwy o gyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu gyda chyfoedion o’r un oed.<br><br>Fodd bynnag, nodir bod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo wedi’i gynnal gan fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy’n parhau’n isel yn y</td></tr>
<tr><td>2.1.2</td><td>“Mae’r ffaith bod y niferoedd ar y gofrestr wedi cynyddu’r flwyddyn academaidd hon i 12 yn adlewyrchu’r ffaith ei bod yn denu disgyblion i’r ysgol.”</td></tr>
<tr><td>2.1.3</td><td>“Mae Ysgol Nebo wedi dangos bod ansawdd yr addysgu a’r gefnogaeth a ddarperir i’r dysgwyr sy’n mynychu’n cael manteision sylweddol, fel y dengys y cynnydd o 50% yn nifer y disgyblion eleni. Mae’n hysbys bod buddsoddi mewn plant yn ifanc a mynd i’r afael â’r heriau y maent yn eu hwynebu yn dwyn manteision wrth iddynt dyfu’n hŷn.”</td></tr>
<tr><td>2.1.4</td><td>“Mae yr athrawon yn fy marn yn un o rhai gora rwyff wedi ei cyfarfod ag yn rhoid mwy nai hamser i bob plentyn.”</td></tr>
<tr><td>2.1.5</td><td>“Pam creu dosberthi mawr sydd ddim yn rhoid chwara teg i blentyn cael sylw ag yn syrthio ynol yn ei bywud academaidd.” “Heb son am greu pwysa mwy ar athrawon ysgolion efo gormodadd o blant mewn dosbarth.”</td></tr>
<tr><td>2.1.6</td><td>“Mae Ysgol Nebo yn debyg iawn i deulu, ac mae bob amser ymdeimlad o deulu yn yr ysgol. Mae gan y plant a’r staff berthynas dda iawn, ac mae’r holl staff yn adnabod y plant yn dda iawn.”</td></tr>
<tr><td>2.1.7</td><td>“fel rhywun gaeth ei addysgu yn Ysgol Nebo am 5 blwyddyn, a wedyn gadawodd y DU – y blynedd ffurfiannol yn y pentre gofanodd sens o ymberthyn, diwylliant, iaith a hapusyrwydd hefyd efo addysg ardderchog ffurfiannol.”</td></tr>
<tr><td>2.1.8</td><td>“Am y plant… mae'n glir bod y plant efo addysg dda so dydy hwnna ddim yn cwestiwn i drafod.”</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| 2.1.9 | Nodir bod yr ysgol yn darparu opsiwn defnyddiol pan nad yw ysgol arall yn y dalgylch yn addas. | tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys patrymau dewis yn y dalgylch fod y mwyafrif o ddysgwyr yn dewis mynychu ysgolion eraill.<br><br>Ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu'r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Nodir bod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i'r ddarpariaeth bresennol ac yn galluogi i ddysgwyr gael eu haddysgu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran. |
| 2.1.10 | *"Cefais brofiad uniongyrchol o sut mae'r ysgol hon wedi cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion sy'n mynychu. Mae'r ysgol hon yn hollbwysig wrth gefnogi plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn amgylchedd hamddenol sy'n cysylltu â natur a seiliau cadarnhaol bywyd. Mae'r ysgol hon yn darparu ar gyfer ac yn meithrin pob plentyn, ac mae angen i hyn barhau."* | |
| 2.1.11 | Disgrifir staff yr ysgol fel profiadol, tosturiol ac ymroddedig, gan greu amgylchedd cynnes a chefnogol. | |
| 2.1.12 | Mynegir bod yr amgylchedd meithringar yn cefnogi hyder, llesiant a datblygiad personol disgyblion. | |
| 2.1.13 | Nodir bod rhai disgyblion yn ffynnu mewn ysgol fach wledig lle cânt sylw digonol, a bod yr awyrgylch yn yr ysgol yn teimlo'n saff iddynt. | |
| 2.1.14 | Nodir bod maint bach y cohort yn cefnogi addysg, datblygiad cymdeithasol ac empathi, gyda gwell cysylltiadau rhwng disgyblion. | |
| 2.1.15 | Nodir bod dosbarthiadau bach ac arferion addysgu oedrannau cymysg yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, empathi a rhyngweithio cadarnhaol rhwng disgyblion. Pwysleisir bod maint bach y dosbarth yn galluogi mwy o amser a sylw unigol gan athrawon a chynorthwywyr. | |
| 2.1.16 | *"Honodd y ddogfen ymgynghori (heb dystiolaeth fanwl) fod 'dosbarthiadau mwy yn well', ond mae'r dystiolaeth o Ysgol Nebo yn awgrymu nad yw hyn o reidrwydd yn wir ym mhob amgylchiadau."* | Fel uchod. |
| 2.1.17 | "Mae Cyngor Gwynedd yn honni fod 'dosbarthiadau mwy yn well'. Yn anffodus, nid oes unrhyw ymchwil i gefnogi'r argymell yma gyda'r gorfforaeth Human Scale Education yn cyflwyno tystiolaeth cadarn sy'n profi'r gwrthwyneb. Felly gofynaf am eich tystiolaeth a ffynnonellau i gefnogi eich argymellion hyn?" | Fel uchod. |

**2.2 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol a thystiolaeth o safon uchel**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 2.2.1 | “Mae Ysgol Nebo'n cynnig addysg o ansawdd uchel iawn i'w disgyblion (5x Da i gymharu a 3x Da i Ysgol Llanllyfni yn 2017).” | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad am safon yr addysg yn Ysgol Nebo, gan gynnwys canfyddiadau arolygiadau Estyn. |
| 2.2.2 | “Mae’r Pecyn Asesiadau Effaith yn cadarnhau nad oes methiant addysgol yn Ysgol Nebo. Cafodd yr ysgol ei hasesu’n ‘Dda’ gan Estyn” | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad am safon yr addysg yn Ysgol Nebo, gan gynnwys canfyddiadau arolygiadau Estyn. |
| 2.2.3 | “Mae Ysgol Nebo wedi cynnig gwasanaeth addysgol o safon uchel i ddisgyblion yn ddi-dor.” | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad am safon yr addysg yn Ysgol Nebo. |

**2.3 Perthnasoedd cadarnhaol, ethos yr ysgol a’u heffaith ar lwyddiant a llesiant disgyblion**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 2.3.1 | “Yn ystod cyfnod y pandemic roedd plant Nebo yn cael cymorth a gofal o bell gan eu hathrawon... Fodd bynnag... bod rhai o’r rhai a gollodd eu haddysg blynyddoedd cynnar yn ystod cyfnod y pandemic yn nawr, mor aml, yn cael trafferth gyda’u hanghenion o fewn dosbarthiadau mwy.” | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |
| 2.3.2 | *“Yn ddiweddar, mae Ysgol Nebo wedi bod yn croesawu mwy o blant sydd wedi canfod ysgolion mwy a phrysur yn rhy llethol. Mae’r dosbarthiadau llai a’r lleoliad gwledig wedi golygu bod plant sydd wedi ei chael hi’n anodd dychwelyd i’r ysgol ers Covid yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol hon... Mae’r lleoliad gwledig yn darparu mannau diogel ar gyfer cerdded a chysylltu â natur.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |
| 2.3.3 | *“Mae llwyddiant addysg pobl ifanc yn aml yn dibynnu ar y perthnasoedd a ddatblygir rhwng disgyblion a’r athrawon / yr ysgol. Po fwyaf cadarnhaol yw’r berthynas honno, y mwyaf y bydd y disgybl yn ei gyflawni – nid yn academaidd yn unig, ond hefyd o ran llesiant, iechyd meddwl a’r gallu i ymdopi â bywyd fel oedolyn.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |

### 2.4 Profiadau dysgwyr/cyn-ddisgyblion

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 2.4.1 | *“Rwyf wedi gweld bod plant sy’n mynychu Ysgol Nebo yn cael eu haddysgu cymaint y tu hwnt i ffeithiau a ffigurau yn unig. Cânt eu hannog i ofalu am natur, eu hamgylchedd a’u cymuned, i ofalu am eu cyfoedion ac i barchu eu hynafiaid – oll yn gymwysterau pwysig tuag at dyfu i fyny a dod yn ddinasyddion da. Gall llawer o hyn gael ei golli mewn amgylchedd ysgol fwy, oherwydd cyfyngiadau amser ac adnoddau.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau cadarnhaol ynghylch profiadau a datblygiad y dysgwyr. |
| 2.4.2 | “Fel Nain i ddau fachgen... rydw i wedi eu gweld nhw yn elwa o ymroddiad ac ymrwymiad unigryw a gofal y staff addysgu, a gwneud y trawsnewid i’r ysgol uwchradd efo rhwyddineb llwyr i ddod yn fechgyn llawn hyder ac aeddfed yn eu harddegau.” | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau cadarnhaol ynghylch profiadau a datblygiad cyn-ddysgwyr. |

### 2.5 Cysylltiad â’r gymuned a dysgu y tu allan

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 2.5.1 | “Mae ysgol Nebo yn arbennig, yn unigryw ac yn cynnig addysg a gofod diogel, llesol, hapus a chartrefol ohewydd ei lleoliad; ei pherthynas agos gyda'r gymuned, y math o addysg mae'n ei gynnig yn ddyddiol ac nad ydyw'n bosibl mewn ysgolion eraill oherwydd ei lleoliad a'r gofod sydd ar gael yno; addysg ginasthetig, ynghanol byd natur yn yr awyr agored, mae'n gallu ymateb i ofynion arbennig ei disgyblion boed yn ddisgyblion prif lif boed yn dioddef o ddiffyg hyder, heriau iechyd, gorbryder, yn isel eu gallu, anghenion dysgu ychwanegol/ niwroamrywiaeth o fewn muriau mewnol a thu allan yr ysgol...y disgyblion yn gallu mynegi eu meddyliau, eu myfyrdodau a thrafod y byd o'u cwmpas mewn awyrgylch hamddenol....y math o addysg mae'n ei gynnig yn ddyddiol ac nad ydyw'n bosibl mewn ysgolion eraill oherwydd ei lleoliad a'r gofod sydd ar gael yno....mae'n gallu ymateb i ofynion arbennig ei disgyblion boed yn ddisgyblion prif lif boed yn dioddef o ddiffyg hyder, heriau iechyd, gorbryder, yn isel eu gallu, anghenion dysgu ychwanegol/ niwroamrywiaeth. y disgyblion yn gallu | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau cadarnhaol a gyflwynwyd ynghylch profiad addysgol Ysgol Nebo, gan gynnwys gwerth y ddarpariaeth ddysgu yn yr awyr agored, yr amgylchedd cefnogol a’r gefnogaeth bersonol a gysylltir â maint a lleoliad yr ysgol.<br><br>Mae’r materion hyn wedi’u hystyried wrth ddiweddaru’r Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, sy’n dod i’r casgliad, ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a’r dystiolaeth berthnasol, bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Llanllyfni o leiaf yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd, gyda manteision ychwanegol, gan gynnwys y posibilrwydd i ddysgwyr gael eu haddysgu ochr yn ochr â mwy o gyfoedion o’r un oedran. O ganlyniad, nodir yn yr asesiad mai niwtral neu rannol gadarnhaol yw’r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg pe bai’r cynnig yn cael ei weithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| | mynegi eu meddyliau, eu myfyrdodau a thrafod y byd o'u cwmpas mewn awyrgylch hamddenol” | |
| 2.5.2 | “Mae nhw yn gael y cynnig i ddysgu yn yr awyr agored, sydd yn wych i plant bach, cael cyfleuon wych a ffyrdd hollol wahanol o ddysgu. Mae fy [mhlentyn] wrth ei bodd yno…ag mi fydd yn bechod gorfod [ ] symyd i ysgol arall o achos y Cyngor eisiau cynilo arian. Beth am y’r effaith fydd ar y plant? Colli’r cynnigion gorau o ddysgu, y’r amsar un ar un gyda’i athrawon” | Fel uchod. |
| 2.5.3 | Nodir bod disgyblion Ysgol Nebo yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu’n gadarnhaol â’u haddysg. Tynnir sylw at weithgareddau dysgu yn yr awyr agored sy’n caniatáu i blant werthfawrogi a mwynhau’r amgylchedd lleol. | Fel uchod. |
| 2.5.4 | Tynnir sylw at werth yr ardal awyr agored fel adnodd addysgol sy’n cefnogi rheolaeth emosiynol a datblygiad cymdeithasol. | Fel uchod. |
| 2.5.5 | Nodir bod lleoliad a maint yr ysgol yn hwyluso mwy o ymweliadau addysgol a phrofiadau dysgu estynedig. | Fel uchod. |

**2.6 Dosbarthiadau bach a chefnogaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol/ADY**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 2.6.1 | “Ysgol Nebo yn rhoi gwell addysg arbennig i ddisgyblion ADY nag unrhyw ysgol arall.” “Mae'r rhan fwyaf o ysgolion eraill yn cynnig addysg ADY ar wahan i weddill y dosbarth: yn y neuadd, mewn dosbarth arall, hyd yn oed ar y coridor, ond mae Ysgol Nebo yn llawn gynnwys y disgyblion ADY yn eu dosbarthiadau, ac wedi gwneud hynny erioed.” | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd sy’n pwysleisio’r gefnogaeth gynhwysol a ddarperir i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Nebo, gan gynnwys y farn bod maint bach yr ysgol o safbwynt niferoedd y dysgwyr, a’r dull addysgu yn galluogi lefel uchel o gynhwysiant, sylw personol ac ymateb hyblyg i anghenion emosiynol, cymdeithasol a niwroamrywiol rhai dysgwyr. Mae’r Cyngor hefyd yn nodi’r sylwadau oedd yn mynegi’r safbwynt bod dosbarthiadau llai yn gallu bod o fudd penodol i blant sy’n profi anawsterau mewn lleoliadau mwy, ac y gallai Ysgol Nebo gynnig model addysgol amgen ar gyfer y dysgwyr rheini.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, a chafodd hwn ei gynnwys fel rhan o’r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, cafodd yr asesiad ei ddiweddaru. |
| 2.6.2 | Nodir bod yr ysgol yn arbennig o addas i blant ag anghenion emosiynol, cymdeithasol neu niwroamrywiol sydd yn cael trafferth mewn lleoliadau mwy traddodiadol. | |
| 2.6.3 | “Mae cyfle unigryw yma i addasu Ysgol Nebo a chreu datrysiad i anghenion disgyblion bregus” | |
| 2.6.4 | *“Mae rhagdybiaeth bod dosbarthiadau mwy yn well, er bod swyddogion addysg wedi cydnabod bod dosbarthiadau llai yn wirioneddol helpu plant ag anghenion arbennig, beth bynnag fo’r anghenion hynny. Gallai Ysgol Nebo ddarparu’r dosbarthiadau llai, mwy canolog hyn ar gyfer plant o’r fath.”* | |
| 2.6.5 | *“Mae’r rhagdybiaeth fod dosbarthiadau mwy yn well yn mynd yn groes i’r hyn sy’n cael ei ganfod ar hyn o bryd mewn rhannau eraill o’r DU, lle maent* | |

| | | |
|---|---|---|
| | *wrthi'n mynd ati'n weithredol i leihau maint dosbarthiadau. Mae swyddogion addysg wedi cydnabod bod dosbarthiadau llai yn wirioneddol o fudd i blant ag anghenion arbennig, beth bynnag fo'r anghenion hynny."* | Mae'r asesiad diwygiedig yn parhau i gydnabod bod dyletswydd statudol ar bob ysgol i ddarparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr ag ADY, ac yn nodi bod ysgolion mwy yn aml â darpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy cadarn, a mynediad at ystod ehangach o ymyriadau a chymorth arbenigol. Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a'r dystiolaeth berthnasol, daw'r asesiad i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Llanllyfni o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd, gan gynnwys o safbwynt cefnogi dysgwyr ag ADY.<br><br>O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd o blaid dosbarthiadau bach a'r manteision canfyddedig i rai dysgwyr, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o arwain at effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg, gan nodi y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gallu diwallu anghenion dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â gofynion statudol a pholisi'r Awdurdod. |
| 2.6.6 | *"Mae rhagdybiaeth bod dosbarthiadau mwy yn well, er bod swyddogion addysg wedi cydnabod bod dosbarthiadau llai yn wirioneddol o fudd i blant ag anghenion arbennig, beth bynnag fo'r anghenion hynny… "Er bod diagnosis ar gael i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), mae llawer o blant eraill sydd ag anawsterau neu broblemau sydd hefyd angen math gwahanol o gefnogaeth. Yn aml, nid yw hyn yn bosibl mewn ysgolion mwy, tra bod Ysgol Nebo eisoes yn gallu dangos gwerth y math hwn o addysg ar gyfer y plant hyn yn union, sy'n ffynnu yno."* | |

## 2.7 Effaith ar y Gymraeg a'r ethos Gymraeg

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 2.7.1 | *"Aeth fy [mhlentyn] i Ysgol Nebo am flwyddyn yn unig, ond honno oedd y flwyddyn fwyaf anhygoel ym mywyd ifanc fy mhlentyn. Daethom i Gymru o […], ac nid oedd [ef/hi] yn siarad gair o Gymraeg cyn i ni gyrraedd. Ar ôl blwyddyn, roedd [ef/hi] yn rhugl."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau cadarnhaol a fynegwyd ynghylch profiad addysgol y dysgwr yn Ysgol Nebo, gan gynnwys cefnogi datblygiad ieithyddol a hwyluso integreiddio llwyddiannus i'r Gymraeg mewn cyfnod byr. |
| 2.7.2 | *"Mae Ysgol Nebo wastad wedi cadw at bolisi Cymraeg-Saesneg cytbwys iawn, fel y gallai plant newydd o ysgolion eraill ag anghenion arbennig integreiddio'n rhwydd."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

**2.8 Datblygiad cymdeithasol ac empathi**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 2.8.1 | *“Cefais fy nharo gan awyrgylch teuluol, cariadus a meithringar Ysgol Nebo, ac roeddwn wedi fy nghyffroi gan faint o fynediad oedd gan y disgyblion at brofiadau dysgu bywyd go iawn, cymunedol ac awyr agored. O ganlyniad, roeddem yn fodlon rhoi cynnig ar Ysgol Nebo. Mae fy [mhlentyn] yn ei charu ac wedi ymgartrefu’n gyflym ym mhob un o’r cyfleoedd dysgu gwych… Rydym hefyd wedi sylwi faint mae ein [plentyn] yn rhyngweithio â phlant iau ac yn eu cefnogi… Credwn fod dosbarthiadau bach oedran-gymysg fel hyn yn berffaith ar gyfer datblygiad cymdeithasol mwy cyflawn.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |

**2.9 Profiad uniongyrchol o wella llesiant**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 2.9.1 | *“Fe benderfynon ni roi cyfle i Ysgol Nebo ar gyfer fy [mhlentyn]. Ni allwn fod yn hapusach nag ydw i nawr fel [ei] fam, gan weld fy [mhlentyn] yn mynd o fod yn blentyn hynod wrthgymdeithasol i ddod yn ôl yn fy [mhlentyn] unwaith eto… Mae Ysgol Nebo wir wedi helpu fy [mhlentyn] i wella, ac rwy’n hynod ddiolchgar i’r athrawon sydd wedi helpu’n wirioneddol… Mae fy [mhlentyn] mor hapus nawr yn mynd i’r ysgol… yn edrych ymlaen at fynd i’r ysgol – rhywbeth na welais erioed o’r blaen… yn dysgu Cymraeg ac yn gwneud yn arbennig o dda, ac wedi gwneud ffrindiau anhygoel… Rwy’n gallu eistedd gartref bellach gan wybod bod fy [mhlentyn] yn hapus yn yr ysgol, rhywbeth na chefais i erioed… Os gwelwch yn dda, rwy’n erfyn arnoch fel ei mam, dewch o hyd i ffordd o beidio â chau Ysgol Nebo. Rwy’n ofnus iawn ac yn drist hyd yn oed wrth ddychmygu fy [mhlentyn] yn mynd yn ôl i sgwâr un eto. Peidiwch â chymryd hapusrwydd fy [mhlentyn]… mae [wedi] mynd drwy gymaint o drawma, ac ni allaf oddef gweld fy [mhlentyn] yn gorfod mynd yn ôl pe bai Ysgol Nebo yn cau. Byddwn wrth fy modd pe bai brawd/chwaer fy [mhlentyn] hefyd yn ymuno â’r ysgol.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |

**2.10 Canran uchel o ddysgwyr all-dalgylch yn mynychu Ysgol Nebo**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 2.10.1 | *“Ar hyn o bryd, mae 78% o’r disgyblion yn dod o’r tu allan i’r dalgylch. Yn sicr, mae hyn yn dangos bod gan Ysgol Nebo enw da yn yr ardal leol? Mae hyn yn rheswm ychwanegol dros geisio cadw’r ysgol ar agor.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau sy’n tynnu sylw at y ffaith bod canran uchel o ddysgwyr Ysgol Nebo yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, a’r safbwyntiau a fynegwyd fod hyn yn adlewyrchu profiadau addysgol cadarnhaol yn Ysgol Nebo. Fodd bynnag, nodir hefyd bod patrwm cyson lle mae cyfran sylweddol o ddysgwyr dalgylch Nebo yn mynychu ysgolion eraill y tu allan i’r dalgylch.<br><br>Yn ôl data Ionawr 2026, mae 78% o’r plant sy’n byw yn nalgylch Ysgol Nebo yn mynychu ysgolion y tu allan i’r dalgylch, tra bod 83% o’r dysgwyr sy’n mynychu Ysgol Nebo yn byw y tu allan i’r dalgylch. |
| 2.10.2 | *“Mae’r ddogfen yn nodi bod 78% o’r disgyblion yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, felly mae’n rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr i’r ysgol.”* | |
| 2.10.3 | *“Dywedwyd bod rhai o’r dysgwyr sydd bellach yn Ysgol Nebo yn arfer ofni mynd i’w hysgol flaenorol, ond bellach yn frwdfrydig am fynychu’r ysgol. Mae tua 78% o’r dysgwyr hyn yn teithio o’r tu allan i ddalgylch yr ysgol, sy’n dangos bod y profiad dysgu a gynigir yn Ysgol Nebo yn cynnig manteision nodedig o’i gymharu ag ysgolion lleol eraill.”* | |
| 2.10.4 | “Mae nifer o'r disgyblion o du allan i'r dalgylch yn dewis mynychu'r ysgol, a hynny oherwydd natur gyfeillgar a chefnogol yr ysgol sydd yn sicrhau bod y disgyblion yn ffynnu beth bynnag bo'u gallu a'u hanghenion” | Fel uchod. |
| 2.10.5 | “mae canran uchel o ddisgyblion all-dalgylch yn mynychu’r ysgol, sy’n awgrymu bod rhieni’n dewis Ysgol Nebo am resymau penodol e.e. dosbarthiadau bach, gofal unigol, a llesiant.” | Fel uchod. |
| 2.10.6 | *“Os yw 78% o’r disgyblion yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, mae’n rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr? Mae gan Ysgol Nebo enw da am helpu plant i ffynnu, yn enwedig os oes ganddynt rai anghenion.”* | Fel uchod. |
| 2.10.7 | “Os yw 78% yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr? Mae gan Ysgol Nebo enw da am helpu plant i ffynnu yn enwedig os oes ganddynt rai anghenion.” | Fel uchod. |
| 2.10.8 | *“Os yw 78% o’r disgyblion yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, mae’n rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr?”* | Fel uchod. |
| 2.10.9 | “Os yw 78% yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr?” | Fel uchod. |
| 2.10.10 | “Os yw 78% o’r disgyblion yn mynychu o’r tu allan i’r dalgylch, mae’n rhaid bod rhywbeth yn denu dysgwyr? Mae gan Ysgol Nebo enw da am helpu plant i ffynnu, yn enwedig os oes ganddynt rai anghenion.” | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.10.11 | Nodir bod canran uchel (75%) o ddisgyblion all-ddalgylch yn Ysgol Nebo sy'n awgrymu bod rhinweddau penodol yn denu teuluoedd i'r ysgol. Gofynnir pa asesiad sydd wedi ei gynnal i ddarganfod beth sy'n denu dysgwyr i Ysgol Nebo. Awgrymir mai natur bach a meithringar a chymuned Ysgol Nebo sy'n denu dysgwyr. | Fel uchod. |
| 2.10.12 | Nodir bod tua hanner y disgyblion wedi dod o Ysgol Llanllyfni. | Fel uchod. |

**2.11 Sylwadau'n tynnu sylw at gynnydd diweddar yn niferoedd Ysgol Nebo**

<table>
<tr><th></th><th>Sylw</th><th>Ymateb y Cyngor</th></tr>
<tr><td>2.11.1</td><td>"Y mis Medi hwn, cynyddodd nifer y dysgwyr yn yr ysgol 50% i 12."</td><td rowspan="3">Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd yn tynnu sylw at y cynnydd diweddar yn nifer y dysgwyr yn Ysgol Nebo, gan gynnwys y ffaith bod niferoedd wedi codi i 12 o ddysgwyr ym mis Medi 2025. Cydnabyddir hefyd y safbwyntiau a fynegwyd fod niferoedd isel yn her ehangach sy'n effeithio ar ysgolion ledled y Sir.<br><br>Er gwaethaf y cynnydd diweddar, mae niferoedd dysgwyr wedi bod yn isel ers peth amser, gyda dim ond 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 a 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr ym Medi 2025, o gymharu â chapasiti'r ysgol o 51, gan arwain at ganran uchel iawn o lefydd gweigion. Mae'r rhagamcanion yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel, gyda thua 10 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin wedi'u rhagweld erbyn Medi 2028.<br><br>Er bod y Cyngor yn cydnabod y gall ffactorau annisgwyl effeithio ar niferoedd yn y dyfodol, mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn awgrymu nad oes disgwyl cynnydd cynaliadwy yn niferoedd dysgwyr yn Ysgol Nebo yn y tymor canolig na'r tymor hir. O ganlyniad i'r niferoedd dysgwyr isel parhaus, mae Ysgol Nebo yn wynebu heriau cynyddol o ran cynaliadwyedd y ddarpariaeth, gan gynnwys lefel uchel o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a chyfleoedd cyfyngedig i ddysgwyr gael eu haddysgu ochr yn ochr â chyfoedion o'r un oedran.</td></tr>
<tr><td>2.11.2</td><td>"Rwy'n cydnabod bod Ysgol Nebo mewn sefyllfa fregus oherwydd niferoedd isel, fodd bynnag, mae hyn yn batrwm ehangach ar draws y Sir, nid sefyllfa unigryw i Ysgol Nebo. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi cynyddu 50% ers y flwyddyn flaenorol, sy'n tanseilio'r casgliad fod dirywiad anochel. "</td></tr>
<tr><td>2.11.3</td><td>"Mae ysgolion bach hefyd yn cael ei effeithio yn llai gan unrhyw newid (e.e mae 10% yn llai o blant yn cael ei geni yn golygu 2 yn llai o blant mewn ysgol fach gyda 20 disgybl, ble byddai ysgol gyda 200 yn colli 20). Mae ysgolion bach yn well ar gyfer y dyfodol gan fydd llai o blant ac yn llai o faint. Y gwir amdani ydi fod ysgolion mawr y Sir eisiau llenwi eu dosbarth er mwyn gwneud fyny am y golled, ac felly yn ceisio blaenoriaethu cau ysgolion bach i roi plwg yn y gap. Mae'r Cyngor yn barod iawn i ariannu ysgolion mwyaf y sir, er bod niferoedd yn gostwng yno hefyd"</td></tr>
</table>

**2.12 Sylwadau'n cwestiynu'r dibynadwyedd y rhagamcanion niferoedd**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 2.12.1 | "mae'r 'projected numbers' ddim i fod yn cynyddu, ond mae hwn yn sbeciannol hefyd." | Mae'r rhagamcanion niferoedd ar gyfer Ysgol Nebo wedi'u llunio ar sail gwybodaeth am dueddiadau'r gorffennol a data perthnasol sydd ar gael ar adeg yr adolygiad. Darperir rhagamcanion ar gyfer y tair blynedd gyntaf gan yr ysgol, tra bo'r rhagamcanion ar gyfer blynyddoedd pedair a phump yn cael eu cyfrifo gan yr awdurdod.<br><br>Cydnabyddir nad yw llunio rhagolygon niferoedd yn wyddoniaeth fanwl, ac y gall ffactorau annisgwyl effeithio ar niferoedd mewn unrhyw gymuned dros amser. Serch hynny, ar sail niferoedd dysgwyr presennol, rhagamcanion niferoedd, a'r tueddiadau derbyn dros nifer o flynyddoedd, mae'r Adran Addysg o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr yn Ysgol Nebo yn parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. |
| 2.12.2 | *"Gall ffactorau annisgwyl amharu ar batrymau demograffig."* | |
| 2.12.3 | *"Mae rhagolygon niferoedd disgyblion yn enwog am fod yn annibynadwy. Mae llawer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth y rhai sy'n llunio'r rhagolygon, megis polisi tai, y sefyllfa ffoaduriaid, arferion cynllunio, bonhemaiddio (gentrification) ac enw da ardaloedd ac ysgolion. Efallai na fydd adeiladu ac agor ysgolion newydd, yn fuan ar ôl cau eraill, yn gwneud llawer o synnwyr o safbwynt cynllunio o gwbl."* | |
| 2.12.4 | *"Mae'n amhosibl dweud a fydd nifer y disgyblion yn gostwng neu'n cynyddu dros y deng mlynedd nesaf."* | |
| 2.12.5 | "Rwyf sicr yn derbyn fod gostyngiad mewn cyflenwad geni yn rhywbeth i ystyried - ond wrth gwrs mae pethau yn medru newid ac mae damcaniaethau'r swyddogion yn ddim ond hynny- 'rhagolygon'. Pan roeddwn yn Ysgol Nebo, dau ddisgybl oedd yn fy mlwyddyn babanod, ble roedd 8 disgybl pan nesi adael blwyddyn 6 (cynnydd o 300%).)." | |

**2.13 Effaith ansicrwydd am ddyfodol yr ysgol ar ddewis rhieni a niferoedd dysgwyr**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 2.13.1 | "Mae swyddogion wedi methu yn ei dyletswydd i sicrhau fod plant lleol eisiau mynychu'r ysgolion yma. Nid yw yn gyfrinch fod Swyddogion Gwynedd wedi bod eisiau cau yr ysgol ers blynyddoedd. Mae sôn mai dim ond 29% o blant y dalgylch sydd yn mynychu'r ysgol - dwi ddim yn synnu, mae effaith y Cyngor yn hongian y penderfyniad yma dros y gymuned ers blynyddoedd fel cleddyf Damocles. Wrth gwrs nid yw rhieni ddim eisiau i'w plant orfod symud ganol ei addysg - mae hyn yn naturiol." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n mynegi pryder bod ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol Ysgol Nebo wedi dylanwadu ar benderfyniadau rhai rhieni i anfon eu plant i ysgolion eraill, ac y gallai hyn fod wedi cyfrannu at batrymau cofrestru presennol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a nodwyd y farn bod diffyg sicrwydd tymor hir yn gallu tanseilio hyder rhieni yn y ddarpariaeth leol, a bod hyn yn annheg ar y gymuned a'r ysgol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod sefydlogrwydd a sicrwydd yn ffactorau pwysig i rieni wrth wneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant, ac y gall cyfnodau hir o ansicrwydd greu pryder i deuluoedd. Yn y cyd-destun |
| 2.13.2 | Nodir bod ansicrwydd parhaus dros ddyfodol yr ysgol wedi arwain rhai rhieni i anfon plant i ysgolion eraill, a bod hynny'n annheg. | |
| 2.13.3 | "Yr wyf yn ymateb fel unigolyn i'r cynnig hwn oherwydd fy mhrofiad personol - yn gyntaf o gau ysgol bentre gyffelyb yn fy nghymuned fy hun, ac yn ail | |

| | | |
|---|---|---|
| | oherwydd brwydr sydd ymlaen ar hyn o bryd yma yn Sir Gaerfyrddin i wrthwynebu cau Ysgol Meidrim gan y credaf fod yma wersi ar gyfer penderfynu ar ddyfodol Ysgol Nebo.” “bu cynlun i gau Ysgol Llanfihanegl-ar-arth yn ol yn 1986 gan fod y Cyngor Sir wedi amcangyfri mai dim ond 9 plentyn fyddai yn yr ysgol erbyn 1991. Enilwyd y frwydr i gadw'r ysgol ar agor ac, yn 1991, bu 31 disgybl, nid 9. Y wers yw fod rhieni'n lawer mwy tebygol o ddanfon eu plant at ysgol pan fydd sicrwydd am blynyddoedd canlynol o'i dyfodol.” | hwn, nodir bod y Cyngor yn adolygu dyfodol Ysgol Nebo gan fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, patrymau dalgylch, a rhagamcanion niferoedd yn y tymor canolig a’r tymor hir.<br><br>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, dechreuodd y trafodaethau ffurfiol ynghylch dyfodol Ysgol Nebo yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 11 Chwefror 2025 i ganiatáu i’r Adran Addysg ymgysylltu â’r corff llywodraethol, rhieni a rhanddeiliaid perthnasol er mwyn ystyried ystod o opsiynau posibl. Cynhaliwyd cyfarfodydd lleol fel rhan o’r broses hon, cyn i’r Cabinet benderfynu ar 14 Hydref 2025 i symud ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae’r Cyngor yn nodi bod y trafodaethau hyn wedi’u cynnal er mwyn ystyried yr heriau a wynebai’r ysgol a chasglu tystiolaeth berthnasol cyn symud i’r cam ymgynghori statudol.<br><br>Cydnabyddir bod nifer o ffactorau ac ystyriaethau amrywiol yn dylanwadu ar ddewisiadau addysgol rhieni. |

**2.14 Sylwadau am baratoi bwyd ysgol ar y safle a lleihau dibyniaeth ar gludo bwyd o ysgolion eraill**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 2.14.1 | “Mae yna gegin yna iddynt gael bwyd sydd ddim yn cael ei goginio mewn ysgol arall ai gludo i fewn.” | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |

## 3. Gwerth addysgol ysgol fach wledig

### 3.1 Addysg bersonol, dosbarthiadau bach a sylw unigol

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 3.1.1 | "Mae ysgol fach yn cynnig addysg bersonol o safon uchel, gyda chymorth unigol i bob plentyn mewn amgylchedd diogel a chefnogol." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio manteision ysgol fach, gan gynnwys addysg bersonol o safon uchel, dosbarthiadau bach, a lefel uchel o sylw unigol i ddysgwyr mewn amgylchedd diogel, cefnogol a chynhwysol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r safbwynt a fynegwyd gan rai ymatebwyr fod dulliau addysgu a dosbarthiadau mwy mewn ysgolion mwy yn gallu bod yn heriol i rai plant, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth unigol.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe'i cynhwyswyd fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cafodd yr Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r materion a godwyd, gan gynnwys y sylwadau ynghylch manteision dosbarthiadau bach, addysg bersonol a'r profiad dysgu cadarnhaol a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw'r diweddariad hwn wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiad.<br><br>Mae'r asesiad diwygiedig yn cydnabod bod perfformiad presennol Ysgol Nebo wedi'i werthuso fel "Da" yn arolygiad diweddaraf Estyn.<br><br>Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi bod Ysgol Nebo yn cael ei hadolygu am ei bod yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel dros gyfnod estynedig, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys y dystiolaeth fod patrymau dewis yn y dalgylch wedi arwain at y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill. |
| 3.1.2 | *"Mae ysgolion gwledig bach fel ein hysgol ni yn cynnig amgylchedd dysgu sy'n anodd ei efelychu mewn mannau eraill. Gyda dosbarthiadau llai, mae disgyblion yn cael mwy o sylw unigol a chefnogaeth academaidd gryfach. Mae athrawon yn gallu adnabod eu disgyblion yn dda, ymateb i anghenion unigol, a meithrin diwylliant ysgol cadarnhaol a chynhwysol."* | |
| 3.1.3 | *"Mae'r dosbarthiadau bach yn meithrin sylw unigol i bob disgybl a phrofiad dysgu mwy personol, sydd o fudd mawr iawn i ddatblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar."* | |
| 3.1.4 | *"Roedd maint bach y dosbarthiadau yn galluogi dull llawer mwy personol a hamddenol o ymdrin â chyfnod cymharol anodd ym mywyd person ifanc."* | |
| 3.1.5 | Nodir bod maint bach yr ysgol yn galluogi athrawon i roi mwy o sylw personol a diwallu anghenion dysgu unigol. | |
| 3.1.6 | Tynnir ar brofiad addysgu mewn ysgol fawr i nodi effeithiau negyddol dosbarthiadau mawr ar sylw unigol. Pwysleisir bod dosbarthiadau bach yn galluogi addysg bersonol lle mae pob plentyn yn cael ei weld a'i glywed. | |
| 3.1.7 | *"Mae llawer yn cael ei ysgrifennu yn y cyfryngau ac mewn mannau eraill am fanteision ysgolion bach, ac yn aml iawn mewn perthynas â'r sector addysg breifat – pam, felly, mae ysgolion bach yn cael eu hystyried yn fuddiol i'r sector preifat, ond nid i'r sector cyhoeddus?"* | |
| 3.1.8 | *"Lle rwy'n byw nawr, caewyd ysgol y pentref a symudwyd y plant i ysgol fwy… mae plant yn y dosbarthiadau mwy hyn yn cael eu gadael ar ôl ac yn cael trafferth llawer mwy gan nad yw athrawon yn gallu rhoi unrhyw gefnogaeth ychwanegol iddynt oherwydd y llwyth gwaith uwch. O ganlyniad, mae'r plant llai academaidd yn ei chael hi'n anodd iawn cadw i fyny."* | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.9 | Dadleuir bod dulliau addysgu safonol mewn ysgolion mawr yn gallu bod yn llethol i rai plant. | Dengys yr Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghori, ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu'r opsiynau, y byddai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Mae'r asesiad yn nodi bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb, fan lleiaf, i'r safon a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd, a bod yr ysgol amgen yn gallu cynnig cyfleoedd ehangach i ddysgwyr gael eu haddysgu ochr yn ochr â mwy o gyfoedion o'r un oedran. |
| 3.1.10 | *"Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi bod dosbarthiadau mwy yn well. Fodd bynnag, mae adborth gan gyn-athrawon yn awgrymu mai'r lleiaf yw maint y dosbarth, y gorau."* | |
| 3.1.11 | Nodir bod y teulu'n dymuno i'w plentyn fynychu Ysgol Nebo pan fydd yn cyrraedd oed ysgol, gan fod dosbarthiadau bach a sylw mwy pwrpasol gan athro/athrawes yn cael eu hystyried yn fuddiol. Nodir rhyngweithio a pherthnasoedd cymunedol yr ysgol fel rhan o brofiad addysg "cyflawn" a chytbwys. | |

### 3.2 Oedran cymysg, datblygiad cymdeithasol a llesiant

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 3.2.1 | Cwestiynir sail ddamcaniaethol a pholisi addysgol y ddogfen ymgynghori, gan honni ei bod yn seiliedig ar ragdybiaeth bod addysgu mewn grwpiau mawr o ddysgwyr o'r un oed yn cynnig profiadau dysgu gwell na'r hyn a ddarperir mewn ysgolion bach gwledig â dosbarthiadau oedran gymysg. Dadleuir bod ysgolion fel Ysgol Nebo yn cynnig model addysgol amgen â manteision datblygiadol a llesiant, gan gynnwys perthnasoedd rhyng-oedran cryfach, mwy o gefnogaeth unigol, a mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ymarferol ac ymgysylltiad cymunedol.<br><br>Mynegir pryder penodol ynghylch casgliadau'r asesiad effaith addysgol, sy'n awgrymu effaith gadarnhaol o symud dysgwyr i ysgol fwy ar sail bod mwy o gyfoedion o'r un oed. Yn ôl y sylw, dylid ystyried bod arolygon diweddar y ddwy ysgol wedi'u hasesu'n "Dda", ac felly gallai'r effaith fod yn niwtral, neu o bosibl andwyol, o safbwynt datblygiad cymdeithasol a llesiant. Cyfeirir at dystiolaeth ddamcaniaethol i gefnogi'r farn bod lleoliadau un-oed mawr yn gallu lleihau cysylltiad â modelau oedolion a chryfhau diwylliant sy'n canolbwyntio'n ormodol ar gyfoedion.<br><br>Yn ogystal, pwysleisir bod ysgolion bach yn gallu cynnig profiadau addysgol ehangach a mwy hyblyg, megis teithiau mwy aml, dysgu yn yr awyr agored, a chysylltiadau cryfach â'r gymuned leol, sy'n cael eu gweld fel cyfraniad uniongyrchol at lesiant dysgwyr. Dadleuir mai'r un fantais glir o gau'r ysgol a | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n tynnu sylw at fanteision posibl addysg mewn lleoliad oedran gymysg, yn enwedig o safbwynt datblygiad cymdeithasol, perthnasoedd rhwng disgyblion o wahanol oedrannau, a chefnogi llesiant a hyder plant mewn ysgolion bach gwledig. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r safbwynt a fynegwyd gan rai ymatebwyr fod dosbarthiadau aml-oedran yn gallu gweithredu fel amgylchedd teuluol estynedig, lle mae disgyblion hŷn yn cefnogi rhai iau ac yn cyfrannu at brofiadau cymdeithasol cadarnhaol, a bod modelau o'r fath yn anodd eu hefelychu mewn ysgolion mwy.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe'i cynhwyswyd fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori statudol. Yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, cafodd yr Asesiad Effaith ei ddiweddaru i adlewyrchu'r materion a godwyd, gan gynnwys y safbwyntiau yma. Fodd bynnag, nid yw'r diweddariad hwn wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiad.<br><br>Mae'r asesiad diwygiedig yn cydnabod, ar sail arolygiad Estyn diweddaraf Ysgol Nebo, fod yr ysgol wedi'i gwerthuso fel 'Da' yn y maes llesiant ac agweddau at ddysgu. |

<table>
<tr><td></td><td>nodir yw arbedion ariannol i’r Adran Addysg, a chodir cwestiwn a yw’r pwyslais hwn ar arbedion yn unig yn cydymffurfio â dyletswyddau’r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, sydd yn gofyn am ystyried effeithiau cymdeithasol a llesiant ehangach yn ogystal â chostau uniongyrchol.</td><td rowspan="3">Yn y cyd-destun hwn, mae’n bwysig nodi bod Ysgol Nebo yn cael ei hadolygu am ei bod yn wynebu heriau sylweddol a pharhaus, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel dros gyfnod estynedig, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy’n parhau’n isel yn y tymor canolig a’r tymor hir. Yn ogystal, dengys y dystiolaeth fod patrymau dewis yn y dalgylch wedi arwain at y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill.<br><br>Fodd bynnag, ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu’r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith y byddai gweithredu’r cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo’r dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Mae’r asesiad yn nodi bod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb, fan lleiaf, i’r safon a ddarperir yn Ysgol Nebo ar hyn o bryd, a bod yr ysgol amgen yn gallu cynnig cyfleoedd ehangach i ddysgwyr gael eu haddysgu ochr yn ochr â mwy o gyfoedion o’r un oedran.<br><br>O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi’r safbwyntiau a fynegwyd o blaid addysg oedran gymysg, ynghyd â’r manteision posibl i ddatblygiad cymdeithasol a llesiant rhai dysgwyr, mae Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y’i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, yn dod i’r un casgliad. Deuir i’r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo. Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i’r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.</td></tr>
<tr><td>3.2.2</td><td>“Mae ysgolion bach fel Nebo yn cynnig sylw unigol, dosbarthiadau llai, a chymorth personol sy’n hanfodol i gynnydd academaidd a lles emosiynol. Bydd symud i ysgol fwy yn lleihau’r cyfleoedd hyn ac yn gallu achosi straen i blant, yn enwedig y rhai iau. Mae’r cyngor yn credu y bydd colli’r amgylchedd cynnes a chymunedol yn cael effaith negyddol ar hyder a datblygiad cymdeithasol plant.”</td></tr>
<tr><td>3.2.3</td><td>“Hefyd, mae plant sydd yn teimlo dieithriad yn fwy tebygol o deimlo'n fwy hyderus mewn ysgol fach lle mae gan athrawon a chynorthwywyr ofal drostynt.”</td></tr>
</table>

**3.3 Ysgolion bach gwledig: ymdeimlad o berthyn, cymuned, llesiant disgyblion a rôl ehangach yr ysgol o fewn yr ardal leol**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 3.3.1 | Pwysleisir pwysigrwydd ymdeimlad o berthyn i blant sy'n tyfu i fyny mewn ardaloedd gwledig. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio rôl ysgolion bach gwledig wrth feithrin ymdeimlad cryf o berthyn, cymuned glos, a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion, teuluoedd a staff. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a wnaed yn tynnu sylw at y cyfleoedd ychwanegol a allai fod ar gael i ddisgyblion mewn ysgolion bach i gymryd rhan mewn gweithgareddau, prosiectau cymunedol a dysgu yn yr awyr agored, gan gyfoethogi profiad ysgol a chefnogi llesiant a hyder plant sy'n tyfu i fyny mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd gan rai ymatebwyr fod ysgolion bach yn chwarae rôl ehangach o fewn y gymuned leol, gan gynnwys defnyddio adnoddau lleol, cefnogi gweithgarwch economaidd lleol, a chyfrannu at gynaliadwyedd ehangach megis lleihau'r angen i deithio.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, cafodd effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safonau addysg ei hasesu. Er bod yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg wedi'i ddiweddaru yn dilyn ystyried y sylwadau hyn, nid yw'r ystyriaethau ychwanegol wedi arwain at newid i gasgliad yr asesiad.<br><br>Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi bod Ysgol Nebo yn cael ei hadolygu am ei bod yn wynebu heriau sylweddol a pharhaus, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel dros gyfnod estynedig, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yn ogystal, dengys y dystiolaeth fod patrymau dewis yn y dalgylch wedi arwain at y mwyafrif o ddysgwyr yn mynychu ysgolion eraill.<br>O ganlyniad, er bod y Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch gwerth cymunedol ac addysgol ysgol fach wledig fel Ysgol Nebo, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg, fel y'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad, pe gweithredir y cynnig, y byddai'r ddarpariaeth amgen yn Ysgol Llanllyfni yn gallu cynnig trefniant addysgol sy'n parhau i gefnogi ansawdd a safonau addysg addas i ddysgwyr y dalgylch. |
| 3.3.2 | Nodir bod ysgolion gwledig bach yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned lle mae disgyblion, rhieni a staff yn adnabod ei gilydd yn dda. | |
| 3.3.3 | Amlygir bod disgyblion mewn ysgolion bach yn cael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau, gan gyfoethogi eu profiad ysgol. | |
| 3.3.4 | Nodir bod ysgolion gwledig yn cynnig cyfleoedd cryf ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a phrofiadau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol. | |
| 3.3.5 | Nodir bod ysgolion bach yn aml yn defnyddio adnoddau lleol, gan leihau'r ôl troed carbon a chefnogi'r economi leol. | |
| 3.3.6 | Mynegir y farn ei bod yn bwysig i gymunedau gadw ysgolion gwledig bach ar agor er mwyn sicrhau dyfodol gwell i blant. | |
| 3.3.7 | *"Fy mhrif amcan yw codi ymwybyddiaeth o ba mor hanfodol ac angenrheidiol yw'r ysgolion hyn mewn cymunedau, gan eu bod nid yn unig yn darparu hafan ddiogel i blant, ond hefyd yn cefnogi iechyd meddwl, hapusrwydd, tegwch a dealltwriaeth. Mewn amgylchedd o'r fath, mae plant yn ffynnu gyda'r nod o wireddu eu potensial llawn."* | |

**4. Sylwadau o blaid y cynnig i gau Ysgol Nebo**

**4.1 Gwerth am arian, cost y pen a thegwch ariannol**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 4.1.1 | "Cefnogaf y cynnig yn gryf. Mae parhau I gynnal y ddwy ysgol tra bod eu niferoedd cyn ised, eu llefydd gweigion cymaint a'r gost y pen cyn uched mewn hinsawdd ariannol heriol yn anheg, afresymol ac anfoesol. Mae'n warthus fod ysgolion sydd a chost y pen o £5–6k yn wynebu trefniadau 'gormodedd' tra bod ysgolion bychan iawn a chost y pen o 3 neu 4 gwaith hynny yn cael eu gwarchod." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 4.1.2 | "Rwyf yn cytuno y dylid cau yr ysgol gan nad yw'n cynnig gwerth am arian. ae'n hollol hurt bod cyn gymaint o adnoddau yn cael eu rhoi i addysgu criw mor fach a hynny ar draul ysgolion mwy...Mi fydd yn llesol i blant Nebo gymysgu a chymdeithasu â mwy o blant o'r un oed." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 4.1.3 | Mynegir cefnogaeth i gau'r ysgol ar sail barn nad yw'r ddarpariaeth yn cynnig gwerth digonol am arian, gyda'r farn na fyddai colli'r ysgol yn effeithio'n sylweddol gan y gellid trosglwyddo disgyblion i Ysgol Llanllyfni. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

**4.2 Manteision canfyddedig ysgolion mwy a dosbarthiadau un oedran**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 4.2.1 | "Yn gyffredinol credaf fod profiad fy mhlant o 'ysgol fawr' yn un mwy cadarnhaol na phrofiad eu cyfoedion mewn 'ysgolion bach'.... mae dosbarth un flwyddyn yn golygu fod holl l gynnwys gwersi yn berthnasol iddynt - i'r gwrthwyneb i'r sefyllfa mewn dosbarth<br>oedran cymysg ble mae'n rhaid i'r athrawon rannu eu hamser rhwng nifer o oedrannau (5 mlynedd mewn un dosbarth y gwn amdano!...mae ganddynt fwy o gyfoedion a dewis ehangach o ffrindiau o'u hoed...maent yn dod I gyswllt ac yn ymwneud â nifer o blant o ystod o gefndiroedd sydd yn brofiad llawer mwy cynrychioladwy o'r hyn sydd i'w haros mewn cymdeithas ehangach... ...dylai ysgolion cynradd baratoi disgyblion ar gyfer yr uwchradd - dychmygaf fod symud o ysgol gynradd o lai na 20 I ysgol uwchradd 20 gwaith y maint yn wirioneddol frawychus" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

**4.3 Rhesymoli'r ddarpariaeth ysgolion a newidiadau demograffig**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 4.3.1 | "mae llawer mwy o ysgolion na sydd angen, maent yn adlewyrchiad o anghenion cymdeithas 100 mlynedd a mwy yn ol pan oedd dosbarthiad poblogaeth yn wahanol a pobol yn llawer mwy cyfyngedig eu symudiad. Mae teithio llawer haws heddiw ac nid oes angen cynifer o ysgolion mor agos i'w gilydd. Mae pobol yn gwbl fodlon ac yn dewis teithio I ysgol ac eithrio'r agosaf fel tystiolaetha niferoedd disgyblion all dalgylch" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

**5. Effaith y cynnig ar lesiant, gofal unigol a phrofiad addysgol ddysgwyr presennol Ysgol Nebo**

**5.1 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith newid ysgol ac ail-leoli dysgwyr ar lesiant emosiynol, addasu cymdeithasol a grwpiau bregus**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.1.1 | "Mae'r syniad o symud disgyblion i Ysgol Llanllyfni yn codi pryderon ynghylch teithio, lles disgyblion, ac effaith emosiynol newid ysgol, yn enwedig i blant iau. Gallai hyn effeithio ar eu hyder, eu hymdeimlad o berthyn, a'u profiad addysgol cyffredinol... Gallai newid ysgol arwain at lefelau uwch o straen a phryder ymhlith disgyblion, yn enwedig i blant iau sydd yn teimlo'n sownd wrth newid eu trefn a'u cyfeillion. Mae cysylltiad emosiynol gyda'r ysgol presennol yn bwysig i llesiant a datblygiad plant." | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch yr effaith bosibl o ail-leoli dysgwyr presennol Ysgol Nebo i ysgol fwy, yn enwedig o safbwynt llesiant emosiynol, addasu cymdeithasol a hyder plant iau a dysgwyr bregus. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r pryderon a fynegwyd y gallai symud o amgylchedd ysgol fechan, gyda dosbarthiadau bach a chefnogaeth bersonol, i leoliad gyda dosbarthiadau mwy ei gwneud yn anos i rai disgyblion addasu, ffurfio cyfeillgarwch newydd ac ymdeimlo'n rhan o'r gymuned ysgol, gan gynnwys pryderon ynghylch risg o fwlio a'r effaith ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r Cyngor yn nodi hefyd y pryderon a godwyd ynghylch dysgwyr sydd eisoes wedi symud ysgol yn y gorffennol, gan nodi y gallai ail-leoli pellach, neu ddychwelyd i ysgolion a adawyd eisoes, arwain at effaith anghymesur ar eu llesiant emosiynol. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn nodi'r cyfeiriadau a wnaed at effaith bosibl y cynnig ar rai grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys plant nad ydynt mewn addysg brif ffrwd ar hyn o bryd, a'r modd y gallai trefniadau addysgol priodol a chefnogol chwarae rôl wrth gefnogi eu llesiant a'u datblygiad hirdymor. |
| 5.1.2 | Mynegir pryder ynghylch sut y byddai plant yn addasu i ysgol newydd gyda staff a disgyblion dieithr. | |
| 5.1.3 | *"Mae iechyd meddwl plant yn destun pryder dwfn... oni bai bod y rhai sydd â'r grym i weithredu yn gwneud hynny ar unwaith, bydd yr effaith i'w theimlo am genedlaethau... Mae'n amlwg nad yw addysg draddodiadol yn gweithio i bawb; mae strwythur anhyblyg yr ystafell ddosbarth—ynghyd â dull 'un ateb i bawb' yn y cwricwlwm presennol—yn peri heriau sylweddol ac yn cael effaith andwyol ar ddatblygiad academaidd, emosiynol a chymdeithasol plant, yn ogystal â'u gallu i ffynnu. Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru (02/20) nad yw chwarter y bobl ifanc yng Nghymru yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth iechyd meddwl yn yr ysgol. Mae'n debygol iawn bod y ffigur hwn wedi cynyddu erbyn 2025, sy'n peri pryder mawr."* | |

<table>
<tr><td>5.1.4</td><td>“Yn yr ymgynghoriad, nid oes unrhyw ystyriaeth niwed tymor hir i'r disgyblion presennol sydd am gael eu ail leoli o Ysgol Nebo…Nid oes darlun clir a realistic yn yr ymgynghoriad o'r effaith mae cau Ysgol Nebo am gael os yw'r plant am fynychu Ysgol Llanllyfni.”</td><td rowspan="7">Mae’r Cyngor wedi ystyried y sylwadau hyn wrth gynnal a diweddaru’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a’r Asesiad Effaith Llesiant.<br><br>Mae’r Cyngor yn nodi bod Ysgol Llanllyfni, fel Ysgol Nebo, yn ddarostyngedig i’r un dyletswyddau statudol o ran llesiant, diogelu a chynhwysiant, ac yn gweithredu polisïau i gefnogi anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio cynlluniedig a chymesur yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion unigol drwy’r newid, gan gynnwys cyfleoedd i ymgyfarwyddo â’r ysgol amgen, cyfathrebu clir â rhieni a gofalwyr, a darparu cefnogaeth briodol.<br><br>Er bod yr asesiadau effaith wedi’u diweddaru i nodi ac ystyried y sylwadau hyn, nid yw’r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu’r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg, gan fod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn gyfwerth, fan leiaf, â’r ddarpariaeth bresennol o ran ansawdd a safonau addysg. Yn ogystal, mae’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a’r Asesiad Effaith Llesiant yn nodi’r angen i sicrhau trefniadau pontio priodol a chymorth wedi’i deilwra i ddysgwyr unigol pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu.</td></tr>
<tr><td>5.1.5</td><td>“Mae Cyngor Gwynedd yn datgan bod ei gynnig er budd addysgol gorau’r plant, ond sut y mae o fudd i ddatblygiad y plant hyn eu dadwreiddio o’r nyth lle maent wedi’u meithrin ers blynyddoedd y feithrinfa, ar yr oedran mwyaf dylanwadol pan fyddant leiaf galluog i ymdopi â newid, a’u hanfon i amgylchedd mwy lle mae’n debygol y cânt eu trin fel newydd-ddyfodiaid gan eu cyfoedion, yn cael trafferth gwneud ffrindiau newydd ac o bosibl yn agored i fwlio.”</td></tr>
<tr><td>5.1.6</td><td>“A fyddai rai o’r plant presennol yma yn Ysgol Nebo yn gallu ymdopi wrth gael eu taflu mewn i ysgol arall gyda dosbarth â 30+ o blant?”</td></tr>
<tr><td>5.1.7</td><td>Mynegir pryder y gallai symud y dysgwyr presennol i garfan fwy fod yn niweidiol, yn enwedig i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.</td></tr>
<tr><td>5.1.8</td><td>“Mae’r mwyafrif o’r plant yn Ysgol Nebo wedi trosglwyddo yno o ysgolion eraill lle nad oedd eu rhieni’n fodlon ar yr addysg a ddarparwyd. Byddai gorfodi’r plant hyn i fynychu trydedd ysgol, neu ddychwelyd i’r ysgolion yr oeddent wedi’u gadael, yn cael effaith anghymesur ar eu llesiant.”</td></tr>
<tr><td>5.1.9</td><td>“O ran yr effaith ar rai grwpiau penodol o bobl, mae’r sylwadau uchod ynghylch plant sy’n osgoi addysg brif ffrwd ar hyn o bryd yn sicr yn berthnasol. Os nad yw safon eu haddysg gartref bresennol yn dda, mae’r tebygolrwydd y byddant yn profi anfantais gymdeithasol-economaidd yn nes ymlaen mewn bywyd yn cynyddu. Bydd integreiddio ag ysgol, hyd yn oed ar sail rhan-amser, yn darparu rhyngweithio cymdeithasol buddiol gyda’u cyfoedion, a all ond bod o fudd iddynt yn ddiweddarach mewn bywyd.”</td></tr>
<tr><td>5.1.10</td><td>Nodir y byddai cau’r ysgol yn anfantais i blant a phobl ifanc y gymuned, ac yn arbennig i’r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.</td></tr>
<tr><td>5.1.11</td><td>Nodir y byddai cau’r ysgol yn tanseilio sefydlogrwydd teuluoedd ac yn achosi straen emosiynol.</td><td>Fel uchod</td></tr>
</table>

**5.2 Pryderon ymatebwyr ynghylch effaith anghymesur cau'r ysgol ar ddysgwyr bregus, cefnogaeth unigol a darpariaeth ADY**

<table>
<tr><th></th><th>Sylw</th><th>Ymateb y Cyngor</th></tr>
<tr><td>5.2.1</td><td>"Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith anghymesur y byddai cau'r ysgol yn ei chael ar rai grwpiau o blant a theuluoedd sydd â nodweddion cydraddoldeb neu sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Gallai plant ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau neu anghenion emosiynol wynebu heriau ychwanegol wrth addasu i ysgol fwy o faint, gyda llai o adnabyddiaeth unigol a mwy o symudedd dyddiol. Mae ysgol fechan wledig yn aml yn darparu amgylchedd cynhwysol a chefnogol lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hadnabod yn unigol, rhywbeth sy'n arbennig o bwysig i blant sydd eisoes mewn perygl o anfantais. Felly, byddai cau'r ysgol yn debygol o waethygu anghydraddoldebau presennol ac yn methu â chefnogi egwyddor mynediad cyfartal at addysg addas o fewn pob cymuned."</td><td rowspan="5">Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo a symud dysgwyr i ysgolion mwy ar rai grwpiau o ddysgwyr, yn enwedig y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, anghenion emosiynol neu iechyd meddwl, a'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Cyngor hefyd y nodi'r pryderon a fynegwyd y gallai colli amgylchedd ysgol fechan gyda sylw unigol a chefnogaeth bersonol gynyddu'r heriau o addasu ac effeithio'n anghymesur ar lesiant a hyder rhai disgyblion, yn enwedig y rhai sydd eisoes wedi profi anawsterau neu newid ysgol yn y gorffennol.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ystyried y sylwadau hyn wrth gynnal a diweddaru'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg yn dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen arfaethedig yn cyfateb, fan leiaf, i'r ddarpariaeth bresennol o ran ansawdd a safonau addysg. Nodir bod ysgolion â niferoedd uwch o ddysgwyr yn gallu cynnig map darpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy ffurfiol, a gwell capasiti i gydlynu cefnogaeth ADY ac ymyriadau penodol, sy'n gallu lliniaru rhai o'r risgiau a nodwyd gan ymatebwyr. Mae'r asesiadau hefyd yn nodi bod unrhyw benderfyniad i weithredu'r cynnig yn gofyn am gynllunio pontio gofalus, gyda chefnogaeth wedi'i theilwra i ddysgwyr unigol, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.<br><br>Er bod yr Asesiadau Effaith wedi'u diweddaru i adlewyrchu ac ystyried y sylwadau hyn, nid yw'r sylwadau a dderbyniwyd wedi arwain at newid yng nghasgliad cyffredinol yr asesiadau. Mae'r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg yn nodi bod effaith debygol gweithredu'r cynnig yn niwtral neu'n rannol bositif o ran ansawdd a safonau addysg, tra bod yr Asesiad</td></tr>
<tr><td>5.2.2</td><td>"A yw'r niwed hirdymor i ddisgyblion presennol sy'n symud i ysgolion mwy wedi cael ei ystyried o gwbl? Unwaith y bydd yr ysgol yn cau, bydd 12 o bobl ifanc mewn ysgolion dieithr, gyda llawer llai o sylw unigol nag a gânt yn Ysgol Nebo. I lawer sydd wedi dewis dod yma, mae hyn yn debygol o fod yn niweidiol iawn iddynt."</td></tr>
<tr><td>5.2.3</td><td>"Unwaith y bydd yr ysgol yn cau, bydd 12 o bobl ifanc mewn ysgolion dieithr, gyda llawer llai o'r sylw unigol a gânt yn Ysgol Nebo… Mae hyn yn debygol o fod yn hynod niweidiol iddynt."</td></tr>
<tr><td>5.2.4</td><td>"A yw'r niwed hirdymor i ddisgyblion presennol o symud i ysgolion mwy wedi cael ei ystyried o gwbl? Unwaith y bydd yr ysgol yn cau, bydd 12 o bobl ifanc mewn ysgolion dieithr, gyda llawer llai o'r sylw unigol a gânt yn Ysgol Nebo. I lawer sydd wedi dewis dod yma, mae hyn yn debygol o fod yn hynod niweidiol iddynt. Mae'r rhesymau dros y dewis hwnnw'n cael eu hystyried o ddifrif gan dîm addysgu Ysgol Nebo, ac mae'r plant yn cael gofal a sylw penodol i fynd i'r afael â'r rhesymau hynny."</td></tr>
<tr><td>5.2.5</td><td>"Byddai cau Ysgol Nebo yn effeithio cefnogaeth ADY disgyblion, ar les y disgyblion ac ar y gefnogaeth a'r sylw arbennig, unigol sydd yma ar gyfer pob disgybl."</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| 5.2.6 | *"Unwaith y bydd yr ysgol yn cau, bydd 12 o bobl ifanc mewn ysgolion dieithr, gyda llawer llai o'r sylw unigol a'r gefnogaeth y maent yn eu derbyn yn Ysgol Nebo. I lawer sydd wedi dewis dod yma, mae hyn yn debygol o fod yn hynod niweidiol. Mae'r rhesymau dros y dewis hwnnw'n cael eu hystyried o ddifrif gan dîm addysgu Ysgol Nebo, ac mae'r plant yn cael gofal a sylw penodol i fynd i'r afael â'r rhesymau hynny."* | Effaith Cydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Llesiant yn pwysleisio'r angen i sicrhau mesurau lliniaru priodol, gan gynnwys trefniadau pontio cynlluniedig a chymorth priodol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |
| 5.2.7 | "Byddai cau Ysgol Nebo yn effeithio cefnogaeth ADY disgyblion, ar les y disgyblion ac ar y gefnogaeth a'r sylw arbennig, unigol sydd yma ar gyfer pob disgybl." | Fel uchod. |
| 5.2.8 | Pwysleisir bod plentyn ag ADY yn elwa ar yr ysgol bresennol lle mae oedolion yn adnabod ei anghenion yn dda, gyda phryder y byddai symud yn tarfu ar hyn. | Fel uchod. |
| 5.2.9 | "Mae hawl gan bob disgybl i dderbyn addysg o safon uchel- mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd yn profi anawsterau emosiynol a/neu iechyd meddwl." "Mae cau ysgolion bach yn golygu bob pop disgybl yn cael eu gorfodi i fynychu dosbarthiadau mawr sydd yn niweidiol i nifer fawr ohonynt." | Fel uchod. |
| 5.2.10 | *"Er bod diagnosis ar gael i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), mae llawer o blant eraill sydd ag anawsterau neu broblemau sydd hefyd angen math gwahanol o gefnogaeth. Yn aml, nid yw hyn yn bosibl mewn ysgolion mwy..."* | Fel uchod. |
| 5.2.11 | "Mae'n amlwg bod y Cyngor ddim yn gallu gweld y cyfle a chyfrifoldeb i helpu plant sy'n methu ymdopi â dosbarthiadau mawr, yn ddioddef o ADY neu yn cael eu bwlio mewn ysgol arall, ac felly gallent ddisgyn allan o addysg llawn amser." | Fel uchod. |
| 5.2.12 | "Mae'r plant yr ysgol yn cael y cynnigion gorau nad ydi Ysgolion Gynradd y dal cylch yn ei cynnig gan ei bod nhw efo niferoedd uchel o ddisgyblion. Mae'r plant yn gal y sylw a chwarae teg gorau gan y'r athrawon na chaiff mewn ysgol gynradd 'fawr' arall." | Fel uchod. |
| 5.2.13 | Mynegir pryder am effaith symud disgyblion presennol i ysgolion mwy, gan golli'r sylw unigol a'r gofal pwrpasol a geir mewn ysgol fach. | Fel uchod. |
| 5.2.14 | Nodir pryder y byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith andwyol ar blant ag anghenion cymhleth nad ydynt yn ymdopi mewn ysgolion mwy. | Fel uchod. |

**5.3 Effaith bosibl ar berthnasoedd cymdeithasol a llesiant dysgwyr**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.3.1 | Mynegir pryder y gallai trosglwyddo i ysgol fwy arwain at deimlad o "Ni" a "Nhw" i blant Nebo a plant Llanllyfni. | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch yr effaith bosibl y gallai trosglwyddo dysgwyr i ysgol fwy ei chael ar addasu cymdeithasol, ymdeimlad o berthyn, a llesiant rhai plant. Mae'r pryderon hyn wedi'u nodi a'u hystyried wrth ddiweddaru'r Asesiadau Effaith perthnasol, sy'n pwysleisio'r angen am drefniadau pontio cynlluniedig a chefnogaeth briodol i gefnogi integreiddio dysgwyr, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |
| 5.3.2 | Nodir y byddai gorfodi plant i symud i ysgolion anghyfarwydd yn amharu ar eu datblygiad cymdeithasol ac ar eu cynnydd academaidd. | |
| 5.3.3 | *"Mae'n eithaf trist clywed fy mhlant i a rhieni eraill yn cynhyrfu am blant eraill sy'n cael trafferthion gyda newidiadau mawr, ac sy'n ymddwyn allan neu'n arddangos ymddygiad gwael ac aflonyddgar yn gyson yn y dosbarth."* | |

**5.4 Ystyriaeth o lais y plentyn a llesiant dysgwyr presennol**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.4.1 | "Ydy'r effaith fydd symud 12 o blant sydd eisiau aros yn Ysgol Nebo i ysgolion mwy yn cael ei ystyried o gwbl? Pa mor bwysig fydd llais y plant? Gan bod rhai o'r rhieni wedi dewis danfon eu plant yma i Nebo oherwydd safon yr addysg a'r gofal a'r awyrgylch gartrefol, saff sydd yma, mae symud y plant yn debygol o fod yn niweidiol iawn." | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch llesiant a phrofiad dysgwyr presennol Ysgol Nebo, gan gynnwys pwysigrwydd llais y plentyn a'r effaith bosibl y gallai symud i ysgol fwy ei chael ar rai dysgwyr.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gwnaed trefniadau penodol i sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei chasglu fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau dynodedig gyda grwpiau o ddysgwyr o Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, wedi'u hwyluso'n briodol, er mwyn rhoi cyfle i'r plant drafod y cynnig, mynegi eu safbwyntiau a chwblhau holiadur. Yn ogystal, roedd dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb ar gyfer plant a phobl ifanc ar gael ar wefan y Cyngor, gan alluogi dysgwyr nad oeddent wedi mynychu sesiwn yn eu hysgol i gyflwyno eu barn hefyd. Mae crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd gan y dysgwyr wedi'i gynnwys yn Adran 3 o Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori. |
| 5.4.2 | "Pa mor bwysig fydd llais y plant? Gan bod rhai o'r rhieni wedi dewis danfon eu plant i Nebo oherwydd safon yr addysg a'r gofal a'r awyrgylch gartrefol, saff sydd yma, mae symud y plant yn debygol o fod yn niweidiol iawn" | |
| 5.4.3 | Mynegir pryder nad yw lles a phrofiad disgyblion presennol wedi cael digon o sylw yn y cynnig i gau. | |

**5.5 Effaith bosibl ar ddysgwyr a drosglwyddodd i Nebo am resymau llesiant**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.5.1 | *"Mater neu effaith arall i'w hystyried yw'r effaith ar y plant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd pe bai'n cau. Mewn llawer o achosion, mae'r rhain yn blant a oedd wedi osgoi neu'n anfodlon ar ysgolion yn flaenorol, a fyddai bellach yn cael eu gorfodi i fynychu ysgol fwy o'r math y gallent fod wedi'i gadael o'r blaen. Gallai hyn arwain at rai'n gadael y system eto a dychwelyd i addysg gartref, gan gynyddu'r niferoedd hynny ymhellach. Fel y nodwyd eisoes, mae llawer yn teithio o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Nebo yn benodol er mwyn mynychu 'ein' hysgol. Ar hyn o bryd, mae'r rhesymau dros y dewis hwnnw'n cael eu hystyried o ddifrif gan dîm addysgu Ysgol Nebo, ac mae'r plant yn cael gofal a sylw penodol i fynd i'r afael â'r rhesymau hynny."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr sydd wedi trosglwyddo i Ysgol Nebo am resymau llesiant neu brofiadau addysgol blaenorol negyddol.<br><br>Mae'r materion hyn wedi'u nodi a'u hystyried drwy'r Asesiadau Effaith perthnasol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio cynlluniedig yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr yr effeithir arnynt. |
| 5.5.2 | Nodir bod nifer o ddisgyblion wedi trosglwyddo i'r ysgol am resymau llesiant, ac wedi setlo'n dda; mynegir pryder y byddai cau'r ysgol cael effaith negyddol ar lesiant y dysgwyr yma. | |
| 5.5.3 | Tynnir sylw at y risg bod rhai disgyblion yn mynychu Ysgol Nebo am nad oeddent, am wahanol resymau, yn gallu mynychu eu hysgol ddalgylch; gan ofyn pa ddarpariaeth amgen fyddai ar gael iddynt pe bai'r ysgol yn cau, a beth fyddai goblygiadau ariannol hynny i'r Cyngor. | |

**5.6 Beirniadaeth o'r asesiad llesiant a'r ystyriaeth a roddir i effaith cau ar ddisgyblion presennol**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.6.1 | *"Mae'r papur gwreiddiol yn diystyru disgyblion Nebo fel unigolion sy'n haeddu ystyriaeth... Nid oes unrhyw gyfeiriad at lesiant yr unigolion y byddai cau'r ysgol yn tarfu ar eu bywydau ac yn chwalu eu cymunedau. Wrth ystyried Opsiwn 4, sef cau'r ysgol, o dan y pennawd llesiant, caiff unrhyw effaith ar lesiant disgyblion ei ddiystyru ar y sail bod llesiant yn Llanllyfni yr un mor dda ag yn Nebo. Mae hyn yn colli'r pwynt yn llwyr – byddai profi'r aflonyddwch o ganlyniad i gau ysgol yn amlwg yn cael effaith negyddol ar lesiant disgyblion."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch y posibilrwydd y gallai cau'r ysgol, a'r effaith andwyol cysylltiedig bosib, gael effaith ar lesiant a phrofiad dysgwyr presennol. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth adolygu'r Asesiadau Effaith, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Llesiant a'r Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg.<br><br>Er bod yr asesiadau'n dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen yn cyfateb fan leiaf i'r ddarpariaeth bresennol, maent hefyd yn pwysleisio'r angen am drefniadau pontio cynlluniedig a chefnogaeth briodol i leihau unrhyw effaith andwyol ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |
| 5.6.2 | *"Credwn y byddai'n fuddiol i'r asesiadau ystyried yn fanylach yr effaith ar lesiant a chynnydd addysgol y disgyblion presennol o symud i ysgolion mwy."* | |

**5.7 Blaenoriaethu costau ariannol dros lesiant a phrofiad addysgol plant**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 5.7.1 | Cwestiynir a ddylid rhoi cost ariannol uwchlaw lles a phrofiad addysgol plant. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Mae'r adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo wedi'i seilio ar gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang a rhagamcanion sy'n dangos y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir.<br>Mae llesiant, profiad addysgol a budd gorau dysgwyr wedi eu hystyried drwy'r Asesiadau Effaith perthnasol. |
| 5.7.2 | Dadleuir y gallai cau'r ysgol arwain at gostau uwch yn nhermau cefnogaeth a fydd angen ei ddarparu i rai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn hytrach nag arwain at arbedion. Nodir beirniadaeth o'r Cyngor yn rhoi pwyslais ar arbedion ariannol dros anghenion plant bregus. Nodir apêl i roi budd gorau plant, plant ag ADY a'r gymuned uwchlaw ystyriaethau ariannol. | |

**6. Effaith ar y Gymuned**

**6.1 Yr ysgol fel calon, canolbwynt cymdeithasol ac ased cymunedol hanfodol i Nebo a Nasareth**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 6.1.1 | "...gan fod nebo a nasareth yn bentrefi bach gwledig sydd yn eithaf pell o popeth arall, teimlo bod cael yr ysgol yn y pentre yn 'hwb' i'r pentre sydd yn dod a pawb at ei gilydd. Mae hyn yn 'lifeline' i lot o bobl hyn y penref, rhywle diogel cyfarwydd i bawb. Heb yr ysgol dwi wir yn teimlo mi fysa pentre nebo ddim yn ur fath." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n pwysleisio gwerth Ysgol Nebo fel man cyfarfod, canolfan gweithgareddau lleol, a ffocws i hunaniaeth a chydlyniant cymunedol o fewn pentref gwledig sydd â chyfyngedig iawn o gyfleusterau cymunedol eraill.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Nebo ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried yn llawn y sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai.<br><br>Fel y nodir yng nghasgliad yr Asesiad Effaith ar y Gymuned diweddaraf, barn y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned leol pe bai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu, yn benodol o safbwynt colli canolbwynt cymunedol mewn ardal wledig. Mae'r casgliad hwn wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth berthnasol, ynghyd â'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi y byddai unrhyw benderfyniad pellach yn rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith ar y Gymuned, ynghyd â'r camau lliniaru a nodir |
| 6.1.2 | *"Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned, gan ddod â hi ynghyd ar gyfer dathliadau, digwyddiadau chwaraeon bach a nosweithiau cymdeithasol. Nid ysgol yn unig mohoni, hi yw calon y pentref."* | |
| 6.1.3 | *"Mae'r ysgolion hyn hefyd yn gwasanaethu fel canolfannau cymunedol pwysig, gan greu ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd i deuluoedd."* | |
| 6.1.4 | *"Byddai'n golled fawr i'r gymuned gyfan."* | |
| 6.1.5 | *"Byddai cau ysgol gynradd fechan yn benderfyniad byr-weledol sy'n anwybyddu'r gwerth hirdymor y mae'r ysgol hon yn ei ddarparu i'r gymuned."* | |
| 6.1.6 | "Mae Ysgol Gynradd Nebo yn ganolog i fywyd a dyfodol ein pentref... mae hefyd yn gweithredu fel prif fan cymunedol mewn pentref lle nad oes unrhyw gyfleusterau eraill ar ôl – dim siop, dim swyddfa bost, dim capel nac unrhyw ganolbwynt cymdeithasol arall Mae'r ysgol felly'n fan lle daw teuluoedd at ei gilydd, lle cynhelir hunaniaeth a diwylliant Cymraeg, ac sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol. Byddai cau'r ysgol | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn tanseilio cynaliadwyedd y pentref yn sylweddol, gan wanhau'r gymuned leol a gorfodi plant i deithio ymhellach i gael addysg, gan golli'r cysylltiad hanfodol rhwng yr ysgol, y teuluoedd a'r gymuned Gymraeg wledig y mae'n ei gwasanaethu." | ynddo, gan gynnwys ystyriaeth o opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol pe bai penderfyniad i gau Ysgol Nebo yn cael ei wneud, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |
| 6.1.7 | Nodir mai'r ysgol yw'r unig fan cyfarfod yn y pentref, ac yn hollbwysig i ddod â'r gymuned ynghyd. Nodir nad oes siop na neuadd yn y pentref, gan nodi mai'r ysgol yw calon y pentref. | |
| 6.1.8 | "Yr ysgol yw calon y cymuned ag y plant bach." | |
| 6.1.9 | "yr ysgol yw calon Nebo a Nasareth, a'r unig adeilad cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio… Os caiff yr ysgol ei chau, collir hyn oll am byth." | |
| 6.1.10 | *"Mae Ysgol Nebo yn ysgol a chanolfan gymunedol leol. Pe bai'n cau, byddai hynny'n cael effaith ar y gymuned."* | Fel uchod. |
| 6.1.11 | *"Mae gwahaniaeth amlwg rhwng plant pentref Maesllwyn Nebo a'r ardal isaf yn Llanllyfni. Rwy'n credu bod rhieni wedi ffafrio naws deuluol fach Nebo erioed, ac mae Nebo wedi profi'n lle gwirioneddol gynnes a chyfeillgar i blant, gyda hynny'n cael effaith gadarnhaol ar gymuned y pentref."* | Fel uchod. |
| 6.1.12 | *"Mae'r ysgol wedi dod yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol yn y pentref – mae Pwyllgor Ardal hynod weithgar sy'n trefnu gweithgareddau a digwyddiadau rheolaidd yn yr ysgol. Bu nifer o sgyrsiau diddorol, yn Gymraeg ac yn Saesneg…"* | Fel uchod. |
| 6.1.13 | *"Mae Ysgol Gynradd Nebo yn ganolog i fywyd a dyfodol ein pentref. Nid yn unig y mae'n darparu addysg hanfodol i blant yn lleol, ond mae hefyd yn gweithredu fel prif ganolfan gymunedol mewn pentref lle nad oes unrhyw gyfleusterau eraill ar ôl – dim siop, dim swyddfa bost, dim capel nac unrhyw ganolbwynt cymdeithasol arall. Mae'r ysgol felly'n fan lle daw teuluoedd at ei gilydd, lle cynhelir hunaniaeth a diwylliant Cymraeg, ac sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn a chydlyniant cymunedol. Byddai cau'r ysgol yn tanseilio cynaliadwyedd y pentref yn sylweddol, gan wanhau'r gymuned leol a gorfodi plant i deithio ymhellach i gael addysg, gan golli'r cysylltiad hanfodol rhwng yr ysgol, y teuluoedd a'r gymuned Gymraeg wledig y mae'n ei gwasanaethu. Mae llawer mwy i'w ystyried yma na chostau gweithredu a ffigurau ariannol yn unig."* | Fel uchod. |
| 6.1.14 | *"Yr ysgol yw calon cymuned Nebo a Nasareth a'r unig adeilad cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio sy'n cynnig unrhyw obaith ar gyfer y dyfodol – mae'n ganolfan ar gyfer gwirfoddoli ac yn fan lle gall y gymuned a'r ysgol ddod at ei* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | *gilydd mewn digwyddiadau, gan ganiatáu i'r trigolion hŷn yn arbennig elwa o dreulio amser gyda'r rhai iau. Mae ganddi gymaint o hanes a chysylltiadau â phobl leol amrywiol sy'n helpu i addysgu plant am eu hanes. Os caiff yr ysgol ei chau, collir hyn oll yn anadferadwy."* | |
| 6.1.15 | *"Mae cymunedau Nebo a Nasareth yn cefnogi'n gryf gadw'r ysgol ar agor. I bob pwrpas, yr ysgol yw calon Nebo a Nasareth a'r unig adeilad cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio sy'n cynnig unrhyw obaith ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn adeilad â chymaint o hanes a chysylltiadau â phobl leol amrywiol sy'n helpu i addysgu plant am hanes. Os caiff yr ysgol ei chau, collir hyn oll yn anadferadwy."* | Fel uchod. |
| 6.1.16 | "Faint mor pwysig yw hwb cymunedol i'r trigolion ac y plant y pentref... Does dim lle o gwbl yn y pentref i'r cymuned heblaw am yr ysgol." | Fel uchod. |
| 6.1.17 | Nodir bod yr ysgol yn ganolbwynt i deuluoedd lleol ac yn lle hanfodol i'r gymuned gadw cysylltiad dros amser; byddai cau'r ysgol yn rhwygo'r gymuned. | Fel uchod. |
| 6.1.18 | "Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cartref i'r gymuned eang gan ddod a thrigolion a chymdogion ynghyd." | Fel uchod. |
| 6.1.19 | *"Yn amlwg, mae'r Undeb yn pryderu ynghylch colli ased cymunedol gwerthfawr sef ysgol leol i blant lleol. Mae'n deall ac yn gwerthfawrogi ystyriaethau'r awdurdod lleol, ac yn siomedig bod rhaid ystyried camau o'r fath. Byddai'r Undeb yn dymuno i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i achub yr ysgol, o ystyried agosrwydd yr ysgol i'r gymuned..."* | Fel uchod. |

**6.2 Pryderon ynghylch colli cydlyniant cymunedol, cysylltiadau traws-genhedlaethol, a'r effaith ar iechyd, llesiant ac unigrwydd pe bai Ysgol Nebo yn cau**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 6.2.1 | "Mae cymuned fywiog yma yn Nebo a Nasareth a'r ysgol yw calon y gymuned honno gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion. Pontio'r Cenedlaethau? Mae hyn yn digwydd yn hollol naturiol yma yn Nebo! A'r cyfan drwy'r Gymraeg! Dwi'n siwr y byddai Swyddog Gwynedd Oed-Gyfeillgar y Cyngor a Phencampwr Oed-Gyfeillgar... yn falch iawn o glywed am y gwaith arbennig sy'n digwydd yn Ysgol Nebo. Mae Clwb Dydd Llun yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn cymdeithasu gyda'r plant gan ddarparu cyfleoedd rhyngweithio, dysgu a chwarae ar | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau niferus a dderbyniwyd sy'n pwysleisio rôl bwysig Ysgol Nebo wrth gefnogi cydlyniant cymunedol, cynnal cysylltiadau traws-genhedlaethol, ac wrth gyfrannu at iechyd a llesiant trigolion Nebo a Nasareth, mewn pentref gwledig sydd â chyfyngedig iawn o gyfleusterau cymunedol eraill. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a wnaed yn tynnu sylw'n benodol at y ffaith bod yr ysgol yn cael ei hystyried yn fan cyfarfod hanfodol ac yn ganolbwynt i weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>draws y cenedlaethau. Yn ogystal, mae cyngherddau Nadolig, canu carolau, bore coffi Macmillan, gorymdaith a chyngerdd Gwyl Ddewi gyda’r plant yn gweini cawl i’r pentrefwyr –nifer o rhain yn bobl di Gymraeg sydd wedi symud i fyw, ond sy’n gwerthfawrogi y cyfle i glywed y Gymraeg a chefnogi’r ysgol. Mae’r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a’r cydweithio â’r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig.”</td>
<td rowspan="4">ieithyddol, gan ddarparu cyfleoedd rheolaidd i blant, teuluoedd a thrigolion hŷn ryngweithio drwy weithgareddau cymunedol megis Clwb Dydd Llun, digwyddiadau lleol a dathliadau diwylliannol.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Nebo ar y gymuned leol. Mae’r asesiad hwn wedi’i adolygu a’i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan roi ystyriaeth briodol i’r sylwadau a’r materion a godwyd gan ymgynghorai.<br><br>Fel y nodir yn y casgliad yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned diweddaraf, barn y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned leol pe bai’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu.<br><br>Pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda’r cynnig i gau Ysgol Nebo, nodir y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.</td>
</tr>
<tr>
<td>6.2.2</td>
<td>“Mater mawr arall yw faint y mae hyn yn effeithio ar y gymuned a’r rhieni o ran cymdeithasol...credaf y bydd hyn yn cael effeithiau negyddol ar y gymuned a’r plant...”</td>
</tr>
<tr>
<td>6.2.3</td>
<td>“Mae Ysgol Nebo yn ganolbwynt cymunedol sy’n cynnal gweithgareddau cymdeithasol, diwylliant ac ieithyddol. Mae’r ysgol yn darparu lleoliad ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau codi arian, a gweithgareddau sy’n cryfhau’r defnydd o’r Gymraeg. Heb yr ysgol, bydd y cyfleoedd hyn yn lleihau’n sylweddol, gan arwain at golled hunaniaeth leol a dirywiad cymdeithasol. Mae’r cyngor yn pryderu y bydd cau’r ysgol yn tanseilio cydlyniant cymunedol ac yn lleihau deinameiddrwydd y pentref i deuluoedd ifanc.”</td>
</tr>
<tr>
<td>6.2.4</td>
<td>“Ysgol Nebo yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a’r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun sy’n cael ei gynnal bob yn ail brynhawn Llun yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn rhyngweithio â’r plant... gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae’r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a’r cydweithio â’r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a’r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo’n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i’r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, nid yw arwyddocâd yr adeilad yn ymwneud â’r gymuned yn unig, gan ei fod yn cynnwys cofeb ryfel hanesyddol bwysig a chysylltiad â’r Bardd Mathonwy Hughes. Ni ellir ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Bydd gweithgareddau’r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau. Unwaith y caiff ei gau, ni ellir byth ei ailagor pe bai amgylchiadau’n newid yn y dyfodol.”</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| 6.2.5 | *"Nid ysgol yn unig yw Ysgol Nebo, ond yr unig fan lle gall llawer o drigolion Nebo gymdeithasu. Mae grŵp cymunedol hynod weithgar sy'n cyfarfod yn fisol i helpu i gefnogi cymunedau Nebo a Nasareth. Maent yn trefnu llu o ddigwyddiadau a chyfarfodydd gan gynnwys 'Clwb Dydd Llun' – a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, gan roi cyfle i drigolion gyfarfod ac, yn ystod hynny, rhyngweithio â phlant Ysgol Nebo, gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, maent yn trefnu nosweithiau cymdeithasol, clwb gwau (y ddau'n cael eu cynnal yn adeiladau'r ysgol), teithiau cerdded pentref, a digwyddiadau gyda'r ysgol megis cystadlaethau tyfu tatws. Mae'r cydweithio â'r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a'r plant, ac at gydlyniant cymunedol. Lle mae eiddo'n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i'r afael â phroblemau unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau."* | Fel uchod. |
| 6.2.6 | *"Yr ysgol yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun, a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn rhyngweithio â'r plant gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae'r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a'r cydweithio â'r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a'r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo'n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i'r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, nid yw arwyddocâd yr adeilad yn ymwneud â'r gymuned yn unig, gan ei fod yn cynnwys cofeb ryfel hanesyddol bwysig a chysylltiad â'r Bardd Mathonwy Hughes. Ni ellir ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau."* | Fel uchod. |
| 6.2.7 | *"Yr ysgol yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun, a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn rhyngweithio â'r plant gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae'r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a'r cydweithio â'r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | *cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a'r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo'n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i'r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, nid yw arwyddocâd yr adeilad yn ymwneud â'r gymuned yn unig, gan ei fod yn cynnwys cofeb ryfel hanesyddol bwysig a chysylltiad â'r Bardd Mathonwy Hughes. Ni ellir ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau."* | |
| 6.2.8 | *"Yr ysgol yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun, a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod... gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae'r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded... yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a'r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol... gan fynd i'r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, mae gan yr adeilad arwyddocâd hanesyddol pwysig, gan gynnwys cofeb ryfel a chysylltiad â'r Bardd Mathonwy Hughes... Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau... er anfantais i'r gymuned ac i'r elusennau sydd wedi elwa o godi arian yno yn y gorffennol."* | Fel uchod. |
| 6.2.9 | *"Mae Ysgol Nebo yn fan lle gall plant bondio, chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau i gymuned gyfan Nebo. Dyma'r unig fan lle gall y trigolion hŷn gyfarfod, mwynhau paned o de a chael chwerthin. Pe bai'r ysgol yn cau, nid yn unig y plant a fyddai'n colli, ond hefyd y gymuned leol gyfan."* | Fel uchod. |
| 6.2.10 | *"Mae'r disgyblion a'r gymuned hefyd wedi ffurfio cysylltiadau cryf, ac mae'r pentrefwyr yn aml yn darllen ac yn chwarae gemau gyda'r plant."* | Fel uchod. |
| 6.2.11 | *"Yn ogystal ag ysgol ragorol, mae hefyd yn ganolbwynt cymunedol i drigolion lleol, sy'n rhyngweithio â'r plant o bryd i'w gilydd drwy chwarae gemau, siarad, cyd-ymddwyn a mwynhau."* | Fel uchod. |
| 6.2.12 | "Mae Ysgol Nebo yn rheolaidd agor eu drysau ac yn darparu digwyddiadau agored i oedolion y pentref yn ystod y diwrnod ysgol.""Mae clwb 'dros 50' y pentref yn cyfarfod yn yr adwilad a mae'r disgyblion yn aml yn sgwrsio a chwarae gemau gyda'r aelodau." "Mae dyddiadau dathliadau yn agored i | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | breswylwyr y pentref" "yn falch iawn o glywed y disgyblion yn gweithio, sgwrsio a pherphormio yn Gymraeg." | |
| 6.2.13 | Nodir bod Ysgol Nebo yn ganolbwynt i fywyd y pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion drwy weithgareddau cymunedol rheolaidd. Nodir bod gweithgareddau'r ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at iechyd, llesiant a chydlyniant cymunedol, gan helpu i fynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Nodir bod cyfleoedd pwysig i blant a thrigolion hŷn ymgysylltu, gan feithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cenedlaethau. | Fel uchod. |
| 6.2.14 | "Mae'r pentrefwyr Nebo a Nasareth yn hollol dibynnol ar Ysgol Nebo am gadw bywyd cymdeithasol ac iechyd meddyliol ein pobl yn fyw ac i ffyni....Mae yma dwsin neu fwy o grwpiau gwahanol sy'n defnyddio'r Ysgol ac yn cadw ein bywyd cymdeithasol yn fyw ac yn iach. | Fel uchod. |
| 6.2.15 | *"Yn Nebo, mae'r pentref, yr iaith a'r ysgol i gyd wedi'u plethu gyda'i gilydd… mae clwb dydd Llun y rhai dros 60 oed (merched)… y gystadleuaeth 'Tyfu Tatws mewn Bwced' – mae'r pentref yn darparu'r had-datws… mae'r ysgol yn goruchwylio'r tyfu… Mae cyfran eithaf uchel o bobl hŷn a llai cefnog yn Nebo, felly mae'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol – dathliadau'r Nadolig, Dydd Gŵyl Dewi, Diolchgarwch, bore coffi – yn cyfoethogi bywydau."* | Fel uchod. |
| 6.2.16 | "Bydd cau Ysgol Nebo yn gam andwyol i ddisgyblion, teuluoedd a chymunedau Nebo a Nasareth...Buasai cau'r ysgol yn arwain at anfanteision i'r nifer o ardalwyr sydd yn defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol. Dyma'r unig gyfle a gaiff y trigolion i ddod ynghyd i ddiwallu eu hanghenion am gwmniaeth a'u hymdeimald o fod yn ynysig. Gall y rhain fod heb gar hefyd." | Fel uchod. |
| 6.2.17 | *"Dau ŵyr/wyres a fynychodd yr ysgol yn flaenorol ac a oedd yn rhan o weithgareddau cymunedol, gan ddysgu sgiliau bywyd a fydd o fudd mawr iddynt yn y byd sy'n newid yn gyflym yr ydym yn byw ynddo ar hyn o bryd."* | Fel uchod. |
| 6.2.18 | "Mae Ysgol Nebo yn bwysig iawn fel lle cymunedol i'r pentrefwyr gael ddod at ei gilydd a'r wahoddiad gan yr Ysgol i ddathlu gyda'r disgyblion pob dim o Gwyl Dewi i noson garolau yn yr iaith Gymraeg." | Fel uchod. |
| 6.2.19 | *"Mae cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Byddai colli'r ysgol yn gadael rhai aelodau o'r gymuned yn fwy ynysig."* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 6.2.20 | "Gafodd Bwyllgor Ardal Nebo a Nasareth ei sefydlu dros 50 mlynedd yn ôl gan y cyn-gynghorydd Sir sef OP Huws ac mae'n dal yn bodoli a thefnu gweithgareddau'r pentrefi, ac yn cydweithio efo'r Ysgol, athrawon a'r plant yn rhan pwysig o fywyd gymdeithasol y pentrefi.Heb yr Ysgol fel man cyfarfod, byddai bywyd y pentrefi yma yn farw'n weddol cyflym" | Fel uchod. |
| 6.2.21 | "mae'r ffaith fod yr ysgol yn medru gwahodd trigolion o'r pentref yno, mae'n gallu cynnal cyfnodau lle mae'r plant yn gallu dysgu, sgwrsio, meithrin a datblygu sgiliau cymdeithasol a moesol arbennig, cyfleodd i ymhyfrydu yn eu cymreictod, i fod yn Gymry ifanc a balch, yn dysgu ac gallu siarad Cymraeg, yn gwahodd y trigolion i gael sgwrs, paned ac adloniant boed trwy ddathlu gwyliau arbennig fel Dydd Gwyl Dewi, sioe Nadolig neu Bingo Pasg...Mae rhain yn enghreifftiau o ddigwyddiadau sy'n ymateb yn unigol i allu a diddordebau'r plant sy'n eu gwneud yn unigolion cyfrifol, hapus a charedig" | Fel uchod. |
| 6.2.22 | "Gyda chymaint o ddatblygiadau ac ymdeimlad gadarnhaol i brosiectau... megis Yr Orsaf a Gwyrddni mae modd dod â'r gymuned ynghyd a datrys..." | Fel uchod. |
| 6.2.23 | Amlygir bod yr ysgol yn ganolfan gymunedol allweddol mewn pentref heb seilwaith cymunedol arall (e.e. dim eglwys, capel, siop na swyddfa bost). Nodir y risg o newidiadau demograffig pe bai'r ysgol yn cau, gyda'r gymuned yn heneiddio a cholli presenoldeb teuluoedd ifanc. Pwysleisir y cysylltiadau traws-genhedlaethol a hwylusir gan yr ysgol (e.e. Clwb y Dydd Llun), a'r manteision cymdeithasol i bobl ifanc ac oedrannus. Tynnir sylw at ddefnydd yr adeilad ysgol ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd (e.e. clybiau a chyfarfodydd), a'r risg o fwy o unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, pe bai'r ddarpariaeth hon yn dod i ben. | Fel uchod. |
| 6.2.24 | Nodir bod yr ysgol hefyd yn adnodd cymunedol pwysig sy'n cefnogi datblygiad plant bregus. | Fel uchod. |
| 6.2.25 | "Mae trigolion Nebo wedi bod yn defnyddio'r Ysgol fel canolfan gymunedol ers cenedlaethau. Yn wir, mae cymuned Nebo'n cael ei defnyddio fel enghraifft o arfer dda i leihau effeithiau allgau cymdeithasol yn adroddiad Tlodi Plant ac Allgau Cymdeithasol yn y Gymru Wledig ( Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, 2009, tud 13). Cafodd yr adroddiad sylw da gan academydd yn China hefyd." | Fel uchod. |
| 6.2.26 | Nodir mai Ysgol Nebo yw canolbwynt cymunedol hanfodol, yn enwedig i bobl hŷn. | Fel uchod. |

### 6.3 Pryderon am effaith cau Ysgol Nebo ar gynaliadwyedd y pentref, poblogaeth ifanc a newidiadau demograffig hirdymor

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 6.3.1 | "Mae angen ysgolion bach gwerthfawr fel y rhain ar ein hardaloedd a fandaliaeth gymdeithasol fyddai ei gwared. Fydd cymuned arall yn cael ei golli o dan oruchwyliaeth Cyngor Gwynedd fel arall." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n mynegi pryderon ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar gynaliadwyedd hirdymor y pentref, ei ddeniadolrwydd i deuluoedd ifanc, a newidiadau demograffig ehangach, yn ogystal, a'r sylwadau a fynegwyd bod presenoldeb ysgol leol yn elfen bwysig o fywyd cymunedol, ac y gallai colli'r ysgol, yn nhyb rhai ymatebwyr, arwain dros amser at wanhau bywyd y pentref a lleihad yn nifer y teuluoedd sy'n dewis byw yn yr ardal.<br><br>Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad.<br><br>Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned, barn y Cyngor yw y gallai cau Ysgol Nebo arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned leol. Fodd bynnag, mae'r asesiad hefyd yn nodi nad oes tystiolaeth glir ar hyn o bryd y byddai cau'r ysgol yn arwain yn uniongyrchol at ymadawiad teuluoedd neu newid sylweddol yn strwythur demograffig y gymuned gan ystyried bod canran helaeth o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch.<br><br>Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig i gau Ysgol Nebo, nodir y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn darparu'r fframwaith ar gyfer ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol bosibl ar y gymuned leol. |
| 6.3.2 | "Sut ydych yn disgwyl i'r pentref gadw bobl lleol yn yr ardal. Heb ysgol yno fydd tai yn cael ei werthu i pobl allan iw wneud AirBnB neu holiday lets." | |
| 6.3.3 | *"Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'r pentref hyd yn oed yn llai deniadol i deuluoedd ifanc sy'n chwilio am le i fyw."* | |
| 6.3.4 | "…nid yw Carmel na'r Fron yn cael ei ystyried gan nad oes ysgolion na chymunedau yno. Ni fyddwn yn edrych i fynd i Nebo, Nasareth na Nantlle os yw Cyngor yn cau'r ysgolion bach - ni fydd cymuned yno - dim ond casgliad o dai." | |
| 6.3.5 | Nodir bod agosrwydd at yr ysgol yn ffactor pwysig i deuluoedd sy'n ystyried symud i Nebo, a bod cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol. | |
| 6.3.6 | "Mae cau ysgol fechan wledig yn gam a fyddai'n tanseilio dyfodol y gymuned gyfan. Er mai dim ond 12 o blant sy'n mynychu'r ysgol, mae ei gwerth yn ymestyn ymhell y tu hwnt i rifau: mae'n ganolfan gymdeithasol, ddiwylliannol ac ieithyddol sy'n cynnal yr iaith Gymraeg a hunaniaeth leol yn y pentref. " | |
| 6.3.7 | *"Byddai cau'r ysgol yn lladd y cymunedau lleol. Mae'r syniad y byddai teuluoedd ifanc yn Nebo a Nasareth yn anfon eu plant i Llanllyfni yn gwbl hurt (nid wyf hyd yn oed yn siŵr, gyda'r meithrin yn llawn yn Llanllyfni, y gallai'r ysgol yno ymdopi beth bynnag). Byddai'r teuluoedd ifanc yn gadael ac fe adawir y pentrefi gyda phoblogaeth hŷn ynysig, tai gwyliau a rhywfaint o lety gwely a brecwast dros yr haf. Rwy'n amau y byddai'r bysiau'n rhoi'r gorau i redeg hefyd – pam y byddent yn dod i bentref marw? Ar hyn o bryd, yr ysgol sy'n darparu'r unig gyfleusterau cymunedol, ac mae honno'n weithgar iawn ac yn dod â phob oedran ynghyd o blith poblogaeth leol amrywiol. Byddai hyn i gyd yn cael ei golli, ac ni fyddai dim yn weddill."* | |
| 6.3.8 | "mae cau Ysgol Nebo yn mynd i fod yn andwyol ar y gymuned leol ac heb ei ystyried yn llawn yn yr ymgynghoriad. Ysgol Nebo yw calon Nebo a Nasareth a'r unig adeilad cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau cyson tu hwnt o fod yn Ysgol arbennig. Mae cryn hanes i'r Ysgol a nid oes unrhyw cydnabyddiaeth na pharch i hyn yn yr ymgynhoriad. Heb os, bydd gweithgareddau'r pentref a | |

| | | |
|---|---|---|
| | gynhelir yn Ysgol Nebo yn dod i ben unwaith y bydd Cyngor Gwynedd yn cau yr adeilad. Colli adeilad am byth a fydd yn cyfle potential i datblygwyr tu hwnt i Gymru i greu 'airbnb' arall, testun llosg yn yr ardal yn barod, fel y gwyddoch." | |
| 6.3.9 | *"Credaf y dylai'r pwyslais fod ar gefnogi a chydnabod gwerth ysgol fechan, a hyrwyddo ei rhagoriaeth fel bod mwy o deuluoedd ifanc yn dymuno symud i ardal oherwydd enw da'r ysgol gymunedol leol – yn hytrach na diystyru bywyd y pentref yn gyfan gwbl a mentro i Gymru wledig ddod yn dir diffaith i genedlaethau'r dyfodol. Mae dyfodol cymuned yn dechrau gyda phlant, ac mae ysgol bentref yn adeiladu'r gymuned honno. Credaf yn gryf y gall dychwelyd at fywyd cymunedol bach ddod yn angenrheidiol yn y dyfodol nid rhy bell. Yn yr hinsawdd wleidyddol bresennol mae llawer yn dechrau sylweddoli bod 'bach yn brydferth', ac rwy'n methu deall y diffyg gweledigaeth ac uchelgais sy'n cael ei ddangos gan Gyngor Plaid Cymru ar adeg pan fo Plaid Cymru yn anelu at lywodraeth a newid, ac yn enwedig pan fo'r Blaid Werdd, sydd ar hyn o bryd yn perfformio'n gryf yn y polau barn, yn arbennig ymhlith pobl ifanc, yn cefnogi goroesiad ysgolion bach."* | Fel uchod. |
| 6.3.10 | "Yr ysgol gyda'i ystafell gymunedol yw'r unig ganolbwynt sydd ar ôl... ac os yw'r adeilad yn mynd i mewn i'r marchnad dai bydd unrhyw gydlyniad yn cael ei golli o fewn y pentref, ac ofnaf y daw Nebo yn "holiday hotspot" arall." | Fel uchod. |
| 6.3.11 | "Siomedig iawn. Ydi'r Cyngor yn ystyried beth fydd dyfodol pentrefi bach fel Nebo wrth neud penderfynniadau fel hyn?" | Fel uchod. |
| 6.3.12 | *"Y tu hwnt i addysg, mae'r ysgol yn gonglfaen i'n cymuned wledig. Mae'n dod â theuluoedd ynghyd, yn cefnogi digwyddiadau lleol, ac yn helpu i gynnal poblogaeth yr ardal. Pan fydd ysgol yn cau, mae cymunedau'n aml yn profi gostyngiad mewn cofrestriadau, llai o wasanaethau, a llai o deuluoedd yn dewis byw neu aros yn yr ardal. Er bod ystyriaethau ariannol yn bwysig, mae yr un mor bwysig ystyried costau cymdeithasol, addysgol a chymunedol hirdymor cau ysgol. Mae buddsoddi mewn ysgolion gwledig bach yn fuddsoddiad mewn plant, teuluoedd, a dyfodol cymunedau gwledig."* | Fel uchod. |
| 6.3.13 | *"Os bydd yr ysgol yn cau, bydd demograffeg Nebo a Nasareth yn newid... bydd llai o deuluoedd Cymraeg â phlant o oed ysgol yn dewis byw yma."* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 6.3.14 | "Bydd cau'r ysgol yn dileu unig ganolfan gymunedol y pentref. Dengis profiadau cymunedau eraill yn y Gymru wledig bod dirywiad gweladwy yn dilyn cau ysgol o fewn pum i chwe blynedd wrth i deuluoedd iau symud i ffwrdd, i wasanaethau leihau, ac i fywyd cymunedol erydu." | Fel uchod. |
| 6.3.15 | *"Mae'r mater hwn yn ehangach nag Ysgol Nebo yn unig. Mae prinder swyddi a chyfleoedd gwaith, sy'n golygu bod pobl ifanc yn symud allan o Gymru (80 y mis oedd y ffigur a awgrymwyd), ac felly mae'r gyfradd geni yn gostwng. Felly, ble mae strategaeth economaidd y llywodraeth i wrthdroi hyn? Pe bai bwriad i wneud hynny, gallai'r sefyllfa fod yn dra gwahanol ymhen pum mlynedd. Ond os caiff yr ysgol ei chau rŵan, ac yna bod pobl ifanc yn symud yn ôl i Gymru, bydd yr adeilad wedi'i golli am byth. Gallai'r sefyllfa fod yn gwbl wahanol ymhen ychydig flynyddoedd, ond ni ellir byth adfer colled yr adeilad a diwylliant yr ysgol."* | Fel uchod. |
| 6.3.16 | Nodir bod ansicrwydd am ddyfodol yr ysgol eisoes wedi arwain rhai rhieni i ddewis ysgolion eraill neu addysg gartref. | Fel uchod. |
| 6.3.17 | *"Byddai'n ddiwrnod trist iawn cau'r ysgol a chymysgu'r plant lleol i 'doddbot' ysgol arall. Mae plant iau bellach wedi symud i Nebo, a byddai'n drist iawn iddynt."* | Fel uchod. |

**6.4 Yr ysgol fel ased diwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol: rôl ganolog Ysgol Nebo fel canolbwynt cymunedol, adnodd unigryw i gynnal y Gymraeg, a goblygiadau'r cynnig ar gydlyniant, llesiant a chynaliadwyedd cymunedol hirdymor**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 6.4.1 | "Mae adeilad Ysgol Nebo wedi bod yno ers canrifoedd ac yn drysor i'r Genhedlaeth nesaf. Dylai'r Cyngor fod yn gwarchod Cymuned Nebo a'r ysgol i'r dyfodol." "Mae'r ddeddf yn cadarnhau dylai fod plant yn medru byw ac aros yn ei bro, a fydd y newid yma yn cael effaith andwyol ar hynny." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo fel ased diwylliannol, hanesyddol ac ieithyddol, ac fel adnodd cymunedol unigryw sy'n ganolog i fywyd cymdeithasol a chymunedol Nebo a Nasareth. Nodir fod ymatebwyr wedi pwysleisio gwerth hanesyddol yr adeilad, ei arwyddocâd diwylliannol a'i gysylltiadau lleol, ynghyd â'r farn na ellir gwahanu'r adeilad oddi wrth rôl weithredol yr ysgol fel canolbwynt cymunedol a Chymraeg. |
| 6.4.2 | Tynnir sylw at werth hanesyddol yr adeilad, gan gynnwys cysylltiadau lleol a phwysigrwydd diwylliannol, nad oes modd ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Nodir y byddai gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben pe byddai'r ysgol yn cau. | |

<table>
<tr>
<td>6.4.3</td>
<td>“Yr ysgol yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a’r trigolion. Yn benodol, mae Clwb Dydd Llun, a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun, yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn rhyngweithio â’r plant gan ddarparu rhyngweithio traws-genedlaethol pwysig. Yn ogystal, mae’r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a’r cydweithio â’r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant y trigolion a’r plant, ac yn darparu cydlyniant cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo’n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i’r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith trigolion hŷn. Yn ogystal, nid yw arwyddocâd yr adeilad yn ymwneud â’r gymuned yn unig, gan ei fod yn cynnwys cofeb ryfel hanesyddol bwysig a chysylltiad â’r Bardd Mathonwy Hughes. Ni ellir ei wahanu oddi wrth yr ysgol. Bydd gweithgareddau’r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y bydd yr adeilad wedi cau.”</td>
<td rowspan="3">Fel rhan o’r broses statudol, cyhoeddwyd Asesiad Effaith Cymunedol gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae’r asesiad hwn yn cofnodi’n glir nad oes canolfan gymunedol ar wahân ym mhentref Nebo, a bod y gymuned yn gwneud defnydd rheolaidd o adeilad yr ysgol ar gyfer digwyddiadau cymunedol megis cyfarfodydd lleol megis a chlybiau cymdeithasol.<br><br>Mae’r asesiad hwn wedi’i adolygu a’i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan roi ystyriaeth briodol i’r sylwadau a’r materion a godwyd gan yr ymatebwyr.<br><br>Fel y nodir yng nghasgliad yr Asesiad Effaith Gymunedol mwyaf diweddar, barn y Cyngor yw y byddai gweithredu’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn debygol o gael rhywfaint o effaith andwyol ar y gymuned leol<br><br>Ar yr un pryd, mae’r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig hefyd yn nodi bod canran uchel o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Mae’r asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg hefyd yn cydnabod y pryderon a fynegwyd fod presenoldeb yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal hunaniaeth Gymreig, defnydd dyddiol o’r Gymraeg o fewn y gymuned.<br><br>Mae’r asesiadau effaith diwygiedig yn nodi, pe byddai’r opsiwn i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu, y byddai’r Cyngor yn ceisio lliniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a chymuned yr ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo’n briodol, a defnyddio Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod fel fframwaith ar gyfer trafod opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n ymarferol.</td>
</tr>
<tr>
<td>6.4.4</td>
<td>“O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, rhaid i’r Cyngor weithredu mewn ffyrdd sy’n: Gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol... Atal niwed yn y dyfodol... Cefnogi cymunedau cydlynol a gwydn... Cynnwys y rhai yr effeithir arnynt gan benderfyniadau... Mae cau ysgol wledig cyfrwng Cymraeg yn tanseilio’r nodau hyn yn uniongyrchol drwy leihau defnydd y Gymraeg yn y gymuned, yn cael effaith ar deuluoedd ifanc, cynyddu arwahanrwydd... a thanseilio cynaliadwyedd y pentref. Mae gan gynghorwyr Cyngor Gwynedd ddyletswydd i ystyried os yw cau Ysgol Nebo yn creu niwed hirdymor pan fo dewisiadau eraill ar gael....Mae profiadau cymunedau eraill yn y Gymru wledig yn dangos bod dirywiad gweladwy yn dilyn cau ysgol o fewn pum i chwe blynedd wrth i deuluoedd iau symud i ffwrdd, i wasanaethau leihau, ac i fywyd cymunedol erydu. Bydd cau’r ysgol yn dileu unig ganolfan gymunedol y pentref. Mae Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor atal y canlyniad hwn, nid ychwanegu ato.”</td>
</tr>
<tr>
<td>6.4.5</td>
<td>“Mae Nebo, fel llawer o gymunedau gwledig, yn profi pwysau cynyddol o boblogaeth sy'n heneiddio, colli teuluoedd lleol sy'n methu fforddio byw yn y pentref, a dyfodiad pobl sydd wedi ymddeol sy'n siarad Saesneg yn bennaf. Yn y cyd-destun hwn, mae presenoldeb yr ysgol yn hanfodol wrth gynnal statws a defnydd bob dydd o'r Gymraeg.”</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| 6.4.6 | "Mae nod corfforaethol gan Gyngor Gwynedd o ddiogelu a hyrwyddo'r iaith a chymunedau Cymraeg, ac mae tynnu ysgol Gymraeg alan o gymuned fel Nebo'n amlwg yn cael effaith negyddol. Nid yw sicrwydd "trafodaethau" am ddefnydd adeilad wedyn yn ateb y broblem nac yn leihau'r niwed. Mae'r cyfathrebu a chyd-ddyheu am eu plant gan rieni ifainc (a theidiau a neiniau !) yn rhan o wead cymunedol ac yn arwydd o obaith at y dyfodol. " | |
| 6.4.7 | *"Byddai cau'r ysgol yn golled enfawr i'r gymuned sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ac sydd hefyd yn annog dysgwyr i gyfrannu."* | Fel uchod. |
| 6.4.8 | "yr ysgol yw calon Nebo a Nasareth, a'r unig adeilad cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio sy'n cynnig unrhyw obaith ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, mae'n adeilad â chymaint o hanes a chysylltiadau â phobl leol amrywiol, sy'n helpu i addysgu plant am hanes a'i gwreiddiau. Os caiff yr ysgol ei chau, collir hyn oll am byth." | Fel uchod. |
| 6.4.9 | "Y mae gennyf hefyd bryder ynghylch effaith cau'r ysgol ar yr iaith Gymraeg ac ar y gymuned o ystyred mai dyma'r unig adnodd cymunedol yn y pentref." | Fel uchod. |
| 6.4.10 | *"Rwy'n credu y dylid rhoi cyfle i'r gymuned yma barhau i warchod hanes Ysgol Nebo. Rwyf wedi gweld pobl hŷn yn mwynhau cael sgwrs yn Gymraeg wrth gael paned, sy'n beth hyfryd i'w weld. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn fuddiol i'r bobl hŷn hefyd."* | Fel uchod. |

**6.5 Pryderon ynghylch tanseilio cymunedau Cymraeg gwledig: effaith cau'r ysgol ar gynaliadwyedd hirdymor, cydlyniant cymunedol, llesiant cymdeithasol a dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 6.5.1 | "Mae'r Cyngor yn cydnabod fod effaith negyddol ar y Gymuned. Mae'n dweud fod modd liniaru'r effaith yna - er ein bod yn gwybod fod hynny'n amhosib. Nid oes unrhyw arian yn cael ei neilltiuo tuag at hyn ychwaith. Mae Nebo a Llanllyfni yn gymunedau gwbl wahanol ac mae ceisio deud bod modd cyfuno dwy gymuned hanesyddol yn naive ac am fethu." | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar gynaliadwyedd hirdymor y gymuned, cydlyniant cymunedol, llesiant cymdeithasol a diwylliannol, a defnydd y Gymraeg yn y gymuned. Mae'r Cyngor yn nodi'r farn a fynegwyd gan rai ymatebwyr nad yw effaith gymunedol cau'r ysgol yn bosibl ei lliniaru'n effeithiol, ac y byddai colli'r ysgol yn tanseilio dyfodol cymuned wledig Gymreig, gan fynd yn groes i amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a |
| 6.5.2 | "mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned yn cydnabod y byddai cau'r ysgol yn tanseilio cynaliadwyedd hirdymor y pentref, gan fod yr ysgol yn ganolbwynt cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol. O safbwynt llywodraeth leol a dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae hyn yn bryder difrifol." | |

<table>
<tr><td>6.5.3</td><td>“Yng ngheiriau Ffred Ffransis o Gymdeithas yr Iaith, “Da ni'n creu problemau mawr yn gymdeithasol bod ein cymunedau gwledig Cymraeg yn mynd yn gymunedau o hen bobl i ymddeol iddyn nhw ac yn wag o bobl ifanc.... Ble mae'r ymchwil erbyn hyn i ddangos beth yw effaith cau ysgolion bach?”Cwestiwn da. Dwi’n amau fy mod yn gwybod beth yw’r ateb.”</td><td rowspan="6">strategaethau cenedlaethol eraill, gan gynnwys strategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru.<br><br>Fel rhan o’r broses statudol, cynhaliodd y Cyngor asesiad o effaith y cynnig ar y gymuned yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, a chyhoeddwyd y fersiwn wreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad statudol. Mae’r asesiad hwn yn nodi’n glir rôl Ysgol Nebo fel canolbwynt cymunedol allweddol, yn enwedig o ystyried nad oes canolfan gymunedol ar wahân ym mhentref Nebo, a bod yr ysgol yn darparu gofod ar gyfer cyfarfodydd cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol.<br><br>Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Cymunedol, gan gadarnhau’r casgliad y rhagwelir y gallai cau Ysgol Nebo arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned leol.<br><br>Ar yr un pryd, mae’r Asesiad Effaith Cymunedol diwygiedig hefyd yn nodi bod canran uchel o blant dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-ddalgylch (78%), gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, sy’n awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol ehangach eisoes yn bodoli. Mae’r asesiad hefyd yn nodi, pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu, y byddai’r Cyngor yn ceisio lliniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a chymuned yr ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo’n briodol, a defnyddio Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod fel fframwaith ar gyfer trafod opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n ymarferol.<br><br>Yn ogystal, fel rhan o’r broses statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith Llesiant, a chyhoeddwyd hwn hefyd fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Mae’r asesiad hwn wedi’i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad, ac mae’n cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch effaith y cynnig ar nod “Cymru o gymunedau gydlynus” a “Chymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu”, yn enwedig o safbwynt lleihau cyfleoedd cymunedol i gymdeithasu, defnyddio’r Gymraeg yn naturiol, a chefnogi pobl hŷn.</td></tr>
<tr><td>6.5.4</td><td>“O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, rhaid i’r Cyngor weithredu mewn ffyrdd sy’n gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol yn y tymor hir ac yn atal niwed yn y dyfodol. Byddai cau ysgol wledig cyfrwng Cymraeg yn tanseilio’r nodau hyn yn uniongyrchol drwy leihau defnydd y Gymraeg yn y gymuned, yn cael effaith ar deuluoedd ifanc a chael effaith niweidiol ar iechyd a lles y disgyblion a’r pentrefwyr a thanseilio cynaliadwyedd y pentref. Oes dewis arall i gynghorwyr Cynor Gwynedd?”</td></tr>
<tr><td>6.5.5</td><td>“Buasai cau'r ysgol hefyd yn mynd yn groes i Srrategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru gan na fuasent yn gallu cyfarfod yn yr ysgol fel canolfan er mwyn lleihau bod yn ynysig.”</td></tr>
<tr><td>6.5.6</td><td>“Mae llawer mwy i’w ystyried yma na chostau gweithredu a ffigyrau ariannol... dylai goroesiad cymunedau Cymraeg gwledig... orbwyso penderfyniadau sy’n seiliedig ar ystyriaethau economaidd.”</td></tr>
<tr><td>6.5.7</td><td>“...the proposal is fundamentally flawed and fails to meet the needs of Welsh rural communities.”</td></tr>
<tr><td>6.5.8</td><td>“Mae Ysgol Nebo wedi dangos ei hyn fel goroeswr yn y brwydrau cyson o'r gaefeydd y swyddi Post, ysgolion, siopau ac y strydau fawr yn Ngwynedd, Cymru, a dros Prydain Fawr...Cymharu i lot o'r byd, be gennym ar y lefel gwledig yng Nghymru ydy rhywbeth i eiddigeddu... ond trysori o.”</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r Asesiad Effaith Llesiant diweddaraf yn dod i'r casgliad y gallai'r cynnig arwain at effaith negyddol bosibl ar y gymuned leol, ond hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys:<br>• annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen,<br>• hyrwyddo cydweithio cymunedol drwy weithgareddau cymunedol yr ysgol amgen,<br>• ac ystyried opsiynau priodol ar gyfer dyfodol adeilad yr ysgol fel rhan o drafodaethau ôl-ddefnydd, gan gymryd i ystyriaeth gweithgareddau cymunedol presennol. |

**7. Effaith ar yr Iaith Gymraeg**

**7.1 Yr ysgol fel prif ofod cymunedol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg / canolbwynt bywyd y pentref / cysylltiad cymunedol lleol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 7.1.1 | "Piti mawr cau yr ysgol. I ni fel gwpwl ifanc mi oedd gwybod bod ysgol yn y pentre yn un o'r rhesymau dewision symud i nebo. Teimlo wrth gau yr ysgol, mi fydd llai o deuluoedd ifanc yn dod yma i fyw ac mwy o bobl allanol i'r wlad yn prynnu tai yma. Effaith mawr ar y gymdeithas y pentref a'r iaith gymraeg... Risg mawr wrth gau yr ysgol bod llai o deuluoedd ifanc am ddod yma i fyw, hynny yn debygol o ddod a lot o bobl tu allan i'r ardal i mewn. I gadw y iaith gymraeg yn fyw yn ein cymdeithas mi fydd angen gadw'r ysgol yn agored a meddwl am ffyrdd o ddod a bobl a theuluoedd ifanc lleol i mewn." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ynghylch rôl yr ysgol fel prif ganolbwynt cymunedol a chymdeithasol ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn pentref Nebo a'r ardal gyfagos.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol, gyda'r materion a godwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried wrth lunio'r asesiad diwygiedig.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned.<br><br>Ar yr un pryd, daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i dderbyn addysg mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol |
| 7.1.2 | "Mae'n hanfodol bod y Gymraeg yn cael ei hystyried fel iaith fyw o fewn yr ysgol a'r gymuned, nid yn unig fel iaith addysgu...dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn diogelu ac yn cynnal defnydd naturiol o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, yn enwedig o fewn yr ysgol dderbyn. Mae'n bwysig bod yr ysgol yn parhau i fod yn amgylchedd Cymraeg ei natur, nid yn unig yn ffurfiol ond hefyd yn gymdeithasol." | |
| 7.1.3 | "Nebo... yn brysur lenwi gyda phobl di-Gymraeg sydd yn fodlon dod draw i'r ysgol leol... I brofi diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg...ni fyddent yn trafferthu teithio i bentref cyfagos i wneud hynny...Bydd bwriad Cyngor Gwynedd i gau'r ysgol yn bendant yn cael effaith andwyol ar yr iaith | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gymraeg yn y pentref." "mae'r ysgol yn rhan enfawr o roi profiad Cymraeg i bobl." | Llanllyfni. Nodir hefyd y potensial, yn y cyd-destun addysgol, i gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran.<br><br>Mae'r asesiad effaith diweddaraf yn nodi bod posibilrwydd y gallai'r cynnig gael effaith ar yr iaith Gymraeg o safbwynt y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn Nebo pe byddai'r ysgol yn cau, ond nodir hefyd fesurau lliniaru posibl, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol i gefnogi'r Gymraeg, a hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nebo mewn gweithgareddau Cymraeg yr ysgol amgen, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |
| 7.1.4 | "Mae cau Ysgol Nebo yn mynd i gael effaith ar y pentref cyfan. Dyma'r unig le sydd ar gael i'r pentrefwyr ddod at ei gilydd i gymdeithasu yn enwedig yn yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn bwysig er mwyn cadw'r iaith yn fwy yn Nebo... Mi fydd cau'r ysgol yn cael effaith negyddol iawn ar yr iaith Gymraeg. Mae cyfarfodydd a nosweithiau cymdeithasol yn cael ei cynnal yn Saesneg yn Nebo ers tro byd. Mae cadw'r ysgol ar agor yn bwysig iawn i'r iaith yn Nebo" | |
| 7.1.5 | "Mae Ysgol Nebo yn ganolbwynt cymunedol i'r pentref. Mae digwyddiadau'r ysgol yn cynnwys estyn allan i gymuned ehangach sydd yn dod a Chymraeg i fywydau preswylwyr di-Gymraeg y pentref na fyddent fel arall yn ei brofi" | |
| 7.1.6 | "Mae Ysgol Nebo yn cynnig profiad o'r iaith Gymraeg i ddisgyblion yr ardal yn ogytal ag oedolion y pentref na fyddent fel arall yn dod ar ei draws...mae Ysgol Nebo yn hafodol i hyrwyddo'r iaith o fewn y pentref." | |
| 7.1.7 | "Yr ysgol di'r unig le yn y pentref i gymdeithasu yn y Gymraeg, mae'r di Gymraeg ym mynychu'r digwyddiadau yma ag yn cael profiad o'r iaith." | |
| 7.1.8 | *"Mae'r ysgol yn darparu canolfan gymunedol ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd a chynulliadau cymunedol. Hefyd, mae cyngherddau'r ysgol a diwrnodau eraill yn croesawu'r gymuned leol i mewn, lle clywir y Gymraeg yn cael ei siarad. Mae pentref bach fel Nebo angen yr ysgol i annog teuluoedd iau i ymuno â'r gymuned ac i ddysgu neu ddefnyddio'r iaith Gymraeg."* | |
| 7.1.9 | *"Byddai cau'r ysgol yn cael effaith niweidiol ar ddefnydd y Gymraeg yn yr ardal. Mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio yn yr ysgol, ond yn llawer llai felly yn y gymuned leol. Byddai colli'r ysgol yn golygu llai o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ardal... Ni allaf weld sut y gallai cau'r ysgol gael unrhyw effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl yn y gymuned leol ddefnyddio'r Gymraeg... Mae rhyngweithio â disgyblion a staff mewn digwyddiadau ysgol yn achlysuron lle ceir cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac rwyf wedi manteisio arnynt."* | Fel uchod. |
| 7.1.10 | "Byddai cau ysgol wledig fel Ysgol Nebo yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn y pentref a'r ardal ehangach. Mae'r ysgol yn ganolbwynt naturiol i fywyd Cymraeg y gymuned, gan ddarparu gofod dyddiol lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio'n naturiol gan blant, staff a theuluoedd. I lawer o blant, yr ysgol yw prif leoliad cymdeithasol lle cânt ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r cartref, ac mae ei chau yn debygol o | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | arwain at ddirywiad mewn defnydd cymunedol o'r iaith. . O ganlyniad, byddai cau'r ysgol nid yn unig yn benderfyniad addysgol, ond hefyd yn benderfyniad a allai danseilio bywiogrwydd a pharhad yr iaith Gymraeg yn y gymuned leol am genedlaethau i ddod. Trwy gynnal gweithgareddau cymunedol, yr ysgol hon yw yr unig le ble y mae mwyafrif helaeth o gymuned y pentref, sydd yn fewnfudwyr yn clywed y GYmraeg yn cael ei siarad. Drwy gau a chael gwared o'r adnodd pwysig hwn o'r pentref, yna ni fydd y rhan helaeth hon o'r gymuned gallach bod yr iaith Gymraeg yn bodoli o gwbl" | |
| 7.1.11 | Am fod y rhan fwyaf o dai'r ardal yn wledig, mae'n bwysig bod y pentrefi yn gweithio i gadw'r iaith Cymraeg yn iaith byw, clywadwy a'i pharchu. Byddai'r cynllun i gau Ysgol Nebo (ac Ysgol Baladeulyn) yn cael effaith mawr ar gyflwr yr iaith yn yr Dyffryn. Yn ein cyfarfodydd pentrefol ac wrth gydweithio gyda Ysgol Nebo, rydym yn gwneud yn siwr bod defnydd y Gymraeg yn cael lle bwysig ac yn ei chlywed. Mae bron pob gohebiaeth sy'n cael eu dosbarthuo gwmpas yy pentrefi yn mynd allan yn ddwyieithog. Mae rhan fwyaf o bobl sydd wedi mewnfudo i'r ardal yn tueddu bod yn ddi-Gymraeg, ond, drwy ein ymdrechion, yr Ysgol a'r Pwyllgor, yn parchu'r iaith ac yn derbyn bod ni'n byw mewn cymdeithas dwyieithog bywiog. WRTH GAU YSGOL NEBO A'N MAN CYFARFOD HOLL PWYSIG, BYDDAI'R EFFAITH YN HOLLOL NIWEIDIOL AR DDEFNYDD YR IAITH GYMRAEG YN YR ARDAL." | Fel uchod. |
| 7.1.12 | "Mae cau'r ysgol, heb unrhyw amheuaeth am gael effaith fawr ar y Gymraeg yma yn Nebo a Nasareth. Mae cymuned fywiog yma yn Nebo a Nasareth a'r ysgol yw calon y gymuned honno. Ysgol Nebo yw calon ein pentrefi, gyda chysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r trigolion. Mae'r clwb i bentrefwyr dros 60 oed - Clwb Dydd Llun a gynhelir bob yn ail brynhawn Llun yn rhoi cyfle i drigolion gyfarfod, ac yn ystod hynny maent yn cymysgu â'r plant gan ddarparu cyfleoedd rhyngweithio, dysgu a chwarae ar draws y cenedlaethau. Yn ogystal, mae cyngherddau Nadolig, canu carolau, bore coffi Macmillan, gorymdaith a chyngerdd Gwyl Ddewi gyda'r plant yn gweini cawl i'r pentrefwyr –nifer o rhain yn bobl di Gymraeg sydd wedi symud i fyw, ond sy'n gwerthfawrogi y cyfle i glywed y Gymraeg a chefnogi'r ysgol. Mae'r nosweithiau cymdeithasol, y clwb gwau, y teithiau cerdded, a'r cydweithio â'r ysgol yn llawer mwy na digwyddiadau cymdeithasol yn unig. Maent yn cyfrannu at iechyd a lles y trigolion a'r plant, ac yn darparu cydlyniant | |

| | | |
|---|---|---|
| | cymunedol hanfodol. Lle mae eiddo'n aml yn bell oddi wrth ei gilydd, maent yn mynd i'r afael â materion unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig i drigolion hŷn…mi fydd penderfyniad Cyngor Gwynedd o gau yr ysgol yn bendant yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg yn ein pentref. Y Cyngor fydd yn gyfrifol am ddirywiad yr iaith yn y rhan yma o Ddyffryn Nantlle – un o gadarnleoedd y Gymraeg." | |
| 7.1.13 | "Buasai cau ysol Nebo… yn ergyd fawr i'r gymuned a'r pentref ac yn enwedig i'r aelodau hynny sy'n byw yno ac yn siarad ac yn defnyddio'r iaith yn ddyddiol…Mae'r ysgol yn cynnal digwyddiadau lle mae aelodau o'r gymuned yn gallu ymweld â hi a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg" | Fel uchod. |
| 7.1.14 | "Cau ysgol Nebo am gael effaith negatif iawn ar y iaith Gymraeg yn Nebo a Nasareth" | Fel uchod. |
| 7.1.15 | *"Mae'r ysgol yn cynnal digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n wych i ddysgwyr a siaradwyr brodorol fel ei gilydd."* | Fel uchod. |
| 7.1.16 | *"Ni fydd pentrefwyr Nebo sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd ar gyfer amryw weithgareddau yn trafferthu teithio i Lawnllyfni ar gyfer gweithgareddau, ac felly ni fydd y rhan fwyaf o drigolion Nebo yn clywed gair o Gymraeg."* | Fel uchod. |
| 7.1.17 | Nodir bod yr ysgol yn ymfalchïo mewn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn addysg Gymraeg a chyfleoedd cryf i ddatblygu'r iaith. Mynegir bod angen dangos yn glir sut y bydd addysg a chyfleoedd Cymraeg yn cael eu diogelu pe bai'r ysgol yn cau, heb golli mynediad na chynyddu oriau. | Fel uchod. |
| 7.1.18 | Mynegir pryder y byddai cau'r ysgol yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg a'r gymuned ehangach, gyda'r ysgol yn ganolog i fywyd y pentref. | Fel uchod. |
| 7.1.19 | Mynegir y farn y byddai cau'r ysgol yn lleihau cyfleoedd i blant siarad Cymraeg, ac yn cael gwared ar fan lle mae pobl yn dod ynghyd i gymdeithasu drwy'r Gymraeg. | Fel uchod. |
| 7.1.20 | Pwysleisir bod yr ysgol yn darparu digwyddiadau cymdeithasol sy'n annog defnyddio'r Gymraeg yn y pentref, ac y byddai hyn yn cael ei golli pe bai'r ysgol yn cau. | Fel uchod. |
| 7.1.21 | *"Nid wyf yn teimlo y byddai Ysgol Llanllyfni yn cynnig yr un peth i'n plant lleol, gan fod plant Nebo yn dal i ddychwelyd i Nebo ar ôl yr ysgol, nid i Llanllyfni."* | Fel uchod. |
| 7.1.22 | *"Byddai'n effeithio ar ysbryd cymunedol ac yn lleihau'r cyfleoedd i ymarfer y Gymraeg."* | Fel uchod. |

**7.2 Effaith ar ddefnydd naturiol, pob-dydd o'r Gymraeg**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 7.2.1 | "Byddai'r cynnig yn debygol o leihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol o ddydd i ddydd o fewn cymuned Nebo, gan fod yr ysgol yn brif fan cymdeithasol a chymunedol lle defnyddir y Gymraeg yn gyson...byddai colli'r ysgol leol yn gwanhau defnydd cymunedol ac anffurfiol o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan greu risg y bydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn ymarferol o gymharu â'r Saesneg yn y gymuned leol." | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl y cynnig ar ddefnydd naturiol, pob dydd o'r Gymraeg, yn enwedig rôl Ysgol Nebo wrth feithrin amgylchedd lle defnyddir y Gymraeg yn gyson yn y dosbarth, ar y buarth ac o fewn bywyd cymdeithasol ehangach y gymuned. Pwysleisiwyd gan ymatebwyr fod dosbarthiadau llai, goruchwyliaeth staff a disgwyliadau ieithyddol clir yn cefnogi trochi ieithyddol a defnydd anffurfiol cyson o'r Gymraeg.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn cydnabod y gallai cau Ysgol Nebo achosi effaith ar yr iaith o safbwynt defnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn Nebo, yn enwedig o ystyried rôl yr ysgol fel prif fan cymdeithasol Cymraeg y pentref a diffyg canolfan gymunedol amgen. Ar yr un pryd, mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, am y rhesymau canlynol:<br><br>• Byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni.<br><br>• Mae data CYBLD diweddar (Ionawr 2026) yn dangos canran uchel o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref yn y ddwy ysgol (56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni)<br><br>• Byddai dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran, sy'n cynnig potensial i gryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn anffurfiol gyda chyd-ddysgwyr. |
| 7.2.2 | "...dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn diogelu ac yn cynnal defnydd naturiol o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, yn enwedig o fewn yr ysgol dderbyn. Mae'n bwysig bod yr ysgol yn parhau i fod yn amgylchedd Cymraeg ei natur, nid yn unig yn ffurfiol ond hefyd yn gymdeithasol." | |
| 7.2.3 | Mynegir y farn y byddai cadw'r ysgol ar agor yn cyfrannu at atal dirywiad hirdymor diwylliant a'r iaith Gymraeg. | |
| 7.2.4 | *"Gan fod y newid arfaethedig yn golygu dosbarthiadau mwy, mae'n fwy tebygol y bydd mwy o ddisgyblion na allant siarad Cymraeg nac ei deall, a bydd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i athrawon ffafrio'r defnydd o'r Gymraeg. Dosbarthiadau llai oedd yn bendant wedi helpu fi i afael yn yr iaith Gymraeg yn haws ac yn gynt... Byddai plant nad ydynt yn ymdopi'n dda mewn grwpiau mawr ac sy'n cael trafferth dysgu yn elwa o fynd i ysgol fach fel Nebo, a fyddai'n eu helpu i ddysgu a magu eu hyder yn y Gymraeg."* | |
| 7.2.5 | Ysgol Nebo yn ysgol Gymraeg lawn, gyda defnydd cyson o'r Gymraeg yn y dosbarth ac ar y buarth, ac yn amgylchedd lle mae'r disgyblion yn ffynnu'n ieithyddol. Mynegir pryder y byddai symud disgyblion i ysgolion mwy a dosbarthiadau mwy yn cael effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg, gan na fyddai'r un lefel o annog defnydd o'r iaith ar gael, yn enwedig mewn cyd-destunau anffurfiol megis amser chwarae, lle mae disgyblion yn fwy tebygol o droi at y Saesneg. | |
| 7.2.6 | "Mae Ysgol Nebo yn cynnig amgylchedd naturiol lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw bob dydd. Mae hyn yn hanfodol i gynnal hyder plant wrth ddefnyddio'r iaith ac i gefnogi nodau strategaeth Cymraeg 2050. Mewn ysgol fwy, mae'r risg y bydd plant yn troi at Saesneg yn uwch, yn enwedig mewn gweithgareddau anffurfiol. Bydd cau'r ysgol yn tanseilio'r defnydd naturiol o'r Gymraeg yn y gymuned ac yn peryglu traddodiadau lleol." | |
| 7.2.7 | *"Byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg gan y plant – mae ysgolion llai yn fwy tebygol o feithrin amgylchedd cwbl Gymraeg, gan* | |

| | | |
|---|---|---|
| | *fod iaith y buarth yn cael ei monitro a bod y Gymraeg yn cael ei hannog yno hefyd. Mewn ysgolion mwy, mae Saesneg yn fwy tebygol o fod yn iaith y buarth. Waeth beth fo addysgu'r Gymraeg, yr hyn sy'n cael ei siarad ar y buarth gyda ffrindiau sy'n meithrin perthynas plentyn â'r iaith…. Ar ôl dim ond ychydig wythnosau yn Nebo, roedd [fy mhlentyn] yn siarad mwy o Gymraeg gartref… rwy'n priodoli hyn i faint llai y dosbarthiadau ac i'r ffaith bod staff addysgu'n bresennol amser cinio, h.y. bod iaith y buarth hefyd yn Gymraeg."* | • Yn y cyd-destun addysgol, rhagwelir y gallai'r trefniant gefnogi mwy o ryngweithio Cymraeg rhwng cyfoedion, a chynnal neu gryfhau bywiogrwydd y Gymraeg o fewn bywyd ysgol.<br><br>Mae'r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl mewn perthynas â'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg, gan gynnwys hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nebo mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, ac ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi'r Gymraeg yn y gymuned lle bo hynny'n ymarferol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |
| 7.2.8 | *"Mae'r Gymraeg wastad wedi bod yn brif iaith ddydd-i-ddiwrnod y plant yn yr ysgol, hyd yn oed y rhai sy'n ei dysgu fel ail iaith."* | |
| 7.2.9 | Nodir bod grwpiau llai o blant yn fwy tebygol o chwarae gyda'i gilydd a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol o gymharu â sefyllfaoedd gyda mwy o blant. Mynegir y byddai cadw'r ysgol fach yn gwneud y sefyllfa'r Gymraeg haws ei rheoli ac yn cefnogi parhad y ddarpariaeth yn lleol. | |
| 7.2.10 | Nodir y byddai cau'r ysgol yn lleihau ymhellach y nifer o leoedd lle gall plant ddod at ei gilydd a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| 7.2.11 | "Ni dderbyniaf y ddadl simplistaidd o gyfri pennau - chwaneg o ddisgyblion fe ly chwaneg o gyfleon siarad Cymraeg. Petai hi mor syml a hynny , byddai'n rhaid i'r Cyngor dderbyn hefyd y gwrthwyneb - sef leihau'r canran o siaradwyr Cymraeg yn Llanlyfni. Ond y gwir yw mai'r elfen bwysicaf yw bod disgyblion - o ba gefndir bynnag - yn perchnogi'r Gymraeg, yn ei datblygu fel eu cyfrwng personol naturiol yn eu hamgylchedd a'u cymuned nhw, nid ei gweld yn gyfrwng addysgol yn unig. " | |

**7.3 Trochi Cymraeg, ysgol fach a datblygiad rhuglder**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 7.3.1 | *"Mae Ysgol Nebo yn trochi ei disgyblion yn yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o'r model addysgu… Ymhell o fod yn ateb, byddai cau'r ysgol yn cyfrannu at ddirywiad hirdymor diwylliant a'r iaith Gymraeg. Mae'r gymuned wedi defnyddio adeiladau'r ysgol ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol dwyieithog a gwersi Cymraeg. Mae mynychu digwyddiadau ysgol fel gwasanaethau carolau, boreau coffi a'r gystadleuaeth tatws yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ddi-Gymraeg drochi yn yr iaith a'i dysgu."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ynghylch rôl Ysgol Nebo wrth ddarparu trochi llawn yn y Gymraeg fel rhan annatod o'i fodel addysgu, ac yn arbennig y farn bod maint bach yr ysgol, y gymuned ysgol glos a'r defnydd cyson o'r Gymraeg yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad rhuglder disgyblion, gan gynnwys plant o gartrefi di-Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau ynghylch rôl yr ysgol fel adnodd i'r gymuned ehangach trwy ddigwyddiadau |

<table>
<tr><td>7.3.2</td><td>“Nid yw rhai o’r disgyblion sy’n mynychu Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg gartref, ac mae’r ysgol yn darparu lle iddynt ddysgu a defnyddio’r Gymraeg. Mae aelodau’r gymuned leol sy’n ymweld â’r ysgol hefyd yn gallu siarad Cymraeg gyda’r plant.”</td><td rowspan="8">cymdeithasol, gwersi Cymraeg a chyfleoedd i oedolion a phlant drochi yn yr iaith y tu allan i’r ystafell ddosbarth.<br><br>Fel rhan o’r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol, gyda’r safbwyntiau a gyflwynwyd mewn ymateb i’r ymgynghoriad yn derbyn ystyriaeth wrth lunio’r fersiwn ddiwygiedig.<br><br>Mae’r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn nodi y gallai cau’r ysgol gael effaith ar yr iaith o safbwynt defnydd o’r iaith Gymraeg o fewn y gymuned. Ar yr un pryd, mae’r Asesiad yn dod i’r casgliad nad yw’r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg Gymraeg am y rhesymau canlynol:<ul><li>Byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni.</li><li>Mae data CYBLD diweddar (Ionawr 2026) yn dangos canran uchel o ddysgwyr sy’n siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref yn y ddwy ysgol (56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni)</li><li>Byddai dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy gyda mwy o gyfoedion o’r un oedran, sy’n cynnig potensial i gryfhau cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn anffurfiol gyda chyd-ddysgwyr.</li><li>Yn y cyd-destun addysgol, rhagwelir y gallai’r trefniant gefnogi mwy o ryngweithio Cymraeg rhwng cyfoedion, a chynnal neu gryfhau bywiogrwydd y Gymraeg o fewn bywyd ysgol.</li></ul>Mae’r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol</td></tr>
<tr><td>7.3.3</td><td>“Mae pob plentyn sydd yn mund ir ysgol hon yn dreigl yn y gymraeg a saesneg erbun iddynt orffan yn yr ysgol…Maen bwysig iddynt ddysgu yr iaeth a chadwr iaeth yn fyw.”</td></tr>
<tr><td>7.3.4</td><td>“Mae Ysgol Nebo yn trochi ei disgyblion yn yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o’r model addysgu, felly nid oes angen uned iaith Gymraeg arbenigol. Er mwyn cadw diwylliant ac iaith Gymraeg wledig yn fyw yn y gymuned hon, mae’r ysgol yn rhan hanfodol o ddatblygiad hirdymor yr ardal. Ymhell o fod yn ateb, byddai cadw’r ysgol ar agor yn cyfrannu at atal dirywiad hirdymor diwylliant a’r iaith Gymraeg.”</td></tr>
<tr><td>7.3.5</td><td>“Deuthum i fyw yng Nghymru yn y 1970au, ac ymsefydlais yn fuan gyda’m teulu mewn pentref gwledig bach. O’r diwrnod cyntaf cawsom ein trochi’n llwyr yn niwylliant y pentref a’r Gymraeg. Mynychodd fy mhlentyn yr Ysgol Feithrin newydd ei sefydlu yn y pentref, ac yna o bedair oed ymlaen yr ysgol bentref, gan ddatblygu ei iaith mewn ffordd gwbl naturiol ochr yn ochr â’i addysg… Credaf felly, mai oherwydd iddynt fynychu ysgolion trefol mwy lle roedd ganddynt ddewis, ac na chawsant y profiad o drochi llawn a gawsom ni mewn cymuned fach gydag ysgol bentref.”</td></tr>
<tr><td>7.3.6</td><td>“Mae Ysgol Nebo yn trochi ei disgyblion yn yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o’r model addysgu… bydd cadw’r ysgol ar agor yn cyfrannu at atal dirywiad hirdymor diwylliant a’r iaith Gymraeg.”</td></tr>
<tr><td>7.3.7</td><td>“Rwy’n credu y bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn codi’r iaith yn llawer cyflymach mewn ysgol fach, ac yn fwy tebygol o’i defnyddio gan eu bod yn debygol o gael llai o ffrindiau sy’n siarad Saesneg.”</td></tr>
<tr><td>7.3.8</td><td>Gan fod y cartref yn Saesneg ei iaith, nodir bod ysgol Gymraeg fechan gyda chymuned glos yn cael ei hystyried yn fuddiol i ddatblygiad iaith eu plentyn.</td></tr>
<tr><td>7.3.9</td><td>“Ysgol Nebo immerses their pupils in the Welsh language, as an integral part of the teaching model, so a special Welsh language unit is not necessary…keeping it open will contribute to halting the long term demise of Welsh culture and language.”</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| 7.3.10 | “mae mwy Ysgol sy'n dysgu trwy y Cymraeg yn well na llai…I gau yr ysgol hwn yn cau un ysgol arall sy'n defnyddio Cymraeg fel y prif iaith” | ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi defnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, a hyrwyddo cyfleoedd i gymuned Nebo gymryd rhan mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, lle bo hynny’n ymarferol. |
| 7.3.11 | “Mae Ysgol Nebo yn trochi disgyblion yn yr Iaith Gymraeg fel rhan annatod o'i haddysg. Felly mae'r Ysgol yn rhan bwysig i annog a cadw'r Gymraeg mewn ardaloedd gwledig yn fyw yn enwedig pan mae teuluoedd Saesneg yn symud i fyw a danfon eu plant i Ysgol Nebo. Heb ystyried eich ystedegau yn yr ymgynghoriad, y realiti yw fod plant di-Gymraeg sy'n mynychu Ysgol Gymraeg yn fwy debygol o lwyddo a dysgu'r iaith mewn ysgolion gyda dosbarthiadau llai o faint. Mi fydd cau Ysgol Nebo yn mynd yn erbyn hyn gyda effaith annochel dirywiol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal.” | |
| 7.3.12 | *“Mae Ysgol Nebo yn trochi ei disgyblion yn yr iaith Gymraeg fel rhan annatod o’r model addysgu, felly nid oes angen uned iaith Gymraeg arbenigol. I gadw diwylliant ac iaith Gymraeg wledig yn fyw yn y gymuned hon, mae’r ysgol yn rhan hanfodol o ddatblygiad hirdymor yr ardal. Ymhell o fod yn ateb, byddai cadw’r ysgol ar agor yn cyfrannu at atal dirywiad hirdymor diwylliant a’r iaith Gymraeg.”* | |
| 7.3.13 | Mynegir y farn y byddai cau’r ysgol yn cael effaith drychinebus ar y Gymraeg, gan fod yr ysgol â hanes o gefnogi disgyblion di-Gymraeg i ddod yn siaradwyr newydd, heb ddarpariaeth debyg yn yr ardal. | |
| 7.3.14 | Pwysleisir bod Ysgol Nebo yn darparu trochi llawn drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddatblygu rhuglder disgyblion; nodir y byddai trosglwyddo i ysgolion eraill yn debygol na fyddai hynny'n digwydd.<br>Amlygir rôl ehangach yr ysgol wrth hybu defnydd cymunedol o’r Gymraeg, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd dwyieithog y pwyllgor pentref sy’n annog aelodau di-Gymraeg i ddefnyddio’r iaith.<br>Nodir bod yr ysgol hefyd wedi bod yn lleoliad ar gyfer gwersi Cymraeg, a byddai cau’r ysgol yn arwain at golli’r cyfleoedd hyn i ddysgu a defnyddio’r iaith yn lleol. | |
| 7.3.15 | Nodir bod yr ysgol wedi helpu rhai plant o ardaloedd eraill nad oeddent yn siarad Cymraeg i ddysgu’r iaith, ac y byddai cau’n lleihau’r math hwn o gyfleoedd. | |
| 7.3.16 | Pwysleisir bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio’n gyson yn yr ysgol, gan gefnogi cynnydd ieithyddol disgyblion mewn amgylchedd gofalgar. Nodir bod safon Cymraeg y plentyn wedi gwella’n sylweddol o ganlyniad o'r amser | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn Ysgol Nebo o'i gymharu â phrofiadau blaenorol mewn ysgolion eraill. Mynegir y farn mai'r unig ffordd i sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yw cadw disgyblion yn yr ysgol fach, feithringar a Chymraeg ei chyfrwng. | |
| 7.3.17 | "Mae pob plentyn sydd yn mund ir ysgol hon yn dreigl yn y gymraeg a saesneg erbun iddynt orffan yn yr ysgol…Maen bwysig iddynt ddysgu yr iaeth a chadwr iaeth yn fyw." | |

**7.4 Trosglwyddiad rhyng-genedlaethol a'r Gymraeg fel iaith fyw**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 7.4.1 | "Byddai cau Ysgol Nebo yn cymryd y cyfle oddi wrth blant fel fy mhlentyn i sy'n dysgu Cymraeg. Po fwyaf y mae [y plentyn] yn dysgu Cymraeg, y mwyaf y mae [y plentyn] yn ei ddysgu i minnau a thad [y plentyn], ac yn y modd hwn bydd yr iaith Gymraeg yn parhau i dyfu – po fwyaf o bobl sy'n ei dysgu, y mwyaf y bydd yn parhau. Rwy'n meddwl y dylai fod mwy o siaradwyr Cymraeg i gadw'r iaith yn fyw. Byddwn innau wrth fy modd yn dysgu Cymraeg; mae fy mhlant yn siarad Cymraeg ac weithiau maent yn cael gwaith cartref drwy'r Gymraeg, a byddwn wrth fy modd yn gallu deall sut i'w helpu gyda'u gwaith cartref." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo wrth gefnogi trosglwyddiad rhyng-genedlaethol y Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw o fewn y gymuned, gan gynnwys y cyfraniad y mae'r ysgol yn ei wneud at annog plant o gartrefi di-Gymraeg i ddod yn siaradwyr Cymraeg, a'r effaith gadarnhaol y gall hyn ei chael ar rieni, gofalwyr a thrigolion ehangach drwy gyswllt teuluol a chymunedol.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau a oedd yn nodi fod Ysgol Nebo, drwy ei model trochi Cymraeg a'i rôl gymunedol, yn darparu cyfleoedd i oedolion a phlant glywed, defnyddio a dysgu'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan gynnwys drwy ddigwyddiadau ysgol, gwersi Cymraeg i oedolion a chysylltiadau rhyng-genedlaethol, yn ogystal â mynegi pryderon y gallai cau'r ysgol arwain at leihad yn y cyfleoedd hyn, yn enwedig yn sgil diffyg gofod cymunedol amgen yn Nebo a Nasareth.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn nodi y gallai cau'r ysgol gael effaith ar yr iaith o safbwynt defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned. Ar |
| 7.4.2 | "Cynhaliwyd gwersi Cymraeg hefyd yn yr ysgol ar gyfer pentrefwyr, nid yn unig mae'r ysgol yn trochi'r disgyblion yn y Gymraeg, ond mae'r pentrefwyr yn clywed ac yn cael defnyddio'r iaith hefyd sy'n golygu fod yr ysgol yn hanfodol ar gyfer gwarchod yr iaith<br>a'n diwylliant. Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y caiff yr adeilad ei gau gan gael effaith andwyol ar yr iaith yn Nebo a Nasareth" | |
| 7.4.3 | *"Mae llawer ohonom sydd naill ai'n dysgu neu wedi dysgu Cymraeg yma wedi gwneud hynny oherwydd bod ein plant wedi'u trochi yn yr iaith Gymraeg yn yr ysgol. Fe ddaethom â thiwtor Cymraeg i mewn ychydig flynyddoedd yn ôl i annog pobl hŷn i ddefnyddio'r Gymraeg, ac roedd gobaith y gallem wneud hyn eto, ond os bydd yr ysgol yn cau ni fydd lle i wneud hynny gan nad oes unrhyw ofod 'cyhoeddus'/'cymunedol' arall ar gael yn Nebo a Nasareth. Felly, mae'n debygol y bydd yr iaith Gymraeg yn* | |

| | | |
|---|---|---|
| | *dirywio rhywfaint yn yr ardal hon… os bydd yr ysgol yn cau, bydd gan rai trigolion lai o gyfleoedd i ymarfer eu sgiliau iaith, a bydd hynny'n golygu y bydd y Saesneg yn dominyddu'n fwy."* | yr un pryd, mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg Gymraeg am y rhesymau canlynol:<br>• Byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni.<br>• Mae data CYBLD diweddar (Ionawr 2026) yn dangos canran uchel o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref yn y ddwy ysgol (56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni)<br>• Byddai dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran, sy'n cynnig potensial i gryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn anffurfiol gyda chyd-ddysgwyr.<br>• Yn y cyd-destun addysgol, rhagwelir y gallai'r trefniant gefnogi mwy o ryngweithio Cymraeg rhwng cyfoedion, a chynnal neu gryfhau bywiogrwydd y Gymraeg o fewn bywyd ysgol.<br>Mae'r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi defnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, a hyrwyddo cyfleoedd i gymuned Nebo gymryd rhan mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, lle bo hynny'n ymarferol. |
| 7.4.4 | "Mae Ysgol Nebo'n cynnig cyfle gwych i'r holl ddisgyblion fagu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg, pa iaith bynnag yw iaith yr aelwyd. Mae'r plant yn cael cyfle i gymysgu a thrigolion hyn yr ardal, sydd yn cyfrannu at berthynas ryng-genedlaethol positif a iach a hynny drwy'r iaith Gymraeg. Gwelent bod yr iaith yn fyw. Heb hyn, ni fuasai cyfle iddynt gymysgu a'r trigolion yn y Gymraeg. Hefyd, mae nifer o siaradwyr gwadd yn dod i'r ysgol. Cefais innau'r fraint o fynd atynt i siarad a hwy yn Gymraeg" | |
| 7.4.5 | "Cynhaliwyd gwersi Cymraeg hefyd yn yr ysgol ar gyfer pentrefwyr sydd wedi symud yma i fyw. Bydd gweithgareddau'r pentref a gynhelir yn yr ysgol yn dod i ben unwaith y caiff yr adeilad ei gau a bydd effaith andwyol ar yr iaith, iechyd a lles ym mhentrefi<br>Nebo a Nasareth." | |
| 7.4.6 | "Petasai Cyngor Gwynedd yn cau'r ysgol yn gyfangwbl ni fuasai gan y trigolion y gymuned gyfle i ymarfer eu sgiliau iaith yn Gymraeg, yn enwedig os ydynt yn newydd-ddyfodiaid uniaith Saesneg. Buasai hyn yn mynd yn erbyn targed Llywodraeth Cymru i gael 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Wrth gadw'r ysgol yn agored buasai pawb, yr oedolion yn ogystal a'r plant yn gallu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg ac ni fuasai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg...Byddai cadw'r ygsgol yn agored hefyd yn galluogi i'r pentrefwyr ei defnyddio fel canolfan gymunedol lle mae oedolion di-Gymraeg hŷn y pentref yn mwynhau siarad Cymraeg gyda'r pentrefwyr Cymraeg. Unwaith eto, buasai hyn yn galluogi i Gyngor Gwynedd ymrwymo i helpu Llywodreth Cymru gyrraedd y nod o 1m o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050." | |
| 7.4.7 | *"Byddai gallu defnyddio'r ysgol gyda'r nos ar gyfer gwersi Cymraeg gyda thiwtor cymwys yn helpu pobl fel fi, sy'n cael trafferth dysgu a chadw'r iaith yn eu saithdegau, heb orfod teithio i fynd i ddosbarthiadau."* | |

### 7.5 Effaith cau'r ysgol ar ddemograffeg ieithyddol, deniadolrwydd teuluoedd a chynaliadwyedd y Gymraeg

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 7.5.1 | *"Byddai cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o drigolion di-Gymraeg yn symud i mewn."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar ddemograffeg ieithyddol y pentref, deniadolrwydd yr ardal i deuluoedd Cymraeg, a chynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r pryder a fynegwyd ynghylch sut y gallai colli'r ysgol leihau atyniad Nebo a Nasareth i deuluoedd â phlant o oed ysgol, gan arwain at newidiadau demograffig a allai effeithio ar batrymau defnydd cymunedol o'r Gymraeg yn y tymor hwy.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn cydnabod y gallai'r cynnig arwain at effaith ar yr iaith Gymraeg o safbwynt bywiogrwydd cymunedol y Gymraeg, yn enwedig o ystyried rôl Ysgol Nebo fel canolbwynt cymdeithasol Cymraeg y pentref. Ar yr un pryd, mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni, gyda mynediad parhaus at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn y cyd-destun addysgol, nodir hefyd fod y trefniant arfaethedig yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o'r un oedran, mewn amgylchedd cyfrwng Cymraeg, a bod hyn yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr.<br><br>Mae'r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi defnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, a hyrwyddo cyfleoedd i gymuned Nebo |
| 7.5.2 | *"Waeth beth fo'r canrannau a nodir yn y ddogfen, mewn termau real, erbyn 2027 byddai tua 5–6 o blant di-Gymraeg o Nebo yn ymuno â thua 16 o blant di-Gymraeg yn Llanllyfni, gan greu grŵp sylweddol a fyddai'n debygol o gymdeithasu gyda'i gilydd ac yn rhwystro eu defnydd o'r Gymraeg drwy chwarae ac yn gymdeithasol, gan newid demograffeg Ysgol Llanllyfni... Pe caniateir i'r adeilad fynd i'r farchnad fasnachol, mae pob tebygolrwydd y caiff ei ddefnyddio ar gyfer twristiaeth neu fel ail gartref, nad yw er budd cymunedau gwledig Cymraeg na'r iaith Gymraeg."* | |
| 7.5.3 | Mynegir pryder y byddai cau'r ysgol yn lleihau deniadolrwydd y pentref i deuluoedd Cymraeg, gan effeithio'n negyddol ar ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg. | |
| 7.5.4 | *"Byddai cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o drigolion di-Gymraeg yn symud i mewn. Mae hyn yn groes i obaith Llywodraeth Cymru..."* | |
| 7.5.5 | *"Bydd y pentref yn marw, bydd teuluoedd ifanc yn symud allan o bosibl i ardaloedd mwy Seisnig-eu-hiaith, gyda dirywiad anochel yn yr iaith Gymraeg."* | |
| 7.5.6 | "Bydd cau'r ysgol yn ei gwneud yn llai deiniadol y deuluoedd ifianc ymgartrefu'n Nebo a Nasareth. O ganlyniad buasai hyn yn profi'n negyddol tuag at darged Llywodraeth Cymru o gael un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050." | |
| 7.5.7 | Mynegir y farn y byddai cau Ysgol Nebo yn ergyd fawr i ddyfodol y Gymraeg ac i allu'r ardal ddenu a chynnal siaradwyr Cymraeg. | |
| 7.5.8 | *"Byddai cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o drigolion di-Gymraeg yn symud i mewn. Mae hyn yn groes i obeithion Llywodraeth Cymru."* | |
| 7.5.9 | *"Byddai cau'r ysgol yn gwneud y pentref yn llai deniadol i deuluoedd ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o drigolion di-Gymraeg yn* | |

| | | |
|---|---|---|
| | *symud i mewn. A yw hyn yn groes i obeithion Llywodraeth Cymru o ran sefydlu'r iaith Gymraeg?"* | gymryd rhan mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, lle bo hynny'n ymarferol. |
| 7.5.10 | *"Mae'n debygol y bydd cau'r ysgol yn lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud i'r gymuned, yn enwedig y rheini â phlant o oed ysgol."* | |

### 7.6 Hunaniaeth, diwylliant, cynefin a chynaladwyedd cymunedau Cymraeg gwledig a pharhad yr iaith

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 7.6.1 | Mynegir y farn y byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith ddifrifol ar yr ardal a'i phobl. Nodir bod y gymuned yn un Gymraeg gref gyda hanes lleol dwfn sy'n gysylltiedig â chenedlaethau blaenorol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar hunaniaeth ddiwylliannol, ymdeimlad o gynefin, a chynaliadwyedd cymuned Gymraeg wledig y pentref a'r ardal gyfagos, yn ogystal â nodi'r sylwadau ynghylch rôl ganolog yr ysgol fel calon gymunedol sy'n cefnogi nid yn unig addysg, ond hefyd trosglwyddiad diwylliant, hunaniaeth a'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi bod rhai ymatebwyr yn ystyried bod Ysgol Nebo yn cyfrannu at ddefnyddio a throsglwyddo'r iaith Gymraeg yn y gymuned drwy ei haddysg cyfrwng Cymraeg a gweithgareddau cysylltiedig. Mae hefyd yn nodi pryderon a fynegwyd y gallai cau'r ysgol leihau atyniad yr ardal i deuluoedd ifanc, gyda goblygiadau posibl ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad statudol, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn cydnabod y gallai cau Ysgol Nebo yn gael effaith ar fywiogrwydd y Gymraeg yn y gymuned leol, yn enwedig o ystyried rôl yr ysgol fel prif ganolbwynt Cymraeg y pentref, a'r diffyg darpariaeth gymunedol amgen. Ar yr un pryd, mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i |
| 7.6.2 | Nodir bod Ysgol Nebo yn chwarae rhan ganolog wrth gynnal y Gymraeg, diwylliant lleol a'r ymdeimlad o hunaniaeth ('cynefin') yn Nebo a Nazareth. Mynegir pryder y byddai cau'r ysgol yn niweidio cynaliadwyedd cymuned Gymraeg wledig, ac yn tanseilio'r atyniad i deuluoedd ifanc symud i'r ardal. Tynnir sylw at rôl yr ysgol fel sail i drosglwyddo diwylliant a hunaniaeth rhwng y cenedlaethau, gan gefnogi parhad y Gymraeg yn y gymuned. | |
| 7.6.3 | "byddai cau yr ysgol yn gam gwag mawr i'r disgyblion yma heb sôn am drigolion y pentref a'r iaith Gymraeg. Yr ysgol ydi calon y gymuned arbennig hon ac mae hi'n gosod sail i'r Gymraeg a'i thraddodiadau i ffynnu." | |
| 7.6.4 | "Mae'n debygol y bydd y cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar gyfleoedd i bobl, yn enwedig plant a theuluoedd, ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Fel ysgol cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i hymgorffori yn y gymuned, mae'r ysgol yn ganolog nid yn unig i addysg ond i hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y pentref. Byddai ei chau yn lleihau defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r iaith Gymraeg ac yn peryglu tanseilio'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddai cael gwared ar yr ysgol yn cyflymu dirywiad ieithyddol a diwylliannol ac yn erydu cymeriad Cymreig y gymuned. Mae'r ysgol hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal y Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth trwy ddigwyddiadau, ymgysylltu â rhieni a gweithgareddau cymunedol. Mewn cymuned sydd eisoes yn profi newid demograffig, byddai ei chau yn gwanhau un o'r ychydig feysydd naturiol sy'n weddill o ran yr iaith Gymraeg." | |
| 7.6.5 | "Mae cau ysgolion gwledig yn benderfyniad i gefnu ar y gymdeithas yna am byth ac derbyn ni fydd hi'n ardal Gymraeg bellach. Mae nifer helaeth o achosion ble mae colli'r ysgol wedi cael effaith andwyol ar sefyllfa y | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gymraeg yn y pentref. Nid oes ond angen edrych ar ardaloedd fel Carmel a'r Fron i weld sut mae cau ysgolion wedi cael effaith andwyol ar y Gymraeg yn Nyffryn Nantlle ac felly mae'r sylw diystyriol tuag at colli y gymuned yn destyn siom. Mae rhaid edrych yn agos iawn ar effaith cau ysgolion ar y Gymraeg yn y pentre yn gyfangwbl. Mae angen ysgolion bach gwerthfawr fel ysgol Nebo ar ein hardaloedd a fandaliaeth gymdeithasol fyddai ei gwared” | gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni, gyda mynediad parhaus at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn y cyd-destun addysgol, nodir hefyd y byddai’r trefniant arfaethedig yn gallu cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu gyda mwy o gyfoedion o’r un oedran mewn amgylchedd Cymraeg, a bod hyn yn gallu cefnogi parhad defnydd anffurfiol o’r Gymraeg ymhlith dysgwyr. Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith ehangach ar yr iaith Gymraeg o fewn y gymuned leol.<br><br>Mae’r asesiad effaith diweddaraf hefyd yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn parhau i gefnogi defnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, a hyrwyddo cyfleoedd i gymuned Nebo gymryd rhan mewn gweithgareddau yr ysgol amgen, lle bo hynny’n ymarferol. |
| 7.6.6 | “Heb os, os cau'r ysgol, yna Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am ddirywiad yr iaith yn y rhan yma o Ddyfryn Nantlle - un o gadarnleodd yr iaith Gymraeg.” | |
| 7.6.7 | Mynegir y farn y byddai cadw’r ysgol ar agor (yn enwedig ar gyfer disgyblion sy’n cael trafferth mewn ysgolion mwy) yn helpu cynnal canolbwynt Cymraeg y gymuned. | |
| 7.6.8 | *“Mae bod yn yr ysgol yn unig, gyda’r holl Gymraeg ar y waliau, yn helpu i gadw’r pentref yn Gymreig a Chymraeg… Mae teuluoedd â phlant sy’n edrych i ymgartrefu yn yr ardal yn aml yn ystyried pa fath o gymuned y maent am i’w plant dyfu ynddi… Mae’r ysgol yn gwneud gwahaniaeth o ran a yw dwyieithrwydd yn cael ei ystyried yn rhan o gymeriad y lle… Gall teuluoedd Seisnig a Chymraeg fel ei gilydd fod eisiau i’w plant dyfu’n ddwyieithog… Dim ond drwy gadw’r ysgol ar agor y gellir sicrhau hyn… Heb yr ysgol i’n cefnogi, byddai’n frwydr goll.”* | |
| 7.6.9 | “Mae angen parham I gefnogi ysgolion bach cymunedol Cymraeg ar gyfer dyfydol yr iaith ac i sicrhau cymuned mewn ardaloedd wledig.” | |

### 7.7 Polisi iaith a dyletswyddau statudol y Cyngor: statws y Gymraeg, yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol, a’r effaith ar ddefnydd cymunedol, cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau’r Gymraeg

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 7.7.1 | “Gellid llunio neu addasu’r cynnig drwy sicrhau bod darpariaeth addysg Gymraeg leol yn parhau i weithredu o fewn y gymuned, gyda threfniadau pendant i gynnal a hyrwyddo defnydd beunyddiol o’r Gymraeg mewn cyd-destunau addysgol a chymunedol. Byddai hyn yn helpu i gydymffurfio â’r ddyletswydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac i | Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a godwyd ynghylch dyletswyddau statudol yr Awdurdod o dan Safonau’r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), yn benodol yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, a’r angen i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i’r broses benderfynu. |

<table>
<tr><td></td><td>liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg, tra hefyd yn cyfrannu’n gadarnhaol at gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru - miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050”</td><td rowspan="6">Fel rhan o’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, mae Cwestiwn 10 yn gofyn sut mae’r cynnig yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg, yn sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac yn cynnal neu’n cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned. Yn ymateb i hyn, nodir bod parhad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei sicrhau, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a chyhoeddwyd y ddau fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr asesiadau effaith.<br><br>Mae’r asesiad Cydraddoldeb diwygiedig yn dod i’r casgliad bod y cynnig yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg drwy sicrhau parhad addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly sicrheir nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg o fewn y ddarpariaeth addysgol. Ar yr un pryd, mae’r Cyngor yn cydnabod y byddai cau Ysgol Nebo yn gallu lleihau cyfleoedd cymunedol ac anffurfiol i ddefnyddio’r Gymraeg, ac felly mae mesurau lliniaru wedi’u nodi i geisio cynnal a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y gymuned pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, fel nodir isod.<br><br>Mae’r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn dod i’r casgliad nad yw’r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae’n cydnabod rhywfaint o effaith bosibl o ran colli cyfleoedd cymunedol ac anffurfiol i ddefnyddio’r Gymraeg yn Nebo, yn enwedig o ystyried diffyg darpariaeth gymunedol amgen.<br><br>O ganlyniad, mae’r asesiadau effaith diwygiedig yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys:</td></tr>
<tr><td>7.7.2</td><td>“Mae'r asesiadau effaith yn chwerthinllyd o wael ac mae'r syniad fod cau ysgol wledig Gymraeg yn cael effaith bositif ar y Gymraeg yn gywilyddus. Mae'r asesiadau effaith dim ond yn canolbwyntio ar adran fechan iawn o gymdeithas (plant 4-11). -Nid oes unrhyw ymgais wedi'i wneud gan y Cyngor i asesu effaith cau'r ysgol yma ar y Gymraeg yn ardal Nebo a Nasareth. Nid oes chwaith unrhyw asesiad effaith ar anfon plant (fel yn eich sylw chi o deuluoedd di-gymraeg) i ysgolion fwy Cymraeg fel Llanllyfni. Nid oes unrhyw ymgais i weld effaith mae cau ysgolion gweledig yn cael ar yr iaith yn gyffredinol. Mae'r asesiad effaith yn hunangyflenwol ac ond wedi cael ei greu i gefnogi bwriad y Swyddogion o gau yr ysgol. Rhaid cael asesiad annibynnol teg neu mae'r broses yma yn ffars.”</td></tr>
<tr><td>7.7.3</td><td>“Rhaid i'r Cyngor gydnabod a fod yn onest fod cau yr ysgol am gael effaith negyddol ar y Gymraeg” “Rwyf yn erfyn ar y Cyngor i gydnabod a fod yn onest fod cau yr ysgol am gael effaith negyddol ar y Gymraeg a gwneud asesiad effaith manwl ar y mater a dim whitewash fel hwn.”</td></tr>
<tr><td>7.7.4</td><td>“Mae cael gwared ar sefydliad iaith Gymraeg lleol yn ergyd i siaradwyr Cymraeg ac yn gwrthdaro â Chymraeg 2050, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisiau cenedlaethol ehangach”</td></tr>
<tr><td>7.7.5</td><td>“Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn nodi disgwyliadau clir ar awdurdodau lleol o ran cefnogi pob disgybl ar draws pob lleoliad addysgol i ddod yn siaradwyr Cymraeg annibynnol.”</td></tr>
<tr><td>7.7.6</td><td>“Byddai cau Ysgol Nebo yn golled barhaol i’r Gymraeg yn lleol. Mae’r ysgol yn ased i’r iaith a’r diwylliant ers 150 o flynyddoedd, ac mae ei cholli yn tanseilio defnydd cymunedol dyddiol o’r Gymraeg.<br>Er y gall darpariaeth Gymraeg barhau mewn ysgol arall, mae Ysgol Nebo yn darparu cyfleoedd beunyddiol, anffurfiol a chymunedol i ddefnyddio’r Gymraeg, sy’n hanfodol i hyder ieithyddol a throsglwyddiad rhyng-genedlaethol yr iaith. Byddai cau’r ysgol yn lleihau’r cyfleoedd hyn ac yn tanseilio statws y Gymraeg fel iaith gymunedol.”</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| 7.7.7 | "Mae cael gwared ar sefydliad iaith Gymraeg lleol yn rhoi baich anghymesur ar siaradwyr Cymraeg ac yn gwrthdaro â Chymraeg 2050, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Safonau'r Iaith Gymraeg, a pholisi cenedlaethol ehangach." | • ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad Ysgol Nebo er mwyn parhau i gefnogi defnydd cymunedol a diwylliannol o'r Gymraeg;<br>• hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nebo a Nasareth mewn gweithgareddau Cymraeg yr ysgol amgen;<br>• annog cydweithio cymunedol i gynnal cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg y tu hwnt i ddarpariaeth addysgol ffurfiol. |
| 7.7.8 | Codir pryder am anghysondeb canfyddedig rhwng nodau i gynyddu defnydd y Gymraeg a'r cynnig i gau lleoliad cymunedol lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad a'i dysgu'n naturiol. | |
| 7.7.9 | "Yn fy marn i, dylid llunio neu addasu'r cynnig mewn ffordd sy'n rhoi'r Gymraeg wrth galon y penderfyniad, ac yn sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.Dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn cryfhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn hytrach na'u lleihau." | |

### 7.8 Safbwyntiau sy'n mynegi bod y ddarpariaeth Gymraeg amgen yn ddigonol neu'n gadarnhaol

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 7.8.1 | Mynegir y farn bod y ddarpariaeth Gymraeg yn ddigonol mewn ysgolion lleol ac nad yw'r cynnig yn peri pryder ieithyddol sylweddol, gan nodi hefyd nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r Cyngor yn nodi barn rhai ymatebwyr fod y ddarpariaeth Gymraeg amgen yn ddigonol neu'n gadarnhaol, ac nad yw'r cynnig, yn eu safbwynt hwy, yn peri pryder ieithyddol sylweddol. |
| 7.8.2 | "...mae'r ysgolion amgen o fewn yr un cymunedau... mae'n deg dweud fod cymunedau'r ysgolion Amgen yn fwy cymreig eu cymeriad." | |
| 7.8.3 | "Cadarnhaol iawn o ran y Gymraeg...Bydda eu symud yn gwella eu sgiliau Cymraeg gan y byddant yn ei defnyddio yn fwy naturiol." | |

### 7.9 Safbwyntiau cyffredinol a fynegwyd ynghylch effaith andwyol bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 7.9.1 | *"School closure could have no positive effect on the Welsh language."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 7.9.2 | "Rwyf yn grediniol fod y cais am gael effaith andwyol ar y Gymraeg, ar y gymuned a llai o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 7.9.3 | "mae'r asesiadau'n dangos bod effaith parhau â'r ysgol neu ail-lunio darpariaeth yn niwtral o safbwynt safonau addysg, tra bod cau'n arwain at effeithiau negyddol clir ar y gymuned a'r iaith Gymraeg." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

| | | |
|---|---|---|
| 7.9.4 | Dadleuir bod mwy o ysgolion yn cynyddu amrywiaeth arbenigedd Cymraeg, rhannu arfer da, a chryfhau rhwydweithiau ieithyddol lleol; byddai cau'r ysgol yn lleihau cynrychiolaeth addysgol Gymraeg y pentref. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 7.9.5 | Mynegir barn feirniadol am y ffordd y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo, gyda'r safbwynt y gallai hynny gael canlyniadau negyddol i rai unigolion. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 7.9.6 | "Difrodi yr iaith gymraeg" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 7.9.7 | "Mae'n amhosib llunio 'spin positif' mewn unrhyw ffordd ar effaith cau Ysgol Nebo ar yr iaith Gymraeg. Mae'n gywilydd bod Cyngor Gwynedd yn meddwl y ddyliwn ymateb i gwestiynnau mor nawddoglyd." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

### 7.10 Her i gasgliadau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 7.10.1 | "Y peth cyntaf wnaeth daro fi oedd yr nad yw'r Cyngor yn medru "ragweld effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg drwy wireddu'r cynnig arfaethedig". Roeddwn methu creu y peth wrth ddarllen yr adroddiad, sut ar wyneb y ddaer y wnaeth Swyddogion y Cyngor ddod i'r fath ganlyniad... Mae canlyniadau hunan gyflenwol yr asesiad effaith ar y Gymraeg yn gywilyddus - gan nid oes unrhyw ymgais wedi'i wneud gan y Cyngor i asesu effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg yn ardal Nebo a Nasareth. Nid oes chwaith unrhyw asesiad effaith ar anfon plant o deuluoedd di-gymraeg Nebo i ysgolion fwy Cymraeg fel Llanllyfni. Nid oes unrhyw ymgais i weld yr effaith hir dymor mae cau ysgolion gweledig yn cael ar yr iaith yn gyffredinol. Mae'r canlyniadau i weld yn ffocysu ar effaith ar ddisgyblion presennol yn unig (plant 4-11)...Os yw'r ysgol yn cau, mae'n benderfyniad am byth. Nid oes modd dadwneud y penderfyniad a lliniaru'r effaith ar y Gymraeg... Ydi 'r Cyngor wir yn medru deud fod y penderfyniad yma yn 'hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg' yn yr ardal o dan y Ddeddf?...Nid yw'r Cyngor wir wedi edrych ar y Ddeddf na'i effaith... Mae angen asesiad iaith priodol sydd yn cydnabod fod effaith andwyol ar y iaith ac edrych ar gamau liniaru" "Nid oes modd adfer cymuned sydd wedi colli ysgol ac nid oes cam liniaru posib ar gael. Fydd y Gymraeg yn dlotach os yw'r penderfyniad yn pasio." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r heriau a fynegwyd gan rai ymatebwyr ynghylch casgliadau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg, gan gynnwys y farn nad yw'r asesiad gwreiddiol wedi asesu'n ddigonol effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar yr iaith Gymraeg yn Nebo a Nasareth, neu ar ddefnydd cymunedol a hirdymor yr iaith y tu hwnt i'r effaith ar ddisgyblion presennol.<br><br>Yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg diwygiedig yn cydnabod y gallai bod posibilrwydd o effaith ieithyddol bosibl yn gysylltiedig â cholli cyfleoedd cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg yn Nebo a Nasareth, yn enwedig gan nad oes darpariaeth na lleoliad cymunedol amgen ar gael yn Nebo ar gyfer cynnal digwyddiadau cymunedol. Ar yr un pryd, daw'r asesiad diwygiedig i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar iaith addysg na darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng (Categori 3), sef Ysgol Llanllyfni.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol yn nodi mesurau lliniaru posibl, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys: |
| 7.10.2 | "Mae'r asesiad effaith ar y Gymraeg yn gywilyddus o sâl - gan nid oes unrhyw ymgais wedi'i wneud gan y Cyngor i asesu effaith cau'r ysgol yma ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | y Gymraeg yn ardal Nebo a Nasareth (dim ond ar blant ysgol cyfredol). Nid oes chwaith unrhyw asesiad effaith<br>ar anfon plant (fel yn eich sylw chi o deuluoedd di-gymraeg) i ysgolion fwy Cymraeg fel Llanllyfni. Nid oes unrhyw ymgais i weld effaith mae cau ysgolion gweledig yn cael ar yr iaith yn gyffredinol” | • ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad Ysgol Nebo er mwyn parhau i gefnogi defnydd cymunedol a diwylliannol o’r Gymraeg;<br>• hyrwyddo cyfleoedd i gynnwys cymuned Nebo a Nasareth mewn gweithgareddau Cymraeg yr ysgol amgen;<br>• annog cydweithio cymunedol i gynnal cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu’r Gymraeg y tu hwnt i’r ddarpariaeth addysgol ffurfiol. |

**8. Cludiant a theithio**

**8.1 Diogelwch traffig a pharcio o amgylch Ysgol Llanllyfni**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 8.1.2 | *“Mae Llanllyfni eisoes yn profi problemau parcio drwy’r amser, ac mae’r sefyllfa’n waeth o lawer yn ystod amseroedd gollwng a chasglu, gyda pharcio peryglus a stopio peryglus ger y safle yn digwydd. Byddai hyn yn cynyddu pe bai plant o Nebo yn cael eu cludo yno.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a godwyd gan ymgynghorai ynghylch sefyllfa bresennol traffig a pharcio o amgylch Ysgol Llanllyfni, yn enwedig yn ystod amseroedd gollwng a chasglu disgyblion, ynghyd â’r pryderon bod parcio a stopio peryglus yn digwydd ar adegau, gyda goblygiadau posibl i ddiogelwch cerddwyr, disgyblion a defnyddwyr eraill y ffordd, ac y gallai cynnydd mewn niferoedd disgyblion effeithio ar y sefyllfa honno.<br>Wrth ystyried y pryderon hyn, mae’r Cyngor yn nodi bod trefniadau teithio i’r ysgol, gan gynnwys darpariaeth cludiant ysgol, yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Sir. Lle bo disgyblion yn gymwys i gael cludiant, bydd hyn yn cael ei ddarparu yn unol â’r meini prawf perthnasol.<br><br>Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a godwyd ac yn cydnabod bod heriau hanesyddol wedi bod ynghylch trefniadau gollwng ar safle Ysgol Llanllyfni. Fodd bynnag, nodir bod trefniadau priodol bellach wedi’u datblygu, gan yr ysgol a’r Uned Gludiant Integredig, i hwyluso trefniadau gollwng dysgwyr sy’n teithio ar dacsis. Byddai unrhyw oblygiadau pellach o ran traffig a pharcio yn parhau i gael eu hystyried fel rhan o unrhyw drefniadau cludiant pe bai’r cynnig yn cael ei weithredu<br>Pe gweithredir y cynnig, ni ragwelir y byddai’r cynnydd yn niferoedd y dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni yn sgil gweithredu’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn sylweddol, ac felly ni ragwelir y byddai gweithredu’r cynnig yn effaith |
| 8.1.3 | *“Hefyd, dylid ystyried y cynnydd mewn ceir ychwanegol yn Llanllyfni yn ystod yr amseroedd hyn.”* | |
| 8.1.4 | “Nid oes unrhyw ystyriaeth yn yr ymgynghoriad o Iechyd a Diogelwch tu allan i Ysgol Llanllyfni os yw disgyblion Nebo am fynychu hefyd. Yn yr amseroedd mae rhieni yn gollwng a chasglu eu plant o Ysgol Llanllyfni, ar adegau mae'n beryglus dros ben gyda traffig trwy'r pentref yn gorfod osgoi rhieni sydd yn parcio ceir ar y palmentydd, llinellau dwbwl ac ar sawl achlysu'r yn ganol y lon er mwyn hebrwng eu plant i'r ysgol. Mae hyn ar ben yr anhrefn plant a rhieni sydd yn ceisio cerdded o Ysgol Llanllyfni ar droed. Arwydd clir fod Ysgol Llanllyfni yn orlawn, diffyg cyfleusterau a phryderon Iechyd a Diogelwch i dderbyn mwy o ddisgyblion.” | |
| 8.1.5 | “Bydd teithio pellach i Ysgol Llanllyfni yn cynyddu risgiau diogelwch ar y ffyrdd ac yn ychwanegu costau i deuluoedd a’r awdurdod.” | |

| | | |
|---|---|---|
| | | sylweddol ar y trefniadau traffig a pharcio presennol. Fodd bynnag, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, a pe bai unrhyw faterion neu bryderon yn codi yn dilyn gweithredu'r cynnig, byddai'r rhain yn cael eu hystyried drwy'r trefniadau a'r prosesau arferol, mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau perthnasol, yn unol â rolau a chyfrifoldebau statudol y Cyngor.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod teithio pellach yn gallu codi pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd a chostau i deuluoedd. Yn y cyd-destun hwn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodir eto y bydd unrhyw drefniadau cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â pholisïau cyfredol y Sir. |

**8.2 Addasrwydd llwybrau cerdded rhwng Nebo a Llanllyfni i blant oed cynradd**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 8.2.1 | "Roeddwn wedi fy synnu gan adroddiad y Cyngor fod hi'n saff i gerdded o Nebo i Lanllyfni ...Nid oes palmentydd ar y ffordd nac unrhyw lon i gerdded rhwng yr ardaloedd!" | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd gan ymgynghorai ynghylch addasrwydd a diogelwch llwybrau cerdded rhwng Nebo a Llanllyfni ar gyfer dysgwyr oed cynradd.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Deithio a'i gynnwys yn y ddogfennaeth ymgynghori, ac fe'i diweddarwyd yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd. Nodir bod Ysgol Llanllyfni 1.6 milltir o Ysgol Nebo, ac, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu darparu i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd. O dan y Polisi, darperir cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch neu'r ysgol agosaf, ac nid yw'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i ddisgyblion dosbarth meithrin.<br><br>Yn seiliedig ar niferoedd dysgwyr presennol Ysgol Nebo, rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd i gludo'r dysgwyr hynny sy'n gymwys am gludiant, ar gost amcangyfrifedig o hyd at £17,000 y flwyddyn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu; nodir hefyd y gallai cynnydd mewn niferoedd yn y dyfodol olygu bod angen bws mwy, gyda chostau posibl o hyd at £30,000 y flwyddyn.<br><br>Yn unol â'r Polisi, nid oes disgwyl i ddysgwyr gerdded llwybrau a ystyrir yn beryglus, ac os asesir nad yw llwybr yn rhesymol ddiogel i blentyn oed |
| 8.2.2 | "Buasai defnyddio'r llwybrau cyhoeddus a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori'n gallu peryglu bywydau'r plant e.e. mae'r llwybr sydd ger Afon Crychddwr yn gul , llithrig a charegog mewn nifer o fannau a mae'n rhaid mynd dros gamfeydd a thrwy giatiau mochyn i fynd arnynt. Buasai'n rhaid I riant fynd hefo nhw ym mhob tywydd , gan gynnwys plant pedair oed. Ni fyddai'n bosib i rieni fynd a phram ar y llwybrau hyn os fydd gan y disgybl frodyr a chwiorydd iau. Hefyd mae'r lon sydd ger Bont Crychddwr yn berygl iawn...Ni fuasai'n bosib anfon plant ifanc ar eu pennau eu hunain i Ysgol Llanllyfni gan y buasai hyn yn gallu arwain at fesurqau amddiffyn plant gan na wyddir pwy sydd o gwmpas ar y llwybrau cyhoeddus." | |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>cynradd, ni chaiff ei ystyried at ddibenion cymhwysedd cerdded. O ganlyniad, mae’r asesiad diwygiedig yn cadarnhau y byddai trefniadau teithio’n cael eu gwneud yn unol â’r Polisi, ac felly ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo yn gorfod cerdded ar hyd llwybrau peryglus nac ychwaith deithio pellter afresymol i’r ysgol pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu.</td></tr>
</table>

### 8.3 Costau cludiant ysgol i’r Cyngor a chynaliadwyedd y gyllideb

<table>
<tr><th></th><th>Sylw</th><th>Ymateb y Cyngor</th></tr>
<tr><td>8.3.1</td><td>“Costau – mae wedi’i ddadlau y byddai teithio’n costio llawer, ond byddai un bws mini yn ddigon i gasglu’r holl blant o fewn yr ardal ddalgylch.”</td><td rowspan="5">Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch costau cludiant ysgol a’r effaith ar gynaliadwyedd y gyllideb, gan gynnwys y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch maint y ddarpariaeth gludiant a’r galw cynyddol ar gyllideb cludiant ysgol y Sir.<br><br>Fel rhan o’r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar drefniadau teithio, a nododd yr asesiad hwnnw, ar sail y niferoedd ar y pryd, y byddai angen darparu cludiant ysgol i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Sir. Rhagwelwyd y byddai bws mini 8 sedd yn ddigonol i ddarparu ar gyfer y dysgwyr hynny ar y cam hwn, gyda chost flynyddol amcangyfrifedig o hyd at £17,000, er y nodwyd hefyd y gallai newidiadau i niferoedd dysgwyr yn y dyfodol olygu bod angen darpariaeth cludiant fwy, gyda chostau uwch o ganlyniad.<br><br>Mae’r Cyngor yn cydnabod bod costau cludiant ysgol wedi cynyddu’n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel sy’n wir ar draws Cymru - nid yw hyn yn her sy’n unigryw i Wynedd. Fodd bynnag, mae’n ofynnol i’r Cyngor gwrdd â’i ddyletswyddau statudol o safbwynt darparu cludiant i ddysgwyr cymwys.</td></tr>
<tr><td>8.3.2</td><td>“Mae wedi’i ddadlau y byddai teithio’n costio llawer, ond byddai un bws mini yn ddigon i gasglu’r holl blant o fewn yr ardal ddalgylch.”</td></tr>
<tr><td>8.3.3</td><td>“Mae wedi’i ddadlau y byddai teithio’n costio llawer, ond byddai un bws mini yn ddigon i gasglu’r holl blant o fewn yr ardal ddalgylch.”</td></tr>
<tr><td>8.3.4</td><td>“Rhaid hefyd cofio fod cau'r ysgol yn golygu gwario swm sylweddol ar fws ysgol i fynd i'r ysgol agosaf.”</td></tr>
<tr><td>8.3.5</td><td>“Mae mater costau trafnidiaeth yn un brys iawn, gyda chyllideb cludiant i’r ysgol wedi cynyddu’n sylweddol dros y blynyddoedd diweddar, fel y gwelir yn y tabl isod.<br>
<table>
<tr><th></th><th colspan="3">Taxis and trains</th><th colspan="3">Buses</th><th colspan="3">Total</th></tr>
<tr><th></th><th>Budget</th><th>Actual</th><th>Over/(under) expenditure</th><th>Budget</th><th>Actual</th><th>Over/(under) expenditure</th><th>Budget</th><th>Actual</th><th>Over/(under) expenditure</th></tr>
<tr><td>2016/17</td><td>2,064,210</td><td>2,038,424</td><td>-25,786</td><td>2,554,540</td><td>2,582,690</td><td>28,150</td><td>4,618,750</td><td>4,621,113</td><td>2,363</td></tr>
<tr><td>2017/18</td><td>2,021,500</td><td>2,223,188</td><td>201,688</td><td>2,558,770</td><td>2,545,402</td><td>-13,368</td><td>4,580,270</td><td>4,768,590</td><td>188,320</td></tr>
<tr><td>2018/19</td><td>2,335,140</td><td>2,471,034</td><td>135,894</td><td>2,609,570</td><td>2,805,616</td><td>196,046</td><td>4,944,710</td><td>5,276,650</td><td>331,940</td></tr>
<tr><td>2019/20</td><td>2,342,610</td><td>2,516,348</td><td>173,738</td><td>2,821,950</td><td>2,884,973</td><td>63,023</td><td>5,164,560</td><td>5,401,321</td><td>236,761</td></tr>
<tr><td>2020/21</td><td>2,323,850</td><td>1,969,468</td><td>-354,382</td><td>2,931,910</td><td>2,560,678</td><td>-371,232</td><td>5,255,760</td><td>4,530,145</td><td>-725,615</td></tr>
<tr><td>2021/22</td><td>2,615,480</td><td>2,790,864</td><td>175,384</td><td>3,149,730</td><td>3,092,720</td><td>-57,010</td><td>5,765,210</td><td>5,883,585</td><td>118,375</td></tr>
<tr><td>2022/23</td><td>2,841,050</td><td>3,147,025</td><td>305,975</td><td>3,279,460</td><td>3,521,664</td><td>242,204</td><td>6,120,510</td><td>6,668,690</td><td>548,180</td></tr>
<tr><td>2023/24</td><td>2,743,340</td><td>3,427,763</td><td>684,423</td><td>3,646,240</td><td>4,457,345</td><td>811,105</td><td>6,389,580</td><td>7,885,109</td><td>1,495,529</td></tr>
<tr><td>2024/25 - estimated</td><td>3,907,460</td><td>3,752,712</td><td>-163,579</td><td>4,182,150</td><td>4,758,976</td><td>576,826</td><td>8,089,610</td><td>8,511,688</td><td>413,247</td></tr>
<tr><td>2025/26 - estimated</td><td>3,461,260</td><td>3,718,067</td><td>256,807</td><td>4,246,210</td><td>4,801,060</td><td>554,850</td><td>7,707,470</td><td>8,519,127</td><td>811,657</td></tr>
</table>
<br>I’r llygad cyffredin, mae’r lefel hon o wariant yn syfrdanol. Yn hytrach na gwneud ceisiadau i’r llywodraeth am ragor o gyllid, pam nad yw awdurdodau lleol yn lobïo am newid i ddeddfwriaeth cludiant ysgol sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r cyngor gynnig cludiant am ddim i unrhyw ddisgybl cynradd sy’n byw fwy na dwy filltir o’r ysgol agosaf? Yn sicr, mae’r polisi hwn</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | *yn effeithio'n anghymesur ar sir wledig fel Gwynedd. Nid yw pob rhiant o reidrwydd angen y gwasanaeth hwn – oni ellid ei seilio ar angen? Mae'r ffigurau ar gyfer 2023–2024 yn arbennig o drawiadol: gorwariant o bron i £1.5 miliwn – gorwariant mewn un flwyddyn o swm a fyddai'n cadw ysgol 'anaddas' fel Nebo neu Baladeulyn ar agor am ddegawd."* | |

**8.4 Addasrwydd cludiant bws i blant ifanc (4 oed)**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 8.4.1 | "nid yw'n gwneud synnwyr yno i roi plant bach 4 oed ar fws ysgol sydd yn ddrud iawn yw rhedeg" | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Gwynedd. Yn unol â'r polisi hwnnw, nid yw dysgwyr meithrin (gan gynnwys plant pedair oed nad ydynt mewn addysg gynradd statudol) yn gymwys am gludiant ysgol. Lle bo plentyn pedair oed yn ddisgybl llawn amser yn y Dosbarth Derbyn, caiff cymhwysedd cludiant ei asesu yn unol â'r un meini prawf â dysgwyr cynradd eraill. |

**8.5 Effaith amgylcheddol ac iechyd a llesiant cludo disgyblion yn hytrach na cherdded**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 8.5.1 | "Mae'r effaith amgylcheddol hefyd yn ffactor - mae rhoi plant ar fysiau ysgol a mynd a nhw o eu cynefin ddim yn cyd-fynd ac amcanion y Ddeddf. Mae mynd ar fws yn lle cerdded i'r ysgol hefyd am gael effaith ar ei iechyd ac yn groes i'r Ddeddf" | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch effaith amgylcheddol ac iechyd trefniadau teithio, gan gynnwys cyfeiriadau at ôl-droed carbon a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith yn erbyn y Ddeddf honno ac fe'i cynhwyswyd o fewn dogfennaeth yr ymgynghoriad a fe'i diweddarwyd yn dilyn yr ymgynghoriad.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau teithio'n cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg y Sir. |
| 8.5.2 | "Maer ysgol ddigon agos i blant allu cerddad iddin saff." | |
| 8.5.3 | "Mae hyn hefyd yn cynyddu ôl troed carbon, sy'n groes i amcanion cynaliadwyedd." | |

**8.6 Hygyrchedd cludiant mewn ardaloedd gwledig a'r effaith ar deuluoedd sydd eisoes yn profi tlodi**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 8.6.1 | *"Gan fod Nebo yn ardal eithaf gwledig, bydd y gallu i deithio i'r sawl na allant wneud hynny yn profi'n heriol iawn!"* | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch hygyrchedd cludiant mewn ardal wledig fel Nebo, a'r effaith bosibl ar deuluoedd sy'n profi tlodi, gan gynnwys pryderon am ddibyniaeth ar gludiant cyhoeddus cyfyngedig a'r goblygiadau ariannol ac ymarferol i rieni a gofalwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn |
| 8.6.2 | "Buasai gorfodi teuluoedd i dalu am gludiant cyhoeddus yn cyfrannu at ddwyshau effaith tlodi plant ac allgau cymdeithasol yn enwedig i deuluoedd sydd eisoes yn profi tlodi. Buasai hyn yn groes i strategaeth tlodi plant | |

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru. Mae perchnogaeth car yn llai yng nghefn gwlad felly maent yn gorfod dibynnu ar gludiant cyhoeddus a mae hynny'n brin yn Nebo, yn enwedig pan fo raid i riant fynd gyda'u plant ar y bws am resymau diogelu plant a dod yn ol ddwy waith y diwrnod." | nodi'r sylwadau a wnaed ynghylch perchnogaeth ceir a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Gwynedd. Byddai hyn yn sicrhau bod cludiant ysgol yn cael ei ddarparu i'r dysgwyr hynny sy'n gymwys o dan y polisi. Ni fyddai unrhyw gost ynghlwm â cludiant i ddysgwyr sy'n gymwys am gludiant di-dâl o dan y polisi. |

**8.7 Galwad am eglurder am drefniadau a oblygiadau costau cludiant arfaethedig**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 8.7.1 | *"Hoffai'r Undeb…gael sicrwydd ynghylch y costau cludiant posibl a allai godi o ganlyniad i symud y plant ymhellach i ffwrdd o'u cartrefi."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r galwad am eglurder a sicrwydd ynghylch trefniadau a goblygiadau costau cludiant pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd. O dan y Polisi hwn, mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant ysgol di-dâl i ddysgwyr sy'n byw yn y sir ac sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor, sef dysgwyr sy'n derbyn addysg cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin). Yn ogystal, lle asesir nad yw llwybr cerdded yn rhesymol ddiogel i blentyn oed cynradd ei ddefnyddio, bydd trefniadau cludiant yn cael eu darparu yn unol â darpariaethau'r Polisi.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw cludiant ysgol, fel arfer, yn cael ei ddarparu i hwyluso mynediad at wasanaethau ychwanegol megis clybiau brecwast, ac mae trefniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi cludiant a'r meini prawf statudol perthnasol. |
| 8.7.2 | Pwysleisir yr angen am gludiant am ddim a dibynadwy i ddisgyblion rhwng Nebo a Llanllyfni, gan gynnwys trefniadau sy'n cefnogi mynediad i wasanaethau fel clwb brecwast. | |

## 9. Heriau i Ddilysrwydd, Tegwch ac Ansawdd y Broses Statudol

### 9.1 Pryder cyffredinol ynghylch tegwch, ansawdd a dilysrwydd y broses ymgynghori

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 9.1.1 | "Rywf yn poeni fod yr adroddiadau ond wedi'i greu i gyfiawnhau cau'r ysgol." | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch y canfyddiad bod y broses ymgynghori wedi'i chynnal i gyfiawnhau canlyniad a bennwyd ymlaen llaw.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi bod yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo wedi'i gynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys cyhoeddi dogfen ymgynghori fanwl, pecyn asesiadau effaith cynhwysfawr, a darparu cyfnod statudol penodol i rhanddeiliaid gyflwyno eu barn.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod, cynhaliwyd trefniadau penodol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc fel rhan o'r broses statudol, gan gynnwys sesiynau dynodedig gyda dysgwyr o Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yn ogystal â darparu dogfennau a holiaduron pwrpasol. Mae crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd gan y dysgwyr wedi'i gynnwys yn Adran 3 o Atodiad A – Adroddiad Ymgynghori. Mae crynodeb o safbwyntiau'r dysgwyr, ochr yn ochr â chrynodeb o'r holl ymatebion eraill a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori a gaiff ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w hystyried cyn i unrhyw benderfyniad pellach gael ei wneud.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, y camau nesaf fydd i'r Cyngor ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r asesiadau effaith. Bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei lunio ac yna'i gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd i'w ystyried. Yn amodol ar benderfyniad y Cabinet, gallai hyn arwain at y cam nesaf yn y broses statudol, sef cyhoeddi |
| 9.1.2 | *"Nid wyf yn teimlo bod y broses gyfan hon wedi'i chychwyn i ystyried dichonoldeb cadw'r ysgol ar agor. Yn hytrach, mae angen i Gyngor Gwynedd leihau gwariant ariannol, ac mae cau ysgolion bach yn cyflawni hynny."* | |
| 9.1.3 | *"Roedd y dogfennau ymgynghori yn rhoi bron yr un rhesymau dros bob opsiwn a ystyriwyd fel rhai amhriodol... roedd yn edrych fel gwaith copïo a gludo... penderfyniad wedi'i wneud eisoes i gau'r ysgol, heb unrhyw ddadleuon wedi'u rhesymu'n ofalus ynghylch pam na fyddai pob opsiwn yn gweithio. Roedd yn ymddangos fel gwaith diog."* | |
| 9.1.4 | *"...rwy'n gresynu at y sinigiaeth wrth gyflwyno fersiwn syml o'r ffurflen hon, ar y cam hwyr hwn, i'r disgyblion fynegi eu barn – gellid bod wedi gwneud hyn ar gam cynharach yn y broses, ac nid ar adeg pan ymddengys bod penderfyniad Cyngor Gwynedd i gau eu hysgol eisoes wedi'i gyflwyno fel 'fait accompli'. Os a phan fydd y cau'n mynd rhagddo, bydd y plant hyn yn dysgu'n gynnar yn eu bywydau nad yw eu barn yn cyfrif dim."* | |
| 9.1.5 | *"Roeddwn yn bryderus gweld yr un rhesymau negyddol dros gau'r ysgol yn cael eu defnyddio ar gyfer pob opsiwn a ystyriwyd."* | |
| 9.1.6 | "nid ydw i yn cytuno ar unrhyw delerau y dylid cau Ysgol Nebo o dan ffeithiau gwan a chamarweiniol eich ymgynghoriad. Mae'n ddigon hawdd i Cyngor Gwynedd ddilyn polisiau 'fait accompli' heb ystyried yn llawn yr effaith hir dymor eich penderfyniadau anghyfrifol. " | |
| 9.1.7 | *"Mae'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn llawn anghywirdebau a ffigurau heb sail, ac mae'n rhoi'r argraff bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud, yn groes i'r rheolau y dylai'r Cyngor eu dilyn."* | |

| | | |
|---|---|---|
| 9.1.8 | Mynegir pryder bod yr ymgynghoriad yn ymddangos yn ymarfer ticio'r bocs yn hytrach nag ymgysylltu ag opsiynau gwirioneddol. | hysbysiad statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ffurfiol, cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud, neu ddod a'r broses i ben. |
| 9.1.9 | "Dyliem gael mwy o amser i ymateb i'r ymgynghoriad gan nad yw'r amseeru dros y Nadolig a thywydd gwael ddim wedi caniatau i'r gymuned ei drafod mewn pryd i ymateb yn llawn. Rhaid cofio bod yr ymgynghoriad yn un pwysig iawn i ddysgwyr a phentrefwyr Neboi a'r cylch. " | |
| 9.1.10 | *"Rwy'n pryderu am ansawdd yr ymgynghoriad a'r cynnig sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gan yr Adran Addysg."* | Fel uchod. |
| 9.1.11 | *"Bu diffyg eglurder a dealltwriaeth cyffredinol, sydd hefyd wedi arwain at bryder ehangach: ni chafodd rhanddeiliaid wybod yn glir nad oedd y trafodaethau cychwynnol yn ymgynghoriad statudol. Dywedodd un rhiant ei bod yn credu y byddai cyhoeddiad yng nghyfarfod mis Mai y byddai'r ysgol yn cau. Roedd mor ofidus fel na ellid ei darbwyllo i fynychu'r cyfarfod. Nid yw ychwaith wedi'i egluro'n benodol nad oes rhaid i'r trafodaethau presennol arwain o reidrwydd at ymgynghoriad statudol—mae hyn yn amlwg o'r 'camau nesaf' a gyhoeddwyd yn nodiadau a chyflwyniadau'r cyfarfod. Mae hyn yn ychwanegu at ymdeimlad negyddol cynyddol o lithro tuag at gau, gan ddangos rhagfarn gynnil unwaith eto."* | Fel uchod. |
| 9.1.12 | Codir cwestiwn ynghylch a yw penderfyniad i gau'r ysgol eisoes wedi'i wneud, ar sail gwybodaeth a rannwyd â staff. | Fel uchod. |

**9.2 Cyfnod ymgynghori annigonol a'i amseriad (Nadolig, diffyg rhybudd, terfynau amser byr)**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 9.2.1 | *"Mae amserlen yr ymgynghoriad a'r broses gau yn gweithio yn erbyn canlyniad o gadw Ysgol Nebo ar agor. Cafodd dogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi ar y wefan ychydig cyn egwyl y Nadolig. Dyddiad cau'r ffurflen ymateb yw'r 23ain o Ionawr, gan roi ychydig iawn o amser i staff, rhieni, trigolion a rhanddeiliaid drafod y goblygiadau'n llawn a darparu adborth. Mae bron fel pe bai'r amserlen wedi'i gosod er mwyn lleihau ymatebion... Rhoddodd cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ychydig cyn y Nadolig ychydig iawn o gyfle i'r holl bartïon dan sylw—athrawon, llywodraethwyr, rhieni a thrigolion—i gyfarfod i drafod y goblygiadau a'r ffordd ymlaen."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch hyd ac amseriad y cyfnod ymgynghori.<br><br>Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), sy'n nodi bod yn rhaid cynnal cyfnod ymgynghori o o leiaf 42 diwrnod, gyda lleiafswm o 20 diwrnod ysgol o fewn y cyfnod hwn. Nid yw'r Cod yn gwahardd cynnal ymgynghoriad dros gyfnod gwyliau ysgol, ar yr amod bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni.<br><br>Yn yr achos hwn, cydymffurfiwyd â'r gofynion statudol hyn, gyda'r dogfennau ymgynghori ar gael i'r cyhoedd drwy gydol y cyfnod a chyfleoedd wedi'u darparu i randdeiliaid gyflwyno sylwadau. Bydd yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r camau nesaf yn y broses statudol. |
| 9.2.2 | *"Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau'n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a bu hynny'n oedi cyfarfodydd y pentref. Hefyd, oherwydd tywydd gwael bu'n rhaid aildrefnu. Dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori."* | Fel uchod. |
| 9.2.3 | *"Hefyd, cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau oherwydd gwyliau a thywydd gwael."* | Fel uchod. |
| 9.2.4 | *"Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau'n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a bu hynny'n oedi cyfarfodydd y pentref."* | Fel uchod. |
| 9.2.5 | *"Mae'n destun pryder bod y cyfnod ymgynghori o chwe wythnos wedi dechrau yn y cyfnod cyn y Nadolig, sydd wedi gwneud trefnu cyfarfodydd a thrafodaethau'r pentref yn anodd iawn."* | Fel uchod. |
| 9.2.6 | "siomedig dros ben fod yr Adran Addysg wedi cynnal yr ymgyngoriad statudol dros gyfnod y Nadolig. Gan gyhoeddi, heb fawr o rybudd, ar ol wythnosau o lusgo traed, fod yr ymgynghoriad yn cychwyn ar y 5ed o Ragfyr, pythefnos cyn gwyliau'r Nadolig yn ystod cyfnod mwyaf prysur yr ysgol. Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau'n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, gan oedi cyfarfodydd y gymuned. Gwrthodwyd ein cais i ymestyn y cyfnod ymgynghori gan y Pennaeth Addysg ac mae hyn wedi golygu anfantais sylweddol i'r Llywodraethwyr a staff." | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 9.2.7 | "Roeddwn yn siomedig dros ben fod yr Adran Addysg wedi cynnal yr ymgyngoriad statudol dros gyfnod y Nadolig. Gan gyhoeddi fod yr ymgynghoriad yn cychwyn ar y 5ed o Ragfyr, pythefnos cyn gwyliau'r Nadolig yn ystod cyfnod mwyaf prysur yr ysgol. Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau'n sylweddol oherwydd hyn gan oedi cyfarfodydd y gymuned. Gwrthodwyd cais gan y Llywodraethwyr i ymestyn y cyfnod ymgynghori gan y Pennaeth Addysg ac mae hyn wedi golygu anfantais sylweddol i'r Llywodraethwyr a staff." | Fel uchod. |
| 9.2.8 | *"Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau'n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a bu hynny'n oedi cyfarfodydd y pentref. Hefyd, oherwydd tywydd gwael bu'n rhaid aildrefnu cyfarfodydd er diogelwch y mynychwyr. Dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori gan fod hyn wedi creu terfynau amser tynn iawn."* | Fel uchod. |
| 9.2.9 | *"Cafodd y cyfnod ymgynghori ei fyrhau'n sylweddol gan ei fod dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a bu hynny'n oedi cyfarfodydd y pentref. Hefyd, oherwydd tywydd gwael bu'n rhaid aildrefnu er diogelwch y mynychwyr. Dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori gan fod hyn wedi creu terfynau amser tynn iawn."* | Fel uchod. |
| 9.2.10 | Nodir bod y cyfnod ymgynghori wedi'i fyrhau'n sylweddol oherwydd ei fod dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, gyda galwad i ymestyn y cyfnod ymgynghori. | Fel uchod. |

**9.3 Pryderon ynghylch dehongli cynigion y Llywodraethwyr a'r ystyriaeth a roddwyd i opsiynau amgen o fewn y broses statudol**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 9.3.1 | *"Nodwyd yng nghofnodion cyfarfod y Cabinet ym mis Mawrth 2025, Adran 5(a), i rywun ofyn: 'A fyddai'r awdurdod yn ystyried cadw'r ysgol ar agor ar gyfer plant sy'n anhapus mewn ysgol fwy o faint oherwydd bwlio cynnil o ganlyniad i rai o'u hanghenion?' … A'r ymateb oedd: 'Awgrymwyd y gallai hyn fod yn opsiwn… a gallai'r Awdurdod werthuso…' A yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud hyn?… Yn aml, ymateb pobl yw 'allwn ni ddim gwneud hynny'… wedi'i ddiffinio gan ofyniad cyfreithiol… ond mae hynny'n cyfyngu ar y canlyniadau… efallai mai'r her yw mynd yn ddyfnach nes dod o hyd i'r achos gwraidd…"* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau sy'n cyfeirio at drafodaethau blaenorol, gan gynnwys y cwestiynau a godwyd mewn cyfarfodydd yn ystod 2025 ynghylch y posibilrwydd o gadw Ysgol Nebo ar agor neu ddatblygu'r ysgol fel darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu brofiadau negyddol mewn lleoliadau addysgol mwy.<br><br>Fel rhan o'r gwaith datblygu cyn yr ymgynghoriad statudol, ystyriodd y Cyngor ystod eang o opsiynau amgen ar gyfer dyfodol Ysgol Nebo, gan gynnwys opsiwn i'r ysgol gynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Codwyd yr opsiwn hwn drwy'r trafodaethau |
| 9.3.2 | *"Nodwyd yng nghofnodion cyfarfod mis Mawrth 2025, Adran 5(a), i rywun ofyn: 'A fyddai'r awdurdod yn ystyried cadw'r ysgol ar agor ar gyfer plant sy'n* | |

| | | |
|---|---|---|
| | *anhapus mewn ysgol fwy o faint oherwydd bwlio cynnil o ganlyniad i rai o'u hanghenion? Gall plant deimlo'n fwy cyfforddus mewn ysgol fach.'*<br>*A'r ymateb oedd: 'Awgrymwyd y gallai hyn fod yn opsiwn i randdeiliaid ei gynnig, a gallai'r Awdurdod werthuso manteision ac anfanteision yr opsiwn.' A yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud hyn?"* | lleol, gan gynnwys cyfraniadau uniongyrchol gan Gorff Llywodraethol yr ysgol, a dehonglwyd yr opsiwn ar y pryd fel model lle byddai Ysgol Nebo yn parhau fel ysgol, ochr yn ochr â darparu uned ADY ar y safle i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol.<br><br>Nodir bod nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi mynegi'n glir nad dyma oedd bwriad gwreiddiol y Llywodraethwyr, ond yn hytrach y dymuniad oedd archwilio posibilrwydd o Ysgol Nebo yn gweithredu fel darpariaeth arbenigol ar ei phen ei hun i gefnogi plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt. O ganlyniad i'r eglurhad hwn, ac yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor bellach wedi ychwanegu'r opsiwn hwn fel opsiwn rhesymol amgen ar wahân, ac mae asesiad pellach wedi'i gynnal o'r opsiwn hwn.<br><br>Cynhwysir asesiad pellach o'r opsiwn hwn yn Adrannau 6 a 7 o'r Adroddiad Ymgynghori. Bydd yr holl opsiynau rhesymol amgen, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan rhanddeiliaid, yn derbyn ystyriaeth fel rhan o'r broses statudol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach. |
| 9.3.3 | *"Yn nodiadau cyfarfod mis Mawrth 2025, yn Adran 5(a), gofynnodd rhywun 'A fyddai'r Awdurdod yn ystyried cadw'r ysgol ar agor ar gyfer plant sy'n anhapus mewn ysgol fwy o ganlyniad i fwlio cynnil...?' ... A'r ymateb oedd... 'y gallai'r Awdurdod werthuso manteision ac anfanteision yr opsiwn.' A yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud hyn?"* | |
| 9.3.4 | *"Yn y cyfarfod Cabinet ym mis Hydref 2025 lle pasiwyd y cynnig i gau'r ysgol, canmolodd y Cadeirydd y Llywodraethwyr am 'feddwl y tu allan i'r bocs'. Byddai derbyn y cynnig arloesol hwn yn dangos bod Cyngor Gwynedd yn gallu gwneud hynny hefyd. Yn nodiadau'r cyfarfod ym mis Mawrth 2025 gyda rhieni, llywodraethwyr ac athrawon (Adran 5(a)), gofynnodd rhywun: 'A fyddai'r awdurdod yn ystyried cadw'r ysgol ar agor ar gyfer plant sy'n anhapus mewn ysgol fwy oherwydd bwlio cynnil o ganlyniad i rai o'u hanghenion? Gall plant deimlo'n fwy cyfforddus mewn ysgol fach.'*<br>*A'r ymateb oedd: 'Awgrymwyd y gallai hyn fod yn opsiwn i randdeiliaid ei gynnig, a gallai'r Awdurdod werthuso manteision ac anfanteision yr opsiwn.' Nid yw'n glir hyd yma a yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud hyn."* | |
| 9.3.5 | "Mae sawl opsiwn eisioes wedi'u cyflwyno i Cyngor Gwynedd a'r opsiwn mae'r Llywodraethwyr, rhieni a chymuned yr ysgol yn ei ffafrio yw cadw'r Ysgol ar agor ar gyfer plant gyda phroblemau cymdeithasol ac emosiynol neu sy'n anhapus mewn ysgol fwy oherwydd bwlio ayb. Nid yw Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno'r opsiwn yma yn yr ymgynghoriad er i'r Llywodraethwyr gyflwyno'r opsiwn yn glir iddynt. Yn hytrach, mae'r Adran Addysg wedi'i gam-ddehongli fel Uned ADY gan ysgubo'r syniad i'r naill ochr. Hoffwn dderbyn sylw Cyngor Gwynedd ar hyn?" | Fel uchod. |
| 9.3.6 | "Credwn fod rhai materion nad ydynt wedi'u hystyried yn llawn yn yr asesiadau effaith presennol. Yn benodol, archwilio'n ddigonol y potensial i'r ysgol weithredu fel model neu gynllun peilot arloesol, gan gefnogi plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy neu sy'n cael eu haddysgu gartref yn rhannol, fel ateb ataliol a chost-effeithiol i her gynyddol sydd eisoes wedi'i chydnabod gan y Cyngor." | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 9.3.7 | "Yn hynod siomedig, nid yw'r opsiwn a ffefrir gan Gorff Llywodraethwyr Ysgol Nebo wedi'i ystyried yn llawn nac wedi'i ddatblygu'n briodol yn y dogfennau." | Fel uchod. |
| 9.3.8 | *"Mae'r ddogfen yn ystyried opsiynau eraill, ond nid yr un a gynigiwyd gan lywodraethwyr ac athrawon yr ysgolion. Yn hytrach, rydych wedi ail-ddehongli eu hawgrym fel dymuniad i ychwanegu Uned ADY at yr ysgol, gan wybod y byddai hynny'n gostus ac y byddai unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu o ysgolion eraill yn cael eu cyfrif yn erbyn eu hysgolion gwreiddiol ac nid Nebo—gan gefnogi'n gyfleus eich penderfyniad i gau'r ysgol."* | Fel uchod. |
| 9.3.9 | "Fe ddaru'r swyddogion awdit gam-ddeall cynigion y llywodraethwyr yn fwriadol yn fy marn i. Un cynnig gan y llywodraethwyr oedd i ddarparu gwasanaeth i ddisgyblion sydd ag anawsterau emosiynol a/neu iechyd meddwl. Bu i'r swyddogion nodi hyn fel darpariaeth ADY gan dweud nad oedd yr adeilad yn addas heb newidiadau sylweddol. NID dyma oedd y cynnig! ." | Fel uchod. |
| 9.3.10 | *"Cynigiwyd opsiwn amgen gan y Llywodraethwyr, ond camddehonglwyd hyn gan y Cyngor fel 'ychwanegu Uned ADY', sydd yn sefyllfa colli-colli i Ysgol Nebo."* | Fel uchod. |
| 9.3.11 | *"Mae cynnig y Corff Llywodraethu i alluogi'r ysgol i gefnogi mwy o ddysgwyr sy'n cael trafferthion llesiant yn cael ei ddiystyru ar sail costau creu Uned ADY newydd ar y safle. Nid yw'r cynnig fel y'i cyflwynwyd yn gofyn am unrhyw adeiladu ychwanegol, ond yn hytrach am ddefnyddio'r gofod dosbarth sydd eisoes ar gael. Mae'n disgrifio'r opsiwn hwn fel darparu 'uned arbenigol', nad oedd yn wir."* | Fel uchod. |
| 9.3.12 | *"Ar yr un pwynt o ran agwedd ddiystyriol ar ran y Cyngor, prin iawn y mae opsiwn 5 (datblygu safle arbenigol ar gyfer gwaith maes) wedi'i archwilio o gwbl. Er enghraifft, o dan 'bygythiadau', ceir y sylw: 'Yn dibynnu ar y model penodol, gallai fod yn angenrheidiol cau'r ysgol bresennol a'i hailagor fel ysgol arbenigol.' Dylai dysgu yn yr awyr agored fel strategaeth i wella canlyniadau disgyblion fod yn arfer safonol ym mhob ysgol: mae'r syniad bod angen ysgol arbenigol i arddangos dysgu awyr agored yn gwbl chwerthinllyd – mae'r awgrym yn ymwneud â meysydd y cwricwlwm, nid chwaraeon eithafol."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad ynghylch opsiwn 5 sy'n ymwneud â datblygu safle arbenigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. Nodir bod yr opsiwn hwn wedi'i ystyried fel rhan o'r gwaith datblygu cyn yr ymgynghoriad statudol, ac fe'i cynhwyswyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br><br>Yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae'r opsiwn hwn, ynghyd ag opsiynau rhesymol amgen eraill, wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori ac wedi derbyn asesiad pellach fel rhan o'r broses statudol. |

### 9.4 Diffyg tryloywder a thystiolaeth ategol ynghylch costau atgyweirio'r ysgol (£95,000)

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 9.4.1 | *"Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i grybwyll. Daeth y ffigwr hwn fel syndod mawr i staff a llywodraethwyr yr ysgol. Mae hyn yn enghraifft arall o sut y mae gwybodaeth yn ymddangos fel pe bai wedi'i chadw'n fwriadol oddi wrth y partïon perthnasol, er mwyn ei defnyddio'n ddiweddarach fel ffactor negyddol o ran cadw'r ysgol ar agor."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch y ffigwr o £95,000 a gyfeirir ato yn y ddogfennaeth ymgynghori mewn perthynas â costau ôl-groniad cynnal a chadw adeilad Ysgol Nebo, gan gynnwys y pryderon a godwyd ynghylch tryloywder, sail y ffigwr a lefel y manylder a ddarparwyd.<br><br>Nodai'r Cyngor nad yw costau cynnal a chadw'r adeilad wedi'u nodi fel her allweddol sy'n wynebu'r ysgol nac fel rheswm dros y cynnig. Mae'r ffigwr o £95,000 wedi'i gynnwys er mwyn darparu cyd-destun gwybodaeth am gyflwr yr adeilad fel rhan o'r darlun ehangach o'r ddarpariaeth.<br><br>Nodir bod y ffigwr hwn yn seiliedig ar arolwg cyflwr a gynhelir gan y Cyngor, fel rhan o'r arolygon cyflwr rheolaidd a gynhelir ar draws ystâd ysgolion y Sir. Mae'r arolygon hyn yn cyfrannu at Gynllun Rheoli Asedau'r Awdurdod ac yn cefnogi blaenoriaethu'r rhaglen waith cynnal a chadw ysgolion.<br><br>Yn achos Ysgol Nebo, mae'r adeilad wedi'i asesu fel categori cyflwr 'B' (boddhaol - mân ddirywiad), gyda mannau o ddirywiad sy'n gofyn am waith cynnal a chadw. Mae'r arolwg cyflwr yn nodi'r angen am y gwaith canlynol:<br>• Atgyweirio'r to a'r gwteri – £35,000<br>• Uwchraddio'r toiledau – £25,000<br>• Ail-rendro waliau allanol – £30,000<br>• Amnewid rhai ffenestri – £5,000<br>• Cyfanswm yr amcangyfrif – £95,000<br><br>Mae'r tabl a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori yn crynhoi cyflwr yr adeiladau yn Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, ynghyd â'r gwaith cynnal a chadw amcangyfrifedig sydd ei angen. Mae'r gwaith a nodir yn adlewyrchu |
| 9.4.2 | *"Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i gynnig, gyda dim ond amlinelliad bras iawn yn y ddogfen."* | |
| 9.4.3 | *"Mae ffigwr o £95,000 wedi'i ddyfynnu fel swm sydd ei angen ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad, ond nid yw cydrannau'r ffigwr hwn yn cael eu hegluro yn y ddogfen."* | |
| 9.4.4 | *"Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i gynnig, a hoffai'r gymuned gael gweld manylion costau manwl ar gyfer y ffigwr hwn."* | |
| 9.4.5 | *"Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i gynnig, a hoffai'r gymuned gael gweld manylion costau manwl ar gyfer y ffigwr hwn."* | |
| 9.4.6 | *"Mae ffigwr o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol wedi'i gynnig, a hoffai'r gymuned gael gweld dadansoddiad manwl o'r costau."* | |
| 9.4.7 | "Hoffwn dderbyn rhestr fanwl ac amcanbrisiau o'r gwaith atgyweirio... gan bod y ffigwr uchel o £95,000 wedi synnu'r Llywodraethwyr." | |
| 9.4.8 | "oes amcanbrisiau o'r gwaith atgyweirio sydd angen ei wneud ar yr ysgol? Mae'r ffigwr o £95,000 yn uchel a gellid dweud yn 'gamarweiniol'gan yn amlwg nad oes brys mawr i wneud y gwaith yma neu fe fyddai perygl i staff a disgyblion." | |
| 9.4.9 | "Mae'r swm o £95,000 ar gyfer atgyweiriadau i'r Ysgol heb unrhyw sail, tystiolaeth, cyfiawnhad ac yn gamarweiniol. Ble mae'r amcanbrisiau? Ydy'r adroddiad wedi eu paratoi gan adeiladwyr neu syrfeiwyr proffesiynol?" | |

| | | |
|---|---|---|
| 9.4.10 | "Nid oes tystiolaeth ategol ddigonol i gyfiawnhau'r ffigwr cynnal a chadw o £95,000 a nodir yn y dogfennau ymgynghori. Pan holwyd tîm Moderneiddio Addysg am fanylion y costau hyn, darparwyd y wybodaeth ganlynol drwy e-bost:<br>"Gwaith atgyweirio'r to a'r gwteri –£35k<br>Uwchraddio'r toiledau –£25k<br>Ail-rendro'r waliau allanol –£30k<br>Amnewid rhai ffenestri –£5k<br>Cyfanswm –£95k"<br>Mewn mater mor ddifrifol â chau ysgol wledig, disgwylir dadansoddiad cost llawn, tryloyw ac wedi'i ddogfennu, gan gynnwys<br>manylion cwmpas y gwaith, amserlen a pa waith hyn fyddai'n ofynnol beth bynnag fo'r penderfyniad ar ddyfodol yr ysgol. Mae'n<br>siomedig ac yn annheg bod ffigwr sylweddol o'r fath yn cael ei gynnwys mewn dogfennau statudol heb unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ategol, dyfynbrisiau, neu asesiad technegol, ac felly ni ddylid dibynnu arno fel sail gadarn ar gyfer penderfyniad o'r pwysigrwydd hwn." | anghenion cynnal a chadw tebygol dros gyfnod, ac nid yw pob elfen yn waith brys nac yn waith a fyddai'n ofynnol ar unwaith.<br><br>Nodai'r Cyngor nad yw costau cynnal a chadw'r adeilad wedi'i nodi fel her allweddol sy'n wynebu'r ysgol nac fel rheswm dros y cynnig. Yn hytrach, cynhaliwyd yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo am fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol eraill, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. |
| 9.4.11 | *"Mae ffigwr o £95,000 wedi'i nodi ar gyfer atgyweiriadau i'r ysgol. Gan nad yw archwiliad manwl o seilwaith yr ysgol wedi'i gynnal, mae'n amlwg mai ffigwr a gynhyrchwyd gan eich Adran Ystadau at ddibenion cynllunio cyllidebol hirdymor yw hwn, ac felly dylid ei gyflwyno'n glir fel amcangyfrif yn hytrach nag fel cost wirioneddol sy'n ymwneud â'r ysgol. Rydych yn camarwain y cyhoedd yn fwriadol yn y ddogfen hon er mwyn cefnogi penderfyniad yr ydych eisoes wedi'i wneud."* | Fel uchod. |
| 9.4.12 | "Buasai'n dda gweld sut y daethpwyd at y swm £95,000 er mwyn atgywiro'r ysgol. Hoffwn weld beth oedd y costau atgywiro dros y 5 mlynedd diwethaf a 'break down o'r £95,000. A gafwyd mwy nag un cwmni i roi pris?" | Fel uchod. |

### 9.5 Anghysondeb neu wallau mewn data ariannol (cost fesul dysgwr)

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 9.5.1 | *“Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 – nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol ac felly dylai fod yn £17,245?”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a dderbyniwyd sy’n cwestiynu cywirdeb y ffigyrau ariannol a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, yn benodol mewn perthynas â dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer blwyddyn ariannol 2025–26 a’r gost fesul dysgwr a gyhoeddwyd.<br><br>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer 2025–26 oedd £206,936, gyda chost fesul dysgwr o £25,867. Mae’r Cyngor yn egluro bod y ffigwr cost fesul dysgwr wedi’i gyfrifo ar sail y niferoedd dysgwyr a oedd ar y gofrestr ym Medi 2024, gan mai dyma’r data swyddogol a ddefnyddir wrth bennu dyraniadau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.<br><br>Yn achos Ysgol Nebo, roedd y niferoedd dysgwyr ar y pryd yn is na’r niferoedd presennol, sy’n egluro’r gwahaniaeth rhwng y ffigwr a gyhoeddwyd yn y ddogfen ymgynghori a’r ffigyrau a awgrymwyd gan rai ymatebwyr ar sail niferoedd diweddarach.<br><br>Mae’r Cyngor yn nodi bod niferoedd dysgwyr yn gallu amrywio dros amser, ac er bod cynnydd wedi’i nodi ers Medi 2024, nid yw’r newid hwn wedi’i adlewyrchu yn y dyraniad cyllidol ar gyfer 2025–26, gan fod y dyraniad hwnnw eisoes wedi’i bennu yn unol â’r cylch cyllidebol safonol. Mae newidiadau i niferoedd dysgwyr yn cael eu hystyried drwy’r prosesau cyllidebol arferol ar gyfer blynyddoedd ariannol dilynol, gan gynnwys 2026–27.<br><br>Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026–27, bydd y gost gyfartalog fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn £16,066, wedi’i chyfrifo ar sail niferoedd y dysgwyr ar y gofrestr ym mis Medi 2025, sef 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr |
| 9.5.2 | *“Mae’r ddogfen yn cydnabod bod nifer y dysgwyr wedi cynyddu i 12, ond yn parhau i nodi cost fesul dysgwr o £25,867, sydd wedi’i seilio ar ddim ond 8 dysgwr. Dylai’r ffigwr cywir fod yn £17,245, sy’n sylweddol is.”* | |
| 9.5.3 | “Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 –nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol a dylai fod yn £17,245?” | |
| 9.5.4 | “Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 –nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol.” | |
| 9.5.5 | “nid yw ffigyrau dyraniad ariannol Ysgol Nebo 2025-26 o gost fesul dysgwr yn gywir ac yn gamarweiniol.” | |
| 9.5.6 | *“Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 – nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol ac felly dylai fod yn £17,245?”* | |
| 9.5.7 | *“Yn y ddogfen ymgynghori, roedd dyraniad ariannol Ysgol Nebo ar gyfer 2025–26 yn £206,936 gyda chost fesul dysgwr o £25,867 – nid oedd hyn wedi’i seilio ar y 12 disgybl presennol ac felly dylai fod yn £17,245?”* | |
| 9.5.8 | *“Y gwir yw mai 12 yw nifer y disgyblion, nid 8, felly mae eich cyfrifiad o gost fesul disgybl yn anghywir ac yn gamarweiniol.”* | |
| 9.5.9 | Herir cyfrifiad cost fesul dysgwr fel un anghywir, gan nodi nad yw wedi’i seilio ar nifer y disgyblion presennol. | |

| | | |
|---|---|---|
| 9.5.10 | *"sicrhau bod y data ar gapasiti, costau a darpariaeth leol yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ymarferol yn y tymor canolig a'r tymor hir."* | Meithrin. Bydd y gost gyfartalog fesul dysgwr cynradd ar gyfer y Sir am yr un cyfnod yn £5,998.<br><br>O ran y cyfeiriadau at gost gyfartalog addysg fesul dysgwr ar lefel sirol, mae'r Cyngor yn egluro mai cyfartaledd ar draws holl ysgolion cynradd y sir yw hwn.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr wybodaeth ariannol a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol wedi'i seilio ar y data mwyaf diweddar oedd ar gael ar y pryd, sef gwybodaeth ariannol ar gyfer 2025–26. |
| 9.5.11 | *"… Wrth ddyfynnu'r gost fesul disgybl, mae'n defnyddio ffigwr Medi 2024 o 8 disgybl. Mae hyn yn gamarweiniol – y pwynt data PLASC mwy diweddar oedd 10 disgybl, a'r ffigwr presennol yw 12. (Yn nodedig, byddai'r ffigwr wedi bod yn 14 – gadawodd dau ddisgybl ar ôl i'r trafodaethau gael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2025, gan dybio y byddai'r ysgol yn cau)."* | |
| 9.5.12 | *"Roedd diffyg sylw amlwg i fanylion yng nghyflwyniadau'r Cyngor a'r dadansoddiadau SWOT. Er enghraifft, mae cwestiwn heb ei ateb o hyd ynghylch cost gyfartalog addysg fesul disgybl, a ddyfynnir fel £5,223, sef ffigwr nad yw'n ymddangos ei fod yn cyfateb i ddata llywodraethol cyhoeddedig."* | |

**9.6 Capasiti a llefydd gwag wedi'u gor-amcangyfrif neu'n afrealistig**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 9.6.1 | *"Mae'r llefydd gwag wedi'u hasesu ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ond nid oes modd lletya 58 o blant – y rhif sy'n cael ei ystyried mewn gwirionedd yw 25, ond pe bai rhai o'r rhain yn rhan-amser, er enghraifft wedi'u haddysgu'n rhannol gartref, gellid cefnogi tua 40 o blant."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n cwestiynu cywirdeb y ffigurau capasiti a'r llefydd gweigion a nodir ar gyfer Ysgol Nebo.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod capasiti'r ysgol wedi'i bennu yn unol â'r dull statudol safonol, a nodir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru *Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru*.<br><br>Ar sail yr asesiad hwn, nodir capasiti Ysgol Nebo fel 51 o lefydd ar gyfer dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6, gyda chapasiti ychwanegol ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin. Gyda 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr yr ysgol, mae 40 o lefydd gweigion ar gyfer y cyfnod oedran hwnnw, sef tua 78% o gapasiti'r ysgol. Yn ogystal, gyda 1 dysgwr yn y dosbarth Meithrin, mae 6 lle gwag arall yn y ddarpariaeth Feithrin. O ganlyniad, wrth ystyried y ddarpariaeth lawn o Feithrin i Flwyddyn 6, mae gan Ysgol Nebo gyfanswm o 46 o lefydd gweigion, sy'n cyfateb i tua 79% o gapasiti'r ysgol.<br><br>O ganlyniad, mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y ffigurau capasiti a llefydd gweigion a nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn gywir, ac yn adlewyrchu'r capasiti a bennwyd yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o gapasiti'r ysgol, a gyfrifwyd yn unol â'r dull statudol priodol. |
| 9.6.2 | *"Mae gan Ysgol Nebo 12 disgybl ar hyn o bryd – gyda chapasiti amcangyfrifedig presennol o 25 o ddisgyblion y dydd, gallai 13–20 o ddisgyblion ychwanegol elwa ar addysg amser llawn neu ran-amser."* | |
| 9.6.3 | *"Amcangyfrifodd Cyngor Gwynedd fod 58 o lefydd yn Ysgol Nebo… mae'n anodd cyfiawnhau'r ffigwr hwn ac mae'n fwy tebygol ei fod yn agosach at 30."* | |
| 9.6.4 | *"Mae'r ffigwr capasiti llawn o 58 yn nonsens… byddai'n anodd iawn ffitio mwy na hanner y nifer hwnnw."* | |
| 9.6.5 | *"Mae'r nifer uchel o lefydd gwag a honnir wedi'i seilio ar gapasiti o 58 o ddysgwyr… er mwyn cynnal y profiad dysgu rhagorol… byddai uchafswm o 25 yn llawer mwy realistig."* | |
| 9.6.6 | "Mae'r llefydd gwag wedi'u nodi ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ni fyddai hynny yn bosibl o ystyried adnoddau tai bach a maint y dosbarthaidau." | |

| | | |
|---|---|---|
| 9.6.7 | “Mae’r llefydd gwag wedi’u nodi ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ni fyddai hynny yn bosibl o ystyried adnoddau tai bach a maint y dosbarthiadau” | Fel uchod. |
| 9.6.8 | *“Mae’r llefydd gwag wedi’u hasesu ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ond nid oes modd lletya 58 – y rhif sy’n cael ei ystyried yw 25, ond pe bai rhai o’r rhain yn rhan-amser, er enghraifft wedi’u haddysgu’n rhannol gartref, gellid cefnogi tua 40 o blant. Yn flaenorol, pan oedd fy mhlentyn yn mynychu’r ysgol, cawsom wybod mai’r capasiti uchaf oedd 32 oherwydd gofod y dosbarthiadau ac ati, ac mae hyd yn oed hynny’n ymddangos braidd yn uchel o ystyried y cyfleusterau.”* | Fel uchod. |
| 9.6.9 | *“Mae’r llefydd gwag wedi’u hasesu ar sail capasiti llawn o 58 o ddisgyblion. Ond nid oes modd lletya 58 – y rhif sy’n cael ei ystyried yw 25, ond pe bai rhai o’r rhain yn rhan-amser, er enghraifft wedi’u haddysgu’n rhannol gartref, gellid cefnogi tua 40 o blant.”* | Fel uchod. |
| 9.6.10 | “Mae'r nifer o lefydd gwag yn Ysgol Nebo y mae Cyngor Gwynedd wedi'u hasesu hefyd yn gamarweiniol. Mi fyddai'n hollol amhosib i letya 58 o blant gyda'r diffyg gofod a'r cyfleusterau sydd yn yr Ysgol.” | Fel uchod. |
| 9.6.11 | Dadleuir nad yw’r capasiti o 58 yn realistig, ac y gallai’r ysgol gefnogi mwy o blant drwy drefniadau hyblyg (e.e. rhan-amser). | Fel uchod. |
| 9.6.12 | Dadleuir bod y capasiti a nodwyd yn afrealistig, a bod capasiti is ond realistig yn cynnig costau fesul disgybl llawer is. | Fel uchod. |
| 9.6.13 | “Hoffwn wybod sut mae Cyngor Gwynedd wedi dod i'r casgliad bod lle i 58 o ddisgyblion… Credaf bod y rhif yn agosach at 25.” | Fel uchod. |

**9.7 Amserlen y broses statudol, effaith cau canol blwyddyn a galwad i ymestyn y dyddiad gweithredu i sicrhau pontio teg ac ystyried Adroddiad ADY Medi 2026 cyn gwneud penderfyniad**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 9.7.1 | *"Nid oes unrhyw benderfyniad Cabinet ffurfiol tan o leiaf fis Mawrth... yna hysbysiad statudol gyda chyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod... penderfyniad terfynol o fewn 16 wythnos... sy'n debygol o fod ym mis Medi, dim ond 3 mis cyn cau?"*<br>*"Dylid ymestyn y dyddiad cau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, sef Gorffennaf 2027. Fel arall, bydd rhieni'n tynnu eu plant allan o'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ym Medi 2026. Hefyd, dim ond ym Medi 2026 y caiff adroddiad Cyngor Gwynedd ar ddarpariaeth ADY ei gyhoeddi, ac pe bai hwnnw'n ystyried y syniadau hyn, byddai'n rhy hwyr i'w gweithredu pe bai penderfyniad eisoes wedi'i wneud i gau'r ysgol ym mis Rhagfyr 2026."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer y broses statudol, gan gynnwys y ffaith nad yw penderfyniad terfynol gan y Cabinet wedi'i wneud hyd yma, a'r awgrym y dylid gohirio unrhyw gau posibl tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2026/27 yn hytrach na Rhagfyr 2026. Nodir hefyd y sylwadau sy'n codi pryderon ynghylch effaith cau canol blwyddyn ar lesiant a phrofiad addysgol dysgwyr, yn enwedig disgyblion ym Mlwyddyn 6, a'r posibilrwydd y gallai rhai rhieni ddewis symud eu plant cyn hynny.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr amserlen a nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn adlewyrchu'r gofynion statudol a osodir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys y camau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniad, cyhoeddi hysbysiad statudol (os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig), y cyfnod gwrthwynebu, a'r gofyniad i ddod i benderfyniad terfynol o fewn yr amserlenni a nodir yn y Cod.<br><br>O ran y sylwadau sy'n ymwneud â'r Adroddiad ar ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Cyngor, nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i'r Awdurdod Lleol, a bod anghenion dysgwyr unigol yn cael eu hystyried yn barhaus drwy'r trefniadau statudol presennol. Mae'r broses ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Nebo wedi'i chynnal ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth oedd ar gael ar y pryd, ac mae unrhyw benderfyniad terfynol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn cynnwys ystyried trefniadau pontio priodol a chefnogaeth addas i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY. |
| 9.7.2 | *"Nid oes penderfyniad Cabinet gwirioneddol tan o leiaf fis Mawrth... 'Penderfyniad terfynol... o fewn 16 wythnos...' yn debygol o fod ym mis Medi, dim ond tri mis cyn y cau arfaethedig... byddai oedi unrhyw benderfyniad tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2026/27 yn llawer mwy realistig..."*<br>*"Hefyd, dim ond ym Medi 2026 y caiff adroddiad Cyngor Gwynedd ar ddarpariaeth ADY ei gyhoeddi, ac pe bai hwnnw'n ystyried y syniadau hyn, byddai'n rhy hwyr i'w gweithredu pe bai penderfyniad eisoes wedi'i wneud i gau'r ysgol ym mis Rhagfyr 2026."*<br>*"Mae'r syniad o gau'r ysgol ym mis Rhagfyr 2026, hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd, yn gwneud dim synnwyr o gwbl; mae'n debygol y byddai rhieni'n symud eu plant i ddechrau mewn ysgol newydd ym mis Medi."* | |
| 9.7.3 | "Nid oes unrhyw ystyriaeth yn yr ymgynghoriad o Adroddiad ADY Cyngor Gwynedd sydd i'w gyhoeddi ym mis Medi 2026 i ddatrys anghenion plant gyda anghenion dysgu arbennig - mater y mae Estyn yn cymeryd o ddifri. Gofynnaf i'r Adran Addysg oedi'r penderfyniad i gau Ysgol Nebo tan i'r adroddiad gael ei gyhoeddi." | |
| 9.7.4 | *"Pam mae'r ymgynghoriad yn awgrymu y byddai cau'n digwydd ym mis Rhagfyr 2026, hanner ffordd drwy'r flwyddyn ysgol; pe bai'n cael ei ymestyn tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2026/27, byddai hyn yn rhoi llawer mwy o amser i bawb (y Cyngor a'r gymuned) ystyried opsiynau amgen. Mae'n ymddangos yn amserlen frys iawn ar gyfer gwneud penderfyniad mor* | |

| | | |
|---|---|---|
| | *sylweddol… mae'r 'penderfyniad terfynol' yn debygol o fod ym mis Medi, dim ond tri mis cyn y cau?"*<br>*"Awgrymwyd y dylid ymestyn y dyddiad cau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, sef Gorffennaf 2027. Fel arall, bydd rhieni'n tynnu eu plant allan o'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ym Medi 2026. Hefyd, dim ond ym Medi 2026 y caiff adroddiad Cyngor Gwynedd ar ddarpariaeth ADY ei gyhoeddi, ac pe bai hwnnw'n ystyried y syniadau hyn, byddai'n rhy hwyr i'w gweithredu pe bai penderfyniad eisoes wedi'i wneud i gau'r ysgol ym mis Rhagfyr 2026."* | |
| 9.7.5 | "Gofynnwn i'r cyngor ohirio'r cau nes bod yr Adroddiad ar Strategaeth ADY Cyngor Gwynedd yn cael ei gyhoeddi yn Medi 2026." | |
| 9.7.6 | *"Mae'r cau arfaethedig wedi'i osod ar gyfer Rhagfyr 2026. Pam felly, yn hytrach nag ar ddiwedd blwyddyn academaidd? Byddai'n well i'r rhan fwyaf o ddisgyblion symud ar ddiwedd un flwyddyn academaidd a dechrau'r nesaf. Bydd gosod dyddiad cau ym mis Rhagfyr 2026 yn debygol o arwain at rieni'n symud eu plant yn gynnar, gan arwain at ostyngiad mewn niferoedd ac atgyfnerthu cynnig y Cyngor i gau ysgolion gyda niferoedd sy'n gostwng."* | |
| 9.7.7 | *"Nid oes penderfyniad Cabinet gwirioneddol tan o leiaf fis Mawrth. Yna ceir hysbysiad statudol gyda chyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod. 'Penderfyniad terfynol ar y cynnig o fewn 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu' – sy'n debygol o fod ym mis Medi, dim ond tri mis cyn y cau?"*<br>*"Awgrymwyd y dylid ymestyn y dyddiad cau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, sef Gorffennaf 2027. Fel arall, bydd rhieni'n tynnu eu plant allan o'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ym Medi 2026. Hefyd, dim ond ym Medi 2026 y caiff adroddiad Cyngor Gwynedd ar ddarpariaeth ADY ei gyhoeddi, ac pe bai hwnnw'n ystyried y syniadau hyn, byddai'n rhy hwyr i'w gweithredu pe bai penderfyniad eisoes wedi'i wneud i gau'r ysgol ym mis Rhagfyr 2026."*<br>*"A yw'r risg o oedi'r penderfyniad yn ymwneud â 'niweidio enw da'r Cyngor'? Yn bwysicach o lawer yw ystyriaeth y niwed i blant a chymunedau Nebo a Nasareth."* | Fel uchod. |
| 9.7.8 | *"Pryder mawr arall i mi yw'r dyddiad cau arfaethedig sydd hanner ffordd drwy'r tymor ysgol. Beth bynnag fo manteision neu anfanteision cau'r ysgol, byddai ysgol bob amser yn cau ar ddiwedd blwyddyn academaidd gan y byddai hynny'n amlwg er budd gorau'r plant. Yr unig esboniad am y cau arfaethedig yng nghanol y flwyddyn yw gorfodi rhieni i dynnu eu plant allan o* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | *Nebo cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, er mwyn gallu portreadu Nebo fel ysgol sy'n methu a chefnogi eich penderfyniad i'w chau."* | |
| 9.7.9 | *"Pam cau'r ysgol hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd?"* | Fel uchod. |
| 9.7.10 | *"Byddwn wedi meddwl mai'r amser gorau ar gyfer cau fyddai ar ddiwedd y flwyddyn academaidd."* | Fel uchod. |
| 9.7.11 | "Rydym hefyd yn teimlo fod cau yr ysgol yn Rhagfyr 2026 ynghanol blwyddyn ysgol yn hollol anheg ar blant fydd ym mlwyddyn 6.<br>Pa synnwyr sydd mewn symud plant am ddau dymor yn unig i ysgol ddiarth, cyn iddyn nhw wedyn bontio i'r Uwchradd?" | Fel uchod. |
| 9.7.12 | Nodir y dylai unrhyw gau ddigwydd ddiwedd blwyddyn academaidd (e.e. Gorffennaf 2027), gan fod symud canol blwyddyn yn niweidiol i blant. | Fel uchod. |
| 9.7.13 | "Credaf fod cau yr ysgol yn Rhagfyr 2026 ynghanol blwyddyn ysgol yn hollol anheg ar blant fydd ym mlwyddyn 6. Ydy'r Adran<br>Addysg wir yn credu y byddai hyn yn deg? Oes synnwyr mewn symud plant am ddau dymor yn unig i ysgol ddiarth, cyn iddyn<br>nhw wedyn orfod symud eto i'r Uwchradd?" | Fel uchod. |

**9.8 Datganiadau ffeithiol anghywir neu anghyfoes yn y broses**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 9.8.1 | *"Dywedwyd yng nghyfarfod mis Mai 2025 fod 'nifer y disgyblion yn yr ysgol yw'r isaf yn y sir'... ond Baladeulyn sydd bellach â'r nifer isaf."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 9.8.2 | *"Dywedwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai 2025 fod 'nifer y disgyblion yn yr ysgol yw'r isaf yn y sir' – roedd hyn yn gywir ar y pryd, ond Baladeulyn sydd bellach â'r nifer isaf."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 9.8.3 | *"Ni allaf wneud awgrymiadau ynghylch opsiynau'r Cyngor gan eu bod wedi'u seilio ar wybodaeth anghywir. Er enghraifft, dywedir nad oes cae chwarae gan Ysgol Nebo. Mae yna gae, ar ochr chwith Lon Cerrig."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad, ac yn cadarnhau bod yr wybodaeth hon wedi'i hystyried ac wedi'i hymgorffori yn yr asesiadau effaith diwygiedig. |
| 9.8.4 | *"Cafodd cost rhedeg yr ysgol fesul disgybl ei chyfrifo cyn y cynnydd o 50% yn niferoedd y disgyblion."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 9.8.5 | *"Mae gan Nebo 'gae chwarae i blant', ond nid yw hyn wedi'i gydnabod yn y ddogfen."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad, ac yn cadarnhau bod yr wybodaeth hon wedi'i hystyried ac wedi'i hymgorffori yn yr asesiadau effaith diwygiedig. |
| 9.8.6 | *"Mae gan Nebo 'gae chwarae i blant', ond nid yw hyn wedi'i gydnabod."* | |

| | | |
|---|---|---|
| 9.8.7 | *"Mae gan Nebo 'gae chwarae i blant', ond nid yw hyn wedi'i gydnabod."* | |
| 9.8.8 | *"Mae gan Nebo gae chwarae mewn gwirionedd, sydd rywsut wedi'i hepgor."* | |
| 9.8.9 | *"Mewn tabl o gyfleusterau lleol, mae presenoldeb 'Cae Chwarae i Blant' ger yr ysgol wedi'i anwybyddu."* | |
| 9.8.10 | *"Mae gan Nebo 'gae chwarae i blant', ond nid yw hyn wedi'i gydnabod…"* | |

**9.9 Sylwadau yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth â Chod Trefniadaeth Ysgolion (2018), yn enwedig y ddyletswydd i ystyried dewisiadau amgen**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 9.9.1 | "Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir ystyried dewisiadau amgen, ymgynghori ar opsiynau eraill, a sicrhau bod effaith ar ddysgwyr a'u canlyniadau yn ganolog i unrhyw benderfyniad. Mae hyn yn creu dyletswydd gyfreithiol i ddangos y byddai cau ysgol yn darparu canlyniadau gwell i ddisgyblion na'r dewisiadau sydd ar gael. Credwn nad yw Cyngor Gwynedd wedi llawn ystyried pob opsiwn" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod ystod o opsiynau amgen wedi'u hystyried fel rhan o'r broses statudol ar gyfer Ysgol Nebo, fel y nodir yn Adran 6 o'r Ddogfen Ymgynghori Statudol. Yn ogystal, mae asesiad pellach o'r opsiynau hyn wedi ei gynnal yn dilyn yr ymgynghoriad, ynghyd ag asesiad o'r opsiynau amgen rhesymol a gynigir gan ymgynghorai yn ystod y broses ymgynghori. |
| 9.9.2 | "Nid yw Cyngor Gwynedd yn asesu'r meini prawf yn gywir oherwydd mae'r Llywodraeth yn gosod canllawiau bod rhaid asesu ysgol wledig yn wahanol i ysgol drefol fawr. Nid oes unrhyw ystyrieth i ganiatau arloesedd, atebion gwell a chreadigol er lles y plant hynny sydd ddim yn ffitio mewn i'r system addysg yng Ngwynedd." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y gofynion penodol ar gyfer ysgolion gwledig. |
| 9.9.3 | "Yng Nghyfarfod y Cabinet 03/10/2025, cyflwynais sylwadau ffurfiol i Gabinet Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r cynnig arfaethedig. Mae'r pryderon hynny yn parhau'n gwbl berthnasol, ac yn fy marn i nid ydynt wedi'u hateb yn ddigonol drwy'r ddogfen ymgynghori na'r asesiadau effaith a gyhoeddwyd wedi hynny…rwy'n parhau o'r farn nad yw'r achos dros gau yn bodloni'r "rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig" a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Nid yw'r dogfennau presennol yn dangos yn glir fod pob opsiwn ymarferol arall wedi'i ystyried yn gydwybodol, nac ychwaith fod asesiad effeithiau llawn a chyfoes wedi'i gynnal cyn dewis cau fel yr opsiwn a ffafrir….Nid wyf felly'n argyhoeddedig bod y cynnig presennol yn bodloni'r trothwy uchel sydd ei angen i | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a gyflwynwyd, gan gynnwys y pryderon a fynegwyd yn flaenorol i'r Cabinet ynghylch y cynnig arfaethedig.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol ar gyfer Ysgol Nebo wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y gofynion penodol sy'n ymwneud â'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig.<br><br>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol ac yn y Papur Cynnig Ysgol Nebo a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 14 Hydref 2025, dilynwyd trefn strwythuredig i werthuso ystod o opsiynau amgen rhesymol, ynghyd ag asesu effaith y rhain ar ffactorau penodol. Cynhaliwyd asesiadau effaith |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfiawnhau cau ysgol wledig sy'n parhau i ddarparu addysg o safon ac sy'n hanfodol i'w chymuned." | perthnasol, fel y nodir yn Adran 6 o'r ddogfen ymgynghori, ac fe'u diweddarwyd yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol. |
| 9.9.4 | "Ymddengys nad yw Cyngor Sir Gwynedd wedi rhoi sylw dyladwy i'r opsiwn hwn wrth gynnig cau'r ysgol, gan fod yr opsiwn sefydlu uned addysg barbennig yn yr adeilad yn gysyniad gwahanol. Byddwch yn ywybodol wrth gwrs fod Argraffiad 2018 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion y cadarnhau fod "Cyfraith Achosion" wedi sefydlu fod angen ystyriaeth ofalus o bob opsiwn tra bo cynigion yn dal ar gam ffurfiannol. Byddai'n briodol fe ly i chwi ohirio penderfyniad hyd nes trafod gyda lywodraethwyr yr opsiwn hwn, le byddant yn bartneriaid parod, gyda golwg ar roi sicrwydd am ddyfodol yr ysgol o leiaf tan ddiwedd y ddegawd pryd y gelid adolygu'r sefylfa. Galai hyn roi digon o sicrwydd i rieni leol a rhai a fyddent yn hoffi ethos fely i ddanfon eu plant at yr ysgol." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Nodir bod yr opsiwn dan sylw wedi'i ystyried yn wreiddiol fel rhan o'r opsiynau a drafodwyd cyn yr ymgynghoriad statudol, gan gynnwys opsiwn yn ymwneud â darpariaeth ar safle Ysgol Nebo i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, yn sgil yr ymatebion a'r eglurhad a dderbyniwyd fod bwriad yr opsiwn a roddwyd ymlaen yn wahanol o ran ei gwmpas a'i fwriad i'r opsiwn ADY gwreiddiol, caiff yr opsiwn hwn bellach ei drin fel opsiwn amgen ar wahân ac mae'n destun asesiad pellach fel rhan o'r adroddiad ymgynghori. |
| 9.9.5 | *" Nid oes unrhyw 'ystyriaeth gydwybodol' (fel sy'n ofynnol gan y Cod) wedi'i rhoi i'r opsiwn o sefydlu cyfleuster dysgu awyr agored arbenigol. Mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru mewn un frawddeg, heb unrhyw ystyriaeth o rinweddau'r cynnig. Rwyf wedi cyflwyno manylion pellach ar hyn, wedi'u hatodi yma fel Atodiad 1 i'ch hystyried. Mae'r papur ar asesu'r effeithiau tebygol ar ddysgu yn ailadrodd yr un frawddeg un-llinell ym mhob blwch ar gyfer yr opsiwn hwn – mae'n amlwg nad yw hyn wedi cael unrhyw ystyriaeth." "Mae'r rhagfarn a ddangoswyd drwy gydol y broses drafod wedi bod yn amlwg, ac mae'r ffaith bod y trafodaethau wedi symud ymlaen i ymgynghoriad statudol yn dilyn yr un trywydd. Mae hyn yn mynd yn groes i'r rhagdybiaeth gyfreithiol yn erbyn cau ysgolion gwledig." "Mae'r Cod yn nodi:*<br>*Bwriad y Cod yw sicrhau, pan gynigir opsiwn i gau ysgol wledig, mai dim ond ar ôl ystyriaeth ofalus iawn, ac ar ôl i bob dewis arall rhesymol gael ei ystyried, a chynnal asesiad clir o'u rhinweddau a'u dichonoldeb, y dylid penderfynu ymgynghori ar yr opsiwn hwnnw.*<br>*Nid yw'r cynnig fel y mae ar hyn o bryd yn gyfystyr ag 'ystyriaeth ofalus iawn' – gan fod amrywiol opsiynau wedi'u diystyru'n gynnar drwy ddibynnu ar ddatganiadau cyffredinol. Nid yw diystyru opsiynau heb dystiolaeth yn gyfystyr ag asesiad clir o'u rhinweddau a'u dichonoldeb, ac ni fyddai'n sefyll prawf her gyfreithiol."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Nodir bod yr awgrym ynghylch datblygu safle arbenigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gwaith maes wedi'i gynnwys eisoes yn y gwerthusiad opsiynau fel Opsiwn 5 (datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer gwaith maes/dysgu yn yr awyr agored).<br><br>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, rhoddwyd ystyriaeth i ystod o opsiynau cyn ffurfio'r cynnig, drwy drefn strwythuredig a oedd yn cynnwys cyfarfodydd lleol/Panel Adolygu Ysgol (PAY) yn 2025 i drafod a gwerthuso opsiynau i ymateb i'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol. Gwnaed hyn yn unol â gofynion y Cod, gan gynnwys y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig a'r disgwyliad bod "pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol".<br><br>Yn ogystal, mae'r Ddogfen Ymgynghori Statudol yn egluro bod modd i ymgyngoreion wneud sylwadau ar y prif gynnig a hefyd ar yr opsiynau eraill a nodwyd (gweler adran 6), ac awgrymu opsiynau eraill a allai fynd i'r afael â'r rhesymau dros y cynnig. |

| | | |
|---|---|---|
| 9.9.6 | *"Yn ogystal â methu ystyried yr opsiynau a nodir yn y papur yn ofalus ac yn gydwybodol, mae opsiynau eraill nad ydynt wedi'u hystyried o gwbl: mae hyn yn torri'r Cod, sy'n gosod y cyfrifoldeb ar y cynigydd. Mae'n bwysig sicrhau bod pob dewis arall rhesymol a nodwyd yn cael ei archwilio'n briodol cyn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar gau. Yn benodol, ond nid yn gyfyngedig i hynny, nid oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i:*<br>▪ *Sut y bydd polisïau tai yn effeithio ar nifer y bobl sy'n adleoli i bentrefi (gan obeithio y gallai unrhyw lwyddiant wrth leihau nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau arwain at gynnydd mewn teuluoedd ifanc);*<br>▪ *Cysylltiadau â strategaethau adfywio cymunedol, yn yr achos hwn gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y gwariant cyfredol ar brosiectau cymunedol sy'n gysylltiedig â dynodiad Tirwedd Treftadaeth y Byd UNESCO. Beth yn onest yw pwrpas prosiect celf arall ym Mhenygroes, pan fo'r pentrefi sydd wrth galon y dirwedd lechi yn cael eu hamddifadu o asedau cymunedol?*<br>*Dylid nodi bod ystyriaeth o'r uchod yn ofynnol gan y Cod"* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses a arweiniodd at yr ymgynghoriad statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y gofyn i ystyried opsiynau amgen rhesymol.<br><br>Mae opsiynau amgen amrywiol wedi'u hystyried fel rhan o'r broses hon, a chynhaliwyd asesiadau effaith priodol ar yr opsiynau amgen rhesymol, yn unol â gofynion y Cod. |
| 9.9.7 | *"O ran adfywio cymunedol a chynllunio cymunedol, yr hyn nad yw wedi'i ystyried o gwbl yw i ba raddau y bydd strategaeth gynllunio'r Cyngor mewn perthynas â fforddiadwyedd tai, perchnogaeth ail gartrefi a llety gwyliau yn arwain at alw cynyddol am dai fforddiadwy i deuluoedd ifanc. Mae'n amlwg bod demograffeg pentrefi gwledig yn newid, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a llai o bobl ifanc: gallai dull cyfannol o gynllunio ar lefel y Cyngor hyrwyddo adfywiad y cymunedau hyn."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Er bod y Cyngor yn cydnabod bod polisïau tai, adfywio cymunedol a newidiadau demograffig yn ffactorau pwysig i gymunedau gwledig yn ehangach, nid yw'r ymgynghoriad hwn yn fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi ehangach y tu hwnt i gwmpas trefniadaeth ysgolion.<br><br>Fel rhan o'r broses statudol, mae'r Cyngor wedi asesu effaith ehangach y cynnig drwy gynnal cyfres o asesiadau effaith, gan gynnwys Asesiad Effaith Cymunedol, Asesiad Effaith Llesiant ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae canfyddiadau'r asesiadau hyn wedi llywio ystyriaethau'r Cyngor wrth werthuso'r cynnig. |
| 9.9.8 | Mynegir pryder bod canfyddiad o ragfarn o blaid cau Ysgol Nebo wedi bodoli cyn dechrau'r broses ymgynghori statudol ac wedi parhau trwyddi draw. Honnir bod sylwadau a wnaed gan aelodau etholedig mewn cyd-destunau anffurfiol y tu allan i'r ysgol wedi awgrymu'n gynnar y byddai'r ysgol yn cau, ac y gallai hyn fod yn groes i'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig fel y'i nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mynegir pryder bod y fath sylwadau'n creu argraff o ganlyniad wedi'i ragdybio, gan | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi nad yw sylwadau anffurfiol a wneir mewn cyd-destunau y tu allan i'r broses statudol yn rhan o'r drefn ffurfiol ar gyfer ystyried cynigion trefniadaeth ysgolion, ac nid ydynt o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor yn y cyd-destun hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | danseilio ymddiriedaeth yn y broses ac effeithio ar ganfyddiadau teuluoedd am ddyfodol yr ysgol. Nodir hefyd y posibilrwydd bod hyn wedi cyfrannu at benderfyniadau unigol gan deuluoedd i dynnu plant allan o'r ysgol, gan atgyfnerthu'r canfyddiad o broses hunangyflawnol. | |
| 9.9.9 | Derbyniwyd sylw yn codi pryderon ynghylch tegwch, didwylledd a chyfreithlonrwydd y broses cyn-ymgynghori mewn perthynas ag Ysgol Nebo. Honnir bod datganiadau wedi'u gwneud mewn cyfarfod â rhanddeiliaid ym mis Hydref 2024 yn awgrymu bod penderfyniad i gau'r ysgol eisoes wedi'i wneud, cyn cynnal asesiad ffurfiol o opsiynau amgen neu cyn dilyn y broses statudol lawn. Yn benodol, mynegir pryder bod hyn yn groes i ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer ysgol wledig â llai na 10 disgybl, gan gynnwys y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau, y gofyn i nodi rhesymau clir dros y cynnig, ac i asesu'n llawn ac yn gydwybodol bob opsiwn rhesymol arall cyn symud ymlaen â chynnig cau. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori, dechreuodd y broses statudol drwy gyhoeddi'r papur cynnig ym mis Hydref 2025, gyda'r ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br><br>Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymhwyso'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig ac i ystyried dewisiadau amgen rhesymol i gau ysgol, gan gynnwys ffedereiddio, cyn y gellid ystyried unrhyw gamau pellach. Mae'r gofynion hyn wedi'u bodloni drwy'r broses statudol, gyda'r opsiynau a'r rhesymau perthnasol wedi'u hamlinellu yn y Ddogfen Ymgynghori ynghyd â'r asesiadau effaith cysylltiedig. |
| 9.9.10 | Mae'r sylw yn codi pryderon ynghylch ymddygiad a gweithredoedd honedig cyn y broses ymgynghori statudol, a'r effaith bosibl ar ddyfodol Ysgol Nebo. Honnir bod rhiant wedi derbyn cyngor gan swyddog y Cyngor a allai fod wedi awgrymu bod penderfyniad eisoes wedi ei wneud am ddyfodol Ysgol Nebo drwy nodi bod yr ysgol yn debygol o gau, gan allu dylanwadu ar benderfyniad y teulu ynghylch trosglwyddo plant i'r ysgol, a thrwy hynny danseilio'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Nodir ymhellach fod cynnydd yn niferoedd dysgwyr erbyn cyfrifiad swyddogol Ionawr 2025 wedi golygu nad oedd y weithdrefn symlach ar gyfer cau ysgolion bach bellach yn berthnasol. Mynegir pryder bod camddehongli parhaus o'r weithdrefn hon wedi digwydd yn y cyfnod hwnnw. Yn ei hanfod, mae'r sylw'n codi materion ynghylch rhagfarn ganfyddedig, cywirdeb dehongli'r Cod, a'r effaith bosibl ar benderfyniadau teuluoedd ac ar degwch y broses gychwynnol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd.<br><br>Ni all y Cyngor wneud sylwadau ar achosion unigol na chadarnhau cynnwys unrhyw gyfathrebu personol, gan ystyried dyletswyddau cyfrinachedd a diogelu data; fodd bynnag, byddai disgwyl i unrhyw wybodaeth a roddir i rieni ynghylch trefniadau ysgol fod yn gywir, yn niwtral ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ffurfiol ar y pryd.<br><br>O ran y broses, nodir bod Ysgol Nebo wedi'i dynodi'n ysgol wledig at ddibenion Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac mae'r Cod yn nodi'r "rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig" a'r disgwyliad bod rhaid i'r achos dros gau fod yn gryf a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'i ystyried yn gydwybodol.<br><br>Yn achos Ysgol Nebo, nodir yn y ddogfennaeth fod y Cabinet wedi cymeradwyo cychwyn trafodaethau ffurfiol ym mis Chwefror 2025 yn sgil niferoedd isel, ac yn dilyn y trafodaeth hynny, penderfynodd y Cabinet ar 14 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Hydref 2025 gynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau'r ysgol, yn unol â'r drefn statudol.<br><br>O ganlyniad, mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y camau ffurfiol hyd yma wedi'u cynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), a bydd y sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses statudol. |
| 9.9.11 | Mynegir pryder bod trafodaethau wedi'u cynnal gan swyddogion yr Adran Addysg â phenaethiaid ysgolion eraill ynghylch capasiti i dderbyn disgyblion pe byddai Ysgol Nebo (a Baladeulyn) yn cau, cyn y broses ymgynghori statudol. Honnir bod y fath drafodaethau'n awgrymu canfyddiad o ragfarn o blaid cau, yn hytrach na rhoi blaenoriaeth i archwilio opsiynau amgen megis ffedereiddio, fel y disgwylir o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mynegir hefyd pryder ynghylch dibynadwyedd a defnydd data lefydd gwag wrth werthuso capasiti ysgolion eraill, a'r graddau y bu'r data hwnnw'n sail i'r trafodaethau a gynhaliwyd. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r trafodaethau a ddisgrifiwyd. Fodd bynnag, bu trafodaethau gyda rhai ysgolion lleol i ystyried opsiynau ffederaleiddio posibl, fel rhan o'r gofyniad statudol i ystyried dewisiadau amgen rhesymol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |
| 9.9.12 | Mynegir pryderon ynghylch tôn a ffocws cyflwyniadau swyddogol a wnaed i staff, rhieni, llywodraethwyr a'r Panel Adolygu yn ystod cyfarfodydd yn 2025. Honnir bod y cyflwyniadau hyn wedi bod yn weddol negyddol ac wedi rhoi'r argraff bod y dyfodol eisoes wedi'i gyfyngu i opsiwn cau, heb gyfeirio'n glir at y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig nac archwilio atebion creadigol posibl i gefnogi hyfywedd yr ysgol.<br>Mynegir pryder bod y dadansoddiadau SWOT a gyflwynwyd wedi bod yn anghytbwys o blaid cau, heb dystiolaeth ategol glir, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ystyriaethau ariannol, gyda lleiaf o sylw i lesiant dysgwyr.<br>Cwestiynir a oedd y cyflwyniadau a'r dadansoddiadau a rennir yn galluogi trafodaeth deg a chynhwysfawr ar opsiynau amgen, neu a oeddent yn cyfrannu at ganfyddiad bod arbedion ariannol tymor byr wedi cael blaenoriaeth dros ystyriaethau addysgol a chymunedol ehangach. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad a'r pryderon a fynegwyd ynghylch y cyflwyniadau a'r trafodaethau a gynhaliwyd â staff, rhieni, llywodraethwyr yn ystod cyfarfodydd Panel Adolygu Ysgol Nebo.<br><br>Nodir mai diben y cyfarfodydd Panel Adolygu Ysgol oedd rhannu gwybodaeth berthnasol am y sefyllfa addysgol, ddemograffig ac ariannol, ac egluro'r heriau sy'n wynebu'r ysgol fel rhan o waith ymgysylltu cyn ac yn ystod y broses ymgynghori.<br><br>Mae'r Cyngor yn pwysleisio nad yw trafodaethau nac asesiadau a rennir yn y cyfarfodydd hyn yn gyfystyr â phenderfyniad, a bod unrhyw ystyriaeth o ddyfodol yr ysgol wedi'i chynnwys o fewn y broses statudol a lywodraethir gan ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae'r rhagdybiaeth honno wedi'i hystyried drwy'r broses.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod yr angen i ystyried materion ariannol fel rhan o'i ddyletswydd i reoli arian cyhoeddus yn gyfrifol. Fodd bynnag, nid yw ystyriaeth o faterion ariannol yn gweithredu ar ei phen ei hun, ac mae'r cynnig wedi'i asesu yn ei gyfanrwydd yn erbyn y meini prawf penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd unrhyw benderfyniad yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn cael ei wneud wedi ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol a'r gofynion a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |
| 9.9.13 | Nodir nad oedd cofnodion cyfarfod mis Mai 2025 yn adlewyrchu'n llawn nac yn gywir y trafodaethau a gynhaliwyd, ac y gallent bortreadu'r Pennaeth Addysg mewn goleuni mwy niwtral neu ffafriol nag a brofwyd gan rai o'r sawl a oedd yn bresennol. Honnir bod rhai cwestiynau a sylwadau perthnasol heb eu cofnodi, ac y codwyd pryder ynghylch tôn rhai ymatebion yn y drafodaeth, gan gwestiynu addasrwydd a thegwch y cofnodion swyddogol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Nodia'r Cyngor bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu llunio fel crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd, yn hytrach na thrawsgrifiad gair-am-air o'r drafodaeth, ac maent wedi'u paratoi yn unol â'r drefn arferol. |
| 9.9.14 | Derbyniwyd sylw yn herio'r awgrym bod modd cyfyngu'r broses i nifer penodol o gynigion cyn symud ymlaen, gan honni bod hyn yn groes i ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas ag ysgolion gwledig. Mynegir pryder nad yw dull o'r fath yn adlewyrchu'r gofyniad i nodi, ystyried ac archwilio'n llawn bob opsiwn amgen rhesymol a allai fynd i'r afael â'r rhesymau dros lunio cynnig, cyn penderfynu ymgynghori ar gynnig cau. Pwysleisir bod y Cod yn mynnu ystyriaeth ofalus iawn a gwerthusiad clir o rinweddau a dichonoldeb pob opsiwn amgen, ac mae'r sylw'n cwestiynu a yw'r broses wedi cydymffurfio'n llawn â'r disgwyliadau statudol hyn. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Nodir bod Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried ac asesu pob dewis amgen rhesymol i gau ysgol wledig cyn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar gynnig o'r fath.<br><br>Yn unol â'r Cod, mae'r broses statudol yn gofyn am werthusiad o'r dewisiadau amgen perthnasol, gan gynnwys asesiad clir o'u rhinweddau, cyn ystyried unrhyw gynnig penodol. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y drefn yma wedi'i ddilyn, gyda'r ystod o opsiynau amgen rhesymol wedi'u nodi a'u hasesu fel rhan o'r gwaith a amlinellir yn Papur Cynnig (Hydref 2025), y Ddogfen Ymgynghori dilynol a'r dogfennau ategol. |

**9.10 Diffyg ystyriaeth ddigonol o effeithiau hirdymor, llesiant a chyd-destun cymunedol ehangach**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 9.10.1 | *"Nid yw'n ymddangos bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hystyried yn y Ddogfen Ymgynghori."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon a godwyd ynghylch ystyriaeth o lesiant, y Gymraeg, y gymuned, yr amgylchedd a chynaliadwyedd tymor hir y cynnig.<br><br>Nodai'r Cyngor bod y Ddogfen Ymgynghori yn nodi'n glir y gofyniad i ystyried dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| 9.10.2 | "Rhaid gwneud asesiad effaith manwl yn mesur yr effaith a chamau lliniaru- nid yw'r ddigonol gofyn i bobl gyffredin.Rhaid cael asesiad effaith manwl annibynnol yn edrych ar wir effaith cau yr ysgol yma ar y Gymraeg ac ar gymunedau." | |

| | | |
|---|---|---|
| 9.10.3 | "credwn y byddai'n fuddiol i'r asesiadau ystyried yn fwy manwl yr effaith ar lesiant a chynnydd addysgol y disgyblion presennol o symud i ysgolion mwy yn ogystal â sicrhau bod y data ar gapasiti, costau a darpariaeth leol yn gyfredol ac yn<br>adlewyrchu'r sefyllfa ymarferol yn y tymor canolig a hir.... gallai ystyried y pwyntiau hyn yn gadarnhaol gyfrannu at ddatblygu ateb mwy cynaliadwy, hyblyg ac arloesol sydd o fudd i blant, teuluoedd a'r gymuned yn ehangach." | (Cymru) 2015, ac mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hymgorffori drwy gynnal cyfres o asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys Asesiad Effaith Llesiant, Asesiad Effaith Cymunedol, Asesiad Effaith Ieithyddol, Asesiad Effaith Addysgol ac Asesiad Effaith ar drefniadau teithio.<br><br>Mae'r asesiadau effaith hyn yn ystyried ystod eang o ffactorau, gan gynnwys effaith ar lesiant a chynnydd addysgol dysgwyr, effaith ar y Gymraeg, effaith ar y gymuned, trefniadau teithio, yn ogystal â chynaliadwyedd tymor canolig a hir y ddarpariaeth. Nodir hefyd fod y asesiadau'n cael eu cynnal yn unol â'r trefniadau statudol perthnasol, ac nad oes gofyn statudol i gomisiynu asesiadau annibynnol ar wahân.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith gronnus bosibl cau ysgol ar gymuned wledig, effaith ar deuluoedd heb fynediad hawdd at drafnidiaeth breifat, a'r ystyriaethau ehangach sy'n ymwneud â llesiant plant a dyfodol cymunedau. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth adolygu'r asesiadau effaith perthnasol.<br><br>Nodir bod barn yr ymatebwyr, gan gynnwys pryderon ynghylch addysg gartref, hyblygrwydd darpariaeth addysgol a phrofiadau cadarnhaol rhai dysgwyr mewn ysgolion bach, wedi'u cofnodi ac y byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r dystiolaeth arall a gyflwynwyd. |
| 9.10.4 | "Dylid edrych ar effaith ar yr amgylchedd o rhoi plant ar fws ysgol" "Dylid edrych yn fwy manwl ar yr effaith fydd y penderfyniad yma yn cael ar y dyfodol a'r Genhedlaeth nesaf." "SYlid edrych yn fanwl ar yr effaith... ar y Gymraeg yn yr ardal ac yn y dyfodol (nid ond plant 4-11 heddiw)" | |
| 9.10.5 | "Er bod yr asesiadau'n fanwl, credaf nad ydynt yn rhoi digon o bwyslais ar:<br>•Effaith gronnus colli ysgol ar hyfywedd tymor hir y gymuned wledig.<br>•Effaith ar deuluoedd heb fynediad hawdd at drafnidiaeth breifat, gan gynyddu anfantais economaidd-gymdeithasol.<br>•Effaith ar lesiant plant ifanc, yn sgil teithio pellach a cholli ymdeimlad o berthyn lleol.<br>•Y risg y bydd cau'r ysgol yn cyflymu diboblogi gwledig ac yn lleihau atyniad yr ardal i deuluoedd ifanc.<br>Mae cynnydd pryderus iawn mewn addysg gartref yn y Sir (269 o blant – cynnydd o 134 mewn blwyddyn). Mae tystiolaeth leol yn<br>dangos bod rhai dysgwyr wedi ffynnu yn Ysgol Nebo ar ôl i addysg brif ffrwd fod yn anaddas iddynt. Mae hyn yn tanseilio'r dybiaeth y bydd ysgol fwy yn ateb addysgol priodol i bawb." | |

**9.11 Diffyg eglurder ynghylch y meini prawf ar gyfer asesu ymatebion yr ymgynghoriad**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 9.12.1 | *"Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn egluro'n glir y meini prawf y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hasesu yn eu herbyn."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. |

**9.12 Diffyg cyfleoedd priodol i'r gymuned gymryd rhan yn y broses ymgynghori**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 9.12.1 | "Siomedig hefyd na chynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn ystod yr ymgynghoriad lle fyddai cyfle i aelodau'r gymuned nad oedd yn rieni neu'n lywodraethwyr gael cyfle i drafod gyda'r Adran Addysg. O ystyried yr effaith andwyol geith gau'r ysgol ar ddyfodol y pentref ac ar drigolion yr ardal, y peth lleia gellid fod wedi ei wneud oedd cyfarfod y trigolion hynny, i wrando ar eu hofnau" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses ymgynghori statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Er nad yw cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn ofyniad statudol, cynhaliwyd sesiynau galw heibio i rieni, staff a llywodraethwyr fel rhan o'r broses ymgysylltu i roi cyfle i drafod y cynnig a'r broses statudol. |
| 9.12.2 | "Mae nifer o resymau pam mae pobl sydd yn ymateb i'r ymgynghoriad o dan anfantais Yn anffodus, nid yw'n bosibl ysgrifennu popeth yn yr ymgynghoriad gan nad yw fformat yr ymgynghoriad ddim .yn caniatau hynny. Mae hyn yn syndod yn enwedig wrth ystyried bod yr Ymgynghoriad mor faith. Yn wir, dwi wedi gorfod cael cymorth gan arbenigwr er mwyn teipio hwn gan nad oedd y PDF yn rhoi hawl i mi ysgrifennu arno." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori ac ar wefan yr ymgynghoriad, roedd nifer o wahanol ffyrdd ar gael i ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ar-lein, drwy e-bost, drwy lythyr neu drwy fformat amgen ar gais. Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |
| 9.12.3 | "Deallaf na chafodd o leiaf un person gopiau caled o'r Ymgynghoriad er ei fod wedi mynd i Galw Gwynedd i ofyn amdano. Dywedwyd wrtho am gysylltu â Llywodraeth Cymru er bod y ddogfen yn dweud y gellir cael copiau o Gyngor Gwynedd." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y Tîm Moderneiddio Addysg y Cyngor wedi ymateb i bob cais a dderbyniwyd i ddarparu copïau caled o'r Ddogfen Ymgynghori, yn unol â'r trefniadau a amlinellir yn y ddogfen. Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r sefyllfa benodol a ddisgrifiwyd yn y sylwad hwn. |

**9.13 Galwad i beidio â pharhau gyda'r ymgynghoriad hyd nes y bydd pob opsiwn wedi'i ystyried yn llawn ac ar sail ffeithiau cywir**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 9.13.1 | "Gydag ystyriaeth o'r pwyntiau uchod, teimlaf fod yngynghoriad Cyngor Gwynedd yn gamarweiniol ar adegau, ac annheg gyda sawl gwall. Felly ni ddylai Cyngor Gwynedd barhau gyda'r Ymgynghoriad hwn tan fydd pob opsiwn wedi ei ystyried, heb unrhyw gamarwain a ffeithiau cywir." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses ymgynghori statudol wedi'i chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Caiff yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad eu hystyried fel rhan o'r dystiolaeth berthnasol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach, yn unol â'r broses statudol. |

**9.14 Herio addasrwydd meini prawf ar gyfer ysgolion gwledig**

<table>
<tr><th></th><th>Sylw</th><th>Ymateb y Cyngor</th></tr>
<tr><td>9.14.1</td><td>“Pa feini prawf y mae’n rhaid i Gyngor Gwynedd gadw atynt?” “A yw’r manteision hirdymor a’r arbedion cost yn cael eu hystyried o gwbl?”</td><td rowspan="6">Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol yn cael ei chynnal yn unol a gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae’r Cod yn nodi’n benodol y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig, ac mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu ysgolion o’r fath yn unol â’r gofynion ychwanegol perthnasol. Mae’r ystyriaethau hyn wedi’u cymhwyso drwy’r broses, gyda’r gwerthusiad opsiynau wedi’i grynhoi yn y Ddogfen Ymgynghori, a’r asesiadau effaith cysylltiedig wedi’u cyhoeddi fel atodiadau.<br><br>Mae’r Cyngor yn cydnabod yr heriau sy’n gysylltiedig ag asesu materion megis llesiant, manteision cymunedol hirdymor ac effaith gymdeithasol, ac mae’r rhain wedi’u hystyried drwy’r asesiadau effaith a gynhaliwyd, gan gynnwys ystyried opsiynau amgen rhesymol lle bo’n briodol.<br><br>Cwblhawyd gwerthusiad o’r opsiynau amgen rhesymol er mwyn crynhoi prif gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau’r opsiynau dan ystyriaeth, gan eu hasesu yn erbyn y ffactorau a nodir yn strategaeth Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd, gyda sylw dyledus i ofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) ac ystyriaethau perthnasol eraill.<br><br>Roedd y gwerthusiad hefyd yn ystyried yr heriau penodol sy’n wynebu Ysgol Nebo y mae’r Cyngor yn ceisio ymateb iddynt. Yn benodol, aseswyd yr opsiynau yn erbyn ffactorau megis maint dosbarthiadau ac amrediad oedran, niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion, arweinyddiaeth a staffio, effaith ar gymuned, adnoddau ariannol, yr Iaith Gymraeg a ffactorau daearyddol, yn ogystal a ffactorau eraill.<br><br>Yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, caiff yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach.</td></tr>
<tr><td>9.14.2</td><td>“Beth yw’r meini prawf y mae Cyngor Gwynedd yn rhwym iddynt? A yw’r buddion tymor hir a’r arbedion cost yn cael eu hystyried o gwbl?”</td></tr>
<tr><td>9.14.3</td><td>“Yn y cyfarfod Cabinet ym mis Hydref 2025, canmolodd y Cadeirydd ‘feddwl y tu allan i’r bocs’, ond a yw’r meini prawf cymhwysedd yn caniatáu’r math hwnnw o feddwl? ... Bydd y broses o gymharu anghenion, buddion, manteision ac anfanteision ysgol wledig fach bob amser dan anfantais wrth ei chymharu â set o feini prawf cenedlaethol a safonol ar gyfer hyfywedd ysgolion a gwerth am arian yn y dyfodol. Mae’n anodd mesur llesiant meddyliol disgyblion yn erbyn meini prawf cenedlaethol. Mae llawer iawn o enghreifftiau yn y sir hon ac mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru (megis Conwy) lle nad yw cefnogaeth ac anghenion plant oed ysgol yn ‘werth am arian’, ond serch hynny cânt eu cefnogi oherwydd ‘mai dyna’r peth iawn i’w wneud’.”</td></tr>
<tr><td>9.14.4</td><td>“Yn y cyfarfod Cabinet ym mis Hydref 2025, canmolodd y Cadeirydd ‘feddwl y tu allan i’r bocs’, ond a yw’r meini prawf cymhwysedd yn caniatáu’r math hwnnw o feddwl?” / “Rhaid asesu ysgol wledig yn wahanol i ysgol drefol fawr.”</td></tr>
<tr><td>9.14.5</td><td>“Yn y cyfarfod Cabinet ym mis Hydref 2025, canmolodd y Cadeirydd ‘feddwl y tu allan i’r bocs’, ond a yw’r meini prawf cymhwysedd yn caniatáu’r math hwnnw o feddwl? Os nad ydynt, pam nad ydynt? Mae’r Llywodraeth yn gosod y meini prawf hyn, ond rhaid asesu ysgol wledig yn wahanol i ysgol drefol fawr. Beth yw’r meini prawf y mae Cyngor Gwynedd yn rhwym iddynt? A yw’r buddion tymor hir a’r arbedion cost yn cael eu hystyried o gwbl? A oes lle i ddweud ‘ie, ond ar y llaw arall’? Ble mae’r bwlch yn y system sy’n caniatáu arloesedd ac atebion dychmygus sy’n cyflawni’n well yr hyn sydd orau i’r plant dan sylw yn system addysg Gwynedd?”</td></tr>
<tr><td>9.14.6</td><td>“Mae’n ymddangos bod meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer cau ysgolion yn gogwyddo tuag at y negyddol yn hytrach na chynnwys y cadarnhaol hefyd... Ceir hefyd ragdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig... A yw’r meini prawf hynny’n addas ar gyfer ysgol wledig? Rhaid asesu ysgol wledig yn wahanol i ysgol drefol fawr... dylid meddwl y tu hwnt i’r meini prawf a chynnwys yr agweddau cadarnhaol...”</td></tr>
</table>

**10. Sylwadau am Ysgol Llanllyfni**

**10.1 Pryderon ynghylch capasiti Ysgol Llanllyfni, yn enwedig y dosbarth meithrin a digonolrwydd lleoedd yn y tymor hir**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 10.1.1 | *“Mae meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r pryderon a fynegwyd ynghylch capasiti Ysgol Llanllyfni, yn enwedig o ran y dosbarth meithrin.<br><br>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, mae capasiti’r ysgol yn seiliedig ar ddata swyddogol diweddar, ac mae’n cadarnhau bod digon o le i dderbyn dysgwyr Ysgol Nebo yn y dosbarth meithrin ac o Dderbyn i Flwyddyn 6, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Mae gan Ysgol Llanllyfni gapasiti swyddogol ar gyfer 117 o ddysgwyr, gyda 71 ar y gofrestr (Data CYBLD Ionawr 2026), sy’n golygu bod 46 o leoedd gwag, sef tua 39% o’r capasiti. O ran y dosbarth meithrin yn benodol, mae capasiti ar gyfer 14 o blant, gyda 13 ar y gofrestr ym mis Ionawr 2026, sy’n golygu bod 1 lle gwag ar gael ar hyn o bryd.<br><br>Mae’r rhagamcanion niferoedd dros y tair blynedd nesaf hefyd yn awgrymu y bydd capasiti digonol ar gael yn Ysgol Llanllyfni yn y tymor canolig a’r tymor hir, a phe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu. |
| 10.1.2 | *“O ystyried yr oramcangyfrif hwn, a yw’r lleoedd yn Ysgol Llanllyfni wedi’u goramcangyfrif hefyd? Mae meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”* | |
| 10.1.3 | *“Mae dosbarth meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes… felly mae’r awgrym y gellir darparu ar gyfer unrhyw blant meithrin o Nebo/Nasareth yn y tymor hir yn ymddangos yn amheus.”* | |
| 10.1.4 | “Mae meithrinfa Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?” | |
| 10.1.5 | *“Mae meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”* | |
| 10.1.6 | “Mae meithrinfa Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?” | |
| 10.1.7 | “mae lleoedd gwag yn Ysgol Llanllyfni sydd wedi'u hasesu yn yr ymgynghoriad yn gamarweiniol. Mae'n ffaith fod meithrinfa Llanllyfni eisioes yn llawn ac felly nid oes gwir le yno ar gyfer disgyblion Ysgol Nebo. “ | |
| 10.1.8 | *“Mae meithrin Llanllyfni bron yn llawn eisoes, felly a oes gwir le yno i unrhyw ddisgyblion o Nebo/Nasareth yn y tymor hir?”* | |
| 10.1.9 | Cwestiynir a oes digon o le yn y tymor hir yn Ysgol Llanllyfni gan fod y feithrinfa bron yn llawn. Cwestiynair a yw'r ffigur capasiti a nodir ar gyfer Ysgol Llanllfyni wedi ei oramcangyfrif? | |
| 10.1.10 | *“A oes lle i’r plant yn Llanllyfni?”* | Fel uchod. |
| 10.1.11 | Cwestiynir a oes capasiti gwirioneddol yn Ysgol Llanllfyni i dderbyn disgyblion Nebo. | Fel uchod. |
| 10.1.12 | “Er bod Ysgol Llanllyfni'n darparu addysg Gymraeg nid oes ganddi'r capasiti i dderbyn y plant hyn.” | Fel uchod. |

**10.2 Cwestiynau ynghylch cywirdeb y ffigurau capasiti a llefydd gwag yn Ysgol Llanllyfni**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 10.2.1 | *"A yw'r goramcangyfrif hwn hefyd wedi'i gymhwyso i ysgol Llanllyfni? Neu a yw'r ffigurau hyn yn creu darlun anghywir o'r sefyllfa go iawn?"* | Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y data capasiti a'r ffigurau llefydd gwag ar gyfer Ysgol Llanllyfni, fel y'u nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol, yn gywir ac wedi'u seilio ar ddata swyddogol diweddar. Wrth asesu capasiti'r ysgol, ystyriwyd y ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y dosbarth meithrin a Derbyn i Flwyddyn 6, ynghyd ag ystyriaeth o dueddiadau niferoedd dysgwyr i'r dyfodol. Ar sail y dystiolaeth hon, cadarnheir bod digon o gapasiti ar gael yn Ysgol Llanllyfni yn y tymor byr ac yn y tymor hwy i dderbyn dysgwyr Ysgol Nebo, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |
| 10.2.2 | "A yw'r goramcangyfrif hwn hefyd wedi'i gymhwyso i ysgol Llanllyfni? Neu a yw'r ffigurau hyn yn creu darlun anghywir o'r sefyllfa go iawn?" | |
| 10.2.3 | "A yw'r goramcangyfrif hwn hefyd wedi'i gymhwyso i ysgol Llanllyfni?" | |
| 10.2.4 | *"A yw'r goramcangyfrif hwn hefyd wedi'i gymhwyso i ysgol Llanllyfni? Neu a yw'r ffigurau hyn yn creu darlun anghywir o'r sefyllfa go iawn?"* | |
| 10.2.5 | Cwestiynir a oes digon o le yn y tymor hir yn Ysgol Llanllyfni gan fod y feithrinfa bron yn llawn. Cwestiynair a yw'r ffigur capasiti a nodir ar gyfer Ysgol Llanllfyni wedi ei oramcangyfrif? | |

**10.3 Sylwadau cyffredinol**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 10.3.1 | "…mae cyneriad yr ysgolion Amgen yn gyson iawn a'r ysgolion sydd I gau maent yn gwasanaethu'r un gymuned." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

**11. Effaith ar staff**

**11.1 Sylwadau'n tynnu sylw at yr effaith ar staff**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 11.1.1 | "Nid oes unrhyw ystyriaeth yn yr ymgyngoriad i ddyfodol y ddwy athrawes profiadol iawn sydd yn Ysgol Nebo, mae athrawon or fath yn brin yn enwedig gyda'r fath ymroddiad. Mae risg enfawr o golli eich staff" | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch effaith bosibl y cynnig ar staff Ysgol Nebo.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei weithredu, rhagwelir y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan y byddai'r swyddi yn dod i ben pan fyddai'r ysgol yn cau. Ymgynghorwyd yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig gydymffurfio â'r gyfraith cyflogaeth berthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd. |
| 11.1.2 | "…bydd hefyd yn golygu fod 1 pennaeth, 2 athro/athrawes llawn amser, 1 athro/athrawes rhan amser, 3 cymhorthydd, swyddog clerigol rhan amser, a goruchwyliwr amser cinio rhan amser yn colli ei swyddi - sydd wrth gwrs yn golygu fod ein cymunedau yn dlotach." | |
| 11.1.3 | Nodwyd pryder y byddai'r cynnig yn arwain at golli swyddi ac arbenigedd staff ymroddedig. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn ystod yr ymgynghoriad, cynhaliwyd sesiynau galw heibio lle'r oedd swyddogion o wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn bresennol os oedd unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Rhoddwyd gwybod fod croeso hefyd i staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno cael trafodaethau pellach. |

**12. Addysg Gartref**

**12.1 Sylwadau'n nodi cynnydd sylweddol mewn Addysg Gartref fel arwydd o system addysg nad yw'n diwallu anghenion pob dysgwr, a diffyg ymateb strategol i hyblygrwydd, llesiant ac anghenion emosiynol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 12.1.1 | Mynegir pryderon eang ynghylch addasrwydd, hyblygrwydd ac ymatebolrwydd system addysg y Cyngor i anghenion amrywiol dysgwyr, gan gyfeirio'n benodol at y cynnydd sylweddol mewn Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) dros y blynyddoedd diwethaf, a honnir nad yw hyn wedi'i adlewyrchu'n ddigonol mewn dadansoddiadau strategol na chyllidebol. Mynegir pryder bod diffyg dealltwriaeth fanwl o'r rhesymau dros ddadgofrestru (gan gynnwys categorïau "eraill" ac "anhysbys") yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i werthuso a gwella ei wasanaethau addysgol yn effeithiol.<br><br>Yn ogystal, mae'r sylw'n cwestiynu dull unffurf at addysg, gan honni bod diffyg dewisiadau hyblyg (megis addysg hyblyg/flexi-schooling) yn cyfrannu at rwystredigaeth teuluoedd ac at benderfyniadau i dynnu plant o'r system brif ffrwd. Cyfeirir at naws y datganiadau a wnaed mewn trafodaethau swyddogol, gan godi pryder ynghylch agwedd tuag at ddewis rhieni, hawliau cyfreithiol o ran darparu addysg addas, a chydymffurfiaeth bosibl â dyletswyddau cydraddoldeb.<br><br>Mae'r sylw hefyd yn tynnu sylw at bwysau cynyddol ar wasanaethau presenoldeb a llesiant, gyda chyfeiriad at niferoedd uchel o bobl ifanc sy'n derbyn cymorth, gan awgrymu bod cyfran sylweddol o ddysgwyr yn cael trafferth ymdopi â'r system bresennol. Nodir bod costau eilaidd cudd (e.e. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch y cynnydd mewn Addysg Gartref, hyblygrwydd addysgol, llesiant ac anghenion emosiynol dysgwyr, yn ogystal â'r safbwyntiau a fynegwyd ynghylch darpariaeth addysgol ar lefel ehangach ar draws y Sir.<br><br>Fodd bynnag, nodir mai ffocws y broses ymgynghori a'r asesiadau cysylltiedig yn yr achos hwn yw adolygu dyfodol Ysgol Nebo, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br><br>Mae'r adolygiad wedi'i seilio ar yr heriau cynyddol sy'n ymwneud â Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy'n parhau'n isel yn y tymor canolig a'r tymor hir. Mae effaith y cynnig ar lesiant, profiad addysgol a chynnydd dysgwyr wedi'i hystyried yn drwy'r Asesiadau Effaith perthnasol, gan gynnwys ystyriaeth o fesurau lliniaru pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| | cefnogaeth gan asiantaethau allanol) yn cael eu diystyru mewn dadansoddiadau ariannol sy'n canolbwyntio ar arbedion uniongyrchol.<br><br>Yn olaf, mae'r sylw'n mynegi pryder ynghylch ymateb y Cyngor i argymhelliad Estyn (Mehefin 2023) mewn perthynas â chryfhau darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (SEBD), gan honni bod diffyg eglurder ynghylch cwmpas yr argymhelliad a'i weithredu ar draws pob cam addysgol. Mae'r sylw'n cwestiynu a yw mesurau strategol a nodwyd wedi arwain at welliannau ymarferol, ac yn tynnu sylw at y cydberthynas rhwng SEBD, ADY a chynaladwyedd y ddarpariaeth addysgol. | |
| 12.1.2 | *"Mae angen asesiad o'r rhesymau pam mae rhieni wedi troi at addysg gartref... mae cael dim ond dau athro ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn amlwg annigonol."* | Fel uchod. |
| 12.1.3 | "Cyngor Gwynedd yn gaeth iawn i gynnig un math o addysg nad yw'n addas ar gyfer nifer fawr o ddysgwyr" "nid ydynt yn fodlon addasu i'r byd sydd ohoni bellach a'r newidiadau mewn cymdeithas....nid ydynt [Cyngor Gwynedd] yn ystyried y byddai buddsoddi mewn addysg sy'n hyrwyddo iechyd meddwl positif yn lleihau baich ar y gwasanaeth iechyd meddwl oedolion yn y pendraw....Mae Cyngor Gwynedd a'r pennaeth addysg yn benodol yn methu cyfle yma i gynnig addysg arloesol i ddisgyblion Gwynedd" | Fel uchod. |
| 12.1.4 | *"Mae angen asesiad o'r rhesymau pam mae rhieni wedi troi at addysgu eu plant gartref. I rai, mae'n ddewis o ganlyniad i siomedigaeth gyda'r system addysg yn gyffredinol, ac maent yn aml yn dod at ei gilydd gyda rhieni eraill i ddarparu addysg a hyfforddiant rhagorol ac eang gyda llwyddiant mawr a chanlyniadau da. I eraill, mae'n ymwneud â phlant sydd bellach yn rhy bryderus i fynychu'r ysgol, neu sydd eu hunain heb ddiddordeb mewn mynychu, ond efallai nad oes gan eu rhieni y gallu i ddarparu addysg gartref briodol. Mae dim ond dau athro ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn amlwg annigonol i gefnogi a monitro'n briodol bawb sy'n rhan o'r cynnydd hwn.*<br>*NID yw hyn yn feirniadaeth o'r athrawon hynny, ond o system sy'n gwegian dan straen adnoddau cyfyngedig. Mae'r cynnig i Ysgol Nebo gefnogi rhai o'r plant hynny yn ffordd o ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar waith yn* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | *llawer mwy effeithiol. Yn economaidd ac o ran canlyniadau, byddai hyn yn llawer mwy effeithlon ac effeithiol."* | |
| 12.1.5 | *"Mae angen asesiad o'r rhesymau pam mae rhieni wedi troi at addysg gartref... plant sydd bellach yn rhy bryderus i fynychu'r ysgol... mae dim ond dau athro ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn amlwg annigonol..."* | Fel uchod. |
| 12.1.6 | *"Mae angen asesiad o'r rhesymau pam mae rhieni wedi troi at addysgu eu plant gartref. I rai, mae'n ddewis oherwydd siomedigaeth gyda'r system addysg yn gyffredinol, ac maent yn aml yn dod at ei gilydd gyda rhieni eraill i ddarparu addysg a hyfforddiant rhagorol ac eang, gyda llwyddiant mawr a chanlyniadau da. I eraill, mae'n ymwneud â phlant sydd bellach yn rhy bryderus i fynychu'r ysgol, neu sydd eu hunain heb ddiddordeb mewn mynychu, ond efallai nad oes gan eu rhieni'r gallu i ddarparu addysg gartref briodol. Mae dau athro yn unig ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn amlwg annigonol i gefnogi a monitro'n briodol bawb sy'n rhan o'r cynnydd hwn.*<br>*NID yw hyn yn feirniadaeth o'r athrawon hynny, ond o system sy'n gwegian dan straen adnoddau cyfyngedig. Mae'r cynnig i Ysgol Nebo gefnogi rhai o'r plant hynny yn ffordd o ddefnyddio adnoddau sydd eisoes ar waith i lawer gwell effaith. Yn economaidd ac o ran canlyniadau, byddai hyn yn llawer mwy effeithiol ac effeithlon."* | Fel uchod. |
| 12.1.7 | *"Dim ond dau athro sydd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn gyfan yn gofalu am yr holl blant sy'n cael eu haddysgu gartref."* | Fel uchod. |

### 13. Anghenion Dysgu Ychwanegol

#### 13.1 Heriau strategol a chyllid i gefnogi plant ag ADY ac anghenion cymhleth – galwad am asesiad hirdymor a buddsoddiad

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 13.1.1 | "A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â'r broblem enfawr, sydd wedi'i thystiolaethu, o'r cynnydd mawr mewn nifer y plant sy'n cael trafferthion ledled Cymru, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid at y diben hynny?" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru, cynnydd mewn plant sy'n cael trafferthion, Addysg Gartref, a'r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi dysgwyr ag anghenion llesiant, emosiynol neu addysgol ehangach.<br><br>Fodd bynnag, nodir mai dyfodol Ysgol Nebo yw ffocws y broses statudol hon, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r adolygiad presennol wedi'i seilio ar yr heriau sy'n |
| 13.1.2 | "Beth yw'r prosesau i nodi'n gywir y costau a'r manteision hirdymor gwirioneddol o'r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi plant sydd â thrafferthion neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi'u hadnabod fel ADY? Mae'r arbedion hirdymor a'r manteision o safbwynt iechyd o helpu | |

<table>
<tr><td></td><td>plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau’r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus, gan wybod sut i reoli eu bywydau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig, gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod helpu a meithrin plant i ddod i fod y gorau y gallant fod. A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â’r broblem enfawr, sydd wedi’i thystiolaethu, ym mhob ysgol ledled Cymru o’r cynnydd mawr yn nifer y plant sy’n cael trafferthion a phlant ag ADY, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid o’r fath?”</td><td rowspan="2">wynebu’r ysgol honno, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a rhagolygon niferoedd sy’n parhau’n isel. Mae’r Asesiadau Effaith perthnasol wedi ystyried effaith y cynnig ar lesiant a phrofiad dysgwyr presennol, yn ogystal â mesurau lliniaru pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Er bod y Cyngor yn cydnabod bod materion megis addysg hyblyg, cefnogaeth gynnar a darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn bwysig, nid ydynt yn newid cwmpas na diben y broses statudol benodol hon.<br><br>Yn ogystal, fe nodir fel rhan o’r broses statudol, bydd yr opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried ymhellach yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys eu hasesu yn erbyn y meini prawf perthnasol a’r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.</td></tr>
<tr><td>13.1.3</td><td>“A oes unrhyw brosesau ar waith i nodi’n gywir y costau a’r manteision hirdymor gwirioneddol o’r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi plant sydd â thrafferthion neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi’u hadnabod fel ADY? Mae’r arbedion hirdymor a’r manteision o safbwynt iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau’r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus, gan wybod sut i reoli eu bywydau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig, gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod helpu a meithrin plant i ddod i fod y gorau y gallant fod. A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â’r broblem enfawr, sydd wedi’i thystiolaethu, ym mhob ysgol ledled Cymru o’r cynnydd mawr yn nifer y plant sy’n cael trafferthion a phlant ag ADY, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid o’r fath?”</td></tr>
<tr><td>13.1.4</td><td>“A oes unrhyw brosesau ar waith i nodi’n gywir y costau a’r manteision hirdymor gwirioneddol o’r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi plant sydd â thrafferthion neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi’u hadnabod fel ADY? Mae’r arbedion hirdymor a’r manteision o safbwynt iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau’r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus, gan wybod sut i reoli eu bywydau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig, gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod helpu a meithrin plant i ddod i fod y gorau y gallant fod. A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â’r broblem enfawr, sydd wedi’i thystiolaethu, ym mhob ysgol ledled Cymru o’r cynnydd mawr yn nifer y plant sy’n cael trafferthion a phlant ag ADY, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid o’r fath? Dim ond dau athro sydd ar draws Gwynedd ac Ynys Môn sy’n gofalu am yr holl blant sy’n cael eu haddysgu gartref. Byddai’n fanteisiol i rai o’r plant hynny fynychu’r ysgol, o leiaf yn rhan-amser, a chael eu monitro’n llawer agosach gan athrawon yr ysgol. Byddai hyn hefyd yn broses llawer mwy</td><td>Fel uchod.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | *cost-effeithiol (ac yn rhoi canlyniadau gwell), gan y byddai unrhyw drafferthion yn cael eu hadnabod ar unwaith gan yr athrawon.”* | |
| 13.1.5 | *“A oes unrhyw brosesau ar waith i nodi’n gywir y costau a’r manteision hirdymor gwirioneddol o’r awgrym y gellid defnyddio Ysgol Nebo i gefnogi plant sydd â thrafferthion neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi’u hadnabod fel ADY? Mae’r arbedion hirdymor a’r manteision o safbwynt iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau’r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus, gan wybod sut i reoli eu bywydau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig – gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod helpu a meithrin plant i ddod i fod y gorau y gallant fod.” “A oes cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu ffyrdd o ymdrin â’r broblem enfawr, sydd wedi’i thystiolaethu, ym mhob ysgol ledled Cymru o’r cynnydd mawr yn nifer y plant sy’n cael trafferthion a phlant ag ADY, ac os felly a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw gyllid o’r fath?”* | Fel uchod. |

**14. Sylwadau Trawsbynciol**

**14.1 Cyd-destun economaidd a demograffig hirdymor: poblogaeth, swyddi a chynaliadwyedd cymunedol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 14.1.1 | *“Mae prinder swyddi a chyfleoedd gwaith, sy’n golygu bod pobl ifanc yn symud allan o Gymru (80 y mis oedd y ffigur a awgrymwyd), ac o ganlyniad mae’r gyfradd geni yn gostwng. Felly, ble mae strategaeth economaidd y llywodraeth i wrthdroi hyn? Pe bai bwriad i wneud hynny, gallai’r sefyllfa fod yn dra gwahanol ymhen pum mlynedd. Ond os caiff yr ysgol ei chau rŵan, ac yna bod pobl ifanc yn symud yn ôl i Gymru, bydd yr adeilad wedi’i golli am byth. Gallai’r sefyllfa fod yn gwbl wahanol ymhen ychydig flynyddoedd, ond ni ellir byth adfer colled yr adeilad a diwylliant yr ysgol.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau a godwyd ynghylch y cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach, newidiadau demograffig, cynaliadwyedd cymunedol a goblygiadau hirdymor posibl i Nebo a’r ardal gyfagos.<br><br>Nodir bod y materion hyn wedi’u nodi a’u hystyried fel rhan o’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a’r Asesiad Effaith Llesiant, sydd wedi’u diweddaru yn dilyn ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad statudol. Mae’r asesiadau hyn yn ystyried ystod eang o ffactorau perthnasol, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol, effaith ar gydlyniant cymunedol, newidiadau demograffig, a chynaliadwyedd yn y tymor canolig a hir.<br><br>Caiff y dystiolaeth a’r sylwadau a gyflwynwyd eu hystyried ochr yn ochr â’r asesiadau effaith perthnasol fel rhan o’r broses statudol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |
| 14.1.2 | *“Mae prinder swyddi a chyfleoedd gwaith, sy’n golygu bod pobl ifanc yn symud allan o Gymru (80 y mis oedd y ffigur a awgrymwyd), ac o ganlyniad mae’r gyfradd geni yn gostwng. Felly ble mae strategaeth economaidd y llywodraeth i wrthdroi hyn? Pe bai bwriad i wneud hynny, gallai’r sefyllfa fod yn dra gwahanol ymhen pum mlynedd. Ond os caiff yr ysgol ei chau rŵan, ac yna bod pobl ifanc yn symud yn ôl i Gymru, bydd yr adeilad wedi’i golli am byth. Gallai’r sefyllfa fod yn gwbl wahanol ymhen ychydig flynyddoedd, ond ni ellir byth adfer colled yr adeilad a diwylliant yr ysgol.”* | |

| | | |
|---|---|---|
| 14.1.3 | *"Mae arnom angen swyddi cyflog uchel yng Ngwynedd… a dim ond drwy strwythur addysg cadarn y gellir cyflawni hynny."* | Fel uchod. |
| 14.1.4 | Nodir y byddai cau'r ysgol yn peri anfantais economaidd-gymdeithasol sylweddol i drigolion Nebo a'r ardal gyfagos. | Fel uchod. |

**14.2 Galwad am hyrwyddo polisi derbyn lleol ac ymgyrch i annog plant i fynychu eu hysgol leol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 14.2.1 | "Dylid gweud ymgyrch yn datgan cefnogaeth i blant aros a mynychu ei ysgol lleol ac egluro fod modd achyb yr ysgol os oes mwy o ddisgyblion yn mynychu. Wrth gwrs, ni fydd y Swyddogion byth yn cytuno i hyn" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed.<br><br>Mae trefniadau derbyn ysgolion yn cael eu gweinyddu yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion y Cyngor a'r fframwaith statudol cenedlaethol perthnasol. O fewn y drefn hon, mae gan rieni a gofalwyr yr hawl i fynegi dewis ynghylch yr ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, yn amodol ar gapasiti yr ysgolion a'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y polisi. Caiff y trefniadau hyn eu cymhwyso'n gyson ar draws y sir. |
| 14.2.3 | Awgrymir ailystyried trefniadau/polisi fel bod plant yn mynychu eu hysgol leol o'r cychwyn yn hytrach na theithio i ysgolion eraill. | |

**14.3 Sylwadau'n herio blaenoriaethu arbedion ariannol dros fuddsoddiad addysgol, cymdeithasol a chymunedol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 14.3.1 | *"Heblaw am arbed arian, nid yw'n ymddangos bod unrhyw resymau gwirioneddol dros y cynnig i gau'r ysgol, gan y byddai'n amlwg yn niweidio'r gymuned a'r plant."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau sy'n awgrymu bod y cynnig wedi'i ddatblygu ar sail ystyriaethau ariannol yn bennaf.<br><br>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori, datblygwyd y cynnig oherwydd bod nifer o heriau parhaus yn wynebu Ysgol Nebo.<br><br>Yn benodol, nodir niferoedd isel a bregus o ddysgwyr, canran uchel iawn o lefydd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy'n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y tymor canolig a hir, ynghyd ag amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy'n cyflwyno heriau addysgol. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol. |
| 14.3.2 | *"Os yw'n fater o gost, sut y gall y Senedd ddod o hyd i £2.9 miliwn ychwanegol ar gyfer y 36 Aelod Senedd ychwanegol (o fis Mai 2026 ymlaen)?… Mae gan yr Alban boblogaeth o 5.5 miliwn; mae gan Gymru boblogaeth o 3.2 miliwn… felly dylai uchafswm nifer Aelodau'r Senedd yng Nghymru fod yn 75… Mae ysgolion yn bwysicach nag Aelodau'r Senedd, gan mai hwy yw dyfodol Cymru. Plîs, meddyliwch eto a buddsoddwch yn nyfodol Cymru."* | |
| 14.3.3 | Cydnabyddir bod heriau ariannol, ond galwir am ystyried buddion addysgol, cymdeithasol a chymunedol ehangach cadw'r ysgol. | |

| | | |
|---|---|---|
| 14.3.4 | “A ydy'r Cyngor yn rhoi rhesymau tymor byr i arbed arian yn hytrach na lles plant yn y tymor hir? “ | Caiff yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach, yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |
| 14.3.5 | *“Ni allaf ond tybio mai mesur arbed costau yw hyn.* | |
| 14.3.6 | *“Er fy mod yn gwerthfawrogi bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ynghylch cyllidebau’r Cyngor a gwerth am arian, mae rhai penderfyniadau na ellir ac na ddylid eu gwneud ar sail ystyriaethau ariannol yn unig.”* | |
| 14.3.7 | “Mae'r arian mae'r Cyngor yn arbed yn isel iawn o gau'r ysgol ac rwyf methu a dallt y cyfiawnhad ar gyfer hynny - rwyf yn hapus i dalu trethi Cyngor ar gyfer cadw ysgolion ar agor a dyna ddylai blaenoriaeth Plaid Cymru fod (dros wasanaethau eraill) “ | |
| 14.3.8 | *“Mae’n ymddangos bod diffyg meddwl hirdymor ac arloesol… yn hytrach na chanolbwyntio’n unig ar yr arian y gellid o bosibl ei arbed drwy gau’r ysgol.”* | |
| 14.3.9 | Mynegir y farn bod cau’r ysgol yn ymateb byr-weledol i broblem hirdymor o dan-ariannu, yn hytrach nag ateb strategol. | |

**14.4 Awgrym i ystyried trefniadau cydweithredu traws-awdurdodol i leihau costau a chynnal ysgolion bach lleol**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 14.4.1 | Awgrymir y dylid ystyried atebion ehangach megis cyfuno Môn, Gwynedd a Conwy i arbed costau er mwyn gallu cynnal ysgolion bach lleol. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br>Fodd bynnag, nodir fod y broses bresennol yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion o fewn ffiniau gweinyddol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei chynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Nid yw trefniadau strwythurol ehangach ar draws awdurdodau lleol eraill yn rhan o gwmpas y cynnig dan ystyriaeth. |

**14.5 Effaith ariannol hirdymor ar wasanaethau addysg, iechyd a llesiant**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 14.5.1 | *“Nid yw costau’r dyfodol sy’n gysylltiedig â chefnogi plant sy’n cael trafferthion wedi cael eu hystyried… Faint mae’n ei gostio i gefnogi plentyn sy’n cael trafferth drwy addysg uwchradd ac i mewn i oedolaeth?”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. Mae anghenion a llesiant disgyblion, gan gynnwys goblygiadau hirdymor posibl i ddysgwyr, wedi’u hystyried drwy’r asesiadau effaith perthnasol fel rhan o’r broses statudol. |
| 14.5.2 | *“Rwy’n nodi cyfrifoldeb y Cyngor i wneud penderfyniadau cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Er y gallai cau ysgolion arwain at arbedion ariannol ymylol yn y tymor byr, mae’r rhagolwg* | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwad. |

| | | |
|---|---|---|
| | *tymor hir ar gyfer system addysg sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion yn un o arbedion ariannol, gan fod y pwysau ar wasanaethau yn y dyfodol yn cael ei leihau, er enghraifft ar ddarpariaeth addysg arbenigol a chysylltiad â Gwasanaethau Iechyd Meddwl."* | |

**14.6 Sylwadau'n galw am ystyried cynlluniau tai a thwf poblogaeth posibl**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 14.6.1 | "Nid oes gan ysgolion ddyletswydd I gynnal cymunedau- i'r gwrthwyneb - y gymuned ddylai gynnal a'r ysgol wasanaethu,symptom o brinder plant mewn cymuned yw gorfod cau ysgol ac nid achos...mae'r niferoedd yn isel gan fod pobol o oed magu plant yn dewis peidio neu yn methu byw yno. Mae cymunedau yn gwerthu allan I ail-gartrefi a lletai gwyliau (gweler gwerthiannau Victoria terrace Nantlle) neu yn gwrthwynebu I ddatblygiadau tai fforddiadwy ac yna yn anelu I wneud 'cau ysgol'yn frwydr neu'n fwch dihangol." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 14.6.2 | *"'Oherwydd y fformiwla dai, byddai angen adeiladu nifer fawr o dai yn Nebo i gynyddu niferoedd yr ysgol; byddai'n rhaid adeiladu 15 o dai i ennill 1 plentyn yn yr ysgol.' O ble daw'r cyfrifiad hwn??"* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Nodir bod unrhyw ystyriaeth o'r potensial ar gyfer cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai yn seiliedig ar y fformiwla gynllunio berthnasol a nodir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Gwynedd. Mae'r dull hwn yn amcangyfrif nifer y disgyblion a all ddeillio o ddatblygiad preswyl drwy luosi nifer y mathau penodol o dai a fwriedir â'r ffactorau perthnasol. |
| 14.6.3 | *"Yn yr un cyfarfod (d) codwyd y posibilrwydd o adeiladu rhagor o dai cymdeithasol. Yr ymateb oedd:<br>'Oherwydd y fformiwla dai, byddai angen adeiladu nifer fawr o dai yn Nebo i gynyddu niferoedd yr ysgol; byddai'n rhaid adeiladu 15 o dai i ennill 1 plentyn yn yr ysgol.' O ble daw'r cyfrifiad hwn?"* | |
| 14.6.4 | "Mae'n siomedig nad yw'r dogfennau'n rhoi unrhyw ystyriaeth briodol i Gynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd, sy'n targedu darparu 700 o dai cymdeithasol erbyn 2029. Ar hyn o bryd, mae asiantaethau tai a datblygwyr yn adeiladu tai cymdeithasol fforddiadwy ar draws Gwynedd ar raddfa na welwyd ers cenhedlaeth. O ystyried hyn, mae'n gwbl resymol ac yn briodol ystyried y posibilrwydd y gallai'r cynllun hwn arwain at dwf poblogaeth lleol, gan gynnwys yn ardal Nebo. Felly, heb fodel demograffig tryloyw sy'n ymgorffori'r datblygiadau tai hyn, nid yw'r casgliad y bydd niferoedd | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau ynghylch Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd a'r posibilrwydd y gallai datblygiadau tai, gan gynnwys y targed i ddarparu 700 o gartrefi fforddiadwy, ddylanwadu ar batrymau demograffig dros amser.<br><br>Fodd bynnag, yn ôl y rhagamcanion, rhagwelir y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghori, roedd 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr |

| | | |
|---|---|---|
| | disgyblion yn parhau'n isel yn un cadarn nac yn ddigonol fel sail i benderfyniad mor bwysig â chau ysgol wledig." | Meithrin ar y gofrestr ym Medi 2025, gyda rhagamcan o 10 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin erbyn Medi 2028.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cynlluniau tai effeithio ar niferoedd dros y tymor hir, ond ni ellir rhagdybio effaith uniongyrchol ar ddalgylch penodol heb dystiolaeth leol gadarn ynghylch graddfa ac amseriad datblygiadau perthnasol. |

**14.7 Sylwadau'n awgrymu ail-fuddsoddi arbedion mewn darpariaeth addysgol neu brosiectau Cymraeg**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 14.7.1 | Cynigir bod rhan o'r arbedion o gau Ysgol Nebo yn cael eu hail-fuddsoddi i wella neu gryfhau darpariaeth yn Ysgol Llanllfyni. | Mae'r Cyngor yn nodi'r awgrymiadau.<br><br>Fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol (Adran 7.7 – *Adnoddau Ariannol*), bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw, pe câi'r cynnig ei weithredu, yn cael eu cadw ym maes ysgolion Gwynedd. |
| 14.7.2 | "Beth am ymrwymo cyfran o'r arbediad I brojectau hyrwyddo'r Gymraeg? | |

**14.8 Cefnogi teuluoedd drwy ddarparu gwis ysgol am ddim**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 14.8.1 | Awgrymir y dylid ystyried trefniadau i gefnogi teuluoedd drwy ddarparu gwisg ysgol am ddim. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

**14.9 Ôl-ddefnydd**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 14.9.1 | "Gyda dim ond 250 o bobl ar Restr Etholiadol yma, rydym yn amau byddai'r pentrefi yn gallu codi digon o bres a fforddio rhedeg yr ysgol ar ôl iddi gau." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

**14.10 Sylwadau ynghylch dirywiad systemig darpariaeth addysg wledig, tuedd at drefoli, a goblygiadau hirdymor i gymunedau Cymraeg**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 14.10.1 | *"Mae datgymalu systematig ysgolion gwledig bach cefnogol yn creu effaith hirdymor ar fywyd gwledig, i'r fath raddau fel bod y cynnig yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."*<br>*"Mae gennyf hefyd bryderon ynghylch safonau addysg yn fwy cyffredinol ar draws y sir, a'r ymgyrch ariannol amlwg tuag at drefoli a chanoli addysg, sy'n newid natur y sir drwy leihau manteision byw mewn ardaloedd gwledig,* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch effaith hirdymor cau ysgolion gwledig ar fywyd gwledig, cymunedau, llesiant a'r Gymraeg, gan gynnwys y cyfeiriad at ddyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |

| | | |
|---|---|---|
| | *gan gyfrannu at ddirywiad cymuned, llesiant a'r Gymraeg. Mae pobl Gwynedd, sy'n sir wledig ei natur yn bennaf, yn haeddu gwell. Mae hanes dirywiad ysgolion gwledig, gyda 25 eisoes wedi'u colli yn ystod y blynyddoedd diweddar, yn dystiolaeth o ddiffyg cefnogaeth syfrdanol gan y Cyngor."* | Fodd bynnag, nodir mai ffocws y broses statudol hon yw dyfodol Ysgol Nebo, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r adolygiad presennol wedi'i seilio ar yr heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag ystodau oedran eang, a rhagamcanion sy'n nodi bod niferoedd dysgwyr yn debygol o barhau'n isel.<br><br>Nodir bod pecyn asesiadau effaith wedi'i gyhoeddi fel rhan o'r ddogfennaeth ymgynghori, gan gynnwys asesiadau ar yr iaith Gymraeg, y gymuned, cydraddoldeb, trefniadau teithio, ansawdd a safonau addysg, ac asesiad llesiant, ynghyd â dogfennau cefndirol eraill. Mae'r asesiadau effaith hyn wedi eu diweddaru yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Nodir hefyd, yn unol â'r drefn statudol, y bydd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol, yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ffurfiol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach. |
| 14.10.2 | Mynegir pryder bod diffyg ymgysylltiad ystyrlon â syniadau'r ysgol a'r gymuned yn adlewyrchu argyfwng ehangach o fewn y system addysg, nad yw wedi'i gyfyngu i ysgolion gwledig bach yn unig. Honnir bod heriau systemig difrifol yn cynnwys prinder staff a phwysau recriwtio a chadw staff, cynnydd sylweddol mewn anghenion dysgu ychwanegol heb adnoddau digonol, a straen ariannol parhaus sy'n arwain at atebion canfyddedig cul sy'n canolbwyntio ar arbedion uniongyrchol yn hytrach nag atebion strategol cynaliadwy.<br><br>Mae'r sylw'n tynnu sylw at gostau eilaidd cudd sy'n codi pan nad yw anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu, megis dibyniaeth ar gefnogaeth gan asiantaethau allanol, ac yn honni nad yw'r costau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn dadansoddiadau ariannol. Nodir hefyd diffyg atebolrwydd ar gyfer methiannau blaenorol mewn modelau darpariaeth.<br><br>Yn ogystal, mynegir pryder ynghylch cynnydd sylweddol mewn Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) fel arwydd bod nifer cynyddol o deuluoedd yn colli ffydd yn y system brif ffrwd, ac nad oes mecanwaith digonol ar waith i | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon a godwyd ynghylch materion ehangach sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg, gan gynnwys staffio, anghenion dysgu ychwanegol, pwysau ariannol a phrofiadau rhai teuluoedd.<br><br>Fodd bynnag, nodir mai ffocws y broses statudol hon yw dyfodol Ysgol Nebo, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r adolygiad presennol wedi'i seilio ar yr heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag ystodau oedran eang, a rhagamcanion sy'n nodi bod niferoedd dysgwyr yn debygol o barhau'n isel.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod pwysau eang yn bodoli ar draws y system addysg, ac mae'r materion hyn yn cael eu hystyried drwy brosesau, strategaethau a chynlluniau gwasanaeth ar wahân. Caiff yr holl sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn eu nodi a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses statudol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | werthuso'r gwasanaeth yn y cyd-destun hwn. Mae'r sylw'n cwestiynu a yw'r dull addysg unffurf presennol yn gallu diwallu anghenion amrywiol pob dysgwr, gan gysylltu hyn â phwysau ar bresenoldeb, llesiant dysgwyr, a chapasiti gwasanaethau cymorth. | |
| 14.10.3 | *"Mae cyflwyniad yr heriau sy'n wynebu ysgolion gwledig yn cael ei bortreadu'n bennaf fel un o newid demograffig—newid sy'n anochel, ac nad yw'r Cyngor yn gyfrifol amdano. Yn amlwg, nid yw hyn yn wir: mae polisi gweithredol o gyfuno ar sail resymau ariannol ar waith, sydd yn ymarferol yn gweithredu fel polisi trefoli (urbanisation). Mae dalgylch Dyffryn Nantlle, y mae Nebo yn rhan ohono, yn enghraifft glasurol o hyn:*<br>*Mor ddiweddar â 2014, roedd 9 ysgol gynradd yn nalgylch ysgol Dyffryn Nantlle, yn darparu ar gyfer 621 o ddisgyblion yn y flwyddyn honno. Roedd cau dwy o'r ysgolion hynny—Carmel a Bronyfoel—yn 2015 yn angenrheidiol er mwyn gallu adeiladu ysgol newydd oedd yn gwasanaethu ardal Groeslon. Pe bai trafodaethau / ymgynghoriadau presennol Cyngor Gwynedd ar ddyfodol Ysgolion Nebo a Baladeulyn yn arwain at gau'r ddwy ysgol hyn, dim ond 5 ysgol gynradd fyddai'n gwasanaethu'r ardal.*<br>*Fodd bynnag, nid yw nifer y disgyblion ar draws y dalgylch wedi gostwng yn sylweddol yn gyffredinol. Yn ôl y data diwethaf ar gyfer 2024, roedd 594 o ddisgyblion ar draws y 7 ysgol. Os edrychir yn ôl mewn cyfnodau o ddeg mlynedd, mae'r data fel a ganlyn:*<br>▪ *2015: 635 o ddisgyblion mewn 7 ysgol*<br>▪ *2005: 645 o ddisgyblion mewn 9 ysgol*<br>▪ *1995: 603 o ddisgyblion mewn 9 ysgol*<br>*Dros y 30 mlynedd rhwng 1995 a'r diwrnod presennol, mae gostyngiad cyffredinol o ddim ond 9 disgybl yn y niferoedd. Nid yw hyn yn ymddangos yn sail ddigonol i gyfiawnhau cau pedair o'r naw ysgol, sef y canlyniad pe bai'r ymgynghoriadau posibl ar ddyfodol Nebo a Baladeulyn yn arwain at gau.*<br>*Yn sicr, mae cau Ysgolion Carmel ac Y Fron er mwyn cefnogi cyllido adeilad ysgol newydd yng Ngroeslon yn tynnu sylw at bolisi mwy strategol o drefoli. Mae plant yn y pentrefi hynny sydd ar gyrion yr ardal bellach yn cael eu cludo ar dacsi neu fws i bentref arall, ar draul y pwrs cyhoeddus i dalu'r costau trafnidiaeth.* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r cyd-destun ehangach a fynegwyd ynghylch trefniadaeth ysgolion mewn rhannau o Ddyffryn Nantlle dros gyfnod estynedig.<br><br>Fodd bynnag, nodir mai ffocws y broses statudol hon yw dyfodol Ysgol Nebo, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r adolygiad presennol wedi'i seilio ar yr heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag ystodau oedran eang, a rhagamcanion sy'n nodi bod niferoedd dysgwyr yn debygol o barhau'n isel.<br><br>Caiff y sylwadau a gyflwynwyd eu nodi a'u hystyried fel rhan o'r broses, ochr yn ochr â'r ystyriaethau statudol perthnasol, cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | *Mae unigolion yn Carmel ac Y Fron wedi nodi bod cau ysgol eu pentref wedi rhwygo calon y gymuned, ac nad oes bellach ddim i ddenu teuluoedd i symud yno. Nid oes angen dim ond gyrru drwy Carmel, yn arbennig, i weld cyflwr trist yr adnodd hwnnw—wedi'i leihau i groen o adeilad—ac i deimlo'r tristwch am ei golli."* | |

**14.11 Galwad i fuddsoddi yn addysg leol a chymunedol yn lle cau'r ysgol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 14.11.1 | Dylid blaenoriaethu buddsoddi mewn addysg leol a chymunedol yn hytrach na chau ysgolion bach. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 14.11.2 | *"Ni ellir mesur yr effaith eilaidd o gau ysgol leol. Fel cenedl falch, rhaid inni fuddsoddi yn ein plant ar bob cyfrif. Os na fyddwn yn cefnogi ein plant, beth fydd dyfodol Cymru?"* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 4.11.3 | *"Mae ysgolion yn ymwneud â 'buddsoddi yn y dyfodol' – mae angen i'r Cyngor fabwysiadu safbwynt llawer mwy tymor hir o ran sefydliadau addysg a'r mathau o addysg a ddarperir. Mae pob person ifanc yn unigol, gyda gofynion a chyd-destunau unigol."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |

**15. Opsiynau amgen**

**15.1 "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth."**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 15.1.1 | "Yr opsiwn yr hoffwn i'r cyngor ei ystyried, ac opsiwn dewisol rhieni, athrawon, llywodraethwyr a chymuned yr ysgol yw cadw'r ysgol ar agor fel ysgol prif ffrwd a datblygu'r ysgol fel prosiect peilot arloesol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol...Mae'r arbedion tymor hir a'r buddion iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau'r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus. Mae hyn y tu hwnt i ddadl ariannol yn unig, gan mai pwrpas unrhyw system addysg ddylai fod i helpu a meithrin plant i ddod y gorau y gallant fod... Mae'r cynnig i groesawu plant sy'n cael trafferth gydag addysg brif ffrwd a helpu'r nifer uchel o blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn ôl fewn i'r system addysg. Mae gan Ysgol Nebo brofiad helaeth ac | Mae'r Cyngor yn nodi'r nifer sylweddol o ymatebion sy'n cefnogi'r awgrym i gadw Ysgol Nebo ar agor fel ysgol gynradd brif ffrwd, tra'n datblygu rôl estynedig neu beilot arloesol i gefnogi disgyblion sy'n profi anawsterau emosiynol, cymdeithasol a llesiant, gan gynnwys plant nad ydynt yn ymdopi mewn ysgolion mwy neu sy'n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd.<br><br>Yn dilyn ystyried y sylwadau, mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig a gyflwynwyd gan y llywodraethwyr a'r gymuned — sef datblygu Ysgol Nebo i gynnig darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt — yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol. Er bod darpariaeth ADY eisoes wedi'i hystyried fel rhan o'r |

| | | |
|---|---|---|
| | arbenigedd o wneud hyn eisioes. Trwy barhau gyda'r arbenigedd a'r gofal sydd yma eisioes dyma gyfle i Adran Addysg Cyngor Gwynedd lawnsio prosiect peilot newydd, arloesol. Mae'r opsiwn hwn wedi ei gyflwyno i'r Cyngor yn barod, ond yn cael ei ddehongli fel Uned ADY arbenigol yn opsiwn 6. Credwn fod yr Adran Addysg yn fwriadol wedi camddehongli ein cynnig ni. Mae'r cynnig wedi ei drafod gyda'r Pennaeth Addysg a chwblhawyd dogfen gan y Llywodraethwyr yn nodi yn glir asesiadau effaith y syniad hwn. Yn unol â'r "rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig"(Cod Trefniadaeth Ysgolion) rhaid profi fod pob opsiwn wedi'i ystyried yn gydwybodol. Credwn nad yw hyn wedi digwydd yn ddigonol. Nid oes bwriad gan y corff i gynnwys uned ADY.<br>Yn hytrach, y bwriad yw cynnig ysgol a fyddai'n darparu cyfle i ddisgyblion bregus aros yn y prif lif ac o bosib osgoi cynnydd pellach mewn plant yn derbyn eu haddysg gartref. Dymunwn fod opsiwn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethwyr Ysgol Nebo yn cael ei ystyried yn llawn –dyma'r cynnig,<br>"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol,emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro - amrywiaeth."<br>Dewis y llywodraethwyr yw bod Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd prif ffrwd, ond hefyd yn dod yn gynllun peilot arloesol er mwyn cefnogi disgyblion sydd yn gwynebu heriau emosiynol a chymdeithasol. Byddai'r cynllun peilot hwn yn gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy'n cael trafferthion mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ADY. Gallai hyn fod yn gyfle i Gyngor Gwynedd ddatblygu a gweithredu strategaeth effeithiol, ac i ddangos i awdurdodau eraill yng Nghymru fodel newydd o feddwl arloesol. Gellid asesu sut y gall arddull yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo wasanaethu'r plant hyn yn well yn yr oedran cynradd. Yn economaidd, mae'n debygol y byddai hyn yn llawer mwy cost-effeithiol yn y tymor byr a'r tymor hir, yn ariannol ac o ran iechyd meddwl y plant. Gellid asesu yr effaith drwy gynnal cynllun peilot yma yn Ysgol Nebo…Gwyddom fod dros 200 o blant yn derbyn addysg adre… Dyma gyfle | opsiynau gwreiddiol (Opsiwn 6), nododd nifer o ymgynghorai nad yw'r cynnig hwn yn union yr un fath o ran ei gwmpas na'i fwriad. O ganlyniad, caiff yr opsiwn hwn ei gynnwys yn ffurfiol yn yr adroddiad ymgynghori fel Opsiwn 15.1, sef opsiwn amgen ychwanegol, ac mae'n destun asesiad pellach ymhellach ymlaen yn yr adroddiad yma.<br><br>Ceir manylion llawn yr asesiad hwn yn Adran 7 o'r adroddiad.<br><br>Fodd bynnag, yn dilyn y broses werthuso, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb yn ddigonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. O dan yr opsiwn yma, rhagwelir y byddai'r drefn a'r meini prawf mynediad yn parhau'n unol â'r trefniadau presennol, heb unrhyw newid i'r drefn mynediad, na statws yr ysgol.<br><br>O ystyried y byddai'r trefniadau mynediad presennol yn parhau heb eu newid, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad sylweddol yn y lefel uchel o lefydd gweigion.<br><br>Yn sgil hynny, rhagwelir y byddai'r heriau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel yn y dyfodol, a'r heriau ariannol cysylltiedig, gan gynnwys costau uchel fesul dysgwr, yn parhau heb eu datrys. |

| | | |
|---|---|---|
| | go iawn… dychwelyd i addysg prif lif – hyd yn oed petai am ychydig o ddiwrnodau yr wythnos." | |
| 15.1.2 | *"Y dewis a ffefrir gan y llywodraethwyr yw bod Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd, ond hefyd yn dod yn gynllun peilot arloesol. Byddai'r cynllun peilot hwn yn gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae anghenion y plant hyn wedi'u cydnabod gan Gyngor Gwynedd, ac felly mae hon yn sefyllfa hysbys sydd angen datrysiad…*<br>*Mae ychwanegu Uned ADY yn sefyllfa "colli-colli", gan fod yr ysgol sylfaen yn cael y niferoedd ac mae'n rhaid i Nebo adeiladu uned. Y cynnig yw cynyddu'r niferoedd drwy bolisi gweithredol i adnabod plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy, ac asesu – fel prosiect peilot – faint yn well y maent yn ffynnu mewn ysgol lai, gyda diwylliant gwahanol a dosbarthiadau llai…Dim ond dau athro sydd ar gyfer holl Wynedd ac Ynys Môn sy'n gyfrifol am oruchwylio'r holl blant sy'n cael eu haddysgu gartref… Byddai o fudd i rai… fynychu'r ysgol, o leiaf yn rhan-amser."* | |
| 15.1.3 | "Cynnigwyd gan y llywodraethwyr y byddai agor drysau Ysgol Nebo i ddisgyblion sydd ar y foment yn derbyn eu haddysg gartref oherwydd amrywiol resymau (mae hyn yn clymu gyda'r pwynt blaenorol), gan gynnig addysg hyblyg iddynt." | Fel uchod. |
| 15.1.4 | "Hoffwn i'r cyngor ystyried ein cynnig gwreiddiol o gynnig gwasanaeth addysgol llawn amser a hyblyg i ddisgyblion sydd yn profi anawsterau emosiynol wrth fynychu ysgolion. Mae nifer fawr i rieni (dwi'n siarad o brofiad yma) yn ymdrechu'n galed i gael eu plant i'r ysgol" "yn poeni eu bod wedi gorfodi eu plant i fynychu amgylchedd sydd yn niweidiol i'w hiechyd meddwl" Mae nifer fawr o ddisgyblion yn profi anawsterau mewn dosbarthiadau mawr oherwydd gor-bryder cymdeithasol." "Ar y foment mae'r opsiynau yn gyfyng iawn- mynychu ysgol neu addysg gartref.. "Petai | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaeth dosbarthiadau llai, addysg hyblyg, gwell cefnogaeth emosiynol ar gael, byddai nifer mawr o ddisgyblion yn goroesi a phrofi llwyddiant."<br>"Cadw'r ysgol ar agor gan ystyried mathau amgen o addysg a fyddai'n denu disgyblion" "Byddai gweledigaeth arloesol o'r math yn ddigon i gadw'r ysgol ar agor ac felly yn parhau i gynnig profiadau Cymraeg i'r gymdeithas ehangach" | |
| 15.1.5 | "Os bysa'r cyngor yn ystyried y cynnig gwreiddiol bod Ysgol Nebo yn rhoi addysg i blant sy'n ffendio hi'n anodd mynychu ysgol oherwydd gor- bryder neu iechyd meddwl. Tydi pob plentyn ddim yn gallu ymdopi mewn dosbarth mawr a phrysur ond mae gan pob plentyn hawl i gael addysg." | Fel uchod. |
| 15.1.6 | *"Gan fod pob un o'r opsiynau a nodir yn asesiad effaith y ddogfen ymgynghori yn ymddangos fel pe baent yn awgrymu effaith niwtral neu'n rhannol gadarnhaol, a'r unig gyfeiriad at effaith 'negyddol' yn ymwneud â'r cynnig i gau'r ysgol, hoffwn ofyn i Gyngor Gwynedd ailystyried yr opsiynau eraill, gyda golwg ar y dyfodol, ac i gadw Ysgol Nebo drwy ddefnyddio un o'r rhain. Ymddengys mai Opsiwn 6 yw'r opsiwn a ffefrir."* | Fel uchod. |
| 15.1.7 | *"Ar hyn o bryd, rydym yn wynebu argyfwng iechyd meddwl ymhlith plant mewn ysgolion – ac hefyd mae llawer o athrawon oddi ar y gwaith oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â straen. Mae nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref wedi cynyddu'n aruthrol ............... ... mae'r rhesymau mwyaf cyffredin dros dynnu plant o ysgolion yn cynnwys: gor-bryder / dadfeiliad emosiynol, anghenion dysgu heb eu diwallu, diffyg cefnogaeth... a bod yn anfodlon gyda'r ysgol, bwlio gan ddisgyblion eraill............... ysgolion yn rhy fawr a pherthnasoedd â staff addysg yn rhy amhersonol."*<br>*"Mae hyn oll yn cyd-fynd yn berffaith ag Opsiwn 6 fel dewis amgen i gau'r ysgol – 'Ysgol Nebo i gynnig uned arbenigol i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'. Er bod y Cyngor wedi categoreiddio hyn fel 'Anghenion Dysgu Ychwanegol', y cynnig gwirioneddol gan y llywodraethwyr a'r gymuned yw i'r ysgol ddod yn ganolfan gysurus a diogel ar gyfer cenhedlaeth o blant, sydd bellach o oedran cynradd, a gollodd gyfle ar eu datblygiad cymdeithasol yn y blynyddoedd cynnar o ganlyniad i bandemig Covid, ac y gwyddys bod rhai ohonynt bellach yn cael trafferth integreiddio i amgylchedd ysgol fwy."*<br>*"...Mae Ysgol Nebo, gyda'i staff eithriadol o ofalgar, yn gwbl addas i gael ei defnyddio fel cynllun peilot gweledigaethol i geisio delio â'r problemau hyn yn ifanc cyn iddynt fynd yn anoddach wrth i'r plentyn symud ymlaen drwy ei* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | *daith addysgol. Ni fyddai hyn yn gofyn am fawr o newid i swyddogaeth bresennol yr ysgol, os o gwbl. Byddai'r athrawon rhagorol yn cael eu cadw, ni fyddai angen unrhyw addasiadau i'r adeilad gan nad oes cyfeiriad at anabledd, ac mae cost cludiant yn cyfateb i gost cludo plant o'u cartref i ysgol arall ymhellach i ffwrdd, gan barhau â hyn i'r dyfodol."* | |
| 15.1.8 | *"Pam na ellir defnyddio'r ysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol, gan mai'r ysgol yw calon y gymuned?"* | Fel uchod. |
| 15.1.9 | *"Dylai'r opsiwn a ffefrir gan y llywodraethwyr gael ei ystyried ymhellach. Mae angen uned arbenigol i helpu plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy, ac i gefnogi'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref."* | Fel uchod. |
| 15.1.10 | *"Cynnig y llywodraethwyr i gadw'r ysgol ar agor yw ei datblygu'n fan lle gall plant ifanc sy'n cael trafferth mewn addysg gynradd brif ffrwd ffynnu ochr yn ochr â disgyblion eraill. Byddai hyn hefyd yn cynnwys croesawu plant sy'n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd i brofi dosbarthiadau bach, hyd yn oed ar sail rhan-amser. Mae'r opsiwn hwn wedi'i wrthod yn y Ddogfen Ymgynghori....Mae tua 200 o blant yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cael eu haddysgu gartref, gyda dim ond dau athro i'w monitro a darparu addysg iddynt....Defnyddiwch y cyflenwad o adnoddau rhagorol sydd gan Ysgol Nebo i wella'r sefyllfa hon a helpu disgyblion addas i ddychwelyd i addysg brif ffrwd... gofynnir i chi ystyried yr holl fanteision i blant presennol a'r rhai yn y dyfodol sy'n cael trafferth gydag addysg brif ffrwd..." "Mae'r cynnig... yn ffordd o ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael yn llawer mwy effeithiol. O ran economi ac o ran canlyniadau, byddai hyn yn llawer mwy effeithlon ac effeithiol."* | Fel uchod. |
| 15.1.11 | "Rwyf yn hoff iawn o'r syniad sydd wedi cael ei gynnig gan lywodraethwyr yr ysgol, sef bod yr ysgol yn dod yn ysgol i blant bregus gydag anghenion cymdeithasol ac emosiynol." | Fel uchod. |
| 15.1.12 | "Dyma gyfle i Gyngor Gwynedd arwain unwaith eto ar sut i gryfhau ysgolion gwledig, cefnogi'r Gymraeg, ac ymateb i heriau addysg gyfoes mewn ffordd gadarnhaol ac arloesol." | Fel uchod. |
| 15.1.13 | "mae angen i'r Cyngor wynebu y sialens o'r addysg ffurfiol i dros y 250 neu fwy o blant sy'n disgyn allan o addysg ffurfiol, ac i'r Cyngor cymryd cynlluniau positif i leihau'r ffigyrrau'ma. Gallai'r Cyngor wneud cynllun wrth gadw Ysgol Nebo ar agor ac helpu'r plant yma dychwelyd i addysg ffurfiol yn rhannol (sy'n diwydd yno yn barod), neu, mewn amser, yn llawn amser. Hefyd, mae adnoddau Ysgol Nebo'n ymestyn yn bellach na adeilad yr Ysgol, | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | gyda tir a lefydd o gwmpas fel dosbarth allanol sy'n ymestyn eu haddysg gyda dosbarthiadau bywyd gwyllt y gors a'r mynyddoedd yma." | |
| 15.1.14 | *"Mae'r llywodraethwyr wedi cynnig y dylai Ysgol Nebo fod yn gynllun peilot ar gyfer ysgol wledig fach sy'n darparu lleoedd i blant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy, neu sy'n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd... Yn economaidd, mae'n debygol y byddai hyn yn llawer mwy cost-effeithiol o ran arbedion tymor byr a thymor hir, yn ariannol ac o ran iechyd meddwl y plant.... Mae nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Ngwynedd ymhell dros 200 ac yn cynyddu'n gyflym. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio'n sicr, ond mae'n bosibl bod rhai ohonynt yn deillio o anhapusrwydd neu fwlio mewn ysgolion mwy, neu o'r epidemig o orbryder ar draws y wlad yn dilyn y pandemig.*<br>*Byddai o fudd i'r Cyngor a'r plant fel ei gilydd pe gallai rhai o'r plant hyn fynychu ysgol mor arloesol a chefnogol, hyd yn oed am ychydig ddyddiau'r wythnos yn unig. Byddai hyn yn galluogi'r athrawon proffesiynol yn Ysgol Nebo i fonitro ac asesu'r plant mewn ffordd na fyddai'n bosibl i'r ddau athro sydd ar hyn o bryd yn ceisio gwneud hyn ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyfan. Gallai cynnwys nifer o ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref ar sail rhan-amser gynyddu capasiti Ysgol Nebo tuag at 40, gyda threfniadau amserlennu priodol."* | Fel uchod. |
| 15.1.15 | *"Gallai plant o ysgolion prif ffrwd eraill sy'n cael trafferth ac sy'n ei chael yn gynyddol anodd ymdopi mewn amgylchedd grŵp mawr hefyd elwa'n sylweddol drwy gael o leiaf rai o'u gwersi mewn lleoliad grŵp llai megis yn Ysgol Nebo, os yw maint a chyflymder gosodiad eu hysgol bresennol yn ymddangos yn llethol ac yn cael effaith ar eu hyder, eu hymgysylltiad, a'u gallu i gael mynediad effeithiol at ddysgu."* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 15.1.16 | *"Credaf y dylai Ysgol Nebo barhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd, ond hefyd ddod yn gynllun peilot, a fyddai'n gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae anghenion y plant hyn wedi'u cydnabod gan Gyngor Gwynedd, ac felly mae hon yn sefyllfa hysbys sydd angen canfod ateb iddi. Credaf y dylai Ysgol Nebo barhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd, ond hefyd ddod yn gynllun peilot, a fyddai'n gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae anghenion y plant hyn wedi'u cydnabod gan Gyngor Gwynedd, ac felly mae hon yn sefyllfa hysbys sydd angen canfod ateb iddi... Yn economaidd, mae'n debygol y byddai hyn yn llawer mwy cost-effeithiol o ran arbedion tymor byr a thymor hir, yn ariannol ac o ran iechyd meddwl y plant."* | Fel uchod. |
| 15.1.17 | "Yr opsiwn yr hoffwn i'r cyngor ei ystyried, ac opsiwn dewisol rhieni, athrawon, llywodraethwyr a chymuned yr ysgol yw cadw'r ysgol ar agor fel ysgol prif ffrwd a datblygu'r ysgol fel prosiect peilot arloesol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol.<br>Dymunwn fod opsiwn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethwyr Ysgol Nebo yn cael ei ystyried yn llawn –dyma'r cynnig,<br>"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif<br>ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol,emosiynol ac ymddygiadol a phobl<br>ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro - amrywiaeth."<br>Mae'r opsiwn hwn wedi ei gyflwyno i'r Cyngor yn barod a thrafodwyd gyda'r Pennaeth Addysg, ond yn cael ei 'gam-ddehongli'fel Uned ADY arbenigol yn opsiwn 6.<br>Yn unol â'r "rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig"(Cod Trefniadaeth Ysgolion) rhaid profi fod pob opsiwn<br>wedi'i ystyried yn gydwybodol. Credwn nad yw hyn wedi digwydd yn ddigonol. Nid oes bwriad gan y corff i gynnwys uned ADY. Yn hytrach, y bwriad yw cynnig ysgol a fyddai'n darparu cyfle i ddisgyblion bregus aros yn | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | y prif lif ac o bosib osgoi cynnydd<br>pellach mewn plant yn derbyn eu haddysg gartref.<br>Dewis y llywodraethwyr yw bod Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd prif ffrwd, ond hefyd yn dod yn gynllun peilot arloesol er mwyn cefnogi pob plentyn i ffynnu yn academaidd, yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Mae staff Ysgol Nebo yn ofalgar, yn gallu rhoi'r sylw teilwng i bob plentyn oherwydd dosbarthiadau llai, yn ysbrydoli cariad at ddysgu, annog twf personol, a helpu pob plentyn i wireddu eu gwir botensial. Dyma gyfle i Gyngor Gwynedd ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd, ac i ddangos i awdurdodau eraill yng Nghymru fodel newydd o feddwl arloesol. Gellid asesu yr effaith drwy gynnal cyllun peilot yma yn Ysgol Nebo.<br>Hoffwn annog y Cyngor i ystyried y costau a'r manteision tymor hir o'r awgrym bod Ysgol Nebo yn cael ei defnyddio i gefnogi plant ag anawsterau neu anghenion nad ydynt o reidrwydd wedi'u hadnabod fel ADY? Mae'r arbedion tymor hir a'r buddion iechyd o helpu plentyn yn ifanc yn golygu y byddant yn dechrau'r ysgol uwchradd yn hyderus ac yn hapus." | |
| 15.1.18 | "Datblygu Ysgol Nebo fel safle arbenigol i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU, pryder, niwroamrywiaeth, ac anghenion iechyd meddwl.<br>Mae'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â strategaethau'r Cyngor ar lesiant a chynhwysiant, yn manteisio ar gryfderau'r ysgol<br>(dosbarthiadau bach, gofal unigol) ac yn cynnig dewis cadarnhaol yn lle cau. Mae'r Cod Trefniadaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried opsiynau o'r fath yn gydwybodol cyn cau ysgol wledig." | Fel uchod. |
| 15.1.19 | "Mae cyfle unigryw yma i addasu Ysgol Nebo a chreu datrysiad i anghenion disgyblion bregus" | Fel uchod. |
| 15.1.20 | *"A ellir gwneud yr ysgol yn ysgol ar gyfer plant o Lanllyfni a fyddai'n elwa o fod mewn grŵp llai?"* | Fel uchod. |
| 15.1.21 | *"Gallai Ysgol Nebo helpu i ddarparu math unigryw o ddarpariaeth ar gyfer rhai o'r heriau y mae rhai disgyblion wedi'u hwynebu ar ôl Covid. Gallai'r amgylchedd agos a ddarperir gan ysgol gyda niferoedd disgyblion isel helpu i gefnogi disgyblion sydd wedi cael trafferth dychwelyd i'r ysgol ac i addysg dros y blynyddoedd diwethaf.""Rwy'n deall bod tua 200 o ddisgyblion yng Ngwynedd ac Ynys Môn ar hyn o bryd yn cael eu haddysgu gartref... Mae'n ymddangos bod gan Ysgol Nebo amgylchedd delfrydol i helpu disgyblion* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | *sy'n cael eu haddysgu gartref oherwydd problemau megis pryder. Mae'r niferoedd bach a'r amgylchedd teuluol yn ddelfrydol ar gyfer meithrin disgyblion o'r fath. Rhaid bod addysg gartref yng Ngwynedd yn golygu ymrwymiad ariannol i'r Cyngor. Byddai helpu i ddod o hyd i ysgol addas i gefnogi'r disgyblion hyn yn helpu i wrthbwyso rhywfaint o'r ymrwymiad ariannol hwnnw."* <br> *"Dylid rhoi amser i'r ysgol, efallai hyd at o leiaf ddiwedd blwyddyn ysgol 2028, i ddatblygu ei dull blaengar o gynyddu'r niferoedd ar y gofrestr."* | |
| 15.1.22 | *"Mae ychwanegu Uned ADY yn sefyllfa 'colli-colli', gan fod yr ysgol sylfaen yn cael y niferoedd ac mae'n rhaid i Nebo adeiladu uned. Y cynnig yw cynyddu'r niferoedd drwy bolisi gweithredol i adnabod plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy, ac, fel prosiect peilot, asesu faint yn well y maent yn ffynnu mewn ysgol lai, gyda diwylliant gwahanol a dosbarthiadau llai. Dylai Ysgol Nebo barhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd, ond hefyd ddod yn gynllun peilot arloesol. Byddai'r cynllun peilot hwn yn gwneud Ysgol Nebo yn lle addas i blant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy am amryw resymau nad ydynt o reidrwydd yn golygu eu bod yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae anghenion y plant hyn wedi'u cydnabod gan Gyngor Gwynedd, ac felly mae hon yn sefyllfa hysbys sydd angen datrysiad. Gallai hyn fod yn gyfle i Gyngor Gwynedd ddatblygu a gweithredu strategaeth effeithiol, ac i ddangos i awdurdodau Cymreig eraill fodel newydd i arwain y ffordd o ran y math hwn o feddwl. Gellid asesu sut y gall arddull yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo wasanaethu'r plant hyn yn fwy effeithiol yn yr oedran cynradd. Yn economaidd, mae'n debygol y byddai hyn yn llawer mwy cost-effeithiol o ran arbedion tymor byr a thymor hir, yn ariannol ac o ran iechyd meddwl y plant. Gellid asesu hyn drwy gynnal y cynllun peilot yn Ysgol Nebo."* | Fel uchod. |
| 15.1.23 | *"Credaf fod ystyried y cynnig go iawn a gyflwynwyd i chi yn isafswm proffesiynol y dylech fod yn ei wneud, ac yn wir, dylech ystyried gwella'r cynnig hwnnw os oes modd, cyn ei werthuso fel opsiwn. Mae'n amlwg bod gan yr ysgol gryfderau, o ystyried y ganran uchel o ddisgyblion sy'n dod o'r tu allan i'r dalgylch. Dylech adeiladu ar y llwyddiant hwn yn hytrach na diystyru rhywbeth nad yw'n ffitio'n llwyr i'ch blychau addysgol presennol, yn enwedig gan ei fod yn mynd i'r afael â rhai o'ch pwysau ADY ac addysg gartref, sydd fwy na thebyg ond am gynyddu."* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 15.1.24 | Cynigir datblygu Ysgol Nebo fel canolfan i gefnogi disgyblion sy'n cael trafferth mewn ysgolion arferol ond nad ydynt o fewn fframwaith ADY. Awgrymir y gellid cynyddu'r nifer a gefnogir drwy drefniadau rhan-amser, gan wella hyfywedd ariannol. Nodir bod Ysgol Nebo yn cynnig cyfle i'r Cyngor fabwysiadu dull arloesol ac amgen yn hytrach na chau'r ysgol, drwy ddefnyddio'r capasiti dros ben i ehangu'r ddarpariaeth. Yn benodol, awgrymir y gallai'r ysgol gael ei datblygu'n ganolfan i gefnogi disgyblion agored i niwed nad ydynt mewn addysg ffurfiol, gan gynnwys y rhai sy'n cael anhawster mynychu ysgol oherwydd materion iechyd meddwl neu resymau eraill nad ydynt o fewn y fframwaith ADY. Pwysleisir ar brofiad presennol yr ysgol o gefnogi disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch, manteision trefn a chymdeithasu i ddisgyblion ifanc, a'r potensial i ddarparu ateb mwy effeithlon o ran cost na modelau presennol megis ymweliadau cartref. Nodir y gallai'r dull hwn fod o fudd i'r disgyblion, rhieni, y gymuned leol a dyfodol Ysgol Nebo ei hun. | Fel uchod. |
| 15.1.25 | Cynigir y gellid defnyddio'r ysgol i gefnogi plant ag anghenion arbennig, gan nodi bod yr amgylchedd naturiol a thawel yn arbennig o addas. | Fel uchod. |
| 15.1.26 | Tynnir sylw at y cynnig i ddefnyddio Ysgol Nebo i gefnogi a meithrin plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion eraill. | Fel uchod. |
| 15.1.27 | Cefnogir y syniad o gadw'r ysgol ar agor i ddisgyblion sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy am unrhyw reswm, gyda'r farn y byddai hyn yn gyfle gwerthfawr. | Fel uchod. |
| 15.1.28 | "Gan droi at sefylfa Ysgol Meidrim yn Sur Gaerfyrddin, mae eu tystiolaeth o'u gwerth i'r gymuned ac i'r Awdurdod Addysg o fod yn ysgol gyfeilgar i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi bod yn drawiadol iawn. Mae tystiolaeth wedi dod gan feddygon ac erail sy'n ymwneud a'r plant yn dangos pwysigrwydd amgylchedd dysgu cartrefol a sefydlog le bo'r addysg yn blentyn-ganolog. Mae'r profiad yma yn cadarnhau awydd Llywdraethwyr Ysgol Nebo i weld dyfodol eu hysgol yn gyfuniad o wasanaethu plant y gymuned a phlant yr ardal sydd ag ADY mewn awyrgylch caredig a phersonol, a chredaf y gal trefniant o'r fath fod o werth mawr i'r disgyblion eu hunain ac i'r ardal yn ehangach fod adsnodd fe ly ar gael." | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 15.1.29 | *"Yn fy marn i, credaf y gallai Ysgol Nebo fod yn ased i Wynedd – yn fan arddangos blaenllaw ar gyfer Addysg a Darpariaethau Amgen i gefnogi plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion mwy, ac a all fod wedi profi profiadau negyddol neu drawmatig mewn ysgolion eraill.*<br>*Hoffwn annog y Pwyllgor i ystyried achub yr ysgol rhag cau, rhoi sylw i ddymuniadau'r plant, a'i gwneud yn hygyrch i blant eraill a fyddai'n sicr o ffynnu yn yr ysgol wych hon. Mae'r lleoliad ei hun yn therapiwtig i'r plant, ac mae ansawdd y staff addysgu yn eithriadol... Dewch i ni wneud rhywbeth cadarnhaol i'n pobl ifanc yng Ngwynedd a chynnig y gwasanaeth rhagorol hwn i'r rhai sy'n cael trafferth, waeth pa mor fach yw'r niferoedd. Peidiwch â methu ein dyfodol."* | Fel uchod. |
| 15.1.30 | "O'r opsiynau a gynigir cedaf mai'r un gorau i Ysgol Nebo a'r gymuned yw ei chadw'n agored a datblygu cynllun peilot i gynnig addysg i blant sydd wedi eu dieithro o addysg brif ffrwd yn Nyffryn Nantlle a'r ardaloedd cyfagos am amryw o resymau gan gynnwys gor-bryder. Gall ysgol fechan wledig sydd yn adnabod anghenion bob disgybl yn drwyadl gynnig addysg a noddfa i godi hyder plant sydd ddim mewn addysg a'u gwneud yn unigolion a fydd yn hapus i gyfrannu at fywyd bob dydd ac at eu hamgylchfyd......Buasai plant a addysgir aadref hefyd yn elwa o'r opsiwn hwn... Buasai cynnig addysg i'r rhai sydd wedi dieithrio oddi wrth byd addysg ac i'r rhai sydd yn cael eu haddysgu gartref pe dymunent ddod yno yn rhan yn galluogi i Gyngor Gwynedd fod yn blentyn ganolog...Gellir sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal a nid yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gadw'r ysgol yn agored ac wrth gynnig lle yn yr ysgol i'r plant nad ydynt yn mynychu ysgol ar hyn o bryd oherwydd rhesymau amrywiol gan gynnwys gor-bryder. Hefyd gallasai plant sydd yn cael eu haddysgu gartref hefyd gael cynnig mynychu'r ysgol yn rhan amser pe dymunent. Buasai hynny'n sicrhau eu bod hwy, plant y pentref a'r plant sydd ag Anghenion Addysgol Ychwanegol yn cael cyfle i ymgyfarwyddo a defnyddio'r Gymraeg a dod yn hyderus wrth ei hymarfer, yn enwedig os ydynt yn dod o gartref di-Gymraeg. Buasai hyn yn sicrhau effeithiau positif ar gyfleoedd y plant a phobl y gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio a'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Buasai hyn hefyd yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r plant sydd yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o siarad Cymraeg fel oedolyn a magu eu plant hwythau drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent hefyd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg wrth iddynt gymysgu ag | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | oedolion y pentref mesesiynnau rhyng-genedlaethol ac os ydynt yn gweld eu perthnasau'n mynychu digwyddiadau cymunedol pan fo'r ysgol yn cael ei defnyddio fel canolfan gymunedol.... O ganlyniad buasai Cyngor Gwynedd, drwy Ysgol Nebo, yn helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050." | |
| 15.1.31 | *"Byddai Ysgol Nebo yn darparu'r lle perffaith i blant sy'n teimlo'n ansicr ynghylch mynychu'r ysgol yn llawn amser ac sy'n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd. Byddai hyn yn golygu eu bod wedi'u trochi yn nealltwriaeth ac arfer yr iaith Gymraeg yn yr ysgol."* | Fel uchod. |
| 15.1.32 | *"I golli allan ar y ffordd y mae Ysgol Nebo yn paratoi'r plant ar gyfer bywyd yn yr ysgol uwchradd. Gan fod y niferoedd yn isel ar hyn o bryd, a fyddai hyn yn gyfle da i dderbyn plant ag anawsterau dysgu a allai fod yn haws eu cefnogi mewn sefyllfa fwy clos a chydlynol... Credaf mai Opsiwn 3 yw'r polisi gorau un i'r Cyngor ei fabwysiadu."* | Fel uchod. |
| 15.1.33 | "Tybed a fyddai modd i opsiwn dewisol Llywodraethwyr Nebo gael ei ystyried o ddifri bryd hynny? Dyma gyfle unigryw i Ysgol Nebo addasu a bod yn rhan o ddyfodol prosiect newydd, arleosol. Mae'r adnoddau eisioes yn ei lle? Ni fyddai angen diswyddo staff, na chau ysgol wledig. Teimlaf nad yw Cyngor Gwynedd yn gwneud unrhyw ymdrech i edrych 'y tu allan i'r bocs'." | Fel uchod. |
| 15.1.34 | *"Fy opsiwn a ffefrir yw annog mwy o blant a fyddai'n elwa o ymdeimlad o deulu mawr yn hytrach nag ysgol fawr... gan gynnwys y rhai ag anawsterau a fyddai'n elwa'n emosiynol ac yn addysgol, yn ogystal â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref a allai fynychu'n rhan-amser... Byddent yn elwa o gymysgu am ychydig ddyddiau'r wythnos gyda phlant eraill o'r un oedran. Hefyd, dim ond dau athro sydd gan y sir i gefnogi'r plant hyn. Nid oes modd iddynt feithrin y math o berthynas sy'n eu galluogi i wir adnabod y plentyn... Canlyniad gwell i'r plant hyn, heb unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor...<br>Yn sicr, dylai cynllun peilot yn Ysgol Nebo, sydd eisoes â hanes da yn y maes hwn, gael cefnogaeth er mwyn profi neu wrthbrofi ei werth. Nid uned arbennig yw hon, ond ysgol sy'n gwneud mwy na'r hyn y mae eisoes yn ei wneud."* | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| 15.1.35 | “Gweithio yn fwy agos gydag ysgolion bach lleol megis Llanllyfni a Penygroes ble mae disgyblion heb setlo neu yn cael trafferth - mae ysgol lai yn rhoi cyfle gwych i'r disgyblion yma gael mwy o sylw ac i ffynnu.” “Mae angen gweithio efo ysgolion eraill i sicrhau fod plant yn cael yr addysg gorau posib, yn lle canolbwyntio ar stwffio 30 mewn dosbarth.” | Fel uchod. |
| 15.1.36 | Cynigir cynyddu niferoedd drwy ddenu plant sy’n cael trafferth mewn ysgolion mwy, a defnyddio Ysgol Nebo fel prosiect peilot i asesu manteision ysgol fach. | Fel uchod. |
| 15.1.37 | Mynegir y farn y dylai’r Cyngor roi ystyriaeth lawn a manwl i’r opsiwn o ddefnyddio Ysgol Nebo fel darpariaeth  arbenigol i gefnogi dysgwyr sy’n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, gan gynnwys rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn ogystal â dysgwyr sy’n ei chael hi’n anodd ymdopi o fewn darpariaeth brif ffrwd fwy. Awgrymir y gallai darpariaeth o’r fath weithredu naill ai ar sail tymor byr fel trefniant pontio i gefnogi dysgwyr sy’n delio â gorbryder, pryder neu broblemau iechyd meddwl, neu ar sail tymor hwy i rai dysgwyr sydd angen amgylchedd addysgol llai, mwy cefnogol. Cyfeirir at dystiolaeth o gynnydd parhaus mewn anghenion cymdeithasol, emosiynol a datblygiadol ymhlith plant a phobl ifanc, gan nodi bod canran sylweddol o ddysgwyr yng Ngwynedd bellach â Chynllun Datblygu Unigol. Tynnir sylw at y pwysau cynyddol ar ddarpariaethau ALN arbenigol presennol, gan gynnwys gor-lenwi ysgolion arbenigol, cynnydd yn gymhlethdod anghenion dysgwyr, a heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw staff, sy’n arwain at anawsterau wrth ddiwallu anghenion rhai dysgwyr o fewn y system bresennol. Mae’r sylwadau’n cyfeirio’n benodol at waith Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi’r Cyngor, gan nodi bod adroddiad a phenderfyniad unfrydol y pwyllgor yn Ebrill 2025 wedi amlygu’r pwysau cynyddol ar y system ALN, yr heriau wrth deilwra darpariaeth i anghenion dysgwyr, a’r angen i ystyried ffyrdd amgen o wella darpariaeth i’r cohort o blant sydd ag anghenion dwys ond nad ydynt yn bodloni’r trothwy ar gyfer ysgolion arbenigol. Nodir bod y pwyllgor hefyd wedi galw am ystyried y posibilrwydd o ddarpariaeth loeren neu ategol mewn rhai ysgolion. Yn y cyd-destun hwn, mae’r sylwadau’n herio’r modd y cafodd Opsiwn 3 (ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ADY ar safle Ysgol Nebo) ac Opsiwn 6 (Ysgol Nebo yn cynnig uned | Fel uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | arbenigol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol) eu gwerthuso a'u gwrthod yn y ddogfen ymgynghori. Dadleuir nad yw'r rhesymau a roddwyd dros beidio â bwrw ymlaen â'r opsiynau hyn yn adlewyrchu'n llawn realiti presennol y galw am ddarpariaeth ychwanegol, nac ychwaith y pwysau systemig ar ddarpariaeth ALN arbenigol a phrif ffrwd. Pwysleisir, fodd bynnag, nad yw'r cynnig a gyflwynir gan y llywodraethwyr a'r gymuned yn cael ei weld fel ail-adrodd uniongyrchol o Opsiwn 6 nac fel amrywiad syml ar Opsiwn 3, ond fel opsiwn amgen o wahanol gwmpas a bwriad, gyda ffocws penodol ar ddarpariaeth feithrinol, hyblyg ac integredig ar gyfer dysgwyr â heriau cymdeithasol ac emosiynol, yn hytrach na darpariaeth ALN arbenigol draddodiadol.<br>Yn ogystal, dadleuir bod nodweddion Ysgol Nebo — megis dosbarthiadau bach, amgylchedd tebyg i deulu, a chapasiti dros ben ar y safle — yn cael eu hystyried yn gryfderau posibl wrth gefnogi'r math hwn o ddarpariaeth, ac y gallai'r ysgol gynnig model mwy personol a chynhwysol i rai dysgwyr. Cyfeirir hefyd at amcanion strategol y Cyngor o ran cynhwysiant, hawl pob dysgwr i addysg briodol, a hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, gan ddadlau bod y cynnig hwn yn gyfle i ymateb mewn ffordd fwy creadigol ac integredig i heriau hirdymor y system addysg. | |

**15.2 Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 15.2.1 | "Mae cyfle i ddatblygu ysgol Nebo fel uned bontio i ddisgyblion sydd yn dod o unedau anghenion ychwanegol a'u hintegreiddio ar gyfer addysg prif lif i'r ysgolion lleol. Gallai hyn ddwyn pwysau oddi ar yr ysgolion eraill" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n awgrymu datblygu Ysgol Nebo fel uned bontio i gefnogi disgyblion sy'n symud o ddarpariaethau ADY arbenigol er mwyn hwyluso eu hintegreiddio yn ôl i addysg brif ffrwd mewn ysgolion lleol.<br><br>Yn y cyd-destun hwn, ystyrir yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol, ac o ganlyniad mae wedi'i gynnwys yn ffurfiol yn yr adroddiad fel Opsiwn 15.2, ac mae'n destun asesiad pellach ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn.<br><br>Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso'r opsiwn hwn, deuir i'r casgliad nad yw datblygu Ysgol Nebo fel uned bontio ADY yn cynnig ateb i'r heriau craidd sy'n wynebu'r ysgol. Byddai dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth bontio o'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | fath yn parhau i fod wedi'u cofrestru'n swyddogol mewn ysgolion eraill, ac felly ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig yn Ysgol Nebo nac at leihad ystyrlon yn y gyfran uchel o lefydd gweigion. |

**15.3 Defnyddio Ysgol Nebo fel safle derbyn ychwanegol i ysgolion cyfagos sy'n wynebu gorlenwi/dros gapasiti**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 15.3.1 | "Ysgolion fel llanllyfni a pen y groes yn llawn dop. Beth am ddefnyddior ysgol fel lle ychwanegol nid yn unig i blant nebo ond i plantos eraill yn yr ysgolion cyfagos cael dod i ymgymryd rhai gwersi? Hynny yn tynnu pwysau oddi ar ysgolion mawr." | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n awgrymu y dylid ystyried defnyddio Ysgol Nebo fel safle derbyn ychwanegol i gefnogi ysgolion cyfagos sy'n gweithredu dros gapasiti neu'n wynebu gorlenwi, gan gynnwys awgrymiadau i ganiatáu i ddysgwyr o ysgolion megis Llanllyfni a Phenygroes fynychu'r safle ar gyfer rhai gwersi neu'n llawn amser. Nodir y farn bod y dull hwn yn gallu lleddfu'r pwysau ar ysgolion mwy a gwneud defnydd gwell o gapasiti presennol Ysgol Nebo.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol. Byddai gweithredu model o'r fath yn arwain at newid sylweddol yn rôl a natur Ysgol Nebo, gan ei droi o ysgol gymunedol brif ffrwd yn ddarpariaeth ran-amser neu ategol heb sylfaen glir o ran trefniadaeth, na llywodraethu. Byddai hefyd yn codi cymhlethdodau sylweddol mewn perthynas â threfniadau derbyn, cludiant, lles disgyblion a pharhad profiad addysgol, yn enwedig i blant iau.<br><br>Yn ogystal, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo o ran niferoedd disgyblion, cynaliadwyedd tymor hir. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac nad yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. |
| 15.3.2 | "*Symud plant eraill o ysgolion gorlawn i Ysgol Nebo.*" | |

**15.4 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Arbenigol ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored a Gwaith Maes**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 15.4.1 | Derbyniwyd sylw'n dadlau bod cynnig i ddatblygu Ysgol Nebo fel canolfan arbenigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gwaith maes yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol sy'n haeddu ystyriaeth fwy gofalus a manwl. Tynnir sylw at botensial addysgol, llesiant, amgylcheddol ac economaidd y model, | Mae'r Cyngor yn nodi'r rhesymau a gyflwynir o blaid datblygu Ysgol Nebo fel canolfan arbenigol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gwaith maes, gan gynnwys y cyfeiriadau at y Cwricwlwm i Gymru, manteision llesiant corfforol a meddyliol, cysylltiad â'r dirwedd leol, a'r potensial i gefnogi |

| | | |
|---|---|---|
| | gan nodi ei aliniad cryf â Chwricwlwm i Gymru, gan gynnwys cefnogi datblygiad cyfannol dysgwyr, iechyd corfforol a meddyliol, cynhwysiant (yn enwedig i ddysgwyr ag ASD/ADHD), a chryfhau hunaniaeth leol a diwylliannol.<br><br>Mynegir bod y cynnig yn gallu cynnig cyfleuster a rennir ar gyfer ysgolion eraill yn y Sir, gan leihau costau teithiau maes a darparu dewis mwy hygyrch na darpariaethau masnachol, yn ogystal â chyfleoedd i gynhyrchu incwm ac i gyfrannu at lluniau adfywio lleol, twristiaeth gynaliadwy a nodau gwydnwch hinsawdd. Pwysleisir hefyd fod y gofynion cyfalaf a refeniw yn gymharol isel, a bod cyfleoedd hyfforddiant ac addysg hinsawdd perthnasol yn bodoli.<br><br>Yn ehangach, mae'r sylw'n dadlau bod datblygu modelau creadigol mewn ysgolion gwledig bach yn ategu'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau, ac yn cynnig cyfle i'r Cyngor ddatblygu darpariaeth addysgol arloesol y gellid ei hymestyn i ysgolion eraill (gan gynnwys enghreifftiau mewn lleoliadau gwahanol), gan ymateb i'r galw cynyddol am raglenni llesiant a dysgu seiliedig ar natur. | ysgolion eraill ar draws y Sir. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r cysylltiadau a wneir rhwng y cynnig hwn a blaenoriaethau ehangach megis adfywio lleol, twristiaeth gynaliadwy a hunaniaeth ddiwylliannol.<br><br>Fodd bynnag, ystyrir bod yr opsiwn hwn yn cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 5 gwreiddiol, sef datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau penodol gyda ffocws ar waith maes a dysgu yn yr awyr agored. O ganlyniad, nid yw'r cynnig hwn yn cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac mae'r materion a godir drwy'r opsiwn hwn yn cael eu hymgorffori o fewn ystyriaeth ac asesiad Opsiwn 5.<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn nad yw datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer pynciau unigol, megis dysgu yn yr awyr agored neu waith maes, yn ymateb yn ddigonol i'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Nebo, yn enwedig o ran niferoedd dysgwyr a chynaliadwyedd hirdymor. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig nac at leihad sylweddol yn y gyfran uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol. O ganlyniad, byddai'r trefniant presennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau, yn ogystal â'r rhagolygon niferoedd isel, y patrwm presennol o ddewis y dalgylch, a'r heriau ariannol cysylltiedig, gan gynnwys costau uchel fesul dysgwr. |

**15.5 Ffederaleiddio/ Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 15.5.1 | *"Dewis pellach nad yw wedi cael ei ystyried yn briodol yw mater ffedereiddio: edrychwyd ar hyn gan yr Adran Addysg drwy'r lens o atodi'r ysgolion llai hyn wrth ysgol fwy. Pam na ellid eu ffedereiddio â'i gilydd? Mae gan Nebo bennaeth 0.2, tra bod Baladeulyn bellach wedi colli ei bennaeth: pa ystyriaeth a roddwyd i gyfuno'r ddwy ysgol? Efallai na fyddai hyn yn ymarferol am amrywiol resymau, ond nid yw hynny'n golygu y dylid ei ddiystyru heb ystyriaeth, gan ei fod yn ddewis arall rhesymol."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n awgrymu y dylid ystyried ffederaleiddio Ysgol Nebo ag Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys drwy rannu staff ac adnoddau, a chan ystyried y posibilrwydd o gyfuno trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu. Ystyrir yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol, ac o ganlyniad mae'n destun ystyriaeth ac asesiad pellach o fewn Adran 7 isod.<br><br>Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso'r opsiwn hwn o safbwynt ei allu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad nad yw ffederaleiddio ag Ysgol Baladeulyn, yn ymateb digonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Er y gallai trefniant o'r fath arwain at rywfaint o rannu adnoddau neu gapasiti ar lefel reoli, nid oes tystiolaeth y byddai'n arwain at |
| 15.5.2 | "mi faswn i yn argymell federalisation (rhannu'r staff) a hefyd agor yr ALN fel odd yn y dogfen consultation" | |
| 15.5.3 | Awgrymir y dylid ystyried uno Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn, gan nodi y byddai hyn yn arwain at tua 19 o ddisgyblion | |

| | | |
|---|---|---|
| | | gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig nac at leihad yn y lefel uchel o lefydd gweigion yn Ysgol Nebo. O ganlyniad, byddai'r trefniadau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel yn y dyfodol, a'r heriau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol a chostau uchel fesul dysgwr yn parhau heb eu cyfarch. |

**15.6 Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 15.6.1 | "un Bwrdd Llywodraethol ffederal ar gyfer hol ysgolion dalgylch ysgol uwchradd i gymryd penderfyniadiadau strategol o ran defnydd adnoddau, hwyrach penodi safloedd ar gyfer disgyblion ADY, cydlynu cylidebau, ac yna fod Pwylgorau Cyswlt Rhieni a Chymunedol yn yr ysgolion unigol. Byddai Dyffryn Nantle yn ardal ddigon cryno i wneud i hyn weithio. Mae modd o dan y drefn bresennol cael ffederasiwn rhwng ysgol(ion) cynradd ac ysgol uwchradd (er nad Coleg AB), ond rhaid ceisio caniatad i gael mwy na 5 mewn dffederasiwn. Wedi sefydlu Ffederasiwn 'of the wiling' galai creu diwyliant gydweithio o'r fath hyrwyddo symudiad i'r cyfeiriad hwnnw. Ga l wedyn cydlynu mentrau cymdeithasol a diwyliannol tu fewn i gwmpawd cyfrifoldeb pwylgorau'r ysgolion unigol (e.e. cymhathu mewnfudwyr) o'u rhyddhau o'r dadlau cyson am gylidebau a materion strategaeth sylfaenol. Byddai hynny yn ei dro yn rhoi nod ychwanegol i ysgol gymunedol fach fel Nebo. Byddai arbedion mawr i'w gwneud o greu un bwrdd lywodraethol ffederal o'r fath gan ganiatau i'r pwylgorau leol wedyn ganolbwyntio ar hyrwyddo ethos lesol yn yr ysgolion a chyswlt a dylanwad cryf ar eu cymunedau" | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n awgrymu sefydlu Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar draws ysgolion y dalgylch, gyda'r bwriad o gryfhau cydweithio strategol rhwng ysgolion, cydlynu defnydd adnoddau a chyllidebau, ystyried trefniadau arbenigol megis darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY, a galluogi ysgolion unigol i ganolbwyntio'n fwy ar eu rolau cymunedol ac ar hyrwyddo ethos llesiant a chysylltiadau â'u cymunedau lleol.<br><br>Ystyrir yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol, ac o ganlyniad mae'n destun ystyriaeth ac asesiad pellach o fewn Adran 7 isod.<br><br>Fodd bynnag, yn dilyn gwerthuso'r opsiwn hwn o safbwynt ei allu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad nad yw sefydlu Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar draws ysgolion y dalgylch yn ymateb digonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Ni ragwelir y byddai'r trefniant llywodraethu hwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig nac at leihad ystyrlon yn y lefel uchel o lefydd gweigion yn Ysgol Nebo. O ganlyniad, byddai'r trefniadau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel yn y dyfodol, a'r heriau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ariannol a chostau uchel fesul dysgwr yn parhau heb eu cyfarch. |

**15.7 Cydweithio a Rhannu Adnoddau ac Arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac Ysgolion Cyfagos**

<table>
<tr><th></th><th>Sylw</th><th>Ymateb y Cyngor</th></tr>
<tr><td>15.7.1</td><td>“Oes, credaf fod nifer o opsiynau amgen y gallai’r Cyngor eu hystyried yn hytrach na chau Ysgol Nebo. Un opsiwn fyddai cynyddu cydweithio rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion cyfagos, megis rhannu adnoddau, staff neu arbenigeddau penodol, er mwyn lleihau costau a chryfhau’r ddarpariaeth addysgol.”</td><td rowspan="4">Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau sy’n awgrymu y dylid ystyried opsiynau amgen i gau Ysgol Nebo, gan gynnwys cynyddu cydweithio â ysgolion cyfagos drwy rannu adnoddau, staff neu arbenigedd penodol, gyda’r bwriad o leihau costau, cryfhau’r ddarpariaeth addysgol, a hyrwyddo derbyniadau newydd i’r ysgol.<br><br>Mae trefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion cyfagos wedi’u hystyried fel rhan o’r model ffedereiddio, yn hytrach nag fel opsiwn amgen annibynnol. O ganlyniad, ystyrir y trefniadau hyn fel elfen o’r opsiwn ffedereiddio ei hun, ac felly nid ydynt wedi’u hasesu ar wahân o fewn yr adroddiad hwn.<br><br>O safbwynt yr opsiwn i ffedereiddio, yn dilyn gwerthuso’r opsiwn hwn o ran ei allu i fynd i’r afael â’r heriau sy’n wynebu Ysgol Nebo, ystyrir nad yw ffedereiddio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos yn ymateb i’r heriau sylfaenol sy’n wynebu Ysgol Nebo. Nid oes tystiolaeth y byddai trefniadau cydweithio o’r fath yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai’r trefniadau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau.<br><br>Yn ogystal, ni cheir tystiolaeth y byddai’r opsiwn hwn yn arwain at newid i’r rhagolygon niferoedd isel yn y dyfodol nac at newid sylweddol yn y patrwm presennol o ddewis rhieni a dysgwyr o fewn y dalgylch, er gwaethaf awgrymiadau i hyrwyddo derbyniadau newydd. O ganlyniad, byddai’r heriau ariannol parhaus, gan gynnwys costau uchel fesul dysgwr a diffyg cynaliadwyedd ariannol hirdymor, yn parhau heb eu datrys.</td></tr>
<tr><td>15.7.2</td><td>“Gellid hefyd ystyried trefniadau cydweithio ag ysgolion cyfagos, rhannu adnoddau neu staff... neu gynlluniau i hyrwyddo derbyniadau newydd drwy bwysleisio manteision addysg Gymraeg leol mewn amgylchedd gwledig cefnog.”</td></tr>
<tr><td>15.7.3</td><td>“trefniadau cydweithredol gydag ysgolion cyfagos, rhannu adnoddau neu staff” / “mentrau i hyrwyddo derbyniadau newydd”</td></tr>
<tr><td>15.7.4</td><td>“credwn fod atebion amgen megis rhannu adnoddau neu gydweithio rhwng ysgolion yn well”</td></tr>
</table>

**15.8 Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Gymraeg a/neu Gymunedol**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 15.8.1 | “Byddai Ysgol Nebo yn darparu lle delfrydol i gynnal dosbarthiadau i ddysgwyr Cymraeg.” | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r Cyngor eisoes wedi ystyried yr opsiwn i ddefnyddio’r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi gwasanaethau lleol, a chydleoli gwasanaethau o fewn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal.<br><br>Yn dilyn ystyried yr opsiynau, daethpwyd i’r casgliad nad oedd yn cynnig datrysiad cynaliadwy i’r heriau allweddol sy’n wynebu Ysgol Nebo, fel y nodir yn adran 5.1 o’r ddogfen ymgynghori. Yn benodol, ni fyddai opsiynau o’r fath yn mynd i’r afael â niferoedd isel parhaus o ddysgwyr, maint dosbarthiadau bychain, na’r goblygiadau cysylltiedig ar gynaliadwyedd ariannol a darpariaeth addysgol yr ysgol fel ysgol gynradd brif ffrwd.<br><br>At hyn, nodir bod defnydd cymunedol helaeth eisoes yn cael ei wneud o adeilad Ysgol Nebo fel rhan o’r trefniadau presennol; mae hyn yn awgrymu bod rhai elfennau o’r hyn a ddisgrifir yn yr opsiwn hwn eisoes yn bodoli o fewn y sefyllfa bresennol, sef yr opsiwn “gwneud dim”.<br><br>Ystyrir bod Opsiwn 15.8, fel y’i disgrifir, yn debyg yn ei hanfod i’r opsiynau hynny a gafodd eu hystyried a’u diystyru eisoes, gan ei fod yn canolbwyntio ar ehangu neu ail-bwrpasu rôl y safle at ddefnydd cymunedol yn hytrach na mynd i’r afael â’r heriau addysgol sy’n wynebu’r ysgol. O ganlyniad, deuir i’r casgliad nad yw Opsiwn 15.8 yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol, ac felly nid yw’n cael ei ystyried ymhellach nac yn destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. |
| 15.8.2 | *“Neu i ddarparu hyfforddiant Cymraeg ychwanegol i siaradwyr Saesneg?”* | |
| 15.8.3 | “Yn hytrach na chau’r ysgol, dylid archwilio model mwy hyblyg ac aml-bwrpas sy’n cryfhau rôl yr ysgol fel canolfan addysg a chymunedol ehangach.” “Un opsiwn fyddai datblygu’r ysgol fel canolfan ddysgu gymunedol, gan gynnwys elfen dysgu Cymraeg i oedolion, gan fanteisio ar sgiliau addysgu lleol a galw cynyddol am gyfleoedd i ddysgu’r Gymraeg yn gymunedol. Gallai hyn gynyddu defnydd yr adeilad y tu allan i oriau ysgol, denu incwm neu gyllid ychwanegol, a chryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgol, rhieni a’r gymuned ehangach” “… ddatblygu Ysgol Nebo fel canolfan Gymraeg arloesol sy’n gwasanaethu’r gymuned gyfan, gan gryfhau ei rôl fel man naturiol i ddefnyddio’r Gymraeg o ddydd i ddydd. Byddai cynnwys elfen dysgu Cymraeg i oedolion, ochr yn ochr ag addysg gynradd, yn gyfle rhagorol i gynyddu defnydd y Gymraeg ar draws cenedlaethau, meithrin siaradwyr newydd, a chreu model cadarnhaol a chynaliadwy y gellid ei rannu’n ehangach.” | |
| 15.8.4 | *“Dylid archwilio model mwy hyblyg ac aml-bwrpas… datblygu’r ysgol fel canolfan ddysgu gymunedol, gan gynnwys elfen dysgu Cymraeg i oedolion… Gallai hyn gynyddu’r defnydd o’r adeilad y tu allan i oriau ysgol, er enghraifft ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg i oedolion, denu incwm neu gyllid ychwanegol, a chryfhau’r cysylltiadau rhwng yr ysgol, rhieni a’r gymuned ehangach.”* | |
| 15.8.5 | “…gellir datblygu ysgol Nebo yn ganolfan iaith i blant a phobl ifanc Dyffryn Nantlle… cyrsiau awyragored… pwyslais ar ddysgu a/neu gwella y defnydd o'r iaith Gymraeg, iechyd a lles disgyblion… ” “Buasai'n dda petai'r brifysgol ym Mangor yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg yn gyson yn yr ystafell gymunedol… O bosib buasai cael uned iaith o fewn yr ysgol yn ysgogi dysgwyr a siaradwyr i ddefnyddio eu Cymraeg gydag aelodau hynny o'r gymuned sy'n dysgu'r iaith” | |

| | | |
|---|---|---|
| 15.8.6 | *"Hoffwn allu ymateb i fy ffrindiau yn Gymraeg, ond rwy'n ei chael hi'n anodd. Petai Ysgol Nebo yn parhau ar agor ac o bosibl yn trefnu athro Cymraeg i rieni fel fi nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith, byddai hynny'n wych."* | Fel uchod. |
| 15.8.7 | *"Ysgol gymunedol, ysgol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, a hefyd hwb cymunedol."* | Fel uchod. |
| 15.8.8 | "agor consultation arall i sut fedra'r pentref defnyddio'r adeilad fel hwb i ddod a mwy o revenue i'r ysgol...Mae na cyfle i rhedeg dosbarthiadau noswaith... Dosbarthiadau, clwbiau, siop, unrhywbeth...Mi faswn i'n hapus iawn i fod rhan o rhyw bwyllgor i brainstormio sut i maximisio'r revenue i'r ysgol" | Fel uchod. |
| 15.8.9 | *"A ellid defnyddio'r ysgol hefyd at ddibenion cymunedol i ddarparu incwm ychwanegol i ategu'r ddarpariaeth addysgol?"* | Fel uchod. |

**15.9 Cynnwys Ysgolion Bach mewn Strategaethau Treftadaeth ac Adfywio**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 15.9.1 | *"Mae angen ystyried dewisiadau rhesymol eraill sy'n ymwneud â chynllunio ehangach ac adfywio lleol."*<br>*"Galwaf ar y Cyngor i gynnwys nid yn unig ysgolion Nebo a Baladeulyn, ond pob ysgol fach, yn weithredol mewn strategaethau adfywio cymunedol lleol. Er enghraifft, nodaf y cyllidebau ychwanegol sy'n cael eu defnyddio i ariannu prosiectau treftadaeth gymunedol sy'n gysylltiedig â dynodiad tirweddau llechen gogledd Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Nodaf nifer o brosiectau a buddsoddiadau yng nghymuned Penygroes, ac rwy'n galw ar y Cyngor i sicrhau dosbarthiad teg o'r cyllid hwn, gan ystyried bod cymuned lechen Dyffryn Nantlle yn cynnwys y pentrefi bach cyfagos yn yr ardal hon ac nid y brif dref yn unig. Unwaith eto, rwy'n fodlon gweithio gydag ymrwymiad ochr yn ochr â'r Cyngor i gyfoethogi'r gymuned ac i gynnal ei hadnoddau." "Mae gennyf wybodaeth am y cynllun adfywio lleol helaeth 'Ardal Ni' ar gyfer ardal Bro Lleu a Nantlle, ac rwy'n nodi nad oes unrhyw gyfeiriad at y cynllun adfywio lleol hwn yn ymgynghoriad y Cyngor. Dylid ystyried hyn, yng ngoleuni'r Cod."* | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd sy'n awgrymu y dylid cynnwys Ysgol Nebo, ynghyd ag ysgolion bach eraill yn y dalgylch, o fewn strategaethau ehangach sy'n ymwneud â threftadaeth ac adfywio cymunedol, gan gynnwys mentrau sy'n gysylltiedig â thirweddau llechi Gogledd Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Nodir hefyd y sylwadau sy'n tynnu sylw at fuddsoddiad mewn prosiectau treftadaeth a chymunedol yn yr ardal ehangach, ac sy'n galw am ystyriaeth deg o gymunedau llai megis pentrefi Dyffryn Nantlle o fewn cynlluniau adfywio lleol a strategaethau megis cynlluniau "Ardal Ni".<br><br>Er bod y sylwadau hyn wedi'u nodi, nid yw'r Cyngor yn ystyried cynnwys Ysgol Nebo mewn strategaethau treftadaeth neu adfywio cymunedol ehangach fel opsiwn amgen rhesymol o fewn cyd-destun y cynnig presennol. O ganlyniad, nid yw'r opsiwn hwn yn destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad. |

| | | |
|---|---|---|
| 15.9.2 | Awgrymir y gellid datblygu rôl yr ysgol fel canolfan dysgu sy’n ymwneud â threftadaeth lechen yr ardal (UNESCO). | Yn benodol, nid yw’r opsiwn hwn yn cynnig newid i drefniadaeth addysgol yr ysgol mewn ffordd a fyddai’n ceisio mynd i’r afael â’r heriau sy’n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, y lefel uchel o lefydd gweigion, yr ystod eang o oedrannau o fewn dosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd yn y tymor canolig a’r tymor hir, na’r heriau o ran cynaliadwyedd ariannol.<br><br>Yn sgil hynny, deuir i’r casgliad nad yw’r awgrym hwn, ar ei ben ei hun, yn darparu datrysiad addysgol cynaliadwy ar gyfer Ysgol Nebo. |

**15.10 Cadw Ysgol Nebo ar agor**

| | Sylw | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 15.10.1 | *“Rwy’n ysgrifennu’r llythyr hwn i fynegi fy nghefnogaeth dros gadw Ysgol Nebo ar agor.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r nifer sylweddol o sylwadau a dderbyniwyd sy’n galw am gadw Ysgol Nebo ar agor.<br><br>Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod yr opsiwn hwn – sef parhau gyda’r ddarpariaeth bresennol drwy gadw’r ysgol ar agor – eisoes wedi’i ystyried fel rhan o’r opsiynau gwreiddiol, ac yn benodol fel yr opsiwn “gwneud dim” (Opsiwn 1). Mae’r opsiwn hwn wedi’i asesu’n llawn yn erbyn meini prawf perthnasol, ochr yn ochr â’r opsiynau amgen rhesymol eraill a nodir yr adran hon.<br><br>Er bod y Cyngor yn cydnabod y gefnogaeth a fynegir i gadw’r ysgol ar agor, deuir i’r casgliad nad yw parhau â’r trefniadau presennol, yn ymateb digonol i’r heriau sy’n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, y lefel uchel o lefydd gweigion, y rhagolygon niferoedd yn y dyfodol, a’r heriau ariannol cysylltiedig. |
| 15.10.2 | Mynegir cefnogaeth gref i gadw Ysgol Nebo ar agor ar sail profiad proffesiynol yr ymatebydd fel athro. | |
| 15.10.3 | *“Byddai cadw Ysgol Nebo ar agor yn atal POB un o’r effeithiau negyddol a fyddai’n deillio o’i chau.”* | |
| 15.10.4 | *“Rwy’n ysgrifennu i fynegi fy nghefnogaeth gref i gadw Ysgol Nebo ar agor ac i amlinellu’r manteision pwysig y mae’r ysgol wledig fach hon yn eu darparu i’n disgyblion, ein teuluoedd a’r gymuned ehangach.”* | |
| 15.10.5 | “Cadw’r ysgol ar agor gan ystyried yn ddwys ein cynnig ni am fath amgen o addysg i gynyddu niferoedd disgyblion…Fe fyddai teuluoedd ifanc yn ystyried symud yma i fyw a magu teuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg" | |
| 15.10.6 | *“Efallai bod angen i Gyngor Gwynedd gymryd cam ffydd a chefnogi’r disgyblion yn Ysgol Nebo, ac unrhyw ddisgyblion bregus yn y dyfodol a allai ei mynychu, am ychydig flynyddoedd pellach. Efallai na fyddai dull o’r fath yn gwneud synnwyr ariannol ar hyn o bryd, ond mae’n gwneud synnwyr llwyr i’r disgyblion dan sylw, gan eu cefnogi drwy addysg briodol a’u paratoi’n dda ar gyfer y dyfodol.” “Cadw’r ysgol ar agor am o leiaf dwy flynedd arall, er mwyn gweld a all eu cynigion i barhau i addysgu’r disgyblion presennol, ond hefyd i ymestyn croeso’r ysgol i blant nad ydynt yn mynychu ysgol ar hyn o bryd, fod yn llwyddiannus.”* | |
| 15.10.7 | “Y peth pwysica ydy dylsa'r ysgol ddim cau, ond newid ella efo'r amseroedd.” | |

| | | |
|---|---|---|
| 15.10.8 | Gwneir galwad gref i beidio â chau'r ysgol. | |
| 15.10.9 | *"Dylid gwrthod y cynnig, a dylai'r Cyngor yn hytrach wrando'n wirioneddol ar gymunedau lleol a llunio awgrymiadau creadigol i gefnogi gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, yn hytrach na gadael iddynt fethu. Mae'r enghraifft o'r hyn sydd wedi digwydd yn Y Garreg yn enghraifft gyfredol arall o fethiannau'r Adran Addysg… Rwy'n gwrthwynebu cau'r ysgol."* | |
| 15.10.10 | *"Os gwelwch yn dda, ystyriwch ein pled i beidio â chau'r ysgol, ac ymhen amser bydd yn tyfu a bydd mwy o blant yn ymuno â hi – mae angen cyfle arni yn unig. Rwy'n ysgrifennu hyn gyda chymaint o dristwch ond hefyd gyda chymaint o obaith, gan fy mod yn credu y bydd y neges hon yn cael ei hystyried ac, gobeithio, y caiff ymateb cadarnhaol. Rwyf am ddweud diolch o waelod calon."* | Fel uchod. |
| 15.10.11 | "Yn fy marn i, ni ellir lliniaru'n llawn effaith cau ysgol wledig Gymraeg. Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yw peidio â chau'r ysgol a datblygu ei rôl mewn ffordd arloesol" | Fel uchod. |
| 15.10.12 | "I beidio cau ysgol nebo" | Fel uchod. |
| 15.10.13 | *"Cadwch yr ysgol ar agor a gadewch i'r Gymraeg barhau i ffynnu."* | Fel uchod. |
| 15.10.14 | "Dal i barhau gyda'r un tefniadau, a bod yr ysgol yn dal yn rhan o fwrlwm a bywyd y pentref a'r ardal gyfagos." | Fel uchod. |
| 15.10.15 | *"Cadw'r ysgol ar agor ar gyfer cynulliadau cymdeithasol a digwyddiadau."* | Fel uchod. |
| 15.10.16 | *"Ni all y cynnig i gau'r ysgol ond gael effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg ym mhentrefi Nebo a Nasareth. Yr unig ffordd o sicrhau effaith gadarnhaol yw symud ymlaen gyda'r cynnig amgen a wnaed gan y Llywodraethwyr."* | Fel uchod. |
| 15.10.17 | "Yn hytrach na chau, dylid buddsoddi yn yr ysgol fel ased cymunedol hanfodol sy'n cadw bywiogrwydd cefn gwlad ac yn meithrin cenedlaethau'r dyfodol." | Fel uchod. |
| 15.10.18 | *"Yn gyntaf oll, y dewis a ffefrir gan y llywodraethwyr yw bod Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd."* | Fel uchod. |
| 15.10.19 | Cynigir y dylid cadw Ysgol Nebo ar agor. | Fel uchod. |
| 15.10.20 | Anogir y Cyngor i ailystyried cau ac yn hytrach archwilio ffyrdd o gadw a datblygu'r gwaith gwerthfawr presennol. | Fel uchod. |

**15.11 Awgrymiadau amgen eraill**

**15.11.1 Trefnu Wythnosau Gwyliau Addysgol yn ystod Toriadau Ysgol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 15.11.1 | *“Neu efallai drefnu wythnosau gwyliau addysgol i blant yn ystod yr haf neu wyliau ysgol?”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r awgrym i drefnu wythnosau gwyliau addysgol yn ystod toriadau ysgol. Fodd bynnag, gan nad yw’r opsiwn hwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr, y lefel uchel o lefydd gweigion nac ar gynaliadwyedd ariannol hirdymor y ddarpariaeth, nid yw’n ymateb i’r heriau craidd sy’n wynebu’r ysgol. O ganlyniad, nid yw’n cael ei ystyried yn opsiwn amgen rhesymol ac felly caiff ei ddiystyru. |

**15.11.2 Adfer y Drefn o Fynychu Ysgol Leol/Dalgylch**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 15.11.2 | “Dyled yr hen drefn fod plant yr ardal yn mynd i ysgol yr ardel ag nid mund ir ysgol arall ddod ynol i drefn.” | Mae’r Cyngor yn nodi’r awgrym y dylid dychwelyd at drefn lle byddai disgwyl i blant fynychu’r ysgol o fewn eu hardal leol yn unig. Fodd bynnag, nodir nad oes gan y Cyngor y pwerau i orfodi trefniadau o’r fath, gan fod fframwaith statudol presennol addysg yng Nghymru yn rhoi hawl i rieni fynegi dewis o ran yr ysgol y mae eu plentyn yn ei mynychu, yn amodol ar gapasiti a meini prawf derbyn.<br><br>O ganlyniad, nid yw’n opsiwn hyfyw nac yn opsiwn amgen rhesymol i ymateb i’r heriau sy’n wynebu Ysgol Nebo. |

**15.11.3 Mentrau i hyrwyddo’r ysgol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 15.11.3 | *“Mentrau i hyrwyddo derbyniadau newydd drwy bwysleisio manteision addysg cyfrwng Cymraeg leol mewn amgylchedd gwledig cefnogol.”* | Mae’r Cyngor yn nodi’r awgrym i hyrwyddo derbyniadau newydd drwy bwysleisio manteision addysg cyfrwng Cymraeg leol mewn amgylchedd gwledig cefnogol.<br><br>Fodd bynnag, nodir nad yw mentrau hyrwyddo o’r fath, ar eu pen eu hunain, o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor i’w gweithredu mewn ffordd a fyddai’n arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig, gan fod y penderfyniad terfynol ynghylch dewis ysgol yn parhau’n fater i rieni, yn unol â’r fframwaith statudol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn ogystal, nid oes tystiolaeth bod mentrau hyrwyddo yn unig yn arwain at gynnydd digonol a chynaliadwy mewn niferoedd dysgwyr i fynd i'r afael â'r lefel uchel o lefydd gweigion na'r heriau ariannol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.<br><br>O ganlyniad, nid yw'r awgrym hwn yn cael ei ystyried yn opsiwn amgen rhesymol nac yn ateb hyfyw i ymateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. |

**15.11.4 Sefydlu Cylch Meithrin yn lleol**

| | **Sylw** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|---|
| 15.11.4 | Awgrymir y byddai sefydlu Cylch yn lleol yn fuddiol, gan nodi profiad personol o'r anhawster o orfod teithio i ardal arall. | Mae'r Cyngor yn nodi'r awgrym i sefydlu Cylch Meithrin yn lleol, gan gydnabod y profiad personol a rennir ynghylch yr anhawster o orfod teithio y tu allan i'r ardal i gael darpariaeth feithrin.<br><br>Fodd bynnag, ystyrir nad yw sefydlu Cylch Meithrin yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth addysg gynradd statudol nac yn ymateb i'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan nad yw'n effeithio ar niferoedd dysgwyr cofrestredig yn yr ysgol, y lefel uchel o lefydd gweigion, na chynaliadwyedd ariannol hirdymor y ddarpariaeth gynradd. Yn ogystal, nodir bod darpariaeth Cylch Meithrin yn ddarpariaeth annibynnol sy'n gweithredu y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyngor o ran sefydlu a chyllido.<br><br>O ganlyniad, nid yw'r awgrym hwn yn cael ei ystyried yn opsiwn amgen rhesymol nac yn cynnig ateb hyfyw i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, ac felly caiff ei ddiystyru. |

## 6. OPSIYNAU AMGEN ERAILL A GYNIGIWYD GAN YMGYNGHORAI

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, rhoddwyd cyfle i ymgynghorai gyflwyno opsiynau amgen yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r opsiynau ychwanegol a awgrymwyd gan ymgynghorai, ac yn nodi'r rhai a ystyrir yn opsiynau amgen rhesymol sy'n destun asesiad pellach yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys gwerthusiad opsiynau ac asesiad yn erbyn y ffactorau rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

| | Opsiwn | Ystyriaeth Gychwynnol |
|---|---|---|
| 15.1 | "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro - amrywiaeth." | Mae opsiwn yma yn ymwneud â chryfhau a/neu ehangu ffocws darpariaeth gysylltiedig ag ADY. Er bod darpariaeth ADY eisoes wedi'i hystyried fel rhan o'r opsiynau gwreiddiol (Opsiwn 6), nododd nifer o ymgynghorai nad yw'r cynnig hwn yn union yr un fath o ran ei gwmpas na'i fwriad. O ganlyniad, caiff Opsiwn 15.1 ei drin fel opsiwn ychwanegol ar wahân, yn hytrach nag amrywiad uniongyrchol ar yr opsiwn ADY gwreiddiol, ac felly mae'n destun asesiad pellach. |
| 15.2 | Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd | Mae'r opsiwn yma'n destun asesiad pellach |
| 15.3 | Defnyddio Ysgol Nebo fel Darpariaeth Ategol i Leihau Pwysau ar Ysgolion Cyfagos | Nid yw'r Cyngor o'r farn fod yr opsiwn hwn yn opsiwn amgen rhesymol. Byddai gweithredu model o'r fath yn arwain at newid sylweddol yn rôl a natur Ysgol Nebo, gan ei droi o ysgol gymunedol brif ffrwd yn ddarpariaeth ran-amser neu ategol heb sylfaen glir o ran trefniadaeth, llywodraethu na pherthyn i gymuned ysgol benodol. Byddai hefyd yn codi cymhlethdodau sylweddol mewn perthynas â threfniadau derbyn, cludiant, lles disgyblion a pharhad profiad addysgol, yn enwedig i blant iau.<br><br>Yn ogystal, nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo o ran niferoedd disgyblion, cynaliadwyedd tymor hir a darpariaeth addysgol gydlynol. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol ac nad yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. |
| 15.4 | Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Arbenigol ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored a Gwaith Maes | Mae'r opsiwn yma'n cyfateb yn uniongyrchol i Opsiwn 5 gwreiddiol, sef datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol gyda ffocws ar waith maes. O ganlyniad, nid yw'n cael ei drin fel opsiwn amgen ychwanegol, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar wahân i'r opsiwn gwreiddiol. |
| 15.5 | Ffederaleiddio/ Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn | Mae'r opsiwn yma'n destun asesiad pellach |
| 15.6 | Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch | Mae'r opsiwn yma'n destun asesiad pellach |
| 15.7 | Cydweithio a Rhannu Adnoddau ac Arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac Ysgolion Cyfagos | Mae trefniadau ar gyfer cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion cyfagos wedi'u cynnwys o fewn yr ystyriaethau ehangach sy'n gysylltiedig â'r model ffedereiddio. O ganlyniad, ystyrir y trefniadau hyn fel |

| | | |
|---|---|---|
| | | elfen o'r model ffederaleiddio, yn hytrach nag fel opsiwn amgen annibynnol, ac felly nid yw'r opsiwn yma yn destun asesiad ar wahân o fewn yr adroddiad yma. |
| 15.8 | Datblygu Ysgol Nebo fel Canolfan Gymraeg a/neu Chymunedol | Mae'r Cyngor yn nodi nad yw'r opsiwn i ddatblygu Ysgol Nebo fel canolfan Gymraeg a/neu chymunedol wedi'i nodi na'i asesu fel opsiwn ar wahân yn y papur cynnig a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025 nac yn y Ddogfen Ymgynghori dilynol. Fodd bynnag, cafodd opsiynau tebyg o ran eu natur a'u bwriad eu hystyried ar y pryd, yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi gwasanaethau lleol, a chydleoli gwasanaethau o fewn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal.<br><br>Yn dilyn ystyried yr opsiynau tebyg hynny, daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn cynnig datrysiad cynaliadwy i'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo, fel y nodir yn adran 5.1 o'r ddogfen ymgynghori. Yn benodol, ni fyddai opsiynau o'r fath yn mynd i'r afael â niferoedd isel parhaus o ddysgwyr, maint dosbarthiadau bychain, na'r goblygiadau cysylltiedig ar gynaliadwyedd ariannol a darpariaeth addysgol yr ysgol fel ysgol gynradd brif ffrwd.<br>At hyn, nodir bod defnydd cymunedol helaeth eisoes yn cael ei wneud o adeilad Ysgol Nebo fel rhan o'r trefniadau presennol; o safbwynt y Cyngor, mae hyn yn awgrymu bod rhai elfennau o'r hyn a ddisgrifir yn yr opsiwn hwn eisoes yn bodoli o fewn y sefyllfa bresennol, sef yr opsiwn "gwneud dim".<br><br>Ystyrir bod Opsiwn 15.8, fel y'i disgrifir, yn debyg yn ei hanfod i'r opsiynau hynny a gafodd eu hystyried a'u diystyru eisoes, gan ei fod yn canolbwyntio ar ehangu neu ail-bwrpasu rôl y safle at ddefnydd cymunedol yn hytrach na mynd i'r afael â'r heriau addysgol sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, deuir i'r casgliad nad yw Opsiwn 15.8 yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol, ac felly nid yw'n cael ei ystyried ymhellach nac yn destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn. |
| 15.9 | Cynnwys Ysgolion Bach mewn Strategaethau Treftadaeth ac Adfywio | Yn dilyn ystyried yr opsiwn, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli opsiwn amgen rhesymol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion gan nad yw'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. O ganlyniad, nid yw'n destun asesiad pellach o fewn yr adroddiad hwn.<br><br>Yn benodol, nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig newid i drefniadaeth addysgol yr ysgol mewn ffordd a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, y lefel uchel o lefydd gweigion, yr ystod eang o oedrannau o fewn dosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd yn y tymor canolig a'r tymor hir, na'r heriau o ran cynaliadwyedd ariannol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn sgil hynny, deuir i'r casgliad nad yw'r awgrym hwn, ar ei ben ei hun, yn darparu datrysiad addysgol cynaliadwy ar gyfer Ysgol Nebo. |
| 15.10 | Cadw Ysgol Nebo ar agor | Ystyrir yr opsiwn hwn fel yr opsiwn “dim newid”, sef parhau gyda'r ddarpariaeth bresennol drwy gadw Ysgol Nebo ar agor. Mae'r opsiwn hwn eisoes wedi'i ystyried fel un o'r opsiynau gwreiddiol ac wedi'i asesu'n llawn fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, ac fe'i ystyrir ymhellach o dan Opsiwn 1 – Dim newid. O ganlyniad, nid yw Opsiwn 15.10 yn cael ei drin fel opsiwn amgen ar wahân, ac nid yw'n destun asesiad pellach ar ei ben ei hun o fewn yr adroddiad hwn. |
| 15.11 | Awgrymiadau amgen eraill | Ar ôl ystyried y materion a godwyd o dan y pennawd hwn, deuir i'r casgliad nad ydynt yn cynrychioli dewisiadau amgen rhesymol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan nad ydynt yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Nebo, gan gynnwys niferoedd isel, llefydd gweigion uchel, ac amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau, ac felly nid ydynt yn destun asesiad pellach. |

## 7. ASESIAD PELLACH O'R CYNNIG A'R OPSIYNAU RHESYMOL ERAILL

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, a gan fod Ysgol Nebo yn bodloni'r diffiniad o ysgol wledig, cynhaliwyd asesiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol amgen a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, gan roi sylw penodol i'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, yr effaith debygol ar y gymuned, ac effaith trefniadau teithio gwahanol.

Wrth gynnal yr asesiad pellach hwn, ystyriwyd unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol a ddaeth i law drwy'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, neu fel arall, yn unol â bwriad y Cod i sicrhau bod safbwyntiau a gwybodaeth newydd yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

Er bod y sylwadau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad – gan gynnwys opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai – wedi'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu hon, ni arweiniodd yr wybodaeth ychwanegol at newid i gasgliad unrhyw un o'r asesiadau effaith mewn perthynas â'r cynnig nac â'r opsiynau rhesymol amgen.

Mae'r ddau dabl isod yn nodi'r asesiad pellach o'r effaith a ragwelir: mae'r tabl cyntaf yn crynhoi asesiad y cynnig a'r opsiynau rhesymol amgen a nodwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, tra bod yr ail dabl yn nodi asesiad effaith yr opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r asesiadau effaith llawn ar gael yn Atodiad C.

| Opsiwn | Asesiad o’r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg | Asesiad o’r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio | Asesiad o’r effaith tebygol ar y gymuned |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1 - Dim newid - parhau gyda’r sefyllfa bresennol** | Niwtral – Dim newid | Niwtral – Dim newid<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i’r ysgol. | Niwtral – Dim newid<br><br>Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **Opsiwn 2- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos** | Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral<br>Byddai’r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio’r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i’r ysgol. | Niwtral<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y ddwy ysgol.<br><br>Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **Opsiwn 3 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo** | Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai’n cael effaith bositif ar y meini prawf ‘Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol’ | Niwtral<br><br>Byddai’r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio’r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i’r ysgol.<br><br>Byddai angen i’r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. | Niwtral<br><br>Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol.<br><br>Cadw’r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **Opsiwn 4 - Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i’r dysgwyr mewn ysgol gyfagos** | Rhannol bositif<br><br>Nodai’r asesiad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo<br><br>Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i’r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu | Negyddol<br><br>Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo i Ysgol Llanllyfni, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.<br><br>Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost, £17,000-£30,000 y flwyddyn.<br><br>Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i’r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd.<br><br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i’r ysgol. | Niwtral/Rhannol Negyddol<br><br>Arwain at golli ysgol ac adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Defnydd cymunedol helaeth o adeilad Ysgol Nebo gan y gymuned.<br><br>I liniaru’r effaith ar y gymuned, nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle’n briodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni. | | Nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Ysgol Nebo yn bodoli eisoes |
| **Opsiwn 5 - Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)** | Niwtral<br><br>Rhagwelir y byddai safon yr addysg yn Ysgol Nebo yn parhau, ond gan nad oes model cyffelyb yn bodoli yn y cynradd o ran safle arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol, nid oes modd asesu ei effaith yn erbyn ansawdd addysg, felly niwtral yw'r effaith. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Byddai ystyriaethau teithio ehangach petai safle Ysgol Nebo yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau. | Niwtral<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **Opsiwn 6 - Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol** | Niwtral/Rhannol bositif<br><br>Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.<br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral – Dim newid i'r ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **Opsiwn 7 - Ysgol Nebo yn cynnig Uned/Canolfan Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle** | Niwtral - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo<br><br>Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i ddarparu gwasanaeth penodol ar gyfer hwyrddyfodiaid mewn Canolfan Iaith ar safle'r ysgol. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | Niwtral –<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith. | |
| **Opsiwn 8 - Ysgol aml-safle – gan barhau efo safle Ysgol Nebo** | Niwtral/ Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo<br><br>Cyfle i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br>Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br>Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion | Niwtral – dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo<br><br>Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |

**Asesiad o'r opsiynau rhesymol eraill a awgrymwyd gan ymgynghorai:**

| Opsiwn | Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg | Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio | Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned |
|---|---|---|---|
| **15.1 - "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro - amrywiaeth."** | *Niwtral / Rhannol bositif* – Dim effaith negyddol ar y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Nebo. Cyfle posibl i ddatblygu arbenigedd penodol i gefnogi dysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, gan ategu darpariaeth brif ffrwd. | *Niwtral* – Byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu'n lleol. | *Niwtral* – Cadw presenoldeb ysgol weithredol yn y pentref a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. |
| **15.2 - Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd** | *Niwtral / Rhannol bositif* – Cyfle i gefnogi integreiddio dysgwyr ADY i addysg brif ffrwd, heb danseilio'r ddarpariaeth safonol yn Ysgol Nebo. | *Niwtral* – Ni ragwelir newid i drefniadau teithio dysgwyr lleol; gallai cludiant fod yn ofynnol i ddysgwyr sy'n mynychu'r uned o ardaloedd eraill. | *Niwtral* – Cadw presenoldeb ysgol weithredol yn y pentref a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **15.5 - Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn** | *Niwtral / Rhannol bositif* – Parhad yn y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo, gyda chyfleoedd i rannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da. | Niwtral<br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | *Niwtral* – Cadw presenoldeb ysgol weithredol yn y pentref, gyda chyfle i gryfhau cysylltiadau cymunedol rhwng y ddwy ysgol. |
| **15.6 - Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch** | *Niwtral / Rhannol bositif* – Parhad yn y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo, gyda chyfleoedd gryfhau trefniadau strategol a chydweithio (rhannu arbenigedd, adnoddau ac arferion da). | Niwtral<br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | *Niwtral* – Cadw presenoldeb ysgol weithredol yn y pentref, gyda chyfle i gryfhau cysylltiadau cymunedol rhwng yr ysgolion. |

**Gwerthusiad o'r opsiynau:**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynhaliodd yr Awdurdod werthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen a gynhwyswyd yn y papur cynnig gwreiddiol, ynghyd â gwerthusiad o'r opsiynau amgen rhesymol ychwanegol a nodwyd gan ymgynghorai, gan ddefnyddio'r un fframwaith asesu ag a ddefnyddiwyd ar gyfer yr opsiynau gwreiddiol. Ceir cymhariaeth fanwl o'r holl opsiynau yn Atodiad B – Gwerthusiad Opsiynau, ac mae'r tabl isod yn crynhoi prif gasgliadau'r gwerthusiad ac yn egluro'r rhesymau dros beidio â bwrw ymlaen â'r opsiynau amgen.

| Opsiwn | Rhesymau dros wrthod yr opsiwn |
|---|---|
| **Opsiwn 1 - Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol** | Yn dilyn asesiad, deuir i'r casgliad nad yw parhau gyda'r sefyllfa bresennol yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagolygon niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig datrysiad i newid unrhyw un o'r ffactorau hyn, ac felly ni chaiff ei ystyried yn ddewis rhesymol i sicrhau darpariaeth gynradd gynaliadwy yn y tymor canolig na'r tymor hir. |

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 2- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos** | Ystyrir nad yw ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Nebo. Nid oes tystiolaeth y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau. Yn ogystal, byddai'r rhagolygon niferoedd isel a'r patrwm presennol o ddewis dysgwyr y dalgylch heb eu newid, gyda'r heriau ariannol a chostau fesul dysgwr uchel yn parhau. |
| **Opsiwn 3 -** **Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo** | Deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Nebo. Byddai dysgwyr y ddarpariaeth arbenigol yn parhau i gael eu cofrestru yn eu hysgolion gwreiddiol, ac felly ni fyddai'r opsiwn yn cynyddu niferoedd cofrestredig yr ysgol nac yn lleihau'r lefel uchel o lefydd gweigion. O ganlyniad, byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach, yr amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau, heb ddarparu ateb cynaliadwy i'r sefyllfa bresennol. |
| **Opsiwn 4 - Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos** | *Noder: Dyma'r opsiwn ffafredig a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad statudol.* |
| **Opsiwn 5 - Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)** | Deuir i'r casgliad nad yw datblygu Ysgol Nebo fel lleoliad arbenigol ar gyfer pynciau penodol yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau. Yn ogystal, byddai'r rhagolygon niferoedd isel a'r patrwm presennol o ddewis dysgwyr y dalgylch heb eu newid, gyda'r heriau ariannol a chostau fesul dysgwr uchel yn parhau. |
| **Opsiwn 6 - Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol** | Deuir i'r casgliad na fyddai'r opsiwn hwn yn ymateb i'r heriau craidd sy'n wynebu Ysgol Nebo fel ysgol gynradd gymunedol. Ni fyddai sefydlu uned arbenigol yn cynyddu'r niferoedd cofrestredig yn y ddarpariaeth brif ffrwd nac yn lleihau'r lefel uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, yr amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau, heb ddarparu ateb cynaliadwy i'r sefyllfa bresennol. |
| **Opsiwn 7 - Ysgol Nebo yn cynnig Uned/Canolfan Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle** | Yn dilyn asesiad, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig ateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. Er y gallai canolfan iaith ddefnyddio'r safle'n rhannol, byddai dysgwyr y ganolfan yn parhau i gael eu cofrestru yn eu hysgolion gwreiddiol, ac felly ni fyddai'r opsiwn yn cynyddu niferoedd cofrestredig yr ysgol. O ganlyniad, byddai'r lefel uchel o lefydd gweigion, y dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a'r heriau ariannol presennol yn parhau heb gael eu cyfarch. |
| **Opsiwn 8 - Ysgol aml-safle – gan barhau efo safle Ysgol Nebo** | Deuir i'r casgliad na fyddai'r model ysgol aml-safle yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sylfaenol sy'n wynebu Ysgol Nebo. Nid oes tystiolaeth y byddai'r trefniant yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at newid yn y patrwm presennol o lefydd gweigion uchel ar safle Ysgol Nebo. O ganlyniad, byddai'r trefniadaeth o ddosbarthiadau bach, y rhagolygon niferoedd isel, a'r heriau ariannol cysylltiedig yn parhau, heb sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. |
| **Opsiynau a awgrymwyd yn ystod yr ymgynghoriad:** | |
| **15.1 - "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys** | Deuir i'r casgliad nad yw datblygu Ysgol Nebo fel ysgol sy'n cynnig darpariaeth arbenigol o'r fath yn ymateb yn ddigonol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr na lleihad sylweddol yn y lefel uchel o lefydd gweigion. O ganlyniad, rhagwelir y byddai trefniadaeth |

| | |
|---|---|
| **disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth.”** | dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel a’r heriau ariannol cysylltiedig yn parhau, gan olygu nad yw’r opsiwn hwn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor darpariaeth addysg gynradd yn Ysgol Nebo. |
| **15.2 - Datblygu Ysgol Nebo fel Uned Bontio i Gefnogi Integreiddio Disgyblion ADY i Addysg Brif Ffrwd** | Deuir i’r casgliad nad yw datblygu Ysgol Nebo fel uned bontio ADY yn cynnig ateb i’r heriau craidd sy’n wynebu’r ysgol. Byddai dysgwyr sy’n defnyddio darpariaeth bontio yn parhau i fod wedi’u cofrestru mewn ysgolion eraill, ac felly ni fyddai’r opsiwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd cofrestredig na lleihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion. O ganlyniad, byddai’r heriau sy’n ymwneud â niferoedd isel, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagolygon niferoedd isel a chynaliadwyedd ariannol yn parhau. |
| **15.5 - Ffederaleiddio Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn** | Deuir i’r casgliad na fyddai ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn yn mynd i’r afael â’r heriau sylfaenol sy’n wynebu Ysgol Nebo. Nid oes tystiolaeth y byddai’r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad yn y gyfran uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai’r ffurf bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang yn parhau. Yn ogystal, byddai’r rhagolygon niferoedd isel a’r patrwm presennol o ddewis dysgwyr y dalgylch heb eu newid, gyda’r heriau ariannol a chostau fesul dysgwr uchel yn parhau. |
| **15.6 - Bwrdd Llywodraethu Ffederal ar Draws Ysgolion y Dalgylch** | Deuir i’r casgliad nad yw’r opsiwn hwn yn ymateb yn ddigonol i’r heriau sy’n wynebu Ysgol Nebo. Ni ragwelir y byddai’r trefniant llywodraethu hwn yn arwain at gynnydd mewn niferoedd dysgwyr cofrestredig nac at leihad yn y lefel uchel o lefydd gweigion, ac felly byddai’r drefniadaeth bresennol o ddosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagolygon niferoedd isel a’r heriau cynaliadwyedd ariannol yn parhau heb eu cyfarch. |

## 8. YSTYRIAETHAU PELLACH

Yn ogystal ag asesiadau effaith a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau penodol 'rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol wledig' cynhaliwyd a diweddarwyd nifer o asesiadau effaith eraill yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Cynhwysir yr asesiadau hyn fel rhan o'r atodiad Asesiadau Effaith (Atodiad C) a chrynhoir eu casgliadau isod.

Asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith y gallai cau Ysgol Nebo ei chael ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref. Pwysleisiodd nifer fawr o ymatebwyr rôl yr ysgol fel canolbwynt cymdeithasol a diwylliannol sy'n cefnogi defnydd naturiol, bob dydd o'r Gymraeg, nid yn unig ymhlith disgyblion ond hefyd ymysg teuluoedd a thrigolion ehangach, gan gynnwys siaradwyr newydd a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mynegwyd y farn y gallai colli'r ysgol arwain at lai o gyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, gwanhau trosglwyddiad rhyng-genedlaethol yr iaith, a lleihau atyniad y pentref i deuluoedd Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol disgyblion, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni
- Mae'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r cynnig i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Asesiad effaith ar gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig arfaethedig, ac fe adolygwyd yr asesiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

Fel y nodir yn yr asesiad diweddaraf, yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd rhai pryderon penodol o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig ynghylch plant bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a theuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. Mynegwyd pryder y gallai symud rhai dysgwyr i ysgol fwy leihau'r lefel o gefnogaeth bersonol sydd ar gael iddynt, ac y gallai pellter teithio, costau cludiant neu ddiffyg mynediad at gludiant preifat effeithio'n anghymesur ar rai teuluoedd. Codwyd hefyd effaith bosibl ar bobl hŷn a chydlyniant cymunedol, gan nodi bod yr ysgol yn darparu lleoliad hygyrch ar gyfer cymdeithasu a chefnogi llesiant.

Nodir yn yr asesiad fod y Cyngor yn cydnabod y materion a godwyd ac yn pwysleisio bod polisïau cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol yn y ddarpariaeth bresennol ac yn Ysgol Llanllyfni. At hynny, nodir fod y Cyngor yn ymrwymo i roi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau. O ran y pryderon ynghylch defnydd cymunedol o'r Gymraeg, nodir y byddai mesurau lliniaru yn cael eu hystyried, gan gynnwys hyrwyddo cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen drwy weithgareddau cymunedol, a thrwy ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol er mwyn cefnogi defnydd parhaus o'r Gymraeg yn y gymuned leol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi nodi effaith negyddol bosibl ar rai grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr bregus, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, teuluoedd sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol, a chydlyniant cymunedol. Nodwyd hefyd bryderon penodol ynghylch effaith bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd anffurfiol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Fodd bynnag, ar sail yr asesiad cydraddoldeb cyffredinol, y dystiolaeth a nodir yn yr asesiadau effaith cysylltiedig, a'r mesurau lliniaru a ddisgrifir, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn nad yw'r cynnig yn debygol o arwain at effaith negyddol arwyddocaol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod polisïau a gweithdrefnau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu, a bod anghenion unigol yn cael eu hystyried yn briodol.

Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. Yn ogystal, nodir y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol amgen lle mae'r Gymraeg yn gryf, gyda rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol gyda chyfoedion, gan gryfhau bywiogrwydd a defnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr.

Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant ar y cynnig a diweddarwyd yr asesiad wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad C.

Yn yr asesiad diweddaraf, nodir fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon penodol ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, y byddai'r cynnig arfaethedig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo. Fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), sy'n awgrymu bod cysylltiadau â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni, eisoes yn bodoli. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Rhagwelir y byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

## 9. ARGYMHELLIAD

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth lawn i'r materion a godwyd a fe gynhaliwyd gwerthusiad ac asesiadau effaith pellach o'r cynnig, ynghyd â'r opsiynau amgen a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd a'r opsiynau amgen a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn y ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Ar sail ystyried yr elfennau uchod, daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw o'r opsiynau amgen a ystyriwyd yn mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, sef:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** - Dengys data Ionawr 2026, fod 11 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Nebo.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Gydag 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 51, mae 40 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 78% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 1 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 6 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal. O ganlyniad, wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin – Blwyddyn 6, mae gan Ysgol Nebo 46 (79%) o lefydd gweigion.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** –Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth, a 6 dysgwr (Blwyddyn 4 - Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.
- **Rhagamcanion niferoedd** - Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf, gyda rhagamcan o 10 dysgwr Derbyn - Blwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Ionawr 2026 fod 9 o blant yn byw yn nalgylch Ysgol Nebo. O'r rhain, mae 22% (2 blentyn) yn dewis mynychu Ysgol Nebo, tra bod 78% (7 o blant) yn dewis mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch.
- **Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd** – Mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob

ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £64,046.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr –** Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn y flwyddyn ariannol 2026-27 fydd £16,066 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,998.

Wrth ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynir yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol a'r asesiadau effaith, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn bod y cynnig i gau Ysgol Nebo yn briodol, yn gymesur ac er budd gorau dysgwyr yr ardal yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymgynghorai, yn enwedig ynghylch rôl yr ysgol yn y gymuned leol a phwysigrwydd defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod Ysgol Nebo yn wynebu heriau sylweddol nad ydynt yn debygol o gael eu datrys heb newid sylfaenol i'r ddarpariaeth.

Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:

- Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagolygon sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;
- Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;
- Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;
- Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir

Ar y cyfan, ar ôl ystyried y dystiolaeth, y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, y gwerthusiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen, ynghyd â chyfeiriad strategol y Cyngor, mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel a nodir uchod) a'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig, ac felly'n parhau i'w argymell fel y modd mwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol.